



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – Cymru Wrth-hiliol

Awst 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – Cymru Wrth-hiliol.

Gofynion Gweithredu

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gofyn am fersiwn print bras, fersiwn Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Y Gangen Cydraddoldeb
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ
E-bost: CangenCydraddoldeb@llyw.cymru

Copïau ychwanegol:

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori:
[Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – Cymru Wrth-hiliol](#)

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ymgysylltu	5
Trosolwg o'r Ymatebion	6
Crynodeb o'r Ymatebion	8
C1. A yw'r weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol dychmygol hyd at 2030 yn adlewyrchu'r hyn yr hoffech ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030? Beth allai rwystro'r weledigaeth a'r gwerthoedd rhag cael eu gwireddu? Beth allai helpu i wireddu'r weledigaeth a'r gwerthoedd?	8
C2. Hoffem gael eich barn ar y nodau a'r camau gweithredu	10
Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth:	10
Tai a Llety:	18
Incwm a Chyflogadwyedd:	27
Iechyd:	41
Gofal Cymdeithasol:	67
Addysg, gan gynnwys Addysg Uwch:	76
Troseddu a Chyfiawnder:	93
Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon:	105
Llywodraeth Leol:	112
Y Gymraeg:	115
Yr Amgylchedd:	129
Nodau Trawsbynciol:	132
C3. A oes unrhyw nodau a chamau gweithredu y gallwch feddwl amdanynt sydd ar goll? Pwy ddylai eu cyflawni a pha gamau a fyddai'n eu helpu i wneud hynny?	139
C4. Beth yw'r heriau allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025?	143
C5. Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?	148
C6. Ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriad hil â nodweddion gwarchodedig eraill megis crefydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, rhyw, a statws priodasol a phartneriaeth sifil? Os na, sut y gallwn wella hyn?	156
C7. Gweler yr adran Llywodraethu. Pa awgrymiadau allwch chi eu cynnig ar gyfer mesur llwyddiant wrth greu Cymru wrth-hiliol ac ar gyfer cryfhau atebolrwydd am weithredu?	161
C8. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	168

C9. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y dull polisi arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	169
C10. Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos nad yw llawer o bobl yn ystyried bod y term 'BAME' yn briodol. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu bobl ethnig leiafrifol penodol yn y Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y term hwn hefyd yn broblemus a'i bod yn well, lle bo'n bosibl, bod yn fwy penodol am yr hil neu'r ethnigrwydd y mae unigolyn neu gymuned yn uniaethu ag ef. Fodd bynnag, ar adegau mae angen cyfeirio at yr holl bobl hynny sy'n rhannu'r profiad o fod yn destun hiliaeth	169
C11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, gallwch eu nodi yma:	175
Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr:	178

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (CGCH) – Cymru Wrth-hiliol. Mae'r ddogfen yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd. Nid yw'n ceisio cyfeirio at bob pwynt a fynegwyd gan ymatebwyr, ond mae'n amlinellu'r themâu allweddol.

Ymgysylltu

2. Dechreuodd yr ymgynghori ar 24 Mawrth 2021 a daeth i ben ar 15 Mai 2021. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriad gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, ar e-bost neu ar-lein yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yn ogystal, gwahoddodd Llywodraeth Cymru grwpiau cymunedol i wneud cais am gyllid i ymgysylltu â'r gymuned ynghylch y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft. Adlewyrchir allbwn yr ymgysylltu hwnnw yn y dadansoddiad hwn hefyd.
3. Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Trosolwg o'r Ymatebion

4. Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 330 o ymatebion gan fwy na 1,992 o unigolion. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddadansoddiad manwl o 255 o'r 330 o ymatebion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Mae 66 o ymatebion wedi'u categorio fel ymatebion a oedd naill ai'n cynnwys sylwadau hiliol / sarhaus neu a oedd yn canolbwyntio ar faterion nad oeddent yn ymwneud â chynnwys yr ymgynghoriad hwn. Ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y 66 ymateb hyn ar ddiwedd y ddogfen hon, yn yr adran 'Sylwadau Eraill'. Ni ddadansoddwyd cyfanswm o naw ymateb am y rhesymau canlynol: ffeiliau neu fformat anhgyrch (2); ymatebion wedi'u dyblygu (4); ffurflenni gwag (2) ac ymatebion ysgrifenedig annarllennadwy (1).
5. Sylwch, ar adegau, fod yr adroddiad hwn yn cyfeirio at dermau dadleuol pan fyddant wedi cael eu defnyddio gan ymatebwyr.
6. Cyflwynwyd ymatebion mewn gwahanol fformatau (holiaduron, fideos, sain, ymatebion naratif, arolygon, nodiadau grŵp ffocws ac ati) a chafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau gan ymatebwyr ar draws meysydd polisi'r CGCH. Daeth themâu allweddol i'r amlwg am y Cynllun, yn cynnwys:
 - a. Roedd tua 90 y cant o'r ymatebion yn cefnogi uchelgais y Cynllun a nodwyd yn ei weledigaeth, ei ddiben a'i werthoedd. Fodd bynnag, mynegodd 89 y cant o'r ymatebion amheuan ynghylch gallu'r Cynllun, yn y ffurf yr ymgynghorwyd arno, i lwyddo i gyflawni'r weledigaeth honno. Cyfeiriwyd at amrywiaeth o ffactorau i gefnogi'r amheuan hyn. Roedd y rhain yn cynnwys: maint y Cynllun; camau gweithredu coll; cyfeirio annigonol, neu ddim cyfeirio, at fonitro, gwerthuso a diffyg atebolrwydd.
 - b. Gwelwyd byrdwn cyson hefyd am yr angen i gryfhau'r cydweddu rhwng y Cynllun a pholisïau, cynlluniau corfforaethol a deddfwriaeth eraill megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd sefydliadau o bob sector y byddai'r Cynllun yn cael ei gryfhau drwy gydweddu o'r fath ac na ddylid ei ystyried yn ddogfen neu'n gynllun gweithredu annibynnol.
 - c. Pwysleisiodd dros 90 y cant o'r ymatebion na fyddai unrhyw beth yn newid heb atebolrwydd, monitro a llywodraethu a'r angen i gryfhau hyn yn y Cynllun.
 - d. Roedd dros 90 y cant o'r ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd staffio ac adnoddau ariannol priodol i weithredu'r Cynllun.
 - e. Yn bennaf, roedd llywodraeth leol a sefydliadau ieuchyd yn teimlo bod y camau gweithredu yn y CGCH eisoes yn cael sylw drwy eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Ar y llaw arall, roedd ymatebion eraill yn holi a allai fod yn fwy effeithiol cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau bod cyfreithiau cydraddoldeb yn cael eu gweithredu'n effeithiol, yn hytrach na chreu cynllun arall a allai gael ei 'gadw ar y silff'?
 - f. Roedd llawer o'r ymatebion yn tynnu sylw at yr angen i'r Cynllun fod yn gliriach ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei gyflawni, erbyn pryd a chan bwy. Amlygwyd pwysigrwydd camau gweithredu mesuradwy, CAMPUS mewn dros 60 y cant o'r ymatebion.

- g. Nododd tua 70 y cant o'r ymatebion fod y Cynllun yn rhy eang ei gwmpas a / neu'n hynod uchelgeisiol.
- h. Nododd tua dwy ran o dair o'r ymatebion (66 y cant) nad oedd llawer o sôn am effaith COVID-19 ar boblogaethau ethnig lleiafrifol na chymau gweithredu yn cael eu cynnig i fynd i'r afael â hyn. Roedd hwn yn faes yr oedd ymatebwyr am ei weld yn cael ei gryfhau a'i gysylltu â phwysau posibl yn y byd ôl-bandemig ym meysydd iechyd, cyflogaeth ac addysg.
- i. Roedd dros 50 y cant o'r ymatebion yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau'r ystyriaeth o anghydraddoldeb croestoriadol, gan gynnwys canolbwyntio ar flaenoriaethau ar gyfer menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.

Grwpiau ymatebwyr	Rhif	Canran
Sefydliadau a rhwydweithiau'r Trydydd Sector	57	22.35%
Ymatebwyr unigol / y cyhoedd yn gyffredinol	52	20.39%
Sefydliadau iechyd (gan gynnwys byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau)	34	13.33%
Sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus	26	10.2%
Awdurdodau Lleol	25	9.8%
Sefydliadau cymunedol	24	9.41%
Byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg	21	8.24%
Undebau llafur	6	2.35%
Asiantaethau cyfiawnder troseddol	4	1.57%
Sefydliadau'r sector preifat	1	0.4%
Cyrff sy'n cynrychioli crefyddau	1	0.4%
Cyrff ariannu	2	0.78%
Sefydliadau eraill	2	0.78%
Cyfanswm	255	100%

Crynodeb o'r Ymatebion

7. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd. Nid yw'n ceisio cyfeirio at bob pwynt a fynegwyd gan ymatebwyr, ond mae'n amlinellu'r pwyntiau a'r themâu allweddol.

C1. A yw'r weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol dychmygol hyd at 2030 yn adlewyrchu'r hyn yr hoffech ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030? Beth allai rwystro'r weledigaeth a'r gwerthoedd rhag cael eu gwireddu? Beth allai helpu i wireddu'r weledigaeth a'r gwerthoedd?

8. Mae sefydliadau iechyd (n = 34), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 48+), sefydliadau cymunedol (n = 21+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 4+), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 24+), cyrff ariannu (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 40), undebau llafur (n = 6), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 20), awdurdodau lleol (n = 25), un sefydliad sector preifat (n = 1) a sefydliadau eraill (n = 2) wedi cynnig sylwadau ar gwestiwn 1.¹²
9. Nododd sefydliadau iechyd (n = 34), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 48+), sefydliadau cymunedol (n = 21+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 4+), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 24+), cyrff ariannu (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 40), undebau llafur (n = 6), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 20), awdurdodau lleol (n = 25), un sefydliad sector preifat (n = 1) a sefydliadau eraill (n = 2) fod gweledigaeth, diben, gwerthoedd a'r dyfodol a ragwelir hyd at 2030 yn y Cynllun yn adlewyrchu'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030. Fodd bynnag, mynegodd ymatebwyr amheuan hefyd y byddai'r Cynllun yn llwyddo i gyflawni'r weledigaeth hon erbyn 2030 oherwydd: maint y cynllun; camau gweithredu coll; amserlenni anghyson neu ddiffyg amserlenni; methiant i ddefnyddio'r dull CAMPUS; cyfeirio annigonol, neu ddim cyfeirio, at fonitro, gwerthuso a diffyg atebolrwydd. Un o'r prif bryderon a ailadroddwyd ar draws pob cwestiwn a maes polisi oedd nad yw'r Cynllun yn cydweddu nac yn cysylltu â pholisïau Llywodraeth Cymru, cynlluniau corfforaethol, amcanion cydraddoldeb a deddfwriaeth bresennol megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd sefydliadau o bob sector y byddai'r CGCH yn cael ei gryfhau drwy gydweddu â deddfwriaeth i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac na ddylid ystyried y CGCH fel dogfen neu gynllun gweithredu annibynnol ond y dylid ei integreiddio'n llawn o fewn y strategaethau presennol.

¹ Mewn perthynas â chwestiwn 1, derbyniwyd 48 o ymatebion gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector, felly mae '48+' yn cyfeirio at sut y daeth rhai ymatebion gan rwydweithiau sy'n cynnwys nifer o sefydliadau neu gan sawl sefydliad a ddaeth ynghyd i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad. Felly mae'r nifer sy'n cefnogi / adleisio'r pwyntiau a wnaed gan rwydweithiau'r trydydd sector yn fwy na'r nifer mewn cromfachau – dynodir hynny gan '+'. Gall y '+' hefyd gyfeirio at ymgynghoriadau cymunedol, sydd wedi ymgysylltu â grŵp o bobl drwy arolygon a / neu grwpiau ffocws ynghylch y CGCH.

² Mae'r pwyntiau a fynegwyd yn yr ymateb cryno i gwestiwn 1 wedi'u mynegi gan ymatebwyr drwy'r ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd. Mae'r themâu cyffredin yn ymwneud â pholisïau / strategaethau sy'n bodoli eisoes, pryderon ynghylch amserlenni a strwythurau monitro ac atebolrwydd cadarn, i enwi rhai, ac fe'u mynegwyd yn ymatebion yr ymgynghoreion i sawl cwestiwn yn yr ymgynghoriad CGCH.

Sylwadau eraill ar y cwestiwn hwn:

10. Awgrymodd un awdurdod lleol ($n = 1$) farchnata'r weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol a ragwelir drwy fideo / animeiddiad byr, a fyddai'n fwy gweledol i bobl, yn enwedig pobl ifanc.
11. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda phobl mewn ffordd ystyrlon a meddylgar er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Mae angen cyfleu newidiadau'n glir ac mewn fformat hygyrch i bawb er mwyn deall y cymhellion y tu ôl i'r weledigaeth.
12. Dywedodd asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$) y gallai'r canlynol helpu i wireddu'r weledigaeth:
 - a. Hyrwyddo a / neu dargedu'r Cynllun yn eang fel y gall aelodau o'r cyhoedd ddwyn cyrff y Llywodraeth i gyfrif am eu gweithredoedd / ymrwymadau – ystyried ffeithluniau o elfennau allweddol i dynnu sylw at yr hyn y mae'r cyhoedd yn disgwyl i ni ei gyflawni o fewn amserlen benodol.
 - b. Recriwtio eang ar gyfer cymunedau anodd eu cyrraedd. Os bydd ymgeiswyr ethnig leiafrifol yn methu'n gyson â sicrhau swyddi llawn amser, ystyriwch newid neu o leiaf adolygu'r broses recriwtio i sicrhau ei bod yn gynhwysol.
 - c. Rhoi cyhoeddusrwydd i ffigurau i ddangos bod camau gweithredu yn gweithio a bod mwy o bobl ethnig leiafrifol neu o gefndir economaidd-gymdeithasol is, neu nodweddion gwarchodedig eraill, yn cael gwaith / dyrchafiadau ac ati. Bydd rhoi sylw i straeon cadarnhaol yn newid y portread ystrydebol mewn rhai cyfryngau prif ffrwd o bobl ethnig leiafrifol fel troseddswyr, aelodau o gang, ar incwm isel ac ati.
 - d. Parhau i adolygu / arolygu gwasanaethau cyrff cyhoeddus i'n dwyn i gyfrif am y newid sydd wedi'i addo. Mae rhoi cynlluniau gweithredu ar waith yn hanfodol er mwyn sicrhau newid parhaus.
 - e. Cefnogi cynnydd seiliedig ar gyflogaeth ar gyfer pobl sydd wedi'u tangynrychioli, a hynny wedi'i arwain gan sefydliadau. E.e. staff Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddarparu cyflwyniadau i ysgolion uwchradd; Ystyried dull cydgysylltiedig gyda Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Lleol i ddatblygu perthynas â grwpiau ieuenctid cymunedol lleol.
13. Nododd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y gellid cryfhau'r gwerthoedd. Gallai'r trydydd gwerth, Bod yn Agored ac yn Dryloyw, ofyn i ni i gyd fod nid yn unig yn agored, ond hefyd i hunan-gwestiynu ac i groesawu her. Un o negeseuon allweddol dull gwrth-hiliol yw nid yn unig peidio â bod yn hiliol, ond bod yn weithgar wrth geisio sicrhau newid hefyd. Gallai'r gwerth hwn felly fod yn ymwneud â bod yn agored, yn dryloyw ac yn croesawu her.

C2. Hoffem gael eich barn ar y nodau a'r camau gweithredu. I fynegi barn ar rai o'r nodau, camau gweithredu a chanlyniadau, neu ar bob un ohonynt, ystyriwch y canlynol:

- A yw'r esboniad (naratif / cefndir) yn egluro pam rydym wedi dewis y nodau a'r camau gweithredu yn y maes polisi hwn?
- A oes unrhyw flaenoriaethau neu wybodaeth gefndir ar goll neu unrhyw wybodaeth arall?
- Ydych chi'n cytuno â'r nodau a'r camau gweithredu a ddewiswyd? Pa gamau fydddech chi'n eu hychwanegu neu eu dileu?
- A fydd pob nod a cham gweithredu cysylltiedig yn cynhyrchu'r canlyniadau dymunol a nodwyd gennym? Os na, beth fydddech chi am ei newid fel ein bod yn cyflawni newidiadau sy'n wirioneddol wrth-hiliol yn yr amserlenni a nodir?
- Sut y gellid cynyddu neu liniaru'r effaith gadarnhaol neu negyddol?

Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth:

14. Cynigiwyd sylwadau gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 9+), awdurdodau lleol (n = 12), sefydliadau iechyd (n = 9), undebau llafur (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 7), sefydliadau cymunedol (n = 1+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 7+) a chyrrff ariannu (n = 1) ar adran arweinyddiaeth a chynrychiolaeth y Cynllun. Derbyniwyd amrywiaeth o sylwadau yn manylu ar yr hyn y mae'r adran hon o'r Cynllun yn ei hepgor, lle nad yw'n ymddangos bod yr adran hon yn cydweddu ag ysgogiadau sydd eisoes yn bodoli a pha gamau nad ydynt yn mynd yn ddigon pell.

Mae angen eglurder ynghylch i bwy y mae'r camau gweithredu yn yr adran hon yn berthnasol iddynt:

15. Roedd dryswch ymhlith rhai sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), sefydliadau iechyd (n = 3), un awdurdod lleol (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) at bwy yr anelwyd y camau gweithredu yn yr adran hon. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai mater ar gyfer Llywodraeth Cymru yw'r holl gamau gweithredu yn yr adran hon. Mynnodd ymatebwyr fod angen ail-gydbwysu'r adran hon i'w gwneud yn glir bod y CGCH yn ymwneud ag arweinyddiaeth ar draws y Sector Cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod y termau cyrrff sector cyhoeddus / cyrrff cyhoeddus / gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, sy'n golygu nad yw'n glir a yw rhai camau gweithredu yn berthnasol yn bersonol i arweinwyr a / neu brif weithredwyr neu o fewn llywodraeth leol.
16. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), sefydliadau iechyd (n = 3), un awdurdod lleol (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylai'r nod 'Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth' ar gynrychiolaeth gweithlu hefyd fod yn berthnasol i sefydliadau sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus,

gan nad yw'r cyhoedd yn gwahaniaethu rhwng y sector cyhoeddus a darparwyr dan gontract.

17. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), sefydliadau ieuchyd (n = 3), un awdurdod lleol (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod angen eglurder ar yr hyn a olygir wrth "gymhellion priodol". Ai cymhellion i'r arweinydd, y sefydliad neu'r unigolyn a gafodd ei recriwtio yw'r rhain? Holodd ymatebwyr pam y dylai arweinwyr cyrff cyhoeddus gael eu "cymell" i weithredu, gan ystyried hyn yn hynod broblemus. Mynnodd ymatebwyr y dylai fod mesurau cosbi ar waith os yw'r arweinwyr hyn yn dewis peidio â chymryd gwaith gwrth-hiliaeth o ddifrif ac y dylai fod gofyniad am isafswm o bobl o gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio ar Fyrddau.
18. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), sefydliadau ieuchyd (n = 3), awdurdodau lleol (n = 3) a sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+) fod angen mwy o wybodaeth a thrafodaeth ar sut *"mae arweinydd pob corff cyhoeddus yn bersonol atebol am sicrhau gweithlu cynrychioliadol,"* er mwyn sefydlu beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol. Mae angen dweud mwy yn y Cynllun ar sut y bydd uwch arweinwyr yn destun craffu o ran atebolrwydd darparu gweithlu cynrychioliadol.
19. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), awdurdodau lleol (n = 3), undebau llafur (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 3), sefydliadau sector cyhoeddus (n = 2), a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y dylid cynnwys nodau a chymau gweithredu penodol ar sicrhau gweithlu ac arweinyddiaeth mwy cynrychioliadol ym mhob un o adrannau polisi'r Cynllun, nid yn y maes 'Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth' yn unig.

Sylwadau ar anghenion hyfforddiant, cymorth ac arweiniad yn y maes hwn:

20. Dywedodd sefydliadau cymunedol (n = 1+), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), un sefydliad trydydd sector (n = 1), sefydliadau ieuchyd (n = 3) ac un ymatebydd unigol (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob uwch arweinydd yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth gywir i gyflwyno a chefnogi gwaith gwrth-hiliol. Mae angen i bob arweinydd gael ei goetsio a'i fentora er mwyn i'r Cynllun fod yn llwyddiannus. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr, mewn perthynas â Nod 3 / Cam Gweithredu 3 (tud. 39) mai'r amcan ddylai fod i uwchsgilio'r holl reolwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch recriwtio er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn barod ac yn gallu gwneud penderfyniadau cadarn ynghylch penodiadau ac addasiadau rhesymol. Dylid anelu at ddileu unrhyw rwystrau posibl o brosesau dethol. Nododd ymatebwyr hefyd y dylai hyfforddiant fod ar gyfer yr holl staff, nid rheolwyr yn unig, a bod angen gwneud hyn ar frys – roedd ymatebwyr o blaid cyflymu'r amserlen yn y Cynllun ar gyfer hyn o'r tymor canolig i'r tymor byr. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid cychwyn mentora gwrthdro lle mae staff Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn mentora arweinwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau modelu gwrth-hiliol. Fodd bynnag, roedd y sefydliad trydydd sector a gynigiodd sylwadau ar y mater hwn yn siomedig nad yw'r Cynllun yn manylu ar ddarparu unrhyw fonitro safonol, dim ond **mentora o chwith** *****reverse mentoring is what's in the Plan, not reverse monitoring – so that's how we've translated it? Check***** (Nod 3 / Cam Gweithredu 9, tud. 40).

21. Trafododd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sut y byddai rhaglen hyfforddiant a chymorth ar y cyd sy'n gweithredu ar draws sefydliadau ledled Cymru yn ddelfrydol er mwyn sicrhau darpariaeth gyson ar draws pob awdurdod, ac i weithwyr cyrff archwilio a rheoleiddio, arolygiaethau ac ombwdsmyrn gael rhaglen hyfforddi a chymorth gyffredin hefyd.
22. Mynegwyd y farn gan sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 3+$), un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), sefydliadau ieuchyd ($n = 3$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) y byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn rhannu ei dysgu a'i phrofiad o ddatblygu diwylliant gwrth-hiliol, gan gynnwys yr hyn sy'n gyfystyr â hyfforddiant gwrth-hiliaeth 'da' a'i gyfrifiad bwllch cyflog ethnigrwydd.
23. Er mwyn i gyrff cyhoeddus ddefnyddio eu pŵer gwario i wella arweinyddiaeth a chynrychiolaeth ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, dywedodd sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 3+$), un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), sefydliadau ieuchyd ($n = 3$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) y bydd angen gwneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer gweithredwyr yn y sectorau hyn. Byddai hyn yn cynnwys darparu unrhyw ganllawiau, hyfforddiant a chyfranogiad perthnasol mewn cynlluniau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i gyrff cyhoeddus i gefnogi camau gweithredu gwrth-hiliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Dylai canllawiau a chymorth ychwanegol fod ar gael i'r sefydliadau y bydd y nodau a'r camau gweithredu a amlinellwyd yn effeithio arnynt, er mwyn eu helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau. Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo'n gryf bod angen amserlen i fesur llwyddiant ynghyd â digon o amser i'r sector addasu i ofynion newydd.

Sylwadau ar gynrychiolaeth, recriwtio, datblygu a chynnydd:

24. Roedd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 5+$), awdurdodau lleol ($n = 6$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), ymatebwyr unigol ($n = 4$), asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$), sefydliadau ieuchyd ($n = 2$) ac un corff ariannu ($n = 1$) yn cydnabod yr angen am amrywiaeth ddigonol ar bob lefel, ond yn enwedig mewn rheolaeth ganol. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector na fydd modelu gwrth-hiliaeth o fewn strwythurau presennol Braint Pobl Wyn, fodd bynnag, yn arwain at unrhyw newid ystyrlon. Bydd yn atgyfnerthu'r gormes, yr anfantais a'r trawma a brofir gan bobl ethnig leiafrifol yn y gweithlu a'r rhai y mae angen cymorth a gofal arnynt.
25. Nododd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 5+$), awdurdodau lleol ($n = 6$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), ymatebwyr unigol ($n = 4$), asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$), sefydliadau ieuchyd ($n = 2$) ac un corff ariannu ($n = 1$) fod angen amserlenni a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i rolau arwain a gweithdrefnau clir ar gyfer sicrhau atebolrwydd os nad yw hyn yn digwydd. Mae angen rhoi mwy o bwyslais hefyd ar bolisiau cadw yn gyffredinol, ond yn enwedig mewn swyddi arwain. Dywedodd ymatebwyr y dylid cryfhau'r cam gweithredu sy'n ymwneud â chynrychiolaeth ethnig leiafrifol ar baneli cyfweld i gael ymrwymiad cadarn yn hytrach na dim ond 'ystyried'.

26. Mynegodd un rhwydwaith sector cyhoeddus ($n = 1+$) amheuan ynghylch y targed a nodai y dylai gweithlu cynrychioliadol fod ag o leiaf 30 y cant o gefndir ethnig leiafrifol, o'r rhai sy'n cael eu recriwtio yn ystod neu ar ôl Ionawr 2023. Teimlodd fod y targed hwn yn ansoffistigedig ac y gallai arwain at gyflogi nifer fawr o unigolion o un grŵp ethnig. Barnodd nad oedd y targed hwn yn cydnabod bod gwahanol leiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau gwahanol. Awgrymwyd y dylid cynnwys y targedau ychwanegol canlynol fel rhan o'r cam gweithredu hwn: i o leiaf 3 y cant o uwch staff Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru fod o leiafrif ethnig erbyn 2025 ac i o leiaf 6 y cant o uwch staff Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru fod o leiafrif ethnig erbyn 2028 er mwyn cynrychioli'r poblogaethau y mae'r sefydliadau'n eu gwasanaethu yn fwy cywir. Gofynnwyd a fyddai targedau a mesurau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig yn y dyfodol.
27. Mynegwyd pryder gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 5+$), awdurdodau lleol ($n = 6$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), ymatebwyr unigol ($n = 4$), asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$), sefydliadau ieuchyd ($n = 2$) ac un corff ariannu ($n = 1$) am y diffyg cydnabyddiaeth yn y Cynllun o broffil amrywiaeth gwahanol ardaloedd / rhanbarthau awdurdodau lleol a bod gan ardaloedd gwledig sail poblogaeth llawer is. O ganlyniad, bydd mwy o heriau i sicrhau gweithlu cynrychioliadol mewn rhai ardaloedd. Nododd awdurdodau lleol bod angen cymorth arnynt gan Lywodraeth Cymru mewn ardaloedd daearyddol lle mae'r cymunedau buddiant yn llai o ran niferoedd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymodd yr ymatebion a gyfeiriodd at y mater hwn y dylai'r Cynllun ystyried lefel yr arbenigedd sydd ar gael yn y meysydd hyn a sut mae natur sefydlog y gweithlu mewn rhai ardaloedd yn cyfyngu ar gyfleoedd amrywiaeth. Dywedwyd bod angen i sefydliadau unigol bennu targedau ar gyfer canrannau o bobl ethnig leiafrifol a gaiff eu recriwtio gan fod data'r cyfrifiad yn dangos bod lefelau ethnigrwydd lleiafrifol yn amrywio ledled Cymru. Pe bai un targed yn cael ei osod, yna byddai'n rhy hawdd i rai ac yn rhy heriol i eraill.
28. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) fod angen i'r Cynllun ystyried gwahaniaethau sectoraidd penodol. Er enghraifft, mae gan y gweithlu gofal cymdeithasol fwyafrif sylweddol o staff benywaidd, fel y sector blynyddoedd cynnar – credwyd y byddai'n wrthgynhyrchol veisio ail-lunio'r gymhareb hon yn artiffisial er mwyn cyflawni nod o gydbwysedd rhwng y rhywiau.
29. Rhybuddiodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) yn erbyn rhoi gormod o werth ar gynrychiolaeth fel nod terfynol, gan fod angen ffocws cyfartal ar fesurau eraill sy'n angenrheidiol i sicrhau newid ystyrlon. Dywedodd ymatebwyr y gallai hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol fel tocynistiaeth, gydag ymatebwyr unigol yn teimlo y dylid osgoi hynny oherwydd yr angen i ddyfarnu rolau ar sail teilyngdod.
30. Tynnodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) sylw at eu profiad nad yw pobl ethnig leiafrifol yn ymgeisio ar gyfer rolau uwch er gwaethaf ymdrechion grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector i annog diddordeb a chyfleu cyfleoedd yn briodol.

31. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 5+), awdurdodau lleol (n = 6), sefydliadau cymunedol (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 4), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+), sefydliadau iechyd (n = 2) ac un corff ariannu (n = 1) fod cylch gwaith awgrymedig y tîm amrywiaeth a recriwtio yn rhy gyfyng, gan ei bod yn ymddangos nad oedd gan y tîm unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â monitro cyflawniad y targed recriwtio. Mynnodd ymatebwyr y dylai'r tîm gael y dasg o fonitro (a chyhoeddi) adroddiadau ar gyflawni'r targed recriwtio a thargedau eraill. Nododd ymatebwyr hefyd y dylai hwyluso cyfleoedd i'r sector cyhoeddus roi gwybod am ddata a rhannu dysgu o ran sut i harneisio amrywiaeth mewn cynrychiolaeth ar bob lefel o fywyd cyhoeddus fod yn un o swyddogaethau craidd y Grŵp Atebolrwydd.
32. Nododd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) bwysigrwydd adrodd yn eang am gyfleoedd datblygu sy'n agored i staff ac aelodau'r gymuned, yn hytrach na'u cyhoeddi mewn rhan aneglur o bolisi neu ar dudalen we yn unig. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo'n eang a bod cymorth ychwanegol ar gael os oes angen. Dylid adolygu cyfleoedd o'r fath, a dylai sefydliadau fod yn atebol am y darpariaethau a gynigiwyd ganddynt.

Atebolrwydd a chydweddu â'r ysgogiadau / pwerau presennol:

33. Nododd un ymatebydd unigol (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 2+), awdurdodau lleol (n = 8), sefydliadau iechyd (n = 6) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) fod llawer o'r camau gweithredu a'r meysydd i'w gwella a awgrymwyd o fewn adran arweinyddiaeth y CGCH wedi bod yn waith sydd ar y gweill ers amser maith (e.e. trefniadau aelodau bwrdd gweithredol a rhwydweithiau staff ethnig lleiafrifol). Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd rhaglenni cydraddoldeb strategol allweddol eraill yn cydweddu a chefnogi'r CGCH, yn hytrach na dyblygu deddfwriaeth bresennol, oherwydd os nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol wedi gwneud gwahaniaeth hyd yma, yna ni fydd dal ati i wneud yr un peth yn arwain at y newid sydd ei angen.
34. Yn ogystal, nododd un ymatebydd unigol (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 2+), awdurdodau lleol (n = 8), sefydliadau iechyd (n = 6) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) bwysigrwydd normaleiddio amrywiaeth a chynrychiolaeth, yn hytrach na'i drin fel atodiad neu gyflawniad ynddo'i hun. Mae angen dweud mwy yn yr adran hon o'r Cynllun ar rôl arwain Llywodraeth Cymru, ei bod yn derbyn y cyd-destun sylfaenol a'r cynigion yn y Cynllun, a sut y mae'n bwriadu diwygio'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi a chraffu ar sefydliadau i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau teg.

Awgrymiadau am ddiwygiadau i gamau gweithredu sydd eisoes yn bodoli:

35. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), awdurdodau lleol (n = 2), undebau llafur (n = 2), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad iechyd (n = 1) fod nifer o awgrymiadau amwys yn yr adran hon o'r Cynllun, heb awgrymu dulliau clir, penodol. Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

- a. Mae Nod 1 yn ymddangos wedi'i eirio'n wael – gellid dileu'r geiriau “o leiaf” fel ei fod yn darllen: *“mae gweithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynrychioli'r boblogaeth a wasanaethir ganddo yn briodol,”* – mae'r geiriad yn hanfodol wrth bennu'r naws ar y mater hwn.
 - b. Nod 3 / Cam Gweithredu 1 (tud. 38) – mae angen cynnwys pobl eraill yn hyn, nid academyddion yn unig: mae *“ac unrhyw,”* yn rhy amwys. Mae angen diffinio pwy, o ble, pa sector, cefndir, nodi'r cam gweithredu.
 - c. Ni ddylai'r archwiliad allanol arfaethedig fod yn archwiliad untro. Mae cam gweithredu ar wahân o fewn Nod 3 ar gyfer archwiliadau rheolaidd o brofiad bywyd, a dylid mabwysiadu hyn mewn perthynas â gweithdrefnau a lefelau staffio Llywodraeth Cymru.
 - d. Mae'r camau gweithredu o dan Nod 4 (tud. 40) yn fyr ac yn brin o fanylder. Mae angen mwy o fanylion am beth fydd ein cael ei wneud go iawn, a sut y bydd hynny'n digwydd.
 - e. Nid yw'r cam gweithredu “Llai o risg wrth leisio barn” yn addas i'r diben ar hyn o bryd gan ei fod yn cyfuno dau faes hynod benodol iawn sy'n ffenomenau gwahanol iawn, a dylid eu trin felly. Awgrymwyd bod dau gam gweithredu yn cymryd lle'r cam gweithredu: yn gyntaf, er mwyn dileu'n llwyr y risg o leisio barn a chodi pryderon yn y gwaith – ni ddylai'r risg fod ynghlwm wrth y gweithgareddau hyn byth, o ran hil neu unrhyw faes arall. Mewn perthynas â'r ail gam newydd, nid oedd yn glir beth yw'r ‘camgymeriadau’ y cyfeirir atynt. Os yw'r ystyr yn gyffredinol, yr awgrym yw y dylai'r ail gam geisio sicrhau nad yw staff ethnig lleiafrifol yn cael eu trin yn llai ffafriol na staff eraill pan fyddant yn gwneud camgymeriadau. Beth bynnag, mae angen egluro at beth mae'r gair ‘camgymeriadau’ i fod cyfeirio yma.
36. Roedd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), awdurdodau lleol (n = 2), undebau llafur (n = 2), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) yn tynnu sylw at y diffyg diffiniad clir ar gwmpas gweithredu cadarnhaol – roedd geiriad y camau gweithredu'n gwneud iddynt ymddangos fel dim byd ond gosod targedau. Dylai camau gweithredu fynd ymhellach na cheisio cael penaethiaid / Prif Swyddogion Gweithredol allweddol i ‘ddeall’ gweithredu cadarnhaol, ond yn hytrach i orchymyn gweithredu. O ran adnoddau, dywedwyd y dylid ei gwneud yn orfodol i ganran benodol o'r bwrdd fod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.
37. Mewn perthynas â'r cyfeiriad at ddeall gweithredu cadarnhaol yn Nod 1 / Cam Gweithredu 2 (tud. 34), dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), awdurdodau lleol (n = 2), undebau llafur (n = 2), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) y dylai hyn fynd y tu hwnt i ddeall yn unig, a bod pobl yn dysgu gweithredu a defnyddio'n benodol ynghylch beth ac erbyn pryd. Dylai targedau hefyd gynnwys camau gweithredu cadarnhaol sy'n ceisio mynd i'r afael â phobl cwiâr o liw a phobl anabl o liw hefyd, nid menywod lliw yn unig. Mewn perthynas â Nod 2 ar gyfer Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth (tud. 37) sy'n amlinellu'r disgwyliadau i Gadeiryddion, Aelodau Bwrdd a Swyddogion Iechyd weithredu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020 ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), awdurdodau lleol (n = 2), undebau llafur (n = 2), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), un ymatebydd

unigol (n = 1) ac un sefydliad iechyd (n = 1) y bydd angen cyflwyno rhywfaint o gamau, yn sgil pwysau parhaus y pandemig ar sefydliadau. Roedd y sylwadau'n cynnwys y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn orfodol, nid dim ond yn uchelgeisiol, i gael staff a byrddau sy'n adlewyrchu'r proffil demograffig lleol neu genedlaethol (pa un bynnag yw'r mwyaf amrywiol); dylid gweithredu'n gadarnhaol, a dylai targedau fod ar waith ar gyfer hyn, gyda rheolyddion yn craffu arnynt ac adrodd yn eu cylch. Er bod arwyddion o lwyddiant yma ac acw, nodwyd hefyd nad oes cysylltiad clir bob amser rhwng cynlluniau llif sy'n cael eu rhedeg gan y trydydd sector a chysylltiad â chyfleoedd mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol. Felly, hwyrach y bydd angen ymrwymiad cryfach gan gadeiryddion cyrff cyhoeddus a phaneli penodi, neu gyflwyno gofyniad i dderbyn pobl o'r cynlluniau llif hynny. Mae sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), awdurdodau lleol (n = 2), undebau llafur (n = 2), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad iechyd (n = 1) hefyd wedi cynnig sylwadau ar yr ymrwymiad i gael modelau rôl (Nod 1 / Cam Gweithredu 5, tud. 36), gan nodi bod yn rhaid i'r Cynllun fanylu ar sut y bydd tocynistiaeth a'r ysfa i achub yn cael eu hosgoi a chynrychiolaeth fwy cyfartal yn cael ei chyflawni.

38. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3) fod cael un hyrwyddwr amrywiaeth a chynhwysiant ar y bwrdd yn symud oddi wrth gyfrifoldeb Prif Swyddog Gweithredol / bwrdd cyfan. Rhaid i gylch gwaith yr 'Hyrwyddwr' hwn fod yn glir a sicrhau na ddisgwylir tocynistiaeth / na chynrychiolaeth o'r holl bobl sydd wedi'u hymyleiddio, a sicrhau darpariaethau mai cynghori yw eu rôl. Dylai'r bwrdd gadw'r cyfrifoldeb am weithredu'r newidiadau angenrheidiol, dylai hyrwyddo fod yn rhan annatod o bawb ac nid dim ond yn ddyletswydd i un person (Nod 2 / Cam Gweithredu 5, tud. 38). Siom gyda Nod 2 / Cam Gweithredu 3, tud. 37: *"nodi un amcan cynhwysiant ac amrywiaeth, sy'n canolbwyntio ar wrth-hiliaeth,"* gan nodi nad yw un yn ddigon. Awgrymwyd hefyd y byddai'n briodol i gynrychiolwyr y sector gwirfoddol, megis Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol, hefyd gael y cyfle i dderbyn hyfforddiant.
39. O ran cam gweithredu 3 (Nod 1) ynghylch dysgu a datblygu o ansawdd uchel ar gyfer uwchsgilio a grymuso grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), awdurdodau lleol (n = 2), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 2+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad iechyd (n = 1) ei fod yn amwys iawn ac yn amhenodol – mae angen dweud mwy am yr hyn y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol. Dylai gwrth-hiliaeth fod yn rhan o reoli perfformiad uwch arweinwyr hefyd, fel y nodwyd ar gyfer aelodau bwrdd. Mae angen cyfeirio pwyntiau dysgu arfaethedig y Cynllun at reolwyr canol yn ogystal ag uwch arweinwyr / Gweinidogion yn y Cabinet newydd ac aelodau bwrdd, a dylid eu gwneud yn orfodol i'r holl staff. Dylid canolbwyntio ar rymuso aelodau a grwpiau cymunedol, nid arweinwyr unigol yn unig. Mae perygl i gyrff cyhoeddus roi gormod o awdurdod mewn unigolion fel arweinwyr a chynrychiolwyr yn hytrach na dyrannu amser ac adnoddau i ymgysylltu'n llawn â chymunedau. Mae llawer o arweinwyr yn hunan-benodedig, heb gynrychioli buddiannau grŵp cyfan. Er enghraifft, mae llawer o'r arweinwyr hunan-benodedig yn ddynion ac nid ydynt yn cyfleu buddiannau menywod o'r gymuned honno, pobl anabl, LGBTQ+ ac ati. Nododd sefydliadau'r trydydd sector hefyd fod angen dweud mwy am Nod 3, Cam Gweithredu 2 (tud. 38) a Nod 3, Cam Gweithredu 6 (tud. 39) ar sut y mae grymuso'n

cael ei ddiffinio, beth yw nodweddion grymuso a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn grymuso pobl. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymchwil flaenorol, megis adroddiad [Grymuso Cymunedau](#) CGGC, a bwysodd ar ddamcaniaeth seiliedig ar leoedd, gan edrych ar sut y gall ymdeimlad o falchder yn y lle y maent yn byw ynddo rymuso cymunedau a chreu arweinwyr.

40. Awgrymodd undebau llafur (n = 2) fod y Cynllun yn ystyried llais gweithwyr a gweithwyr ar fyrddau fel ffordd o sicrhau cydraddoldeb i weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a gwella cynrychiolaeth tra'n cynnig cyfle i weithredu'r newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen ar weithleoedd i symud tuag at wrth-hiliaeth. Mae mecanweithiau eraill ar gyfer llais gweithwyr mewn llywodraethu corfforaethol ar waith yn rhai o wledydd Ewrop, weithiau ochr yn ochr â hawliau cynrychiolaeth bwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolydd gweithwyr 'ymgynghorol' mewn ystafelloedd bwrdd: mae gwledydd lle mae gan weithwyr yr hawl i fynychu a siarad mewn cyfarfodydd bwrdd a derbyn papurau, ond heb hawl i bleidleisio – Ffrainc, Norwy, a Sweden – mae hyn yn gweithredu (mewn rhai achosion) ochr yn ochr â hawliau cynrychiolaeth bwrdd llawn. Cynnwys gweithwyr yn y broses o ddethol yr uwch dîm rheoli: mewn rhai achosion, yn Slofenia, yr Almaen a Gwlad Pwyl, mae gan y gweithlu hawl i benodi neu ethol aelod o'r tîm rheoli. Cynrychiolaeth gweithwyr mewn Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol. Ceir darpariaethau i weithwyr mewn rhai achosion fynychu a / neu gyflwyno cynnig i Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol cwmni yn Ffrainc, Sweden, Bwlgaria, Hwngari a'r Iseldiroedd.
41. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), awdurdodau lleol (n = 2), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 2+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) nad yw'n ddigon ymgynghori ag arweinwyr cyrff cyhoeddus i bennu'r data sydd ei angen i sicrhau bod gweithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru o leiaf yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu yn gywir. Bydd gan arweinwyr cyrff cyhoeddus fudd bersonol wrth gyflwyno data'n ffafriol – dylid craffu'n well ar y penderfyniadau ynghylch pa ddata y dylid ei gasglu a'i ddefnyddio, a dylid defnyddio arbenigwyr cydraddoldeb hiliol wrth benderfynu ar gasglu data. Dywedwyd hefyd y dylai'r holl ddata fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau tryloywder llawn.
42. Soniodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+), un ymatebydd unigol (n = 1), un sefydliad ieuchyd (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) am Gam Gweithredu 3 (Nod 4, tud. 40) yn yr adran hon o'r Cynllun am gasglu data ar gyfer adrodd am fylchau cyflog ethnigrwydd ac nad oedd yn glir ynghylch ei gysylltiad â phwerau caffael / gwario a bod angen ymhelaethu ar hynny o ganlyniad. Nid yw'n glir ychwaith sut y bydd adrodd am ddata bwch cyflog ethnigrwydd yn gwella arweinyddiaeth a chynrychiolaeth, gan fod y cam gweithredu hwn yn ymwneud â monitro, ond nid yw'n cyfrannu'n weithredol at gyflawni'r nod o gynyddu nifer y bobl ethnig leiafrifol ym maes arweinyddiaeth a chynrychiolaeth. Bydd cyhoeddi bylchau cyflog o ran ethnigrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyngor pendant a chllir ar sut i gyfrifo'r bwch cyflog fel bod sefydliadau'n cymharu tebyg wrth debyg (yn wahanol i'r bwch cyflog rhwng y rhywiau sydd eisoes wedi creu anghysondebau

pan nodwyd un cyfrifiad gan y ddeddfwriaeth ac yna i ACAS awgrymu eithrio staff addysgu, gan arwain at ddata anghyson). Holwyd pam mae angen aros am ganllawiau Llywodraeth y DU ar y bwlch cyflog ethnigrydd pan fydd y Cynllun yn un o fentrau Llywodraeth Cymru – dylid esbonio'r rhesymau dros hyn yn y Cynllun.

43. Holodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un sefydliad ieuchyd (n = 1) ac un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) beth yw'r ddarpariaeth bresennol y cyfeirir ati yn Nod 5 / Cam Gweithredu 1 (tud. 41), gan ddatgan yr angen i nodi hyn yn benodol fel bod pobl yn ymwybodol ac yn gallu cyrchu'r wybodaeth er mwyn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Roedd cwestiynau am yr hyn y mae 'posibl' neu 'priodol' yn ei olygu yn Nod 5 / Cam Gweithredu 4 (tud. 41) – Llywodraeth Cymru sy'n rheoli hyn, felly rhaid diffinio'r hyn sy'n bosibl neu'n briodol gan y bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd os na chaiff camau gweithredu eu cyflawni.

Camau gweithredu sydd ar goll o'r adran hon o'r Cynllun:

44. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1), un ymatebydd unigol (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a sefydliadau ieuchyd (n = 3) fod angen i'r Cynllun ganolbwyntio hefyd ar gamau gweithredu a fydd yn dylanwadu ar y sector preifat.
45. Nododd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) y dylai Llywodraeth Cymru adlewyrchu'r poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu erbyn 2030 a dylent ystyried natur wledig a gwahaniaethau mewn demograffeg mewn gwahanol rannau o Gymru. Teimlai'r ymatebwyr hyn hefyd mai dim ond at gymunedau mawr yr oedd y Cynllun yn cyfeirio, nid rhai bach.
46. Er mwyn cynyddu amrywiaeth hiliol mewn cynrychiolaeth wleidyddol, dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1), un ymatebydd unigol (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a sefydliadau ieuchyd (n = 3) y dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y DU i weithredu adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag etholiadau Senedd Cymru, i drosglwyddo'r pwerau i wneud hynny, neu i ddeddfu ar gyfer trefniadau etholiadol y Senedd i sicrhau bod data amrywiaeth yn cael ei gasglu. Mae'r sylwadau'n cynnwys y dylai pleidiau gwleidyddol Cymru ymgymryd â mentrau gweithredu cadarnhaol sydd wedi'u hanelu'n benodol at gynyddu amrywiaeth hiliol ymgeiswyr etholiadol. Awgrymwyd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gynyddu nifer y bobl ethnig leiafrifol sydd wedi cofrestru i bleidleisio a chasglu data i gyfrannu at fynd i'r afael â'r niferoedd anghymesur o isel o bobl ethnig leiafrifol ledled y DU nad ydynt wedi cofrestru i bleidleisio. Dywedwyd bod angen i raglenni ag adnoddau fod ar waith i gefnogi'r broses o bontio i fywyd cyhoeddus / gwleidyddol er mwyn helpu i gynrychioli poblogaeth Cymru – dylai prosesau o'r fath sicrhau bod sedd ar fwrdd yn hygyrch.

Tai a Llety:

47. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 14+), awdurdodau lleol (n = 10), un sefydliad iechyd (n = 1), undebau llafur (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 12), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 2+) ac un sefydliad preifat (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar adran tai a llety'r Cynllun.

Llety / Tai Sipsiwn a Theithwyr:

48. Mynegodd un awdurdod lleol (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) ac un ymatebydd unigol (n = 1) bryderon nad yw'r Cynllun yn cyfeirio'n benodol at unrhyw fwrdd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r materion a wynebwr gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dywedodd ymatebwyr y bydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr bob amser ar y gwaelod.
49. Roedd un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn anhapus gyda'r defnydd mynych o'r term 'tai' dethol yn y Cynllun, yn hytrach na llety. Teimlai bod hyn yn dangos sut mae diffiniad rhai pobl o 'normal' yn taflu cysgod dros 'normal' grwpiau llai neu lai pwerus, fel cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
50. Roedd rhai awdurdodau lleol yn pryderu (n = 3) nad yw'r Cynllun yn cydnabod anghenion amrywiol Sipsiwn a Theithwyr o ran llety – nid yw Sipsiwn a Theithwyr yn eu crynswth yn dymuno byw mewn cartrefi symudol. Mae hyn yn golygu, yn eu barn hwy, na ellir diwallu'r holl anghenion llety drwy gynyddu'r ddarpariaeth o safleoedd (a dywedodd dau awdurdod lleol (n = 2) fod Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal wedi datgan na fyddent yn defnyddio safle tramwy pe baent yn ei ddarparu). Awgrymodd un awdurdod lleol (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymchwil i weld a fyddai safleoedd o'r fath, o'u darparu, yn cael ei ddefnyddio. Os yw'r ymchwil yn dangos bod angen safleoedd, yna dylai cyllid fod ar gael i'r awdurdodau lleol hynny lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli, nid yn unig o ran y gwariant cychwynnol, ond hefyd ar gyfer rheoli a chynnal a chadw parhaus. Mynnodd un awdurdod lleol (n = 1) y dylid ailddrafftio'r canllawiau safleoedd gan ymgysylltu'n llawn â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac awdurdodau lleol. Roedd tri awdurdod lleol (n = 3) yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull rhanbarthol o gynorthwyo anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr:
- a. Nododd un awdurdod lleol (n = 1) hyn yn benodol mewn perthynas â safleoedd tramwy.
 - b. Nododd awdurdod lleol arall (n = 1) y dylid datblygu Mannau Aros Dros Dro, gyda'r gwaith o'u rheoli a threfnu adnoddau ar eu cyfer ar sail Cymru gyfan ac mewn ymgynghoriad â'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
 - c. Dywedodd awdurdod lleol arall (n = 1) y byddai datblygu dull rhanbarthol yn ddefnyddiol, yn enwedig mewn perthynas â datblygu adnodd sy'n adlewyrchu'r galw tebygol gwirioneddol. Barnodd yr awdurdod lleol hwn y gellid ariannu hyn ar y cyd gan na fyddai'n gynaliadwy yn ariannol i gynghorau unigol. Nododd yr awdurdod lleol hwn hefyd fod angen cymorth ychwanegol arnynt gan Lywodraeth Cymru gyda rhestr neu fap o dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru sydd ar gael ym mhob sir.
51. Roedd dryswch ymhlith rhai awdurdodau lleol (n = 3) ynghylch yr hyn a olygir lle mae'r Cynllun yn sôn am ddata gwell yn y maes hwn. Dywedodd awdurdodau lleol

fod angen eglurhad ynghylch a yw'r Cynllun yn golygu casglu data amlach, data mwy cynhwysfawr neu ddata manylach? Mae awdurdodau lleol yn teimlo bod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, y mae'n ofynnol iddynt ei gynnal bob pum mlynedd, yn gofyn am gasgliad o dystiolaeth ar ffurf cyfrifiad.

52. Roedd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) yn pryderu am y ffaith nad oedd cyfeiriad at unrhyw ystyriaeth o'r system cynllunio defnydd tir yn y Cynllun. Bydd y camau gweithredu yn y Cynllun yn dod â grwpiau Sipsiwn a Theithwyr i gysylltiad â'r system gynllunio, a all fod yn gymhleth ac yn broses anodd i ymgysylltu â hi. Awgrymwyd felly y dylai Llywodraeth Cymru ariannu un neu fwy o swyddogion cynllunio penodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mewn cymunedau ledled Cymru.
53. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) y dylai'r adran hon o'r Cynllun gynnwys nod sy'n sicrhau atebolrwydd ac unioni pan fydd awdurdodau lleol yn nodi anghenion llety teithwyr, Sipsiwn a phobl symudol eraill ac yn methu â diwallu'r anghenion hynny. Mae angen mwy o gymhellant i awdurdodau lleol gynnig safleoedd dan reolaeth ac ymgynghori â sipsiwn a theithwyr. Amlygodd yr ymatebion fod darpariaeth safleoedd parhaol a thramwy yn y gogledd yn dameidiog iawn.

Tai / Llety Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid:

54. Mynegodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) eu rhwystredigaeth am yr amser annigonol sy'n cael ei roi i unigolyn adael eiddo a dod o hyd i drefniadau byw amgen, ar ôl derbyn caniatâd i aros. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu'r cyfnod symud ymlaen i 56 diwrnod yn unol â Deddf Tai 2014, gan gynnwys opsiynau ar gyfer parhau i ariannu llety lloches am 28 diwrnod ychwanegol i roi cyfnod priodol o amser i awdurdodau lleol ac unigolion sicrhau llety arall.
55. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen mwy o eglurhad ynghylch y nod canlynol: *"Rhoi cyllid i'r Trydydd Sector er mwyn helpu i ehangu a phroffesiynoli trefniadau 'lletya' i'r rheini y mae gobaith realistig y byddant yn cael caniatâd i aros,"* a gofynnodd: a fydd y trefniadau lletya hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi cael caniatâd i aros, er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd iddynt am gyfnod hwy cyn iddynt ddod o hyd i'w llety eu hunain? Awgrymwyd y dylid ystyried hyn oherwydd y byddai'n caniatáu i geiswyr lloches a ffoaduriaid aros yn fwy lleol, a rhoi amser iddynt chwilio am lety lleol, yn hytrach na byw yng Nghaerdydd (er enghraifft) am bedair blynedd, ac yna cael eu hadleoli i Lundain (er enghraifft) pan fyddant yn derbyn caniatâd i aros.
56. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod angen mwy o gymorth ar y rhai sydd heb hawl i arian cyhoeddus os gwrthodir lloches iddynt, oherwydd ar hyn o bryd mae cyfyngiad ar y cymorth y mae awdurdodau lleol yn gallu'i ddarparu i'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod llochesi i'r rhai sy'n dianc rhag camdriniaeth a thrais yn cael eu hariannu'n uniongyrchol i alluogi lleoedd i

bobl heb hawl i arian cyhoeddus (fel bod dewisiadau amgen gan sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaeth hwn ac sy'n dibynnu ar fudd-dal tai ar gyfer ariannu lleoedd).

57. Argymhellodd sefydliadau a rhwydweithiau'r Trydydd Sector (n = 4+) fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol yn yr adran hon o'r Cynllun:

- a. Dylai Llywodraeth Cymru geisio datganoli'r cyfrifoldeb dros lety lloches, a'i ddarpariaeth, rhaniad a chymorth yng Nghymru, er mwyn sicrhau safonau uwch, gwell goruchwyliaeth a diwedd ar lety sy'n annigol, yn anaddas ac yn afiach.
- b. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu i liniaru effaith polisiâu San Steffan sy'n ymwneud â ffoaduriaid a pharhau i gyflwyno achos cryf i Lywodraeth y DU i wella polisi a deddfwriaeth sy'n cynyddu tlodi a'r risg o ddigartrefedd.
- c. Dylai Llywodraeth Cymru herio polisi dim hawl i arian cyhoeddus y DU, a gweithio gyda sefydliadau sydd â phrofiad o helpu pobl yn y sefyllfa hon, fel bod pob awdurdod lleol yn deall y dulliau cyfreithiol amgen sydd ar gael i gynorthwyo pobl yn y sefyllfa hon.
- d. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r polisi 'Hawl i Rentu' sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid wirio statws mewn fudo tenantiaid, ac y canfuwyd ei fod yn gwahaniaethu ar sail hil gan yr Uchel Lys, yn cael ei weithredu yng Nghymru.
- e. Dylai Llywodraeth Cymru wrthwynebu a herio'n gryf y defnydd o safleoedd anaddas ar gyfer llety cychwynnol i bobl sy'n ceisio lloches, fel barics y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhenalun.
- f. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i ragor o gyllid hirdymor i gyflawni argymhellion adroddiad dichonoldeb Llywodraeth Cymru ar gynyddu gwasanaethau llety a chymorth i bobl y gwrthodwyd lloches iddynt, gan gynnwys fel yr argymhellwyd y tu hwnt i'r ddwy flynedd gychwynnol.
- g. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r ddarpariaeth o gynghorwyr wedi'u hariannu drwy gymorth cyfreithiol sy'n gallu cefnogi'r rhai y gwrthodwyd cais am lloches iddynt i herio'r gwrthodiadau hynny a sicrhau bod pobl yn cael eu cynrychioli'n briodol, gyda digon o gefnogaeth i gyflwyno hawliadau newydd.
- h. Dylai Llywodraeth Cymru argymhell ymestyn y cyfnod presennol o 14 diwrnod ar gyfer apelio yn erbyn cais am lloches a wrthodwyd, a'r cyfnod symud ymlaen o 21 diwrnod i'r rhai hynny heb hawliau apelio pellach.

Tai Cyngor a Thai Cymdeithasol:

58. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+), un awdurdod lleol (n = 1) ac un ymatebydd unigol (n = 1) eu rhwystredigaeth ynghylch anghenion diwylliannol a chrefyddol nad ydynt yn aml yn cael eu hystyried wrth ddarparu tai. Dylai unigolion deimlo'n ddiogel, gallu byw'n annibynnol a diwallu eu hanghenion diwylliannol a chrefyddol (h.y. dylai bod man addoli cyfagos ar gael iddynt). Mae angen gwell dealltwriaeth o werthoedd a chredoau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion mewn ffordd fwy priodol. Awgrymwyd y dylai rhaglen barhaus o hyfforddiant gwrth-hiliol fod ar gael i'r holl breswylwyr ac, yn arbennig, i staff y sector cyhoeddus. Mae'n hanfodol bod yr hyfforddiant hwn yn hygyrch ac wedi'i dargedu.

Rhaid i hyfforddiant nodi'n glir ganlyniadau Braint Pobl Wyn a hiliaeth strwythurol a chroestoriadedd. Dylai hyfforddiant a meithrin cymhwysedd diwylliannol o fewn sefydliadau darparwyr tai bob amser gael eu darparu gan a chyd a phobl a sefydliadau ethnig leiafrifol. Dylid eu gweinyddu wyneb yn wyneb, nid ar-lein, a dylai ddigwydd bob amser ochr yn ochr â chymau rhagweithiol, nid yn eu lle, er mwyn sicrhau gweithlu mwy cynrychioliadol.

59. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau i sefydliadau tai i drawsnewid eu gweithlu. Dylai cyrff rheoleiddio – a Llywodraeth Cymru fel cyllidwr – ddwyn sefydliadau i gyfrif, gan werthuso amrywiaeth y gweithlu wrth gynnal archwiliadau a chyfarfodydd rheoleiddio tai. Dylai darparwyr tai gael eu gorchymyn i gynnal a chyhoeddi adolygiad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd, fel rhan o adolygiad cyflog ehangach ac ymarfer bwlch cyflog – mae'n ymddangos bod cyflogau arbennig o uchel ymhlith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, nad yw i'w weld yn cyd-fynd gyda'u cenhadaeth i gefnogi'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas, y mae cyfran uchel ohonynt hefyd yn bobl o gefndir ethnig leiafrifol. Roedd sefydliadau'r trydydd sector yn gadarn o'r farn hefyd nad yw darparwyr cyngor ar dai yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol ar hyn o bryd gan nad yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddynt greu rolau penodol i bobl sy'n siarad ieithoedd gwahanol ac yn deall hiliaeth. Maent yn argymhell y dylid cynnal adolygiad o'r Gronfa Gyngori i asesu i ba raddau y mae'r gronfa hon yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol.
60. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) yn pryderu y bydd diffyg tai cyngor yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i fodloni'r galw am dai a chyflawni'r nodau yn yr adran hon o'r Cynllun. Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru osod targed i bob datblygiad tai mawr gynnwys o leiaf 40 y cant o dai cymdeithasol a fforddiadwy (gyda chymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda datblygwyr tai i ariannu hyn). Mae angen edrych yn fanylach ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad tai yn y Cynllun: dylai anghenion tai gael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau adeiladu a'u cysylltu â'r farchnad dai leol.
61. Mynnodd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod angen ymchwilio i dangynrychiolaeth aelwydydd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn tai cymdeithasol a mynd i'r afael â hynny. Dylid cwblhau asesiadau effaith manwl o'r systemau dyrannu presennol er mwyn sicrhau nad yw aelwydydd yn dioddef gwahaniaethu. O ran tai cymdeithasol, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r broses gosod tai a dyrannu tai yn wahaniaethol a dylai chwilio am gyfleoedd i gydweddu â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, fel sut y gallai datgarboneiddio cartrefi a dileu tlodi tanwydd gyfrannu at ddileu anghydraddoldeb hiliol mewn tai. Mae angen hyrwyddo tai cymdeithasol, yn enwedig lle mae pryderon na fyddai grwpiau difreintiedig yn tueddu i wneud cais am gartrefi Cyngor a Chymdeithasau Tai.
62. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) yn rhwystredig am nad oedd cyfeiriad at unrhyw ystyriaeth o'r system cynllunio defnydd tir yn y Cynllun pan mai'r broses gynllunio yw'r prif fecanwaith ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol a fforddiadwy, a bod gallu cael gafael ar dai fforddiadwy o ansawdd da yn rhan hanfodol o wella bywydau poblogaethau lleiafrifol.

63. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn deall pwysigrwydd ystadau tai deiliadaeth gymysg, wedi'u cefnogi'n briodol gan seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach na cheisio creu 'getoau' o dai cymdeithasol ar wahân i ddatblygiadau preifat. Roedd y sylwadau'n amlinellu bod ardaloedd byw ethnoganolog wedi cael eu hachosi, ac yn dal i gael eu hachosi, gan dlodi oherwydd bod tai cymdeithasol yn rhad. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau ac egluro bod ystyriaethau cydraddoldeb yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, gyda swyddogion cynllunio, aelodau pwyllgorau cynllunio, a'r Arolygiaeth Gynllunio yn cael yr hyfforddiant cydraddoldeb angenrheidiol i sicrhau eu bod yn deall hyn, a beth y y byddai'n ei olygu'n ymarferol. Dylai Llywodraeth Cymru ddileu gallu'r Arolygiaeth Gynllunio i leihau ymrwymadau tai fforddiadwy a bennir gan awdurdodau lleol mewn datblygiadau fel eu bod yn 'broffidiol' i ddatblygwyr mawr. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen ymgynghori gwirioneddol â'r gymuned, gan gynnwys pob cymuned, am y mathau o gytundebau Adran 106 y dylid eu ceisio gan ddatblygiadau mawr fel bod cymunedau lleol yn gweld gwir fanteision o ddatblygiadau mawr.
64. Dywedodd ymatebwyr unigol (n = 2) ac un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) fod angen mwy o ffocws yn yr adran hon o'r Cynllun ar wneud pob cymuned yn ddiogel a bod unrhyw agweddau ar anghydfodau cymdogol â chymhelliant hiliol yn cael eu nodi a'u herio, a'u herlyn os cyflawnwyd trosedd. Mae angen dweud mwy am y mathau niferus o wahaniaethu (sy'n ymwneud â mwy nag un nodwedd warchodedig) a all ddigwydd yn rhy aml yng Nghymru, ac mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o ganllawiau ynghylch pryd y dylai'r heddlu / gwasanaethau cymdeithasol gamu i mewn ac ailgartrefu pobl cyn i sefyllfaoedd o wahaniaethu hiliol / aflonyddu / cam-drin waethygu. Cymorth munud olaf mae digwyddiadau o'r fath yn ei gael fel arfer. Adroddodd ymatebwyr hefyd am brofiadau lle mae'r gwasanaethau sydd yno i amddiffyn unigolion (awdurdodau lleol / cymdeithasau tai / yr heddlu) yn dibwyllo pobl drwy beri iddynt amau a ydynt yn profi'r casineb / gwahaniaethu honedig mewn difrif.³
65. Awgrymodd un undeb llafur (n = 1) fod angen nod yn y Cynllun sy'n ymrwymo i ariannu clybiau ieuchyd ar lawr gwlad, archwiliadau diogelwch rheolaidd o dai, gweithdai ar sut i ddelio â landlordiaid gwael mewn amrywiaeth o ieithoedd a throi tenantiaid hiliol allan. Byddai'r nod hwn yn ymwneud â thai cyngor a thai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat.
66. Mae un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) ac un sefydliad preifat (n = 1) yn argymhell y dylai'r Cynllun annog awdurdodau lleol lle mae'r boblogaeth Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol leol yn cael ei hystyried yn rhy fach i gyfiawnhau comisiynu gwasanaethau arbenigol, i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i gydgomisiynu sefydliadau dan arweiniad pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ddarparu'r gwasanaeth ar sail

³ Gweler hefyd: Race Equality First, (2021). [Adroddiad Cysgodol NGO ar y cyd ar Anghydraddoldeb Hiliol yng Nghymru](#), tud. 17. Mynegwyd pryder gan gyfranwyr i'r Adroddiad bod profiadau dioddefwyr troseddau casineb yng Nghymru yn cael eu tanseilio gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai; pan fydd dioddefwyr yn rhoi gwybod am eu profiadau, mae awdurdodau lleol / cymdeithasau tai wedi ymateb gan ddweud nad oedd dioddefwyr mewn gwirionedd wedi profi troseddau casineb.

ranbarthol neu isranbarthol. Roedd galwadau hefyd ar Lywodraeth Cymru i efelychu neu wella Grant Cartrefi Gwyrdd Llywodraeth y DU, sydd bellach wedi dod i ben, ac i'r Cynllun sicrhau bod awdurdodau lleol yn cysylltu â darparwyr ynni i wneud y defnydd gorau o arian Eco-Flex a grantiau eraill a'u targedu.

Digartrefedd:

67. Nododd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) yr angen i wasanaethau datrysiadau tai rheng flaen fod yn hygyrch ac i ddarparu cymorth priodol ar gyfer anghenion pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn benodol mewn perthynas â 'symud ymlaen' o lety dros dro i dai parhaol. Mynnwyd bod angen parhaus i awdurdodau lleol flaenoriaethu strategaethau a dulliau gweithredu lleol sy'n atal ac yn lleihau digartrefedd ac atal dychwelyd i niferoedd blaenorol pobl a oedd yn cysgu ar y stryd.
68. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai'r Cynllun gynnwys nod o ran diwallu anghenion tai'r boblogaeth ethnig leiafrifol hŷn sy'n tyfu, gan gynnwys yr angen am dai gwarchod sy'n benodol i ddiwylliant (e.e. Red Sea House yng Nghaerdydd a Swan Gardens yn Abertawe), a rhagweld anghenion y dyfodol.
69. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru, wrth gyflawni yn erbyn ei Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, sicrhau bod gweithgarwch penodol yn cael ei gynnal i ddeall ac ymateb i'r nifer anghymesur o bobl ethnig leiafrifol, gan gynnwys ffoaduriaid, sy'n ddigartref yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys creu gwell ymwybyddiaeth a gallu cael gafael ar gyngor a chymorth digartrefedd. Cynigiwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith cyflwyno'r dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ar leiafrifoedd ethnig, a gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol anghymesur ar y grwpiau hynny.

Camau gweithredu sy'n cyd-fynd â / perthyn i strategaethau / adnoddau / deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes:

70. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) ac awdurdodau lleol ($n = 2$) fod yn rhaid i'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun gyfateb i gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru. Nodwyd pa mor bwysig yw paru'r CGCH â chynlluniau eraill er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac osgoi gweithio ynysig. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ddarparu arweiniad a chymorth i awdurdodau lleol gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth nodi ac ymateb i anghenion tai ei phoblogaeth amrywiol.
71. Nododd awdurdodau lleol ($n = 2$), ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) fod y camau gweithredu ar Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun wedi'u cynnwys yn Strategaeth Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr Llywodraeth Cymru (2018), ac nad oes cyfeiriad at y strategaeth hon yn y Cynllun. Mae hyn yn esiampl o broblem o fewn y CGCH: nad yw camau gweithredu o gynlluniau / strategaethau eraill yn cael eu hintegreiddio i'r Cynllun ac na chyfeirir atynt. Mynnodd ymatebwyr pa mor bwysig yw sicrhau nad yw cynlluniau'n cael eu dyblygu yn y CGCH yn unig, ond bod y CGCH yn esbonio sut y gall ychwanegu gwerth at yr hyn sy'n bodoli eisoes.

Argymhellir hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu'r camau gweithredu yng nghynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr 2018, gwerthuso canlyniadau, a nodi'r camau nesaf.

Y sector rhentu preifat:

72. Nododd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 3$), ac un undeb llafur ($n = 1$) nad oedd cyfeiriad at Rhentu Doeth Cymru yn y Cynllun (sydd i fod i wella profiad y rhai sy'n rhentu, boed hynny'n rhentu tai preifat neu dai cymdeithasol). Roeddent yn teimlo bod hwn yn hepgoriad allweddol ac yn gyfle a gollwyd lle mae gan Lywodraeth Cymru bŵer datganoledig ac wedi creu trefn ar wahân i Gymru. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar fesurau rheoli rhent (i fynd i'r afael â thai o ansawdd gwael a fforddiadwyedd tai o fewn y sector rhentu preifat) fel y mae llywodraethau datganoledig eraill wedi'i wneud, a gorfodi deddfwriaeth Rhentu Doeth Cymru yn llawn o fewn y sector rhentu preifat, a monitro'r sector yn llym.
73. Awgrymodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ddefnyddio dulliau fel telerau ac amodau'r Grant Cymorth Tai, canllawiau'r Grant Cymorth Tai a datblygu strategaethau rhaglenni cymorth tai i sicrhau nad yw newidiadau i faint a natur contractau yn arwain at rwystrau i ddarparwyr cymorth Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol rhag gallu darparu gwasanaethau i gymunedau amrywiol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ysgogiadau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n llawn, gan fod atebolrwydd yn gyffredinol yn llawer gwannach nag mewn tai cymdeithasol, oherwydd natur y sector a pholisi cysylltiedig. Mae angen hefyd i system cadw cydbwysedd fod ar waith i sicrhau bod tegwch a thryloywder wrth wraidd gosod eiddo preifat ar rent.
74. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$), un awdurdod lleol ($n = 1$), ac un sefydliad preifat ($n = 1$) fod angen dweud mwy am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn atal landlordiaid preifat rhag defnyddio eu safle dylanwadol i godi pris gormodol a gorlenwi drwy aelwydydd amlfeddiannaeth, a sut y byddant yn cael eu cosbi wrth barhau i wneud hynny.
75. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$), un awdurdod lleol ($n = 1$), ac un sefydliad preifat ($n = 1$) y dylid dweud mwy yn y Cynllun am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n llwyddiannus â landlordiaid annibynnol, sy'n berchen ar un neu ddau eiddo; y rhai sy'n gweithredu ar raddfa fawr a'r rhai sy'n defnyddio asiantau gosod. (Gall yr olaf fod yn broblem os yw'r asiant gosod yn gweithredu o Loegr ac nid yng Nghymru.) Gwnaeth un sefydliad sector preifat ($n = 1$) yr awgrymiadau canlynol:
- Gellid defnyddio landlordiaid i gyflawni'r amcan o lenwi cartrefi gwag, a allai helpu i gartrefu'r rhai hynny o gefndir ethnig leiafrifol (yn enwedig y rhai mewn llety gorlawn), a oedd yn broblem a nodwyd yn y Cynllun.
 - I landlordiaid sy'n barod i ymgymryd â chartrefi gwag a'u defnyddio unwaith eto drwy eu hadnewyddu, gallai cymhellion gynnwys:
 - dileu'r premiwm Treth Trafodiadau Tir ail gartref ar eiddo prynu i osod,

- ii. cyflwyno benthyciadau neu grantiau cyngor di-log mewn ardaloedd gwerth isel a lle mae rhentu'n anodd, a
- iii. cyflwyno pecyn cyfannol o gymhellion Treth y Cyngor, gan gydnabod effaith bosibl cosb a gwobr yn y system ar ymddygiad.

76. Tynnodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) sylw at y ffaith nad yw'r mudo Ewropeaidd a Chynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cael ei grybwyll yn yr adran hon o'r Cynllun. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn nodi bod landlordiaid yn amharod i gynnig tai oherwydd y ddyletswydd i sicrhau bod pobl yn cael byw a gweithio.

77. Awgrymodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) y dylid capio prisiau rhentu preifat a chyhoeddus ar gyfer cartrefi mwy (a fyddai'n addas i deuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mwy) er mwyn cadw tai'n fforddiadwy ac y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl bolisiau mewn sefydliadau llywodraethol a sefydliadau a chwmnïau anlywodraethol yn caniatáu ar gyfer bywydau symudol.

Data:

78. Galwodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) am gasglu data'n well yn y maes hwn, yn enwedig mewn perthynas â phobl sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref (gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref heb hawl i arian cyhoeddus). Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector y gallai'r Cynllun fod yn gryfach o ran adlewyrchu'r llinell sylfaen a darparu canlyniadau a dangosyddion a fydd yn helpu i fesur cynnydd mewn perthynas â'r llinell sylfaen honno. Mae cwestiynu sylfaenol data amrywiaeth y boblogaeth tenantiaid / defnyddwyr gwasanaethau a chymharu hynny gydag amrywiaeth cymunedau lleol yn rhagofyniad angenrheidiol i sefydlu a yw'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn hygyrch i bob poblogaeth, ac a oes rhwystrau i fynediad yn bodoli. Dylai'r Cynllun hefyd ystyried a ddylai fod gofyniad i gyhoeddi data o'r fath. Mae angen dweud mwy yn y Cynllun ynghylch rôl y rheoleiddiwr tai cymdeithasol, sy'n cyhoeddi data amrywiaeth y bwrdd, ond dim data amrywiaeth arall. Mae'r rheoleiddiwr yn casglu ac yn mesur data bodlonrwydd tenantiaid a dylai'r data hwn gael ei ddadansoddi yn ôl elfennau amrywiaeth.

79. Mynegwyd dryswch gan awdurdodau lleol ($n = 2$) ynghylch sut y bydd y bwlch data yn cael ei lenwi i helpu i fynd i'r afael â phroblemau tai sy'n deillio o dlodi a diffyg cyffredinol o dai addas. Mae awdurdodau lleol yn cwestiynu sut y gellir ymgorffori'r amcan hwn i ddogfennau fel Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), sy'n dibynnu'n bennaf ar ffynonellau data am ddim er mwyn ei lunio. Y brif ffynhonnell, at ddibenion ystadegol, yw'r cyfrifiad. Fodd bynnag, mae argaeledd a chysondeb setiau data wedi bod yn broblem barhaus o ran yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa setiau data y mae disgwyl eu defnyddio. Rhaid i'r rhain fod yn gyfredol ac yn hygyrch os yw pob awdurdod lleol i'w defnyddio'n gyson.

80. Awgrymodd un sefydliad preifat ($n = 1$), ac un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) y byddai ymarfer parhaus fel Arolwg Tai Cymru, yn hytrach nag adolygiad syml o wahaniaethu ym maes tai, yn sicrhau y gall data ar hyn, ynghyd â monitro, gynhyrchu gwybodaeth gyson i lunwyr polisi i fynd i'r afael â hiliaeth. Awgrymwyd y dylai

Llywodraeth Cymru weithredu cynnig Arolwg Tai Cymru Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl – gyda chefnogaeth sawl sefydliad o'r sector, gan gynnwys Cartrefi i Bawb Cymru, CIH Cymru, a Tai Pawb.

Mae sylwadau eraill yn yr adran hon yn cynnwys:

81. Cyflwynwyd ystod o sylwadau eraill am yr adran hon. Roedd awdurdodau lleol ($n = 2$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) ac ymatebwyr unigol ($n = 2$) yn teimlo bod y Cynllun wedi methu â mabwysiadu hawl gyffredinol i dai digonol, neu i gydnabod effaith tlodi ar ofynion tai. Nodwyd hefyd y dylai unrhyw fenthyciad neu gynllun morgais ystyried y gallai llawer o deuluoedd fod yn derbyn budd-dal tai neu fudd-daliadau eraill.
82. Roedd rhai ymatebwyr yn siomedig bod yr adran hon o'r Cynllun wedi dechrau gydag arweinyddiaeth ac nid gyda pha mor wael yw tai cymdeithasol. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$) sylw at y ffaith nad yw'r Cynllun ar hyn o bryd yn gorchymyn y dylai pob bwrdd neu sefydliad, gan gynnwys darparwyr tai, sy'n derbyn unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru, adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu erbyn 2030. Wrth roi gorchymyn o'r fath, dylai ystyried natur wledig a gwahaniaethau demograffeg gwahanol rannau o Gymru, gan fod problem barhaus o recriwtio o boblogaeth fach iawn. Mynegodd un awdurdod lleol ($n = 1$) amheuan ynghylch a yw timau tai yn gallu cyflawni'r camau gweithredu yn yr adran hon o'r Cynllun.
83. Roedd pwyntiau eraill a fynegwyd gan awdurdodau lleol ($n = 2$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) ac ymatebwyr unigol ($n = 2$) yn cynnwys:
 - a. Dryswch ynghylch y diffyg cysondeb o ran amserlenni yn yr adran hon o'r Cynllun (h.y. mae gan y camau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr amserlenni ar waith, ond nid yw hynny'n wir o ran camau gweithredu eraill yn yr adran hon).
 - b. Yr angen am eglurder ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu wrth 'dymor canolig'.
 - c. Nad oedd y nodau a'r camau gweithredu yn yr adran hon o'r Cynllun yn ddigon cadarn a bod yn rhaid i ddeddfwriaeth fod yn sail i'r CGCH.
 - d. Rhwystredigaeth bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am arbenigedd ac eiddo deallusol (ar y materion sy'n wynebu'r rhai o gefndir ethnig leiafrifol yng Nghymru) ond heb fod yn talu am hynny. Mynegodd nifer o'r rhai a fynychodd ymgynghoriadau cymunedol sut yr oeddent wedi cael llond bol ar ymgynghoriadau a siarad am y problemau, a dim byd byth yn newid.

Incwm a Chyflogadwyedd:

84. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 17+$), sefydliadau ieuchyd ($n = 5$), sefydliadau cymunedol ($n = 4+$), awdurdodau lleol ($n = 7$), undebau llafur ($n = 3$), ymatebwyr unigol ($n = 11$), sefydliadau sector cyhoeddus ($n = 5$), un corff ariannu ($n = 1$) ac un sefydliad arall ($n = 1$) wedi cynnig sylwadau ar adran incwm a

chyflogadwydd y Cynllun. Derbyniwyd amrywiaeth o sylwadau yn manylu ar y newidiadau y mae angen eu gwneud wrth recriwtio er mwyn sicrhau cynrychiolaeth well o bobl ethnig leiafrifol mewn rolau penodol ac uwch yn ogystal â sut i wella gallu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i sicrhau cyflogaeth. Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn mynegi pryder bod gormod o ffocws ar sicrhau lle i bobl ethnig leiafrifol ar raglenni cyflogaeth a phrentisiaethau a dim digon ar gynnydd pobl ethnig leiafrifol yn y gweithle. Roedd barn gref am yr angen i nodi sut y bydd pobl ethnig leiafrifol yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag gwahaniaethu yn y gwaith.

Strategaeth / adnoddau / deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli:

85. Tynnodd un ymatebydd unigol (n = 1) sylw at y ffaith bod llawer o'r data gweithlu sy'n cael ei awgrymu yn y Cynllun eisoes yn wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru / y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi dechrau adolygiad o'r gofyniad hwn sawl blwyddyn yn ôl a bod angen nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.
86. Nododd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru adolygu a chryfhau'r dyletswyddau penodol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, er mwyn sicrhau bod Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog a chyflogaeth, yn adrodd ar gynnydd ac yn cyhoeddi data bwch cyflog. Yn yr un modd, gellid pennu gofyniad i Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio eu gweithgareddau caffael cyhoeddus i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb y mae'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi o dan ddyletswyddau penodol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf parhaus a di-syfl. Yn fwy cyffredinol, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio prosesau caffael cyhoeddus a thendro i hyrwyddo cydraddoldeb drwy ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr weithredu i fynd i'r afael â'u bylchau cyflogaeth ethnigrwydd eu hunain.
87. Cynigiodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod Llywodraeth Cymru yn rhoi cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd newydd, y strategaeth ailadeiladu, y Contract Economaidd, Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf. Dylai gweithredu a monitro rhaglenni newid mawr a buddsoddi gynnwys yr effaith ar gydraddoldeb hiliol (a chydraddoldeb rhwng y rhywiau a'r anabl) o ran cyflog a thriniaeth deg a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gynnwys anghydraddoldebau hiliol.
88. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Contract Economaidd i sbarduno twf cynhwysol ac ymddygiad busnes cyfrifol, gan gynnwys hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae angen ehangu cyrhaeddiad y Contract Economaidd i sicrhau mai dim ond ar sail 'rhywbeth am rywbeth' y cynigir cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, gyda disgwyl i sefydliadau ddangos eu bod yn cysoni eu harferion yn llawn â Safon(au) Gwaith Teg Cymru a'r agenda datgarboneiddio.

89. Dywedodd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) y byddai'n fuddiol i'r Cynllun greu cysylltiadau â'r camau gweithredu Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg.
90. Nododd sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dulliau mwy cydgysylltiedig o ymdrin â chyfleoedd prentisiaeth a lleoliadau ar draws darparwyr. Mae'r rhaglen Uchelgais Ddiwylliannol ddiweddar a ddatblygwyd gan Amgueddfa Cymru a phartneriaid eraill yn y sector diwylliannol yng Nghymru, dan arweiniad Creative and Cultural Skills yng Nghymru, yn darparu model traws-sefydliadol i gefnogi lleoliadau a allai fod yn ddefnyddiol.
91. Awgrymodd sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i gyflogwyr sy'n cysylltu â gwerthoedd llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys:
- Moderneiddio cymhwysedd diwylliannol a hyfforddiant amrywiaeth a sicrhau bod ffocws gwrth-hiliol gweithredol i gynnwys, sydd hefyd yn cwmpasu safbwyntiau pobl gyda phrofiad bywyd.
 - Sicrhau ymrwymiad i ddiogelwch seicolegol a chynwysoldeb; sianeli cyfathrebu ac atebolrwydd tryloyw.
 - Cael gafael ar ymyriadau seicolegol sy'n ddiwylliannol sensitif.
 - Dull cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran prosesau personél.
 - Ymchwil i nodi'r hyn sy'n gweithio i newid ymddygiad mewn ffordd barhaus.
 - Asesiad risg sy'n mynd ati i ystyried ieuchyd corfforol a meddyliol yr holl staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Recriwtio:

92. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) y dylid cael gwared ar ffurflenni cyfle cyfartal yn ystod y cam recriwtio am eu bod yn cyfrannu at anfantais hiliol, yn hytrach na gweithredu yn ei erbyn. Dylid defnyddio ceisiadau di-enw yn lle hynny.
93. Tynnodd un awdurdod lleol ($n = 1$) sylw at y ffaith nad yw pennu targedau ar gyfer recriwtio yn syml ac nid yw'n glir pwy fydd â llais wrth bennu targedau – mae angen mwy o eglurhad yma. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai gymryd mwy o amser i recriwtio os oes gan rai ardaloedd drosiant isel (gan nad yw swyddi'n cael eu hysbysebu'n aml) a heriau recriwtio megis prinder ymgeiswyr ar gyfer rolau penodol / swyddi anodd eu llenwi. O ganlyniad, efallai y bydd angen cynllun recriwtio a datblygu tymor hwy (gall hyn fod yn arbennig o berthnasol ar gyfer rhai meysydd blaenoriaeth megis swyddi gofal cymdeithasol ac addysgu). Rhaid ystyried taith y gweithiwr hefyd – mae angen cefnogi staff i ddatblygu a ffynnu ac mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, nid oes unrhyw grwpiau cymorth ethnig lleiafrifol, felly bydd angen amser ac adnoddau ar gyfer ymgysylltu ar lawr gwlad. Yn ogystal, roedd awdurdodau lleol ($n = 3$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) yn tynnu sylw at y ffaith na fyddai un targed ar gyfer cyrff sector cyhoeddus mewn perthynas â recriwtio staff ethnig lleiafrifol yn adlewyrchu'n gywir yr amgylchiadau unigol ar gyfer y cyrff hynny sydd â demograffeg amrywiol fach ac y

byddai'n bosibl felly y bydd rhai awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r targed.

94. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+), un ymatebydd unigol (n = 1), sefydliadau iechyd (n = 2) ac un awdurdod lleol (n = 1) y dylai'r Cynllun gynnwys cyfeiriad at yr angen am adroddiadau bwlch cyflog ethnigrwydd i gefnogi'r ymgyrch i asesu unrhyw 'fwlch gwobrwyo' o ran cyflogaeth.
95. Awgrymodd un corff ariannu (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso'r gwaith o gasglu a rhannu dysgu rhwng cyflogeion. Dylid annog cyflogwyr mwy i rannu arferion gorau a dysgu, yn enwedig o ran ailffocysu amrywiaeth ymgeiswyr a recriwtiaid. O ran recriwtio, nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) ac un sefydliad arall (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ymestyn rhwydweithiau'n rhagweithiol, dulliau recriwtio arloesol ac ymgysylltiad ymgeiswyr, targedu cadarnhaol a mabwysiadu dull llawer ehangach nag anfon hysbysebion at sefydliadau cymunedol.
96. Mynnodd un ymatebydd unigol (n = 1), un sefydliad trydydd sector (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) fod angen i gynghorwyr gyrfa mewn lleoliadau addysgol ac asiantaethau cyflogaeth fod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn croesawu ffocws ar effeithiolrwydd Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio o ran cyrraedd a chefnogi pobl ethnig lleiafrifol yn effeithiol, ond awgrymodd fod geiriad presennol y cam gweithredu: *"Gofynnir i Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio roi datblygiadau ar waith sy'n eu galluogi i gysylltu â grwpiau ethnig lleiafrifol mewn ffordd fwy effeithiol a pherthnasol,"* yn weddol ddiystyr. Dyma'r lleiaf y gellir ei ddisgwyl yn hytrach na bod yn ymrwymiad cadarn ar gyfer gweithredu a allai gyfrannu at wireddu Cymru Wrth-hiliol. Roedd un undeb llafur (n = 1) yn bryderus o weld cyfeiriadau yn y Cynllun i hybu rôl Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio, gan fod y ddau sefydliad wedi tynnu sylw at ddiffyg cynrychiolaeth o fewn eu gwasanaethau eu hunain yn y gorffennol. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) y gallai fod angen ailgynllunio cyngor gyrfaoedd a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar gyflogadwyedd i ddiwallu anghenion cymdeithas fwy amrywiol, a gweithwyr a dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.
97. Awgrymodd un ymatebydd unigol (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu rhaglen ar gyfer cysgodi rolau i'w gwneud yn fwy hygyrch i wahanol gymunedau ac i'r rhai hynny nad oes ganddynt brofiad. Awgrymodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) y dylid cynnal diwrnodau agored / fforymau agored i ganiatáu i ymgeiswyr posibl allu egluro beth fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus yn y swydd.
98. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) y dylai gwrth-hiliaeth fod yn rhan o gyfnod sefydlu pob cyflogai. Cynigiodd un undeb llafur (n = 1) fod angen cwestiynau gwrth-hiliaeth unochrog a gorfodol ar gyfer gweithleoedd i'w defnyddio wrth recriwtio, wedi'u cyd-ddrafftio gan Dasglu Hil y Prif Weinidog, Cyngor y Gweithlu, Undebau Llafur a Race Equality First. Rhaid cyflwyno cwestiynau gwrth-hiliaeth yn orfodol ar gyfer cyfweiliadau swyddi yn y sector cyhoeddus, gan fod y gweithlu yng Nghymru dros 1.4 miliwn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad oes unrhyw benderfyniadau

gwahaniaethol anghyfreithlon yn cael eu gwneud gan gyflogwyr datganoledig yn y sector cyhoeddus nac asiantaethau recriwtio yn y ffordd y maent yn defnyddio technoleg, o ystyried tystiolaeth bod gweithwyr yn dioddef gwahaniaethu a mathau eraill o annhegwch sy'n deillio o ddefnyddio deallusrwydd artifisial yn y gwaith.

99. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid dileu rhwystrau o fewn polisïau yn y gweithle, megis codau gwisg sy'n pennu steiliau gwallt, sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod Du.
100. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith bod dull marchnata rhaglenni cyflogadwyedd yn gallu creu rhwystr – mae rhaglenni cyflogadwyedd yn aml yn cael eu marchnata fel rhaglenni ar gyfer bobl heb sgiliau cyflogadwyedd, ond mae'r rhai sy'n ymuno â hwy yn meddu ar sgiliau a phrofiad sylweddol, a enillwyd mewn gwlad arall efallai. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwefannau a dulliau marchnata traddodiadol yn aml mewn ieithoedd anhygyrch. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) fod gan lawer o fudwyr Ewropeaidd gymwysterau sylweddol, ond nad ydynt yn gallu cael gwaith ar y lefel gywir am nad yw'r sgiliau ieithyddol ganddynt. O ran y nod o gasglu a dadansoddi data o raglenni cyflogadwyedd, tybiwyd bod hyn eisoes ar waith yn enwedig ar gyfer rhaglenni mawr fel Cymunedau am Waith a Cymru'n Gweithio, felly nid yw'n glir beth yw'r ymrwymiad ychwanegol, os oes rhywbeth o gwbl, a sut y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth.
101. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) y gallai fod angen cyllid neu grantiau ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Leol er mwyn cyflawni'r ail nod yn yr adran hon o'r Cynllun, sy'n ystyried Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol ac yn ymrwymo i adolygiad o gyflogadwyedd cymunedol erbyn 2023. Awgrymwyd bod angen dyrannu lefelau uwch o gyllid drwy raglenni cyflogadwyedd llywodraeth leol i fynd i'r afael â heriau a rhwystrau penodol sy'n bodoli mewn cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oherwydd ar hyn o bryd nid oes unrhyw gymhellion na dulliau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn buddsoddi mewn ymyriadau wedi'u targedu sy'n ymwneud â chyflogadwyedd cymunedol.
102. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) nad yw'n glir a ddylid newid nod: *“profi dulliau gweithredu cyflogadwyedd newydd mewn perthynas â gwrth-hiliaeth,”* i *“profi dulliau gweithredu gwrth-hiliaeth newydd mewn perthynas â chyflogadwyedd”*. Dylai'r camau gweithredu ar gyfer y nod hwn nodi y byddant yn cael eu cyflawni ar y cyd â grwpiau dan arweiniad lleiafrifoedd ethnig.

Cynyddu cynrychiolaeth pobl ethnig leiafrifol mewn rolau penodol a rolau uwch:

103. Tynnodd un ymatebydd unigol (n = 1) sylw at y ffaith bod angen cyfuniad o bolisïau i leihau anghydraddoldebau yn y gweithle i weithwyr ethnig lleiafrifol, a hynny'n targedu diwylliant sefydliadol yn ogystal â gwneud newidiadau gweithdrefnol. Dylai'r rhain gynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar: cynyddu cynrychiolaeth rifiadol yn y gweithle ac ymhlith swyddi uwch; gwella'r ffordd y mae amrywiaeth yn cael ei reoli; ac arferion cynhwysol. Mynnodd ymatebydd unigol arall (n = 1) fod angen

ymestyn y diwylliant o wrth-hiliaeth yng Nghymru i weithleoedd preifat hefyd, gan bwysleisio pwysigrwydd cyflogi pobl o liw mewn swyddi dylanwadol, yn enwedig yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mynnodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) hefyd y dylid ymestyn cymorth i fynd i'r afael â chyrhaeddiad gwahaniaethol ym mhob un o broffesiynau'r GIG. Roedd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) yn siomedig nad yw'r Cynllun yn manylu ar sut y mae hawliau gweithwyr mudol, sy'n aml wedi'u canoli yn y sectorau economaidd, gyda'r telerau ac amodau gwaethaf (e.e. gweithgynhyrchu bwyd a lletygarwch) yn cael ei ddiogelu.

104. Nododd un undeb llafur ($n = 1$) y blaenoriaethau ar gyfer nodau incwm a chyflogaeth. Y rhain oedd:

- a. Cau'r bwlch cyflogaeth ethnig leiafrifol.
- b. Mynd i'r afael â'r bwlch cyflog ar gyfer gweithwyr Du.
- c. Brwydro dros gyfle cyfartal parthed dyrchafiadau.
- d. Delio'n effeithiol ag Aflonyddu, Gwahaniaethu a Bwlio Hiliol.
- e. Hyrwyddo tegwch i weithwyr benywaidd Du.
- f. Negodi dros Gynrychiolwyr Cydraddoldeb i Undebau.
- g. Sicrhau triniaeth deg i weithwyr mudol.

Tynnodd yr undeb llafur hwn ($n = 1$) sylw hefyd at y ffaith ei bod yn hanfodol sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y Gweithle yn cael eu cynnal er mwyn cyflawni'r nod yn incwm a chyflogadwyedd. Tynnodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) sylw at y ffaith na ddylai'r ffocws fod ar recriwtio a chadw staff yn unig, ond sut mae rhywun yn gwneud cynnydd, felly byddai angen dadansoddiadau o bobl nad ydynt yn Wyn fesul tîm a band cyflog. Tynnodd un undeb llafur ($n = 1$) sylw pellach at y ffaith bod cynnydd mewn gwaith yn faes lle mae'r Cynllun yn eithaf gwan. Mae'n ymddangos bod y ffocws wedi'i bwysoli'n ormodol tuag at gael pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i mewn i gyflogaeth ac i raglenni prentisiaeth. Fodd bynnag, mae llawer o dystiolaeth i awgrymu bod profiadau i bobl pan fyddant mewn gwaith yn broblem sy'n llawn mor fawr, ynghyd â'r cyfleoedd i symud ymlaen i gyflogaeth well a chynaliadwy. Mae hyn yn gofyn am well gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i bobl yn y gweithle, ymwybyddiaeth cyflogwyr ac ymgysylltu â chydfargeinio a chanlyniadau Gwaith Teg i drafod lleihau rhwystrau mewn gwaith.

105. Er bod y Cynllun yn trafod canran uwch o unigolion Du ac Asiaidd mewn cyflogaeth,ynnodd un undeb llafur ($n = 1$) sylw at y ffaith nad yw hyn yn gwarantu boddhad mewn swydd na gwaith da. Roedd yn bwysig ystyried y ceisiadau hyn am fwy o amrywiaeth ochr yn ochr â sefyllfa bresennol gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Nid arallgyfeirio swyddi ansicr, o ansawdd isel, sy'n talu'n waeth, yw bwriad y gwaith hwn. Rhaid i unrhyw gynnydd yn y gynrychiolaeth o weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ddigwydd ochr yn ochr ag ymrwymiad i wella ansawdd y gwaith sydd ar gael. Felly, mae angen i fonitro ganolbwyntio ar *brofiad* y gweithiwr gymaint â mesurau syml o ansawdd a chanlyniadau swyddi.

106. Tynnodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) sylw at y ffaith y gallai fod angen cymorth ar sefydliadau i ddatgymalu polisïau, prosesau, gweithdrefnau, normau ac agweddau sy'n gweithredu o fewn ac ar draws sefydliadau.

107. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) y dylai'r Cynllun gynnwys nodau mwy penodol i gynnwys yr atebolrwydd sy'n cael ei ddisgwyl gan gyflogwyr o ran casglu data, a beth y maent yn mynd i'w wneud am y canfyddiadau. Mynnodd un sefydliad arall ($n = 1$) y dylid annog cyflogwyr (a gwneud hynny'n ofynnol os ydynt yn derbyn arian cyhoeddus) i adrodd yn dryloyw ar amrywiaeth ethnig eu gweithlu, eu targedau a sut maent yn perfformio yn erbyn y targedau hynny. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru annog pob cwmni a chyflogwr ar draws pob sector yng Nghymru i gynyddu amrywiaeth mewn swyddi uwch drwy: osod ac adrodd yn erbyn targedau; hysbysebu'n eang; defnyddio gweithredu cadarnhaol i hyrwyddo neu recriwtio ymgeiswyr amrywiol sydd yr un mor gymwysedig. Dylai Llywodraeth Cymru geisio mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd, gwahanu galwedigaethol a bylchau cyflogaeth, a mynd i'r afael â thriniaeth annheg, bwlio ac aflonyddu yn y gweithle. Er bod y Cynllun yn anelu at wella data gyda'r nod o adolygu / gwerthuso data, nododd un undeb llafur ($n = 1$) nad yw hyn yn ddigon rhagweithiol i gyflawni canlyniadau dymunol fel perfformiad gwell, boddhad gweithwyr ac ymwybyddiaeth o ddewisiadau gyrfa. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) fod angen casglu data o bryd i'w gilydd fel ei fod yn dod yn arfer safonol.
108. Mae un sefydliad iechyd ($n = 1$) yn awgrymu cyflwyno mecanwaith fel Rheol Rooney i annog amrywiaeth ar baneli cyfweld a rhanddeiliaid ar gyfer recriwtio uwch reolwyr.
109. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod gormod o ffocws ar hyfforddi'r gweithlu presennol, yn hytrach na thrawsnewid a gwneud y gweithlu hwnnw'n gynrychioliadol – dylid ychwanegu nod parthed sicrhau gweithlu mwy cynrychioliadol ar bob lefel ymhlith darparwyr a chomisiynwyr rhaglenni cyflogadwyedd. Dylai rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru dderbyn gorchymyn i sicrhau gweithlu cynrychioliadol lleol neu genedlaethol (pa un bynnag sy'n uwch) erbyn 2030 – mae hyn yn ddigon o amser i gyflawni a gweithredu hyn a bydd yn ysgogi gweithredu brys.
110. Tynnodd un undeb llafur ($n = 1$) sylw at y ffaith bod [un o bob tri phrentis yn cael eu talu o dan yr isafswm cenedlaethol cyfreithiol](#). Nid oedd eisiau i drywydd cynyddu amrywiaeth gael ei ddilyn heb fynd i'r afael hefyd â materion yn ymwneud ag ansawdd cyflogaeth.

Profiad bywyd o hiliaeth yn y gwaith:

111. Nododd sefydliadau cymunedol ($n = 3+$) ac un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) eu profiad o hiliaeth yn y gweithle. Dioddefwyd aflonyddu gan rai cyfranogwyr, a chafodd eraill eu trin yn annheg yn y byd academiaidd a'r GIG. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod ennill dyrchafiad i lefel uwch yn parhau i fod yn broblem, a hyd yn oed os yw dyrchafiad yn cael ei ennill, mae triniaeth annheg yn gallu parhau gyda llwyth gwaith a disgwyliadau gormodol. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn eu rôl. Mae rhai o'r profiadau a rannwyd gan bobl yn cael eu nodi isod:

- a. *“Mae gen i gywilydd dweud ond rwy’n fodlon dweud wrthy ch chi fy mod i wedi ymddwyn yn fwy Gwyn yn y gorffennol er mwyn cael swydd. Fe wnes i newid fy acen ac esgus mai fy ngweithgareddau cymdeithasol oedd mynd allan ar ôl gwaith a chwarae golff. Fe gefais i’r swydd ond dim dyrchafiad.”*
- b. *“Yn ystod cyfarfod Skype, gofynnwyd i ni gael munud o dawelwch i George Floyd. Ni wnaeth y gweision sifil ddal yn ôl, a datblygodd yn sefyllfa ‘mae pob bywyd o bwys’. Roedd pobl yn teipio pethau erchyll fel, “pam nad ydyn nhw’n gallu jyst gadael y wlad?” Fel rhywun sydd wedi’i eni a’i fagu yma, dydw i ddim yn gallu mynd yn ôl i rywle sy’n anghyfarwydd i fi. Hyd yn oed gyda’u henwau a’u swyddi wedi’u postio wrth ymyl eu sylwadau erchyll, wnaeth y rheolwyr ddim gwneud unrhyw beth. Ni fydd diwylliant byth yn newid hyd nes y bydd y rheolwyr yn ei newid.”*
- c. *“Rwy’n gweithio i’r Weinyddiaeth Amddiffyn, mae gan bawb yma naill ai gefndir milwrol neu maen nhw’n gefnogol iawn i’r ffordd honno o fyw, hyd yn oed fel sifiliaid. Felly, mae’n lle anghynnes iawn lle rwy’n gorfod esbonio dro ar ôl tro fy mod i’n rhan o’r drefn er fy mod yn wryw Mwslimaidd brown.”*
- d. *“Fel person sydd wedi cwyno o’r blaen am sylwadau am fy nghredoau crefyddol, dydy’r rheolwyr erioed wedi ymyrryd go iawn mewn difrif ac wedi gwneud penderfyniad lle cafodd fy safbwynt i ei ystyried. Dydyn nhw erioed wedi cwestiynu diwylliant y swyddfa. Byddai datrys y broblem hon wedi golygu cydnabod yr hiliaeth a’r anwybodaeth eang sy’n cwmpasu diwylliant y swyddfa.”*
- e. *“Mae’r cynllun gweithredu hwn yn ‘berfformiadol’ ac mae hynny’n bod yn garedig. Fel menyw Fwslimaidd sy’n gwisgo hijab, rwy’n cael fy niystyru’n gyson, ac yn cael fy ystyried yn berson o ddeallusrwydd isel neu’n cael fy ngormesu gan gyflogwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mewn lleoliadau cymdeithasol. Ac o bwysu a mesur y cwestiynau yn yr holiadur hwn, mae llawer iawn o waith i’w wneud cyn i faterion gael eu cydnabod yn briodol heb sôn am fynd i’r afael â nhw!”*
- f. *“Mae diffyg gweithlu amrywiol yn gallu’i gwneud yn anodd mynd i’r afael â hiliaeth mewn sefyllfaoedd o’r fath. Mae dioddefwyr yn cael eu gadael i esbonio pam eu bod nhw’n teimlo bod y sefyllfa’n hiliol i unigolion sydd ddim yn gallu deall eu safbwynt.”*

112. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) ac un undeb llafur (n = 1) mai’r hyn sydd ar goll o’r Cynllun yw diogelu a chefnogi gweithwyr ethnig lleiafrifol yn y gweithle. Er enghraifft, pe bai gweithiwr gofal iechyd yn gwrthod trin claf a oedd yn hiliol tuag ato, yna byddai angen ateb sawl cwestiwn pellach; pa amddiffyniadau sydd ar waith i alluogi’r gweithiwr gofal iechyd i wneud hyn? Sut mae hyn yn cyd-fynd â’u contractau proffesiynol a moesegol? Pwy sy’n penderfynu yn y pen draw ai hiliaeth yw hyn – y gweithiwr gofal iechyd, rheolwr neu fwrdd iechyd? Sut mae’r gweithiwr yn cael ei gefnogi pan fydd hiliaeth yn fater o farn? Yr awgrym oedd y dylid mynd i’r afael â’r materion hyn gyda chymorth undebau. Mynnodd ymatebwyr hefyd fod angen llinell gymorth 24/7 benodol ar gyfer riportio a chael cymorth.

Hyfforddiant:

113. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ei bod yn hanfodol sicrhau bod gweithlu'r sector cyhoeddus yn cael hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol, sy'n cael ei ddiweddarau drwy gydol eu gyrfaoedd. Dylai'r hyfforddiant hwn gael ei sicrhau, ei gyd-gynllunio a'i gyd-ddarparu gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Rhaid cynllunio mecanweithiau gwerthuso clir i ddangos tystiolaeth o effaith hyfforddiant o'r fath ar y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth ac ar ofalwyr di-dâl. Dylid ystyried cymhwysedd diwylliannol fel agwedd ar hyfforddiant sylfaenol ac addysg a dysgu parhaus, sy'n dwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran gwrth-hiliaeth / croestoriadedd. Mae'n rhaid ei wneud yn orfodol ar bob rhaglen gwaith cymdeithasol ac mewn addysg a hyfforddiant ôl-gymhwyso. Dylai darparu tystiolaeth o fod wedi ymgymryd â chymhwysedd diwylliannol ac addysg gwrth-hiliol (i gynnwys y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i arfer) fod yn ofyniad gorfodol ar gyfer y gofrestr gwaith cymdeithasol, er mwyn cael yr effaith fwyaf. Nodwyd bod addysgu gwrth-hiliaeth ar gwricwla gwaith cymdeithasol wedi bod yn ad hoc ar y gorau a heb ddigwydd o gwbl ar y gwaethaf. Anaml y bydd myfyrwyr ac ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn dod ar draws unrhyw addysg neu ddysgu ar hiliaeth gwrth-Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth dderbyn addysg gwrth-hiliaeth, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru newid hyn. Cefnogwyd pwysigrwydd hyn gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$), un sefydliad ieuchyd ($n = 1$), un undeb llafur ($n = 1$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$). Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod holl weithwyr y corff cyhoeddus yn cael hyfforddiant gorfodol, ac nad yw'r hyfforddiant hwnnw yn 'ateb cyflym', ynghyd â phwysigrwydd sesiynau atodol i sicrhau nad yw pobl yn dychwelyd i'w hen ffyrdd. Felly hefyd bwysigrwydd darparu hyfforddiant gan bobl â phrofiad bywyd a phwysigrwydd rhoi amser o'r neilltu i weithwyr fynychu hyfforddiant o'r fath. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru arwain ar ddarparu addysg a hyfforddiant yn y gweithle i ddatblygu dull cyffredin ar draws cyrff cyhoeddus e.e. gyda modiwl E-Ddysgu ar gyfer staff ac un arall wedi'i dargedu at gynghorwyr, hyd yn oed timau rhithwir yn hyfforddi / cynnal sesiynau hybu ymwybyddiaeth fel blaenoriaeth, a hyfforddiant wyneb yn wyneb, yn enwedig i reolwyr ac i'r rhai y mae e-ddysgu yn peri anhawster iddynt.
114. Nododd un awdurdod lleol ($n = 1$) y gellid cyfyngu ar gapasiti darparwyr hyfforddiant addas i gyflenwi os oes angen i bob corff cyhoeddus gyflawni'r un nodau. Bydd hyn yn golygu y bydd pob awdurdod lleol yn chwilio am arbenigedd gan sefydliadau fel y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), Cyngor Hil Cymru a Race Equality First – gyda'u hadnoddau eisoes yn gyfyngedig, a fyddant mewn sefyllfa i gefnogi pob corff cyhoeddus yng Nghymru?
115. Gofynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) a fydd colegau cwnsela preifat yn gymwys i dderbyn yr hyfforddiant ymwybyddiaeth gwrth-hiliaeth fel darparwr addysg?
116. Awgrymodd un undeb llafur ($n = 1$) y dylid cymryd cam gweithredu pellach ynghylch creu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer rhwydweithiau darparwyr. Gallai darparwyr Addysg Bellach a Bagloriaeth Cymru wneud mwy i ddangos eu hymrwymiad i hyn. Byddai'n ddefnyddiol ystyried recriwtio posibl wedi'i dargedu o

fewn asiantaethau gyrfaodd a'r darparwyr dysgu eu hunain, er mwyn cynyddu nifer y gweithwyr addysg proffesiynol o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol er enghraifft.

Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg:

117. Croesawodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) gynnwys arferion cyflogaeth gwrth-hiliol yn yr agenda gwaith teg, ond gofynnwyd am ymrwymiad clir i gynrychiolaeth ddigonol ymhlith 27 aelod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod strwythur arfaethedig cynrychiolwyr enwebedig yn peri perygl o gynrychiolaeth anghyfartal. Roedd yn bwysig bod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn adlewyrchu'r egwyddor bod pobl sydd wedi cael eu lleiafrifoli yn gallu siarad drostynt eu hunain, felly mae mwy o gynrychiolaeth gan y sector gwirfoddol yn hanfodol – ni all un cynrychiolydd o CGGC gwmpasu'r holl grwpiau y bydd yn ofynnol iddynt eu cynrychioli'n ddigonol. Roedd angen mawr hefyd am gynrychiolaeth o'r gweithlu nad yw'n undebol, sydd wedi ei lunio'n anghymesur gan weithwyr sydd wedi cael eu lleiafrifoli ar sail ethnig. Mae rhoi pob un o'r naw lle a ddyrannwyd ar gyfer y gweithlu i'r undebau llafur, er bod aelodaeth ethnig lleiafrifol undebau llafur o dan 9 y cant, yn eithrio'r gweithwyr hyn rhag datblygu'r agenda masnach deg a chaffael, ac mae'n achos o wahaniaethu'n anuniongyrchol ar sail hil. Mae'n bosibl na fydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn clywed ystod enfawr o leisiau os na fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei aelodau'n cynrychioli amrywiaeth Cymru yn well.
118. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, dywedodd awdurdodau lleol ($n = 2$) fod cyfle i integreiddio partneriaethau cymdeithasol a pholisïau gwaith teg o fewn y CGCH ac i atgyfnerthu cysylltiadau â chyrrff rheoleiddio. Dangosodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) mai ychydig o gynnydd a wnaed tuag at bartneriaethau amrywiol yn cydweithio ag awdurdodau lleol oherwydd diffyg ymddiriedaeth a chamddealltwriaeth ddiwylliannol. Pan ddaw'n fater o waith teg, dywedodd nad oes llawer o dystiolaeth ohono o ran y diaspora Du ac Asiaidd sy'n byw yng Nghymru. Mynnodd un undeb llafur ($n = 1$) y dylai strwythurau gwaith teg a phartneriaethau cymdeithasol fod â rôl benodol o ran ystyried cydraddoldeb. Dylai strwythurau cynghorau gynnwys swydd i wella craffu ar gydraddoldeb a gallu mynd ar drywydd y nod hwn heb orfod cydbwysio elfennau eraill.
119. Os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio prosesau caffael a chomisiynu cyhoeddus fel cyfrwng i sicrhau gwaith teg ac i sicrhau cydraddoldeb hiliol, nododd un undeb llafur ($n = 1$) y bydd contractau presennol sy'n rhedeg y tu hwnt i 2025 yn rhwystr i gyflawni'r newid angenrheidiol. Ni all cyrrff comisiynu newid telerau contract presennol yn unochrog, ac eto gall yr un contract beri i anghydraddoldebau barhau.
120. Mynnodd un undeb llafur ($n = 1$) fod angen pwysleisio pwysigrwydd cynnig gwaith teg yn gynnar ym mhob prosiect newydd. Bydd angen mwy o dryloywder a monitro parhaus er mwyn sicrhau bod safonau gwaith teg yn cael eu cynnal yn ymarferol. Roeddent hefyd yn gadarn o'r farn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru

weithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg yn llawn a sicrhau bod unrhyw swyddi gwyrdd newydd sy'n cael eu creu gan sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus yn bodloni Safon(au) Gwaith Teg Cymru. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sefydliadau sy'n derbyn cyllid fel rhan o unrhyw gynlluniau gwarantu swyddi ar gyfer yr adferiad ôl-Covid.

121. Esboniodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod yr anawsterau o ran dod o hyd i 'Waith Teg' ynghlwm wrth anawsterau o ran dod o hyd i waith gyda 'Chyflog Teg'. Holodd sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau atebolrwydd o ran datblygu strwythurau a gweithredu newid o fewn y sefydliadau a fydd yn gwella gwaith teg a chanlyniadau i grwpiau ethnig lleiafrifol? Gofynnwyd hefyd a fydd rhyw fath o gosb, wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu mewn arferion recriwtio, ac yn y gweithle, er mwyn sicrhau ymlyniad neu rwyd ddiogelwch i aelodau poblogaethau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol?

Entrepreneuriaeth:

122. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen cynyddu partneriaethau cymdeithasol sy'n gweithio ar draws cymunedau Du ac Asiaidd, er mwyn helpu i nodi cyfleoedd buddsoddi, a chefnogi ffyrdd newydd o gydweithio, hyrwyddo prosiectau dan arweiniad pobl Ddu ac Asiaidd a meithrin busnesau cymdeithasol. Byddai cymorth i fusnesau Du ac Asiaidd sy'n datblygu ledled Cymru yn helpu i feithrin hyder ac ymddiriedaeth. Byddai hefyd yn helpu i hyrwyddo arweinyddiaeth Ddu ac Asiaidd ac yn dylanwadu ar bobl ifanc sy'n byw yng Nghymru i ddilyn eu llwybr Addysg Bellach a gyrfa er mwyn hyrwyddo cadw'r gweithlu.
123. Roedd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) yn croesawu'r cyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaeth ond dywedodd y bydd llawer yn wynebu heriau yn ymwneud â chael gafael ar gyllid ac nid yw'r Cynllun yn manylu ynghylch mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n chwilio am waith:

124. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) y dylai Llywodraeth Cymru:
- Wella gallu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i gael gafael ar gyflogaeth a chaniatáu i geiswyr lloches weithio. Mae gwaith cyflogedig yn hanfodol o ran llwyddo i integreiddio ffoaduriaid newydd, hwyluso cynnydd o fewn eu bywydau eu hunain, cefnogi eu teuluoedd, cyfrannu at y gymuned Gymreig a gwella eu hiechyd meddwl a'u lles ar ôl cyfnod sydd wedi bod yn anodd yn ddieithriad. Mae pwysau ôl-bandemig ar y farchnad lafur wedi cynyddu rhwystrau i gyflogaeth, ac mae angen mynd i'r afael â nifer o faterion, gan gynnwys cyfeiriadedd a chymorth iaith, cynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a'r angen i gynnal a chynyddu'r cymorth presennol, er enghraifft drwy ReStart a Gyrfa Cymru. Mae llawer o ffoaduriaid yn meddu ar sgiliau, cymwysterau a phrofiad sylweddol, felly mae angen ymdrech arbennig i greu llwybrau gyrfa sy'n cydnabod ac yn datblygu ar y rhain. Dylid manylu ar gymorth cyflogaeth yn y Cynllun, gan gynnwys pa gymorth y mae modd ei

- gynnig o'r pwynt cyrraedd, yn enwedig gan mai dim ond tan ddiwedd y flwyddyn y caiff ReStart ei ariannu ar hyn o bryd.
- b. Rhoi cymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid ysgrifennu CV a datganiad personol i gynyddu eu gobeithion gael gwaith.
 - c. Rhoi gwybodaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid am y rhaglenni prentisiaeth sydd ar gael gan fod canfyddiad cyffredin mai dim ond ar gyfer pobl ifanc y mae prentisiaethau.
 - d. Ehangu'r rhaglen WARD (Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru), sy'n cefnogi meddygon i ailhyfforddi ar gyfer proffesiynau eraill wrth iddynt aros am benderfyniad ar eu cais am loches. Gallai hyn gynnwys rolau eraill yn y sector iechyd, adeiladu, addysgu, lletygarwch, TG, amaethyddiaeth a gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Bydd hyn yn galluogi pobl sy'n ceisio lloches i sicrhau profiad blaenorol a chymwysterau sy'n cael eu cydnabod, i ailhyfforddi ac i gofrestru gyda chyrff proffesiynol er mwyn gweithio cyn gynted â phosibl.
 - e. Darparu asesiadau sgiliau, canllawiau clir ar wirfoddoli a chyfeirio at gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli. Parhau i ddadlau o blaid codi'r gwaharddiad ar weithio i bobl sy'n ceisio lloches.
 - f. Darparu cymorth wedi'i dargedu'n well i hyrwyddo hunangyflogaeth a helpu busnesau sy'n cael eu harwain gan ffoaduriaid i ddechrau a thyfu.

Prentisiaethau:

125. Esboniodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) y bydd darparu cyfleoedd fel cynlluniau prentisiaeth i bobl ethnig leiafrifol yn eu helpu i gynyddu eu cyfleoedd. Tynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) sylw at y ffaith bod llawer o gynlluniau prentisiaeth ar gyfer pobl o dan 30 oed yn unig, fodd bynnag, gan fynnu bod angen i brentisiaethau fod yn hygyrch i bob oedran. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod yn rhaid monitro ansawdd prentisiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwella neu eu dileu os nad ydynt yn gweithio. Rhaid dwyn darparwyr prentisiaethau i gyfrif, gan gynnwys drwy ddulliau ariannu, drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt bennu a bodloni targedau ar gyfer gwell cyfranogiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a defnyddio darpariaethau gweithredu cadarnhaol i fodloni'r rhain.
126. Tynnodd un undeb llafur (n = 1) sylw at y ffaith ei bod yn bwysig bod y Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr i Brentisiaid, pan ddaw i ben, yn cael ei ddisodli gan gynllun cymhelliant sydd wedi'i anelu'n benodol at gymell recriwtio o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn mynd i'r afael â'r materion cyfredol gydag amrywiaeth mewn prentisiaethau.
127. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw at y ffaith bod diffyg yn aml o ran y data sy'n cael ei gasglu ar bobl hŷn yn y gweithlu, a bod angen i'r camau gweithredu yn y Cynllun ystyried hyn fel bod pobl hŷn yn rhan o'r ystyriaethau wrth adolygu effeithiolrwydd rhai meysydd gwaith, megis cael gafael ar brentisiaethau. Dylai'r CGCH fynd i'r afael â materion penodol y mae gweithwyr hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eu hwynebu pan fyddant mewn cyflogaeth ac yn chwilio am waith.

Byddai croeso i ymrwymiadau i ddarparu cymorth a hyfforddiant i gyflogwyr er mwyn gallu nodi bylchau yn well o ran cyfleoedd datblygu gyrfa, hyfforddiant ac ailhyfforddi i weithwyr hŷn, yn ogystal â chyfeiriad at profion canol oes i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu ystyried eu hopsiynau wrth iddynt fynd yn hŷn.

128. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) fod angen llwybr clir at gynnydd mewn prentisiaethau os ydynt am weithio. Mae angen hefyd am gynghorwyr gyrfaoedd sydd wedi'u hyfforddi'n briodol mewn ysgolion, colegau a chanolfannau gwaith, ac am fentoriaid cyflogaeth. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad oes gan rai rhieni wybodaeth am y rhaglenni prentisiaeth sydd ar gael, ac y dylent gael gwybod. Hefyd, mae rhai rhieni eisiau dewis gyrfa eu plant, yn hytrach na gadael i'r plant ddewis beth maent eisiau ei wneud. Mynnodd ymatebwyr fod yn rhaid addysgu rhieni am brentisiaethau, eu gwerth a'r hyn y gall eu plentyn ei gyflawni.
129. Hoffai ymatebwyr unigol ($n = 2$) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) weld y Cynllun yn cwmpasu sicrwydd o hygyrchedd i brentisiaethau. Er enghraifft, pe bai'n ffoadur, byddai'r unigolyn yn annhebygol o feddu ar gymwysterau safonol er mwyn cael gafael ar brentisiaethau. Mae angen cydnabod hyn, a rhaid caniatáu i bobl ddod â'u cymwysterau gyda nhw, yn hytrach na'u gorfodi i ailsefyll arholiadau, neu dderbyn cefnogaeth i gyrraedd y lefel sydd ei hangen i gael gafael ar brentisiaethau. Mae'n bosibl y bydd angen ystyried hyn yn unol â hyfforddeiaethau hefyd, ac a oes modd rhoi mesurau cadarnhaol ar waith.
130. Teimlai un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod un rôl Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn prentisiaethau yn gyfan gwbl annigonol, a chyfeiriodd at y ffaith nad yw maint yr her yma wedi'i ystyried yn llawn.
131. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod yn rhaid rhoi mwy o bwyslais ar annog pobl ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol i gael gafael ar hyfforddiant a phrentisiaethau yn sector creadigol Cymru a bod yn rhan ohono. Fodd bynnag, tynnodd un sefydliad arall ($n = 1$) sylw at y ffaith na ddylid cyfyngu llwybrau at gyflogaeth i brentisiaethau gan fod sgiliau trosglwyddadwy yn gyffredin, a bod arweinwyr mewn un maes yn gallu symud i faes arall, gan gyflymu'r newid. Nid yw prentisiaethau'n gweithio i bob sector (e.e. maent yn gyfyngedig iawn ac yn anodd gwneud cais amdanynt o fewn y diwydiannau creadigol, sy'n dibynnu'n helaeth ar weithwyr llawrydd, cwmnïau bach a gwaith sy'n seiliedig ar brosiectau).

Mae sylwadau eraill yn yr adran hon yn cynnwys:

132. Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau cyflogaeth erbyn 2030, tynnodd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) sylw at yr angen am gynnydd brys mewn sawl maes polisi arall er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon. Er mwyn mynd i'r afael â chyflogaeth a thegwch incwm, mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) fod angen i ni ddeall rhwystrau gwahanol grwpiau o ran cael gafael ar ofal plant, megis drwy ymgysylltu â chymunedau o fewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pobl yn cael eu dwyn i gyfrif – er enghraifft, enwi a chywilyddio lleoedd neu roi rhyw fath o gosb ar waith am

ddiffyg cydymffurfio megis tynnu cyllid yn ôl neu gyfyngu ar weithrediadau mewn rhyw ffordd.

133. Nododd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai'r Cynllun gydnabod y dysgu allweddol a'r arferion gorau y gall grwpiau sy'n helpu i ddarparu gweithgareddau cyflogadwyedd i'r boblogaeth Ddu ac Ethnig Leiafrifol eu darparu. Mae gan grwpiau fel y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig ddealltwriaeth ddwys o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol o safbwynt cael gwaith, ac mae hyn yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol fel tlodi, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd.
134. Awgrymodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) fod angen sylwadau mwy cytbwys ar brofiadau anfoddhaol grwpiau lleiafrifol mewn perthynas â'u rhwydweithio ag Undebau Llafur.
135. Dywedodd un undeb llafur ($n = 1$) fod y syniad o gronfa her cydraddoldeb yn gadarnhaol. Byddai ymatebwyr yn awyddus i weld mwy o fanylion am hyn, a sicrhau ei fod yn agored i bartneriaethau cyflogwyr / undebau / darparwyr / trydydd sector ac nid cyflogwyr yn unig.
136. Roedd un undeb llafur ($n = 1$) yn cytuno â'r ffocws newydd ar ddysgu teuluol ond tynnodd sylw at y ffaith nad oes llawer o gyllid ar gyfer rhaglenni dysgu teuluol. Mynnodd y byddai'n rhaid i unrhyw ymrwymiad arwain at gynnydd yn y cyllid ar gyfer y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned er mwyn caniatáu i raglenni gael eu sefydlu.
137. Nododd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) gamau cadarnhaol y gall llawer o gyflogwyr eu hybu megis: ymgorffori amcanion ar gyfer uwch arweinwyr yn eu hadolygiadau blynyddol; adolygu polisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban; adolygu strategaethau denu; esbonio disgwyliadau parthed ymddygiad gwrth-hiliol mewn arferion recriwtio a sefydlu; adolygu cyfleoedd dysgu a datblygu a sut mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo; sicrhau bod ystod eang o gyfleoedd prentisiaeth ar gael ac ymgysylltu â grwpiau lleol i ddeall y rhwystrau a sut i gynyddu hygyrchedd; adolygu data cyfredol i asesu digonolrwydd a sicrhau bod ffynonellau data cadarn er mwyn olrhain cynnydd; gweithio gyda grwpiau undebau llafur i sicrhau bod eu harferion gwaith, eu polisïau a'u gweithdrefnau yn amrywiol ac yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol o'u haelodaeth; adolygu hyfforddiant ymarferwyr gofal cymdeithasol a sefydlu ffynonellau data cadarn i olrhain cynnydd ac ymgysylltiad â grwpiau i gefnogi hyn; ymgynghori ac ymgysylltu ar recriwtio, cadw a chynnydd o fewn gofal cymdeithasol drwy ddatblygu llwybrau cynnydd gyrfa wedi'u cefnogi gan goetsio a mentora a data cadarn er mwyn olrhain; a defnyddio data i lywio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.
138. Awgrymodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai cyflogwyr y sector cyhoeddus, ochr yn ochr â chyflogwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector, weithredu'n benodol i ddatblygu cynhwysiant LGBTQ+ a thegwch hiliol, gan gynnwys: cael polisïau a gweithdrefnau clir i atal a mynd i'r afael â gwahaniaethu gwrth-LGBTQ+ a hiliol, gan gynnwys yr hyn a brofir gan bobl LGBTQ+ Du ac o liw; gweithredu hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant LGBTQ+ a thegwch hiliol i bob

aelod o staff (sy'n cynnwys yn benodol anghenion a phrofiadau penodol pobl LGBTQ+ Du ac o liw); meithrin cydweithrediad rhwng LGBTQ+ a rhwydweithiau staff sy'n benodol i hil; a darparu uwch arweinyddiaeth glir, drwy gyfathrebu mewnol ac allanol sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn cymunedau LGBTQ+ Du ac o liw, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynhwysiant LGBTQ+ a thegwch hiliol, a'r berthynas rhyngddynt.

Iechyd:

139. Mae sefydliadau iechyd (n = 16), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 5+), undebau llafur (n = 6), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 20+), sefydliadau cymunedol (n = 4+), ymatebwyr unigol (n = 8) ac awdurdodau lleol (n = 5) wedi cynnig sylwadau ar adran iechyd y Cynllun.

Polisi / Strategaeth ac Adnoddau Presennol:

140. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3) y dylai Llywodraeth Cymru roi'r camau gweithredu yn y ddogfen ganllaw 'Teithio at Iechyd Gwella' ar waith ym mhob practis gofal iechyd yng Nghymru.
141. Tynnodd sefydliadau iechyd (n = 3) sylw at y ffaith ei bod eisoes yn ofynnol i gyrff y GIG ddefnyddio data'r gweithlu wrth ddatblygu eu Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'u Cynlluniau Gweithredu, yn ogystal â gofyniad cyfreithiol i gynhyrchu Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Blynnyddol.
142. Mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer rhaglen bwrdd cyswllt lle gwahoddir pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol i ymuno â bwrdd iechyd am gyfnod o chwe mis, dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) y dylid dysgu o'r rhaglen beilot 'All Aboard' flaenorol na wnaeth o reidrwydd arwain at fwy o amrywiaeth ar y bwrdd. Awgrymwyd hefyd y bydd angen ailystyried y term 'Raglen Gyswllt i'r Bwrdd' er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl gan fod Aelodau Cysylltiol o'r Bwrdd eisoes yn nodwedd o Fyrddau Iechyd GIG Cymru.
143. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at Gynllun Ardystio Diverse Cymru, cynllun unigryw sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac yn sicrhau bod rheolwyr ynghlwm wrth y gwaith, bod iechyd meddwl pobl Ddu bob amser ar yr agenda mewn cyfarfodydd, a bod derbynfeydd bob amser yn groesawgar i bawb drwy gynnwys arwydd 'Croeso' mewn gwahanol ieithoedd i wneud y practis yn gynhwysol ac ati.
144. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y gefnogaeth werthfawr sy'n cael ei chynnig gan y trydydd sector; mae'r sector hefyd wedi tanlinellu'r angen i wasanaethau'r GIG fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio llawer mwy ar yr unigolyn, gyda mwy o bwyslais ar oresgyn rhwystrau ieithyddol a bylchau diwylliannol sy'n effeithio ar geiswyr lloches a ffoaduriaid.
145. Nododd sefydliadau iechyd (n = 4) fod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn wreiddiol yn cynnwys aflonyddu trydydd parti, a bod hynny wedyn wedi'i ddileu ynghyd â'r

ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae Cymru bellach wedi cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac mae ymatebwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ystyried canllawiau mewn perthynas ag aflonyddu gan drydydd parti gan y byddai hyn yn diogelu staff y GIG sy'n wynebu camdriniaeth drwy ganiatáu i gyrff y GIG wrthod gwasanaethau nad ydynt yn bygwth bywyd. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod Lloegr wedi cyflwyno canllawiau o'r fath ac y byddai hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i herio ymddygiad hiliol y cyhoedd tuag at staff y GIG. Dylai'r Cynllun gydnabod bod staff y GIG yn aml yn dioddef troseddau casineb yn y gweithle, ac y gall aelodau o'r cyhoedd ysgogi hyn. Mynnodd un sefydliad ieuchyd (n = 1) hefyd fod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac asesiadau effaith cysylltiedig yn adnodd defnyddiol i nodi camau gweithredu i nodi a lliniaru anfantais economaidd-gymdeithasol ac effaith andwyol ar gydraddoldeb. Ymhellach, mynegodd un ymatebydd unigol (n = 1), sefydliadau ieuchyd (n = 3), un sefydliad trydydd sector (n = 1), un undeb llafur (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) fod angen mwy o gefnogaeth ac amddiffyniad i weithwyr ethnig lleiafrifol sy'n profi hiliaeth, a bod angen amlinellu hyn yn fwy ymarferol yn y Cynllun. Mynnodd ymatebwyr y dylid cael polisi yn erbyn cleifion gyda chymhellion hiliol sy'n cam-drin / ymosod ar staff gofal ieuchyd; mae ymatebwyr yn teimlo'n rhwystredig nad yw'r Cynllun yn nodi'n benodol sut y bydd yn mynd i'r afael â hyn. Mae angen canllawiau ar gyfer staff GIG Cymru ar beth i'w wneud os ydynt yn dioddef neu'n dyst i hiliaeth, a'r camau sy'n agored iddynt. Dylai'r Cynllun gynnwys cam gweithredu i ddatblygu polisi GIG Cymru i ddelio â hiliaeth gan gleifion, gan gynnal dull dim goddefgarwch. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) hefyd fod yn rhaid ymchwilio'n well i brofiad gweithwyr ieuchyd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'i ddeall yn well – dywedodd 58.4 y cant o'u haelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu bod wedi profi hiliaeth amlwg neu gudd yn y gweithle. Mae un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn pryderu nad oes sôn am atebolrwydd wrth fynd i'r afael â bwlio hiliol neu wahaniaethu ar sail hil y mae staff y GIG yn eu profi. Mae angen gweithredu priodol i fynd i'r afael â phob honiad o wahaniaethu ar sail hil a throseddau casineb sy'n cael eu gwneud gan staff y GIG, a dylid eu cynnwys yn yr adran hon o'r Cynllun.

146. Dywedodd sefydliadau ieuchyd (n = 2) fod mewnbyn cyfyngedig partneriaid cyflenwi fel y bwrdd ieuchyd hwn i'r camau gweithredu ar gyfer ieuchyd a Chanlyniadau ieuchyd yn amlwg yn y gwahaniaeth penodol rhwng y camau gweithredu ar gyfer ieuchyd a'r rhai ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae hyn er gwaethaf cydnabod un system ieuchyd a gofal cymdeithasol yn Strategaeth Gweithlu 10 mlynedd Cymru, Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer ieuchyd a Gofal Cymdeithasol, Hydref 2020. Gellid ystyried bod y gwahaniaethau gweladwy iawn hyn, o'u gadael fel y maent, yn tanseilio'r dull newydd hwn. Enghraifft dda o hyn yw bod gwahaniaeth amlwg rhwng Gwybodaeth a Data am y Gweithlu a Data am y Gweithlu a Dadansoddi. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod datblygu'r Fframwaith Canlyniadau Integredig Sengl ar gyfer ieuchyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi cyfle i ymgorffori mesurau penodol sy'n cydweddu â chanlyniadau'r Cynllun, a sbarduno gweithredu ar amryw o lefelau, gan gynnwys drwy bartneriaethau rhanbarthol megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

147. Dywedodd un sefydliad ieuchyd (n = 1) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu argymhellion ymchwiliad Birthrights i

anghyfiawnder hiliol mewn gofal mamolaeth (2021). Nododd ymatebwyr hefyd y dylid cyhoeddi adroddiad ar gyflwr presennol tegwch mewn gofal mamolaeth yng Nghymru, ynghyd â thargedau gwella, a dilyn hynny gyda chynllun penodol.

148. Nododd un awdurdod lleol ($n = 1$) fod cynlluniau ardal ac asesiadau poblogaeth yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan bartneriaethau rhanbarthol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i nodi a diwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae'n rhaid i'r cynlluniau rhanbarthol hyn, ynghyd â Chynlluniau Lles Lleol, fynd i'r afael yn llawn â hawliau oedolion, plant a phobl ifanc i leisio eu barn a chadw rheolaeth dros eu bywydau ac i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain. Mae cynlluniau o'r fath bellach yn cael eu cynhyrchu ar y cyd, ond ar yr un pryd, mae angen cydnabod bod anghydraddoldebau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y trefniadau hyn y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, ac efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol i lywio'r newidiadau hyn. Mae angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd rannu adnoddau, gan gynnwys data, wrth werthuso pa mor effeithiol yw'r system gyfan o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau penodol a helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau lles.
149. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod polisi presennol Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r Amgylchedd Gelyniaethus sydd wedi ennyn anfri helaeth, polisi gan Lywodraeth y DU sy'n cynnwys codi tâl ar gleifion am ofal iechyd ar sail eu statws mewnffudo. Mae'r system hon yn achosi gwahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn pob grŵp ethnig lleiafrifol. Gallai Llywodraeth Cymru osod esiampl wych a hyrwyddo gwrth-hiliaeth drwy ollwng y polisi hwn, sy'n creu amheuaeth a drwgdybiaeth rhwng staff gofal iechyd a chleifion ac sy'n cynnal syniadau hiliol o fewn cymdeithas, gan arwain at waethygu gallu pobl sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd, a lleihau'r ffocws ar ddarparu gwasanaethau, gan amharu ar eu hansawdd a'u heffeithlonrwydd. Mae'r polisi hwn yn agor y drws i broffilio hiliol mewn gofal eilaidd ac yn cyfreithloni ymddygiad hiliol: Gall unrhyw unigolyn sy'n edrych neu'n swnio'n 'estron' fod yn agored i daliadau gofal iechyd ac mae'n debygol o gael ei gwestiynu yn unol â hynny. Mae hyn yn gyfystyr ag ymddygiad gwahaniaethol yn seiliedig ar ethnigrwydd ac mae'n cael ei hyrwyddo gan y polisi presennol. Mae'r polisi hwn yn arwain at ymddieithrio ac yn tanseilio'n ddifrifol yr ymddiriedaeth rhwng y claf a'r staff sy'n angenrheidiol ar gyfer gofal iechyd effeithiol. Mae pwysau ar staff gofal iechyd i nodi cleifion sy'n agored i daliadau yn creu awyrgylch o amheuaeth a thynnu sylw ymhlith staff, gydag effaith negyddol ar ansawdd gwasanaethau. Gallai cam fel hyn fod mor bwysig â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a byddai'r holl gamau gweithredu sy'n cael eu nodi yn y Cynllun mewn perthynas â Gofal Iechyd yn llawer mwy effeithiol gyda'r cefndir gwrth-hiliol newydd hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i wneud Cymru'n genedl noddfa – rhaid iddi brofi hynny drwy fod yn wirioneddol wrth-hiliaeth.
150. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, sydd wedi bod mewn grym ers bron i ddeng mlynedd, yn rhoi'r hawl gyfreithiol i bobl sy'n derbyn gwasanaethau eilaidd gael cynllun gofal cynhwysfawr. Mae'r Cynllun yn rhoi cyfle i drafod anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol – ochr yn ochr ag ystod o anghenion eraill, gan gynnwys tai, cyflogaeth ac ati, ac mae'n darparu lle i drafod materion sy'n ddiwylliannol benodol (dewisiadau iaith,

crefydd ac ati). Fodd bynnag, roeddent yn tynnu sylw at y ffaith nad yw cynlluniau gofal, yn ymarferol, wedi bod o safon uchel a'u bod yn gyfle a gollwyd i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion unigol cleifion. Fel blaenoriaeth, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynllun gofal a thriniaeth yn cael ei weithredu'n briodol a bod gwasanaethau sy'n unigol ac yn sensitif i anghenion penodol pob claf yn cael eu darparu. Dylai rhan o'r broses hon gynnwys cydlynwyr gofal hyfforddi i ddarparu cynlluniau gofal a thriniaeth effeithiol ac arfer cymhwysedd diwylliannol.

151. Cynigiodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y cymysgedd o ddeddfwriaeth: Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 gan ganolbwyntio'n benodol ar gleifion ag anghenion dwys o grwpiau ethnig lleiafrifol. Argymhellodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gychwyn proses o adolygu sylfaenol gyda chleifion a theuluoedd a gweithwyr proffesiynol i atgyfnerthu ei record gyda Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) a bod yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y grŵp penodol o bobl â salwch meddwl difrifol, sydd fwyaf tebygol o ddod yn destun i'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Dylid canolbwyntio'n benodol hefyd ar bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol sydd â salwch meddwl difrifol, gyda'r nod o atal yr angen am orfodaeth. Dylai adolygiad o'r fath gael ei arwain gan bobl â phrofiad bywyd, gan gynnwys cynrychiolaeth gref o gleifion a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.
152. Roedd un undeb llafur ($n = 1$) yn croesawu'r syniad o hyfforddiant gwrth-hiliaeth ond pwysleisiodd yr angen i ddefnyddio adnoddau sydd ar gael yn rhwydd, fel y canllawiau gofalu ar gyfer menywod ethnig lleiafrifol gan Zeenath Uddin i hwyluso hyfforddiant o'r fath, a bod modd ariannu hynny drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru.
153. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru:
- Sicrhau bod geiriadur data GIG Cymru yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu categorïau ethnigrwydd Cyfrifiad 2021, yn enwedig categorïau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
 - Gwella canlyniadau iechyd meddwl i leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a sicrhau bod digon o gymorth ar gael iddynt. Dylid adlewyrchu meysydd i'w gwella yng nghynllun a darpariaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Rhaid i strategaethau o'r fath hefyd fynd i'r afael â'r nifer anghymesur o uchel o bobl Ddu sydd dan orchymyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.
 - Sicrhau bod strategaethau iechyd y cyhoedd yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u monitro i gydnabod, deall a mynd i'r afael ag effaith ffactorau fel tlodi, tai gwael a diweithdra ar ganlyniadau iechyd anghymesur o negyddol i bobl ethnig lleiafrifol – gan gynnwys y Coronafeirws – a gweithredu i ddileu rhwystrau i grwpiau ethnig lleiafrifol sicrhau'r hawl i brofi'r safon iechyd uchaf bosibl.
154. Tynnodd un undeb llafur ($n = 1$) sylw at y ffaith y gallai byrddau iechyd eisoes fod yn gwneud gwaith da wrth gydlynw dysgu, ac mae gwendid canfyddedig yw eu bod yn ei chael yn anodd dysgu o arferion gorau / cynlluniau peilot. Byddai cydlynw

canolog gan Lywodraeth Cymru i gasglu arferion gorau a chanlyniadau da yn sicrhau cyfundrefn ddysgu gref a chyflwyno'r cynllun yn effeithlon.

155. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) ei bod yn bosibl dweud bod gan Lywodraeth Cymru neu nad oedd gan Lywodraeth Cymru yr ysgogiadau deddfwriaeth sylfaenol i orfodi safonau adrodd ar wahaniaethu ar sail hil a chydraddoldeb hiliol, ond y gallai, serch hynny, arwain y ffordd o ran sicrhau bod prosesau o'r fath yn cael eu hymgorffori'n eang a'u defnyddio'n effeithiol o fewn ei systemau ei hun; a'i gwneud yn ofynnol hefyd i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y GIG, allu dangos bod ganddynt brosesau adrodd cadarn ar waith fel rhan o archwiliad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ehangach. Gall rhywfaint o hyn ddod o fewn cwrmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
156. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid monitro effaith anghydraddoldebau iechyd, a rhaid gosod targedau realistig a chyraeddadwy er mwyn eu lleihau dros amser. Fel y galwyd amdano mewn adroddiad ledled y DU a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain yn gynharach eleni [2021], mae'r ymatebydd hwn am weld strategaethau trawslywodraethol cynhwysfawr yn cael eu datblygu i leihau anghydraddoldebau iechyd ar fyrder. Mae angen i gamau o'r fath fod yn rhan o ddull gweithredu cwbl gydgyssylltiedig ar draws polisi cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ymatebydd hwn am weld mwy o weithredu i fynd i'r afael â materion fel ysmegu, gordewdra, anweithgarwch corfforol a chamddefnyddio alcohol ochr yn ochr ag annog pobl i deithio'n llesol ac i wneud chwaraeon. Byddai'n hoffi gweld ymrwymiad yn y Cynllun hwn i fwrw ymlaen â'r gofyniad i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd fel y'u cyflwynwyd yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Gallai asesiadau o'r effaith ar iechyd chwarae rôl allweddol wrth helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, felly mae'n galw am gyflwyno'r rheoliadau penodol hyn yn awr a chytuno arnynt gyda rhywfaint o frys. Yn ei ymateb, mynnwyd bod yn rhaid i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ddigwydd law yn llaw â pholisïau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r holl ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys penderfyniadau cymdeithasol a'r rhai hynny a allai gael effaith anghymesur ar rai grwpiau o fewn cymdeithas.
157. Mae un undeb llafur (n = 1) wedi bod yn pwysu am sefydlu *Gwarcheidwaid Rhyddid i Siarad* yn debyg i'r rôl sydd eisoes wedi'i sefydlu o fewn y GIG yn Lloegr. Roedd yn croesawu'r ffaith bod hyn bellach yn cael ei ystyried drwy Fforwm Partneriaeth Cymru, gyda gweithgor. Cydnabyddir y rôl newydd hon yn benodol drwy gyfeirio ati yn y cynllun.

Gweithlu – staff ac arweinyddiaeth:

158. Tynnodd undebau llafur (n = 3) sylw at y ffaith bod eu haelodau wedi cynnig adborth bod diffyg cynrychiolaeth ethnig leiafrifol weladwy ym mhob rhan o uwch strwythurau'r GIG. Tynnodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) sylw at y ffaith bod 75 y cant o'u haelodau / ymatebwyr am weld gwasanaethau dan arweiniad pobl Ddu. Mynnodd sefydliadau iechyd (n = 2) fod yn rhaid i weithluoedd fod yn gynrychioliadol o ddemograffeg y gymdeithas sydd ohoni heddiw. Mynnodd

sefydliadau iechyd (n = 2) hefyd fod angen gwneud ymdrech fwriadol i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol: mae hyn yn cynnwys lleoliadau gwaith, gwirfoddoli, prentisiaethau, hyrwyddiadau, cynlluniau hyfforddi a honoraria. Rhaid i'r broses recriwtio fod yn deg ac yn gynhwysol. Roedd un o'r sefydliadau iechyd hyn (n = 1) yn croesawu'r ffaith fod Addysg a Gwellu Iechyd Cymru yn arwain y gwaith gyda phartneriaid i nodi cynlluniau a thargedau i gynyddu cyrhaeddiad a recriwtio o blith pobl â chefnidiroedd ethnig lleiafrifol fel rhan o strategaeth y gweithlu. Mynnodd y sefydliad iechyd hwn (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) hefyd y dylid ymestyn y cam gweithredu hwn i gynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eu hwynebu o ran cynnydd gyrfa. Byddai hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd mentora / hyfforddi, fel eu bod yn gyfartal ag eraill pan ddaw'n amser i fynychu cyfweiliad, gan eu helpu i gyflawni eu potensial yn y gwaith. Dylid sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn darparu cyfleoedd arsylwi a chysgodi gwaith i bobl ifanc 16-18 oed o deuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol difreintiedig, fel eu bod yn gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch cynnydd mewn gofal iechyd a chysiau cysylltiedig mewn sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, gan gynnwys ar gyfer deintyddiaeth, meddygaeth a fferylliaeth. Mynnodd sefydliad iechyd arall (n = 1) y byddai cynllun mentora hiliol sy'n darparu cymorth yn annog oedolion ifanc i ddilyn mwy o yrfaeod ym maes iechyd. Mynnodd sefydliad iechyd arall (n = 1) fod angen ymestyn gweithwyr allgymorth Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym mhob bwrdd iechyd i holl sefydliadau'r GIG, ac y byddai angen cyllid ar gyfer hyn hefyd.

159. Holodd un undeb llafur (n = 1) a yw'n iawn i'r Cynllun anelu at gael gweithlu GIG Cymru sy'n adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Efallai fod gan elfennau o'r gweithlu eisoes gyfran uwch o bobl ethnig leiafrifol, neu'r rhai y mae eu gwreiddiau y tu allan i'r DU, nag ymhlith y boblogaeth gyffredinol. Mae hyn yn rhywbeth a all amrywio mewn rhai rhannau o Gymru. Gallai geiriad yr ymrwymiad fel y mae arwain at ganlyniadau gwrthnysig os caiff ei ddefnyddio'n llythrennol, gan arwain at ostyngiad yng nghyfran y gweithlu sy'n dod o leiafrifoedd ethnig neu y mae eu gwreiddiau y tu allan i'r DU. O ganlyniad, mae ymatebwyr yn awgrymu y dylid diwygio'r geiriad ar gyfer y nod hwn yn unol â hynny.
160. Nododd sefydliadau iechyd (n = 2) ac un undeb llafur (n = 1) y dylai'r Cynllun nodi bod yn rhaid i bob bwrdd iechyd sicrhau hyfforddiant sefydlu lleol o ansawdd da ar gyfer pob dechreuwr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i'r maes, gan gynnwys: cyrchu lleoedd a systemau; adnabyddiaeth ffisegol o'r lleoliad; cyflwyniadau tîm; meithrin gwybodaeth am sut mae pethau'n gweithio; ymgyswrtio ag achosion / gweithdrefnau cyffredin; a deall disgwyliadau. Byddai gwneud Croeso i Ymarfer yn y DU yn rhan orfodol o sefydlu yng Nghymru, fel yng Ngogledd Iwerddon, yn gam hollbwysig o ran sicrhau bod dechreuwyr sy'n newydd i'r DU yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Dylai rhaglenni sefydlu wneud cyflogaeth yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol a sut i ddelio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag aflonyddu, bwlio, erledigaeth a hil. Mynnodd un sefydliad iechyd (n = 1) hefyd y dylai pob meddyg Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gael gafael ar fentor Hil a Chydraddoldeb, gwarcheidwad neu gyfaill. Roedd sylwadau eraill ynghylch y materion hyn yn cynnwys awgrym i helpu meddygon ethnig leiafrifol a graddedigion meddygol rhyngwladol i ddatblygu rhwydweithiau ehangach drwy raglenni mentora neu goetsio ffurfiol neu

ddigwyddiadau rhwydweithio anffurfiol gyda chydweithwyr ledled Cymru i annog ffurfio perthnasoedd mentora anffurfiol. Roedd un sefydliad iechyd ($n = 1$) hefyd eisiau gweld byrddau iechyd yn sefydlu cynlluniau i hyrwyddo a hwyluso mentora meddygon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn enwedig meddygon Affricanaidd a Charibiaidd Affricanaidd yng Nghymru, i gael eu mentora a'u hannog i ymgymryd â rolau arwain uwch. Ychwanegodd un undeb llafur ($n = 1$) y dylid darparu cymorth a sefydlu ychwanegol i staff sydd wedi graddio a / neu hyfforddi y tu allan i'r DU.

161. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y gellid cyflawni cyfleoedd gwelededd a datblygiad personol drwy gyhoeddi bylchau cyflog ar sail hil a chynlluniau gweithredu, yn yr un modd, i archwiliadau cyflog rhwng y rhywiau.
162. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) y dylid symud oddi wrth un llwybr fel swyddi'r GIG at ddibenion recriwtio, gan fod hynny'n gallu creu rhwystrau. Dylid cyflwyno paneli amrywiaeth ar gyfer recriwtio ar lefel uwch a dylai cyfweiliadau a phenodiadau ar y lefelau uchaf gael eu recordio a bod yn destun craffu gan baneli annibynnol. Er mwyn mynd i'r afael o ddifrif â gwahaniaethau ethnig o fewn y gweithlu, dywedodd un undeb llafur ($n = 1$) fod angen cael amrywiaeth ethnig mwy cynrychioliadol ymhlith arweinyddiaeth feddygol a sefydliadol o fewn y GIG yng Nghymru. Dylid cyflawni hyn ochr yn ochr â systemau recriwtio a hyrwyddo mwy tryloyw ym mhob sefydliad sy'n cyflogi meddygon i helpu i sbarduno newid diwylliannol ym mhob sefydliad.
163. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod yn rhaid i bob cyfarfod bwrdd gynnwys papur ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cyhoeddi nifer y cwynion, atgyfeiriadau pobl ethnig leiafrifol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac ati, ac y dylai pob Prif Weithredwr adrodd yr wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru yn chwarterol, yr un mor ddeddfol â'u hymddangosiadau gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Dylai'r saith Bwrdd Iechyd gyflwyno'r rhwydweithiau, a dylai strwythur hyn gael ei gynllunio a'i reoleiddio dan arweiniad Llywodraeth Cymru, nid y Byrddau Iechyd. Y pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ddylai ofalu am benodiadau i rwydweithiau'r byrddau iechyd lleol, nid y byrddau iechyd. Dylai rhwydweithiau gael adnoddau llawn a'u strwythuro'n briodol, a dylent droi'n Grŵp Cynghori'r Bwrdd Lleol i'r byrddau iechyd.
164. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod yna berygl y gallai penodi un hyrwyddwr amrywiaeth gael gwared ar y cyfrifoldeb Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfannol o ddwylo'r cadeirydd a'r bwrdd cyfan. Dylai fod yn glir mai rôl gynghori yw hon, a bod holl aelodau'r bwrdd yn parhau i fod yn gyfrifol am weithredu'r CGCH.
165. Dywedodd sefydliadau iechyd ($n = 2$) y dylai'r Cynllun orchymyn penodi Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, a diffinio'r rôl. Yn ogystal, mynnwyd bod angen diffinio rôl y penodiad o ran goruchwyllo tegwch wrth recriwtio, cyfran y cwynion ac atgyfeiriadau disgyblu yn erbyn staff ethnig lleiafrifol a monitro digwyddiadau sy'n gysylltiedig â hil. Y rheswm am hyn yw bod cynrychiolaeth uchel o feddygon ethnig leiafrifol mewn gweithdrefnau disgyblu, o fewn byrddau iechyd ac yn allanol. Mae islif o fwlio ac aflonyddu ar staff ethnig lleiafrifol yn bodoli, ynghyd â diffyg adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â hil. Tynnodd un undeb llafur ($n = 1$)

sylw hefyd at y ffaith bod ysgolion meddygol ledled y DU wedi bod yn tangofnodi digwyddiadau hiliaeth yn ddifrifol, gyda dim ond hanner yr ysgolion meddygol hyd yn oed yn casglu data ar gwynion myfyrwyr am hiliaeth ac aflonyddu hiliol. O ganlyniad, mynnodd ymatebwyr y dylai pob bwrdd iechyd adrodd faint o gwynion am hiliaeth y maent wedi'u derbyn a faint y maent wedi'u datrys.

166. Yn ogystal, roedd un undeb llafur ($n = 1$) yn pryderu'n fawr am y defnydd o gytundebau peidio â datgelu neu gyfrinachedd, sy'n cael eu defnyddio'n aml i gelu achosion o wahaniaethu ar sail hil o dan glogyn er mwyn cynnal parchusrwydd sefydliadol. Mae hyn hefyd yn digwydd hefyd gydag achosion o aflonyddu rhywiol. Mynnodd yr ymatebydd hwn y byddai'n ysgogiad pwerus i Lywodraeth Cymru gyfarwyddo ei holl adrannau a chyrrff cysylltiedig neu gyrff hyd braich – gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau arbennig – i wahardd eu defnydd mewn unrhyw achosion o wahaniaethu, ac yn yr un modd i ddeddfu neu gyfarwyddo awdurdodau lleol i wneud yr un peth. Yn ddiweddar, darparodd Swyddfa'r Cabinet gyfarwyddyd defnyddiol ar y mater.
167. Dywedodd un undeb llafur ($n = 1$) y dylid casglu a chyhoeddi data ar y defnydd o bolisiau Adnoddau Dynol fel bod unrhyw effeithiau anghymesur ar staff ethnig lleiafrifol yn cael eu hamlygu a'u datrys. Dylid ystyried i ba raddau y gallai prosesau disgyblu o fewn y GIG yng Nghymru, yn ogystal ag o fewn gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru, fod yn cael eu defnyddio'n anghymesur yn erbyn staff ethnig lleiafrifol. Dim ond drwy gyhoeddi data'n rheolaidd ar sut y mae prosesau o'r fath yn cael eu defnyddio y daw pethau fel hyn i'r amlwg. Dylai hyn gynnwys atgyfeiriadau ffurfiol gan feddygon i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a chynnwys y defnydd o bolisiau lleol o fewn y GIG yng Nghymru, megis y weithdrefn ddisgyblu *Upholding Professional Standards in Wales* sy'n berthnasol i staff meddygol a deintyddol. Awgrymodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylid ymgorffori ymrwymiad i gyfuno unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg o gyfweiliadau ymadael a gynhelir gyda staff sy'n gadael y GIG, fel bod modd dysgu gwersi a gweithredu arnynt. Nododd un sefydliad iechyd ($n = 1$) hefyd fod yn rhaid i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant lywio rhan o werthusiadau staff, adolygiadau datblygiad proffesiynol a strwythurau goruchwyllo er mwyn llywio a diwygio polisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol yn uniongyrchol.
168. Roedd un sefydliad iechyd ($n = 1$) yn croesawu'r defnydd o *Warcheidwaid Rhyddid i Siarad*. Dylai'r unigolion hyn weithio y tu allan i'r sefydliad a bod ar gael yn rhwydd i feddygon ethnig leiafrifol i fynd i'r afael â materion yn gynnar. Mae aelodau sefydliadau iechyd yn ei chael hi'n anodd mynegi materion a phryderon sy'n effeithio ar eu lles. Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r materion hyn fel arfer yn cael eu datrys yn dda. Gyda'r model *Gwarcheidwaid Rhyddid i Siarad* sydd ar waith yn Lloegr, nododd un undeb llafur ($n = 1$) fod y gwarcheidwaid yn weithwyr ymroddedig nad oes ganddynt reswm i bryderu am eu swyddi eu hunain os ydynt yn mynegi pryderon ar ran gweithwyr eraill gyda rheolwyr a staff ehangach. Mae rôl Gwarcheidwad Cenedlaethol hefyd wedi cael ei chreu, gyda'r grym i godi materion yn uniongyrchol gyda'r llywodraeth, gan gynnwys gyda gweinidogion. Roedd yn cefnogi mabwysiadu model tebyg yng Nghymru.

169. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid i GIG Cymru hyrwyddo cydraddoldeb i bob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol yn eu gweithleoedd. Awgrymwyd y gellid gwneud hyn drwy asesu data ar brofiad a chanlyniadau gwahanol grwpiau o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol – er enghraifft o ran cynnydd gyrfa, rolau arwain, cael gafael ar hyfforddiant a datblygiad personol, a thrwy ymgysylltu â staff i ddeall eu profiadau a'r rhwystrau maent yn eu hwynebu a datblygu canllawiau i gefnogi cyflogwyr i ddileu gwahaniaethu. Dylid hefyd ystyried materion cydraddoldeb hiliol fel rhan o'r adolygiad cyfnodol o bolisiau Adnoddau Dynol, drwy ymgynghoriad â staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynrychioli ystod eang o bobl â nodweddion gwarchodedig.

Hyfforddiant, addysg, datblygiad proffesiynol ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol:

170. Amlygodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau cymunedol (n = 2+) a sefydliadau iechyd (n = 3) fod yn rhaid i bob darparwr gofal iechyd gael hyfforddiant digonol ar normau diwylliannol allweddol / ymwybyddiaeth ddiwylliannol er mwyn gallu darparu gofal ar gyfer pob diwylliant, er enghraifft, drwy hyfforddiant Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru. Dywedodd 80 y cant o'r rhai a gymerodd ran mewn ymgynghoriadau sefydliadau cymunedol (n = 1+) ei bod yn bwysig bod staff y GIG yn cael cymorth gyda hyfforddiant gorfodol i wella'u dealltwriaeth o wrth-hiliaeth a chymhwysedd diwylliannol. Rhaid i groestoriadedd fod yn rhan o'r hyfforddiant hwn a dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys hanesion am brofiad bywyd. Tynnodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) sylw at y ffaith na ellir hyfforddi darparwyr iechyd ar gyfer dymuniadau / anghenion *pob* aelod o unrhyw grŵp ethnig. Yn hytrach, mae angen eu hyfforddi i ofyn ac yna cael yr adnoddau i ddarparu'r hyn sydd ei angen. Amlygwyd pwysigrwydd mynd i'r afael â'r hanfodion hyn yn yr adran hon o'r Cynllun, a nodwyd bod y diffyg manylder presennol yn fwlch hollbwysig. Nodwyd ymhellach y bydd canlyniadau'r Cynllun yn dibynnu'n helaeth ar y math o hyfforddiant, sut y bydd yn cael ei ddarparu, a phwy fydd yn monitro cynlluniau, arferion a chwynion. Tynnodd un sefydliad iechyd (n = 1) sylw at y ffaith mai'r unig ffordd y bydd hyfforddiant yn gweithio yw os bydd pobl yn barod i gymryd rhan ac ymrwymo iddo – nid yw'n ddigon gwneud hyn yn orfodol ac yn ymarfer ticio blychau yn unig. Mae angen archwilio manteision hyfforddiant a'u hadolygu'n rheolaidd i weld a yw'n cael ei wreiddio mewn arferion. Roedd ymatebwyr unigol (n = 2) yn adleisio hyn, gan ddweud bod llawer o hyfforddiant yn ceisio dysgu pader i berson. Os yw modiwl addysgu ar wrth-hiliaeth yn cael ei wreiddio o fewn hyfforddiant gorfodol, rhybuddiwyd y bydd hynny'n ymarfer ticio blychau arall.
171. Mynnodd sefydliadau iechyd (n = 2) fod angen modiwl hyfforddiant gwrth-hiliaeth 'annibynnol' oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd cynnwys gwrth-hiliaeth o fewn y modiwl 'Fy Nhrin yn Deg' yn ddigonol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith nad yw gorchymyn i'r holl staff ymgymryd â'r rhaglen e-Ddysgu yn cydweddu ag arddulliau dysgu staff nac anghenion cyrchu. At hynny, er y bydd hyfforddiant gwrth-hiliol yn hanfodol i lwyddiant, mynegwyd pryder ynghylch y galw cynyddol ar staff clinigol, yn arbennig, i gwblhau'r gofyniad cynyddol am hyfforddiant gorfodol, statudol ac arbenigol, a'r pwysau y mae hyn yn ei roi ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen. Gofynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) a fydd disgwyl i bartneriaid

(Helpu Cymru) fodloni'r un safonau a nodau gwrth-hiliaeth â'r GIG ac a fydd cyfle iddynt dderbyn yr un hyfforddiant? Nododd un sefydliad iechyd (n = 1) hefyd fod angen hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar aelodau paneli recriwtio hefyd.

172. Dywedodd un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod angen hyfforddiant ar weithwyr iechyd proffesiynol ar gyflyrau penodol sy'n fwy cyffredin mewn poblogaethau ethnig lleiafrifol, e.e. anemia cryman-gell, a chlefydau y mae gwahanol leiafrifoedd yn ei chael yn anodd delio â hwy oherwydd materion personol a seicolegol neu am nad yw eu diwylliant yn caniatáu iddynt siarad yn rhydd ac yn agored (e.e. cymorth iechyd meddwl, Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ac ati). Roedd un undeb llafur (n = 1) yn adleisio hyn, gan dynnu sylw at y ffaith bod Cymdeithas Feddygol Prydain wedi bod yn pryderu ers tro byd am y diffyg ffocws llwyr fwy neu lai ar gleifion a phoblogaethau ethnig lleiafrifol mewn addysgu clinigol. Rhaid mynd i'r afael ag amrywiaeth yn y cwricwlwm meddygol; mae newidiadau o'r fath hefyd yn rhan o greu amgylchedd dysgu cynhwysol, oherwydd dylai myfyrwyr a staff allu gweld eu hunain a'u cymunedau'n cael eu cynrychioli o ran pa fath o feddygaeth sy'n cael ei ddysgu, a sut.
173. Pwysleisiodd un undeb llafur (n = 1) bwysigrwydd hyfforddi bydwagedd i ddeall trothwyon poen mamau Du sy'n geni, a'r angen i weithredu ynghylch cyfradd marwolaethau uwch menywod Du yn ystod beichiogrwydd.
174. Tynnodd un undeb llafur (n = 1) sylw at bwysigrwydd modelau rôl, yn enwedig i fyfyrwyr meddygol ethnig leiafrifol, gan nodi ei bod yn bwysig sicrhau cynrychiolaeth briodol o ddinasyddion ethnig leiafrifol, ar draws y gyfadrann addysgu ac yng nghwricwlwm yr ysgol feddygol. Mae meddygon ethnig leiafrifol yn cael eu tangynrychioli mewn meddygaeth academiaidd a dylid mabwysiadu mesurau penodol i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn. Mewn perthynas â'r GIG yng Nghymru, mae angen dyrannu cyllid sylweddol a phriodol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG er mwyn sicrhau adnoddau priodol ar gyfer eu rhwymedigaethau o fewn y Cynllun, gan gynnwys unrhyw ofynion hyfforddi.

Sylwadau ar Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu:

175. Roedd sefydliadau iechyd (n = 4), un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) ac un undeb llafur (n = 1) yn croesawu cyflwyno'r Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu. Roedd y sylwadau'n cynnwys na ddylai'r Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu ganolbwyntio ar hil yn unig, ac y dylai ystyried croestoriadedd. Nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried effaith y Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu yn Lloegr er mwyn sicrhau bod y Safon a fabwysiadwyd yng Nghymru yn dysgu gwersi gan wledydd eraill y DU. Roedd sefydliadau iechyd (n = 4) ac un undeb llafur (n = 1) yn ymwybodol o brofiadau cydweithwyr yn Lloegr o ganolbwyntio ar fetrigau a thargedau, yn hytrach nag ymwybyddiaeth ddiwylliannol, chwilfrydedd a dealltwriaeth. Awgrymodd un sefydliad iechyd (n = 1) y dylid gweithredu'r hyn sy'n cyfateb i Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu yng Nghymru – Safonau Gwrth-Hiliol Gweithlu Cymru - i helpu sefydliadau'r GIG i bennu dangosyddion cydraddoldeb y gweithlu ac adolygu eu data'n barhaus yn erbyn y dangosyddion a bennwyd.

Awgrymodd sefydliad iechyd arall ($n = 1$) y dylid cyflwyno'r holl safonau a ddefnyddir yn GIG Lloegr yng Nghymru, yn hytrach na chyflwyno Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu. Roedd sefydliad iechyd arall ($n = 1$) am sicrhau bod yr holl weithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys fel bod y safon yn gwbl gynhwysol ac wedi'i chynllunio i dynnu sylw at yr anghydraddoldebau hiliol o fewn gwahanol adrannau o'r gweithlu gofal iechyd. Nododd y sefydliad iechyd hwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu Meddygol ar wahân sy'n benodol i feddygon – fel y maent wedi'i wneud yn Lloegr. Roedd o'r farn y byddai'r safon hon yn rhoi'r adnoddau i Lywodraeth Cymru fonitro cynnydd dros amser a thrwy hynny sicrhau bod y Cynllun yn addas ar gyfer y dyfodol.

176. Mynnodd un undeb llafur ($n = 1$) ei bod yn hanfodol bod undebau llafur yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu oherwydd bod gan undebau rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau cydymffurfiaeth drwy ddwyn cyflogwyr i gyfrif. Rhaid i'r Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu fod yn annibynnol, a rhaid cytuno ar bartneriaid cyflawni strategol drwy gonsensws. Mae gan yr ymatebydd hwn brofiad o weithio gyda Race Equality First ac mae'n credu y dylai'r Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu gael ei gyflenwi'n annibynnol ganddynt hwy. Mynnodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylai'r Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu fod yn berthnasol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a thynnodd sylw at y ffaith bod y Byrddau Iechyd hynny sydd â dangosyddion hil gwell fel cyflogwyr yn Lloegr yn tueddu i berfformio'n well yn gyffredinol. Dylai'r Safon Cydraddoldeb Hil i'r Gweithlu gael ei gyhoeddi ar wahân a bod yn destun ymgynghoriad llawn.

177. Awgrymodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylid sefydlu corff allanol sy'n archwilio polisïau gwrth-hiliaeth byrddau iechyd. Dylai fod yn annibynnol, fel bod meddygon yn gallu mynd y tu allan i'w bwrdd i geisio gwrandawriad teg, cyfiawnder a chynghor.

Data, Gwybodaeth, Ymchwil a Mesuriadau:

178. Dywedodd sefydliadau iechyd ($n = 3$) ac un undeb llafur ($n = 1$) fod yn rhaid casglu a chyhoeddi data ar ethnigrwydd y gweithlu, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl graddfa Agenda ar gyfer Newid. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylid ystyried y menopos mewn ymchwil i'r gweithlu ethnig leiafrifol. Dywedodd sefydliadau iechyd ($n = 2$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), un undeb llafur ($n = 1$) a sefydliadau'r trydydd sector ($n = 3$) fod angen ymyriadau wedi'u targedu i wella ansawdd a chipio data wedi'i ddadgyfuno a gweithio tuag at sicrhau bod gweithwyr proffesiynol (a chleifion) yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i ddarparu data ethnigrwydd a bod ganddynt well dealltwriaeth o pam mae angen yr wybodaeth, ac y bydd hynny'n arwain at fwy o ymddiriedaeth. Mae systemau casglu data cadarn yn gonglfaen hanfodol o ran datblygu Cymru wrth-hiliol. Heb fecanweithiau casglu data dibynadwy, mae'n anodd mesur maint y broblem na mesur effeithiolrwydd unrhyw ymyriad. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru orfodi casglu a chofnodi data ethnigrwydd fel rhan o systemau casglu data arferol. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylai data o'r fath gael ei gasglu a'i gyhoeddi fel mater o drefn wrth ddefnyddio polisïau Adnoddau Dynol, megis polisïau disgyblu. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen mesur newid drwy: edrych ar nifer y

lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio yn y GIG a chymharu'r nifer bresennol o leiafrifoedd ethnig â'r nifer mewn deng mlynedd, yn ôl nifer y digwyddiadau hiliol sy'n cael eu hadrodd, drwy gynnal arolwg ynghylch lefelau hyder pobl ethnig leiafrifol o ran mynd i ysbytai a meddygon teulu ymhen ychydig flynyddoedd, a thrwy adolygu cyflawniad y nod yn rheolaidd yn hytrach nag aros am ddeng mlynedd cyn adolygu'r canlyniadau.

179. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) ac un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylid annog arolygon blynyddol dienw ym mhob bwrdd iechyd yn gofyn i staff am eu profiadau o hiliaeth yn y flwyddyn honno. Awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i reoleiddwyr iechyd (y Cyngor Meddygol Cyffredinol / y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) gyhoeddi ystadegau bob blwyddyn gyda dadansoddiad yn ôl hil ac ethnigrwydd e.e. faint o bobl a gafodd eu hatgyfeirio. Os oes unrhyw wahaniaeth yn cael ei amlygu, rhaid gweithredu ar sail hil a dylid egluro'r rhesymau dros y gwahaniaeth.
180. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylid mabwysiadu dull ymyrryd cynnar gydag ymrwymiad i ddatrys gwrthdaro, a helpu cyflogwyr a gweithwyr i ddatrys gwrthdaro cyn iddo ddatblygu'n broblem fwy. Mae angen system gadarn ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hil, a honno'n system sy'n ymgorffori fframwaith llywodraethu priodol. Dylai'r data hwn gael ei gyhoeddi o leiaf unwaith y flwyddyn gan bob bwrdd iechyd a chyflogwyr gofal iechyd eraill.
181. Dywedodd sefydliadau iechyd ($n = 3$), un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) fod angen data iechyd cyhoeddus ychwanegol er mwyn deall yn well yr anghydraddoldebau iechyd sy'n cael eu profi gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a sefydlu llinell sylfaen. Mynnodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) ac un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru sicrhau bod data iechyd ac iechyd meddwl mewn perthynas â hil, ethnigrwydd ac anfantais groestoriadol yn cael ei gasglu, ei ddeall a'i ddefnyddio'n weithredol i sbarduno a llywio gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau ac i sicrhau bod canlyniadau teg wrth ddarparu gwasanaethau yn sail iddynt. Dylid darparu cyllid wedi'i dargedu er mwyn casglu data ansoddol a meintiol a gwerthuso cynnydd yn y meysydd hyn.
182. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy o waith ymchwil ar sut mae effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn effeithio ar blant (ac oedolion yn ddiweddarach) o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, er mwyn llywio gwasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol.
183. Tynnodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) sylw at y ffaith bod ansawdd data ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl ddigartref a gweithwyr rhyw yn arbennig o wael, gan ei gwneud yn anodd dangos tystiolaeth o'u problemau unigryw ac eithrio mewn dull anecdotaidd. Nid yw data ethnigrwydd yn cael ei gasglu na'i godio fel mater o drefn ym maes gofal iechyd, ynghyd ag a yw unigolyn yn weithiwr rhyw neu'n ffoadur / ceisiwr lloches neu'n ddigartref. O ganlyniad, dylid codio ethnigrwydd a ffactorau croestoriadol eraill mewn gofal sylfaenol ac wrth fynychu. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw pellach at yr angen i bobl deimlo'n dawel eu meddwl y bydd casglu data yn cael ei ddefnyddio i'w cefnogi yn hytrach na'i ddefnyddio yn eu

herbyn – tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod gan geiswyr lloches a ffoaduriaid bryderon sylweddol ynghylch y defnydd o'u gwybodaeth – mae'n bwysig i'r Cynllun sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus i rannu eu data.

184. Mewn perthynas â'r gweithredu ar ddata, nododd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1): *"Byddwn yn ystyried newidiadau i'r trefniadau ar gyfer casglu, monitro ac adrodd ar ddata ar iechyd y boblogaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith i gasglu ac adrodd ar ddata yn rheolaidd er mwyn meithrin dealltwriaeth a datblygu polisïau i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol teg,"* y gellid edrych ar hyn yn llawer ehangach e.e. gweithio tuag at gael data ar amrywiaeth o faterion megis cyflogaeth, tai ac addysg, sydd i gyd yn greiddiol o safbwynt iechyd y boblogaeth ac atal afiechyd.
185. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) nad yw'n glir pwy fydd yn arwain ar y cam gweithredu o dan Ddata a Deallusrwydd am Iechyd y Boblogaeth ac y byddai hyn yn fwy o weithredu tymor canolig i dymor hir.
186. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) fod casglu data priodol gan fyrdau iechyd a sefydliadau eraill y GIG yn allweddol i lwyddiant yr ymarfer hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd newydd o gasglu gwybodaeth o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Dylai arolygon lles ac ymarferion casglu data gael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru, yn annibynnol ar y byrdau iechyd. Dangoswyd hyn gan gyfraddau cwblhau adnoddau asesu risg COVID-19 Llywodraeth Cymru.
187. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys bod adroddiadau arolwg yn y dyfodol yn cynnwys dadansoddiad is-grŵp o'r gwahanol grwpiau ethnig lleiafrifol. Er bod problemau cyffredin, mae gwahaniaethau trawiadol yn yr heriau sy'n cael eu hwynebu gan wahanol is-grwpiau lleiafrifol. Er enghraifft, datrys cwynion yn llwyddiannus ar lefel leol.
188. Mynnodd un sefydliad iechyd (n = 1) y bydd y nod o ran monitro gan y Cyd-Dîm Gweithredol yn dibynnu ar y data a dderbyniwyd ac mae'n bwysig bod y data hwn yn cael ei gasglu'n gyntaf gan sefydliadau iechyd. Mae angen cefnogaeth genedlaethol ar gyfer camau gweithredu penodol o ran ansawdd yr wybodaeth honno, ac mae hyn i'w weld yn wan.
189. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) nad yw coladu data yn unig yn ddigon. Nid yw'n bosibl cyflwyno data yn ôl ar ffurf drych – mae angen ei ddatgymalu ac mae'n rhaid iddo fod yn benodol ac yn gysylltiedig â strategaeth. Rhaid ei rannu ar sail ethnigrwydd er mwyn sicrhau ymgysylltu a dealltwriaeth lawn. Ni ddylid caniatáu i gyflogwyr guddio y tu ôl i gronfeydd sylweddol o ddata unffurf.

Iaith, Cyfathrebu a chael gafael ar Wasanaethau:

190. Amlygodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 4), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), sefydliadau iechyd (n = 2) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) fod rhwystrau ieithyddol (ynghyd â gwahaniaethau diwylliannol) yn atal pobl ethnig leiafrifol rhag

cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd ac ymgysylltu â hwy a dal ati i dderbyn triniaeth. Nodwyd bod yn rhaid gwella hygrychedd, a rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau defnydd rhad ac am ddim o wasanaethau cyfieithu ar y pryd, a gwell argaeledd, gan gynnwys gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau nad ydynt yn rhan o'r GIG.

191. Amlygodd cyfranogwyr o ymgynghoriadau sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) brofiadau negyddol cyffredin mewn perthynas â rhwystrau iaith a chyfathrebu â staff y GIG. Ni chynigiwyd cyfieithydd ar y pryd na chyfieithydd i unrhyw gyfranogwyr ar gyfer eu hapwyntiad, gan olygu bod yn rhaid i gyfranogwyr fynd ag aelod o'r teulu gyda nhw er mwyn cyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at sut yr oedd hyn yn esgor ar faterion preifatrwydd a chyfrinachedd, yn enwedig yn achos iechyd meddwl.
192. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod yn rhaid i ddarpariaeth iaith fod yn orfodol ym mhob cyswllt â gwasanaethau gofal iechyd, a rhaid dangos yn glir bod gwasanaethau gofal iechyd yn rhagweithiol o ran cynnig hynny.
193. Tynnodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) sylw at y ffaith bod gweithwyr iechyd proffesiynol, er gwaethaf canllawiau proffesiynol hirsefydlog, weithiau'n petruso rhag gweithio ochr yn ochr â chyfieithwyr ar y pryd proffesiynol, neu'n cael y berthynas hon yn heriol, gyda llawer yn 'bwrw drwyddi' yn Saesneg (neu iaith brif ffrwd arall) gyda chymorth cyfieithwyr ad hoc, megis ffrindiau a pherthnasau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen cyfeirio'n benodol yn yr adran hon at fynediad at wasanaethau ar gyfer cymunedau amlieithog, gan gynnwys yr holl waith lleferydd ac iaith. Nodwyd y dylai gweithwyr iechyd proffesiynol sicrhau bod cyfieithwyr ar y pryd proffesiynol yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar asesu, gan ddarparu cyngor, asesu, ymyrryd a chyfarfodydd amlddisgyblaethol, ac ynghlwm wrth benderfyniadau a wneir mewn partneriaeth â'r cleient a'r teulu, gan ddyrannu o leiaf ddwywaith yr amser ar gyfer cleientiaid amlieithog. Lle mae gwasanaethau â lefel uchel, h.y. 5-10 y cant neu fwy o bobl amlieithog yn y boblogaeth leol, dylid ystyried datblygu gwasanaeth amlieithog arbenigol.
194. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i sicrhau bod y gallu i gael gafael ar wasanaethau ac apwyntiadau ar gyfer poblogaethau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cael eu hystyried ym mhob un o'u harolygiadau hefyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd fynd i'r afael â'r rhwystrau parhaus y mae grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hwynebu wrth gofrestru gyda meddygon teulu, gan gynnwys drwy sicrhau bod gwasanaethau ac apwyntiadau ar gael i boblogaethau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn holl arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru.
195. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw at y ffaith nad yw cyfieithu ar ei ben ei hun yn ddigon, gan dynnu sylw at y ffaith y gall fod angen ystyried dealltwriaeth ddiwylliannol wahanol o farwolaeth a marw hefyd. Lle nad oes gwasanaethau priodol yn bodoli, dylid gwneud gwaith i ddatblygu atebion sy'n ymatebol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Tynnodd sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) sylw hefyd at yr angen am fwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol o ran yr opsiynau

bwyd sydd ar gael i gleifion ethnig lleiafrifol; amlygwyd bod hyn yn cysylltu â rhwystrau ieithyddol, wrth i gleifion ei chael hi'n anodd cyfleu eu gofynion deietegol.

Ymgynghori, Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Gymunedol:

196. Amlygodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) fod diffyg cyfeiriad at gysylltu ag asedau ac adnoddau cymunedol presennol, er enghraifft grwpiau a sefydliadau sydd â chylch gwaith i ymgynghori neu hybu llais pobl â phrofiadau bywyd o anghydraddoldeb hiliol. Nid oedd sôn am weithio gyda grwpiau amrywiol i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyflwyno a bod rhwystrau i fynediad at wasanaethau yn cael eu dileu a'u deall. Mae angen mwy o bwyslais ar ddatblygu systemau sy'n cefnogi clywed lleisiau pobl sydd wedi cael eu lleiafrifoli (gan gynnwys pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr) fel mater o drefn. Mynegwyd pwyntiau tebyg gan un undeb llafur (n = 1), a nododd fod angen gwell cyfathrebu â phoblogaethau ethnig lleiafrifol fel bod gwell ymwybyddiaeth o'r ffordd i asesu gofal iechyd drwy ddull cyflymach a mwy rheolaidd. Nododd un sefydliad iechyd (n = 1) bwysigrwydd rhannu negeseuon a gwasanaethau iechyd allweddol gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) y dylid ceisio barn ar sail fwy ffurfiol gan sefydliadau eraill, megis Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru, BAWSO, Cyngor Hil Cymru ac ati, sy'n cynrychioli cymunedau ethnig lleiafrifol, er mwyn cael adborth ar wasanaethau mynediad a chefnogi gwella gwasanaethau. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Da, ymhlith eraill, yn cyflogi gweithwyr allgymorth ar gyfer gwaith ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol a bod y dull hwn yn dangos addewid cychwynnol.
197. Dywedodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) fod angen proses syml ar ddarparwyr iechyd i ofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau sut y gellir diwallu eu hanghenion iaith, cymdeithasol a diwylliannol pan fyddant yn dod i gysylltiad â gwasanaethau iechyd.
198. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) y dylid ymgysylltu â grwpiau ethnig lleiafrifol a mudwyr cyn treialu ymyriadau i asesu'r hyn sy'n gweithio i wella eu profiadau gofal iechyd, ac y dylai hyn fabwysiadu dull croestoriadol sy'n ystyried nodweddion eraill fel rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Dylai hyn gynnwys cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl a dylid ei fabwysiadu hefyd i gefnogi staff ethnig lleiafrifol yn y GIG sy'n meddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig. Tynnodd sefydliadau iechyd (n = 3) sylw hefyd at y ffaith bod angen hybu ymwybyddiaeth o'r broses Gweithio i Wella o fewn grwpiau ethnig lleiafrifol lleol, sef y drefn o ddelio â phryderon a fynegwyd am y GIG gan gleifion, gyda llenyddiaeth ar gael mewn ieithoedd lleiafrifol lleol.
199. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) y dylid darparu digon o amser staff fel bod modd ymgynghori'n briodol gyda grwpiau sy'n cynrychioli staff ethnig lleiafrifol, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli'r croestoriad rhwng gweithwyr o leiafrifoedd ethnig a

gweithwyr â nodweddion gwarchodedig eraill, a'u cynnwys wrth roi camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun ar waith. Rhaid i leisiau staff ethnig lleiafrifol gael eu clywed yn briodol drwy'r holl brosesau sydd ar waith er mwyn cyflawni nodau a chatau gweithredu'r Cynllun.

200. Dywedodd un sefydliad ieched (n = 1) fod angen mwy o drafodaethau gyda byrddau ieched er mwyn os yw adran ieched y Cynllun yn mynd i lwyddo.

201. Wrth ystyried y pwynt gweithredu *"Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd i wella mynediad cynnar at wasanaethau ieched meddwl a dementia i boblogaethau ethnig lleiafrifol,"* mynnodd un sefydliad ieched (n = 1) y dylid ymgynghori â'r gweithlu ieched a gofal cymdeithasol, gan gynnwys aelodau o Goleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Ieched meddwl:

202. Roedd un ymatebydd unigol (n = 1) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) yn pryderu am y diffyg camau gweithredu penodol ar ieched meddwl yn y Cynllun. Dywedodd fod angen i'r Cynllun bwysleisio ieched meddwl yn adran ieched y Cynllun, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth gydradd i ieched corfforol ac ieched meddwl. Dywedodd un sefydliad ieched (n = 1) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylid ei gwneud yn gliriach bod gallu teg i gael gafael ar wasanaethau ieched meddwl a chanlyniadau ieched meddwl yn rhan allweddol o'r nodau a'r camau gweithredu o dan yr adran ieched. Er enghraifft, roedd pryder ynghylch y datganiad canlynol sy'n defnyddio'r term "ystyried": *"Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried beth yn rhagor y mae angen ei wneud..."* gan awgrymu bod angen cryfhau'r term hwn, a bod angen i'r Cynllun amlinellu camau gweithredu pendant yn hytrach na meysydd i'w hystyried a'u harchwilio ymhellach, o ystyried y bydd llawer o wasanaethau'n canolbwyntio ar adfer wedi'r coronafeirws ac na fyddant efallai'n eu blaenoriaethu heb gyfarwyddyd ac iaith glir sy'n egluro bwriadau Llywodraeth Cymru. Tynnodd un sefydliad ieched (n = 1) sylw hefyd at y ffaith nad yw'r dull y mae'r Cynllun yn ei fabwysiadu o ran cyflyrau ieched meddwl yn canolbwyntio'n benodol ar adferiad.

203. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) fod yn rhaid gwella canlyniadau ieched meddwl i leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a bod gwir angen i ddigon o gymorth fod ar gael i'r grwpiau hyn. Ychydig iawn o geiswyr lloches a ffoaduriaid yn arbennig sy'n gallu cyrchu'r rhyngwyd, ac mae llawer yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar ffynonellau cysylltiadau cymdeithasol, cymorth a chynghor. Yn ogystal, mae aros am benderfyniadau ar eu ceisiadau am loches yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ieched meddwl. Rhaid i'r Cynllun sicrhau bod gwasanaethau ieched meddwl priodol wedi'u hariannu'n ddigonol, o ansawdd uchel ac sy'n briodol i ddiwallu anghenion pob grŵp ethnig a phoblogaethau mudol, yn seiliedig ar asesiad cadarn o angen.

204. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) fod angen adnoddau pendant ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd i helpu i fynd i'r afael â phroblemau ieched meddwl sy'n deillio o hiliaeth ac y gellir eu cysylltu â hunaniaeth. Dywedodd un

sefydliad iechyd (n = 1) fod yn rhaid sefydlu Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaethau Ethnig Lleiafrifol o fewn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gyd-gynhyrchu strategaethau a champau gweithredu. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod angen buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf am y gwasanaethau hyn, gan gynnig gwasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol ac ystod eang o wasanaethau eraill megis cyngor ar dai, cymorth cyflogaeth ac ati.

205. Tynnodd un sefydliad iechyd (n = 1) sylw at y ffaith bod pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol mewn mwy o berygl o gael eu cadw dan orchymyn seiciatrig anwirfoddol. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith bod pobl Ddu bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu cadw dan orchymyn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl na phobl Wyn. Mae angen datblygu model gwasanaeth iechyd meddwl newydd ar gyfer pobl ethnig lleiafrifol sy'n adlewyrchu eu cymuned o ran staffio, rheoli a diwylliant ac sy'n trawsnewid profiad cleifion, gyda chymorth sy'n seiliedig ar adferiad yn lle gorfodaeth arferol. Mae angen i'r Cynllun flaenoriaethu cleifion iechyd meddwl ethnig lleiafrifol sydd â'r anghenion mwyaf – y rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn destun y Ddeddf Iechyd Meddwl ar hyn o bryd a cholli eu hawliau. Dylai cleifion ag anghenion dwys gael blaenoriaeth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol fel eu bod yn derbyn y driniaeth briodol cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y system atgyfeirio yn caniatáu mynediad ar fyrder at wasanaethau cymorth arbenigol i'r rhai â salwch meddwl difrifol, ac ar yr un pryd yn sicrhau atgyfeiriad cadarnhaol i bawb sy'n profi problemau iechyd meddwl lefel is. Awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ei Deddf Iechyd Meddwl ei hun gyda tharged o ddeddfu yn ystod y ddwy flynedd nesaf – mae angen i gydraddoldeb fod wrth wraidd y gyfraith hon yng Nghymru. Byddai hyn yn rhoi cyfle i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r anghydraddoldebau sy'n wynebu cleifion iechyd meddwl o grwpiau ethnig lleiafrifol yng nghyd-destun Cymru.

Amserlenni a Thargedau:

206. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) y gallai fod angen ailystyried meini prawf y fanyleb a'r ymrwymiad amser ar gyfer Aelodau Annibynnol er mwyn gwneud cyfiawnder â'r fenter hon.
207. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) y dylid newid yr amserlen o dair blynedd ar gyfer gweithredu Corff Llais y Dinesydd a'i droi'n gam gweithredu tymor byr, gan fod angen i'r gwaith hwnnw ddigwydd yn fuan ac yn sydyn. Yn rhai rhannau o'r Cynllun, mae targed tymor byr yn cael ei adael yn benagored ac weithiau mae'n dweud, "o fewn 18 mis". Byddai'n ddefnyddiol i bob targed fod mor glir.
208. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) y byddai hefyd yn ddefnyddiol cael amserlen arfaethedig ar gyfer pryd y bydd disgwyl i gyrff eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru fodloni'r gofynion er mwyn gallu blaengynllunio.

Rhwystrau i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a'r canlyniadau ym maes iechyd:

209. Dywedodd un sefydliad iechydd ($n = 1$) ac un undeb llafur ($n = 1$) y gallai'r pandemig parhaus a'i ganlyniadau fod yn rhwystr i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu yn yr adran hon o'r Cynllun, gan fod gwasanaethau iechydd yn parhau i fod o dan bwysau aruthrol.
210. Dywedodd un sefydliad iechydd ($n = 1$) mai'r broblem fwyaf i'r GIG fydd galwadau croes ar y sefydliad a sicrhau bod pawb o blaid y Cynllun. Bydd angen wedyn i roi cyllid ar waith i ganiatáu i staff gael eu penodi er mwyn cyflwyno a gweithredu'r Cynllun, gyda'r adnoddau ar gael i dalu costau gweithredu. Bydd angen cyllid hefyd ar gyfer meysydd fel cyrchu gwasanaethau cymorth ac eiriolaeth.
211. Tynnodd un sefydliad iechydd ($n = 1$) sylw hefyd at y ffaith bod costau cynyddol o ran cyfieithu, addysg / dealltwriaeth – gan gydnabod a mynd i'r afael â'r ffaith bod hon yn broses ddwyffordd, ac amser – h.y. mae angen cydnabyddiaeth ei bod yn cymryd mwy o amser i asesu / rhoi diagnosis / esbonio triniaethau pan nad Saesneg yw iaith gyntaf claf.
212. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sylw at y ffaith bod diffyg ffynonellau data sy'n ddigon swmpus yn her, gan fod llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn hunanfodlon yn sgil y niferoedd isel o unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y materion hyn mewn rhai rhannau o'r wlad sy'n eithriadol o Wyn. Bydd angen mynd i'r afael yn benodol â'r diwylliant hwn a'i herio, ac mae angen cydnabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig ledled y wlad. Tynnwyd sylw at y ffaith bod systemau, gweithdrefnau, polisïau ac agweddau anhyblyg presennol y GIG gyfan yn adlewyrchu diwylliant cysefin a diffyg awydd am newid.

Gwelliannau ac Ystyriaethau Ychwanegol:

213. Dywedodd sefydliadau iechydd ($n = 2$) nad yw'r adran hon yn mynd yn ddigon pell o'i chymharu â'r camau gweithredu a nodwyd mewn meysydd eraill.
214. Tynnodd un sefydliad iechydd ($n = 1$) sylw at y ffaith bod y Cynllun yn cyfeirio at Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ac nad yw'r sefydliad hwn yn bodoli mwyach gan iddo gael ei ddisodli gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 1 Ebrill 2021.
215. Nododd sefydliadau iechydd ($n = 2$) fod angen datganiad ar gyfer gofal iechydd i'r rhai sy'n agored iawn i niwed ac sydd â diffyg galluedd, neu sydd angen cymorth ychwanegol i wneud penderfyniadau a chydsynio i dderbyn triniaeth.
216. Dywedodd un sefydliad iechydd ($n = 1$) fod angen diffinio'r cam gweithredu i hyrwyddo gwell defnydd a chanlyniadau mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechydd yn unol ag egwyddorion CAMPUS. Nid yw'n cynnig unrhyw ddiffiniad mesuradwy ar hyn o bryd. Dywedodd un sefydliad iechydd ($n = 1$) fod nifer o'r nodau yn yr adran hon yn anodd iawn eu mesur neu eu meintoli e.e. amgylcheddau gwaith sy'n galluogi staff i gyflawni eu llawn botensial. Yn ogystal, o ystyried y sefyllfa bresennol a'r amser sydd ar gael, mae'n bosibl na fydd modd cyflawni'r nod o ran casglu a defnyddio data yn weithredol. Mewn perthynas â'r canlyniadau ar gyfer y nod cyntaf yn yr adran iechydd, dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$):

“Sicrhau bod GIG Cymru yn wrth-hiliol...” y dylai'r adran hon o'r Cynllun drafod gwreiddio mwy o ysgogiadau, penodi Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, a gwerthuso rhaglenni. O ran a gafodd hyn unrhyw effaith ai peidio, gofynnodd yr ymatebydd hwn sut y bydd hynny'n cael ei fesur. Gofynnodd yr ymatebydd hwn hefyd am nodweddion bod yn *“wrth-hiliol”*. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i'r cam gweithredu i wella'n sylweddol y broses o gasglu a dadansoddi data iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â hil.

217. Cynigiodd sefydliadau iechyd (n = 2), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) sylwadau yn nodi bod llawer o'r camau gweithredu yn yr adran hon o'r Cynllun yn amwys. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) fod angen mwy o eglurder a manylder o ran camau gweithredu a'r bwriad o ran canlyniadau cyrhaeddiad a recriwtio. Tynnodd un sefydliad iechyd (n = 1) sylw at y ffaith bod y camau gweithredu o dan Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd yn cael eu nodi mewn termau amwys. Er enghraifft, geiriad un cam gweithredu yw: *“Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd i wella mynediad cynnar at wasanaethau iechyd meddwl a dementia i boblogaethau ethnig lleiafrifol.”* Mae angen eglurhad ynghylch pwy fydd yn bwrw ymlaen â'r cam gweithredu hwn. Dylid canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ymarfer yn hytrach nag ystyried, archwilio, mwy fyth o ymgynghori a mwy fyth o strategaethau. Mae digon o waith ymchwil a strategaeth ar anghydraddoldebau iechyd eisoes.
218. Cynigiodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) sylwadau ar y canlynol:
- a. Mae'r nod: *“Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd i wella mynediad cynnar at wasanaethau iechyd meddwl a dementia i boblogaethau ethnig lleiafrifol. Tymor canolig – o fewn tair blynedd. Gostyngiad yn yr amrywiadau o ran cyfrannau mynediad poblogaethau ethnig lleiafrifol at ddiagnosteg a thriniaethau,”* yn amwys ac mae angen ymhelaethu. Mae'r ddau gam gweithredu cyntaf ar arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn yr adran iechyd hefyd yn amwys iawn. Cynigiodd y sefydliadau hyn sylwadau ar y nodau canlynol hefyd:
 - b. Mynediad at wasanaethau iechyd:
 - i. Rhaid pennu camau gweithredu mwy penodol a brys i'r nod hwn.
 - ii. Rhaid cael camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â darpariaeth effeithiol a chyson o gyfieithu ar y pryd ac adnoddau mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg.
 - iii. Yn hytrach na phroblemau iaith, dylid cyfeirio at anghenion cymorth iaith. Rhaid newid y ffordd o feddwl a chydabod bodolaeth poblogaeth amrywiol fel man cychwyn; yn hytrach na meddwl am y boblogaeth (Wyn) Gymraeg ac yna'r boblogaeth Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
 - c. Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd:
 - iv. Mae angen i'r camau gweithredu fod yn fwy penodol ac iddynt ddigwydd ar fwy o frys, yn enwedig camau gweithredu a chanlyniadau mewn perthynas â'r gallu i gael gafael ar ofal iechyd meddwl a gofal dementia yn gynnar. Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan sefydliadau eraill yn y trydydd sector (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1).

- v. Mae taer angen system gwyno fwy effeithiol, a bydd hynny'n gofyn am gamau gweithredu y tu hwnt i hybu ymwybyddiaeth o weithio i wella. Nododd cyfranogwyr nad yw systemau cwynion ar eu ffurf bresennol yn gweithio i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (hyd yn oed pan fyddant yn cwyno) a galwyd am wasanaethau eiriolaeth penodol ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru.
- vi. Cwestiynwyd y cam gweithredu arfaethedig, *"Bydd uwch-gyfarwyddwyr Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn creu Bwrdd Her mewnol i gynnwys prosesau herio allanol er mwyn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu i wella mynediad at wasanaethau i bobl ethnig leiafrifol,"* a'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol. Roeddent hefyd yn cwestiynu cyfansoddiad y byrddau herio hynny, ac y byddent yn croesawu cynnwys unigolion y tu allan i Lywodraeth Cymru yn ogystal ag aelodau o'r gymuned ethnig leiafrifol.
- vii. Dylid cynnwys y cam gweithredu ar iechyd mamau yn yr adran Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd yn hytrach na Mynediad at Wasanaethau Iechyd, gan ei fod yn cwmpasu canlyniadau clinigol a gofal teg o fewn gwasanaeth yn ogystal â mynediad at wasanaethau.
- viii. Mae'r cam gweithredu, *"Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaethau i benderfynu a yw'r camau gweithredu tymor byr a thymor canolig wedi arwain at welliannau mewn perthynas â materion fel amrywiaeth sail gwirfoddolwyr Corff Llais y Dinesydd, a nifer y bobl sy'n teimlo eu bod yn cael cymorth os byddant o'r farn bod ganddynt gŵyn sy'n gysylltiedig â hil yr hoffent ei chyflwyno i'r GIG neu Awdurdod Lleol,"* yn amwys iawn, ac mae pobl sy'n gwneud cwyn yn ymwneud â hil yn haeddu trin hynny gyda mwy o frys nag amserlen 'hirdymor'.
- ix. Mae'r cam gweithredu, *"Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanweithiau cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn deall materion sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau iechyd,"* yn amwys iawn ac nid yw'n glir beth yn union mae 'tymor byr' yn ei olygu. Nid yw ymgysylltu â phobl ifanc ethnig leiafrifol yn gallu digwydd mewn gwacter, ac os oes sylwedd i fod i'r cam gweithredu hwn, mae angen ymrwymiad i ddarparu adnoddau ar gyfer grwpiau cymunedol sydd eisoes yn ymgysylltu â phobl ifanc ethnig leiafrifol.
- x. Mae angen cam gweithredu ychwanegol yn ymwneud â chynnal adolygiad o weithdrefnau comisiynu a gwasanaethau iechyd a gomisiynir, o gofio'r diffyg adnoddau presennol ar gyfer cyflyrau iechyd penodol sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl ethnig leiafrifol – er enghraifft anemia cryman-gell a thalasemia.

219. Dywedodd sefydliadau iechyd (n = 3) y dylid cryfhau'r cam gweithredu i gynnull grŵp gorchwyl a gorffen gyda Chynghrair Iechyd Meddwl Cymru oherwydd bod y pandemig wedi cael effaith enfawr ar iechyd meddwl a lles y boblogaeth.

220. Nododd sefydliadau ieched (n = 2) fod angen mwy o eglurder ynghylch y cam gweithredu i ddatblygu strategaethau i archwilio camau gweithredu ar gyfer Corff Llais y Dinesydd – rhaid clywed y lleisiau a'r anghenion sy'n cael eu mynegi drwy Gorff Llais y Dinesydd, a gweithredu arnynt.
221. Dywedodd un sefydliad ieched (n = 1) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylid darparu mwy o fanylion ar sut y bydd canlyniadau gwahaniaethol i fenywod ethnig lleiafrifol mewn gwasanaethau mamolaeth yn cael eu gwella. Nid yw'r nod unigol sy'n codi mater gofal mamolaeth (Canlyniad polisi C, tud. 52) yn amlinellu unrhyw gamau penodol i'w cymryd, ac nid yw ychwaith yn sôn am unrhyw randdeiliaid sy'n gyfrifol am sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau. Heb gamau gweithredu manwl i gefnogi'r cyflawniad hwn, mae perygl i'r Cynllun ddod yn ddim byd ond strategaeth arall.
222. Tynnodd un sefydliad ieched (n = 1) sylw at y ffaith bod y diffiniadau hynny o 'fynediad' sydd wedi'u cyfyngu i'r defnydd o wasanaethau neu dderbyn gofal yn amlwg yn annigonol, oni bai eu bod hefyd yn ystyried y broses o gael gafael ar ofal ac ansawdd y gofal a dderbynnir. Rhaid i'r Cynllun gynnwys camau gweithredu penodol sy'n mynd i'r afael â gallu cyfartal i gael gafael ar wybodaeth briodol; gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n berthnasol, yn amserol ac yn sensitif; gallu defnyddio'r gwasanaeth ieched yn hawdd, gyda hyder y byddwch yn cael eich trin â pharch.
223. Dywedodd un sefydliad ieched (n = 1) fod Nod C yn gofyn am gynllun gweithredu gwell gyda thargedau penodol, mesuradwy ac mae angen iddo fynd i'r afael â'r canlynol:
- Tryloywder o ran pwy fydd yn sbarduno'r cam gweithredu hwn.
 - Sut y bydd ymgynghori dyls â defnyddwyr yn cael ei gyflawni.
 - Targedau a mesuriadau penodol.
 - Gwybodaeth am sut y bydd gwaith i wella canlyniadau yn cael ei rannu â rhanddeiliaid.
 - Hyfforddiant gwrth-hiliol ar gyfer y gweithlu mamolaeth.
 - Gweithredu argymhellion ymchwiliad Birthrights i anghyfiawnder hiliol mewn gofal mamolaeth (2021).
 - Ymarfer myfyriol parhaus.
 - Casglu a choladu data mamolaeth gan gynnwys data penodol am geiswyr noddfa, menywod ar fisa eu priod, grwpiau eraill heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus; defnyddio cyfieithwyr ar y pryd, gan gynnwys rhwystrau a chymorth i ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr.
 - Targedau recriwtio'r gweithlu i sicrhau gweithlu cynrychioliadol a thargedau ar gyfer recriwtio gweithwyr gofal ieched proffesiynol a'r rhai sy'n eu haddysgu i addysg israddedig gweithwyr.
 - Ymgysylltu parhaus rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG a'r Swyddfa Gartref ynghylch gwasgaru ceiswyr lloches ac ailsefydlu ffoaduriaid. Cydnabod bod ffactorau y tu hwnt i ffin Cymru yn dylanwadu ar ofal mamolaeth gwrth-hiliol.

224. Tynnodd un ymatebydd unigol (n = 1) sylw at y ffaith bod y Cynllun yn pwyso'n drwm ar weithredu o fewn / gan fyddau iechyd, heb fawr ddim craffu allanol nac atebolrwydd ar Lywodraeth Cymru, os o gwbl. Mae angen mwy o atebolrwydd.
225. Gofynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) a fydd yr hyn a ddysgwyd o'r nodau iechyd a'r data yn cael ei rannu a'i ddefnyddio fel arferion gorau ar draws gwasanaethau iechyd eraill nad ydynt yn rhan o'r GIG.
226. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod y nod / cam gweithredu canlynol yn amwys: *"Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd i wella mynediad cynnar at wasanaethau iechyd meddwl a dementia i boblogaethau ethnig lleiafrifol. Tymor canolig – o fewn tair blynedd. Gostyngiad yn yr amrywiadau o ran cyfrannau mynediad poblogaethau ethnig lleiafrifol at ddiagnosteg a thriniaethau."* Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r uchod yn ei olygu, mae'r ymatebydd hwn wedi nodi'r meysydd isod o ran sut y gellid cynyddu neu liniaru effeithiau cadarnhaol neu negyddol:
- a. Mapio a threialu llwybrau at asesu diagnostig ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol â dementia a'u gofalwyr.
 - b. Casglu profiadau, a chanfyddiadau o reoli gofal a chymorth o amrywiaeth o safbwyntiau, gan ganolbwyntio ar y lleisiau hynny sy'n cael eu clywed leiaf a'u cyfrif yn ystyrllon, fel mathau o dystiolaeth.
 - c. Cipio'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan sefydliadau sector cymunedol a gwirfoddol haen gyntaf, gyda ffocws ar grwpiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
 - d. Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar fywyd mewn sefydliadau caeedig fel wardiau ysbytai a chartrefi gofal
 - e. Archwilio dwyieithrwydd mewn gofal dementia, gan ei fod yn ymwneud â phobl â dementia yn ogystal â gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.
 - f. Cwmpasu a gwella cymwyseddau gwasanaethau dementia allweddol.
 - g. Astudiaethau darparu gwasanaethau sy'n archwilio ac yn profi'r ffordd orau o ymgorffori a gwerthuso gwasanaethau gofal personol a chymorth sy'n seiliedig ar ddiwylliant e.e. ymdwtio personol, deiet, gweithgareddau iechyd, ysbrydolrwydd, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol.
 - h. Treialu negeseuon dementia effeithiol i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
 - i. Astudiaethau cyfranogol sy'n canolbwyntio ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru
 - j. Astudiaethau sy'n edrych ar y ffordd orau o ddarparu gofal diwedd oes sy'n briodol yn ddiwylliannol (Diverse Cymru). Sefydliadau fel Cymdeithas Alzheimer ac Age Concern sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r camau gweithredu penodol hyn.
 - k. Gwella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau dementia – gwnaed y pwynt hwn hefyd mewn ymateb gan un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1).
227. Mynnodd un sefydliad iechyd (n = 1) fod angen buddsoddiad wedi'i dargedu ar gyfer seilwaith a gwasanaethau sy'n cynnig atebion cynaliadwy i achosion sylfaenol anghydraddoldebau iechyd, gan sicrhau'r gallu i bawb gael mynediad ato.

228. Nododd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) y blaenoriaethau canlynol ar gyfer gweithredu:
- Sicrhau sgrinio effeithiol ac atgyfeirio pellach i newydd-ddyfodiaid ar gyfer gwendidau gan gynnwys materion iechyd meddwl, trawma a chyflyrau iechyd sylfaenol.
 - Sicrhau bod pawb sy'n ceisio noddfa wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu a deintyddion a'u bod yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni brechu.
 - Dileu rhwystrau i gael gafael ar wasanaethau iechyd drwy wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff drwy hyfforddiant.
 - Sicrhau bod pobl sy'n ceisio noddfa yn deall eu hawliau wrth gael gafael ar wasanaethau, yn enwedig gofal iechyd.
 - Datblygu ac ariannu gwasanaethau iechyd meddwl a thrawma arbenigol o ansawdd uchel.
 - Cynyddu'r cyllid a'r capasiti ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys goroeswyr artaith, masnachu mewn pobl a phlant a phobl ifanc.
 - Sicrhau diogelu effeithiol ar lefel strategol ac ymarferol, gyda gwell dealltwriaeth o bryderon diogelu ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed a chanllawiau a phrosesau clir ar gyfer mynegi ac ymateb i bryderon.
229. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylai GIG Cymru a Llywodraeth Cymru rannu enghreifftiau o arfer da, lle mae unigolion a grwpiau ethnig lleiafrifol wedi profi gallu teg i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd ac iechyd meddwl cadarn o ganlyniad i driniaeth, fel bod modd sicrhau dealltwriaeth ehangach o'r seilwaith a'r diwylliant sydd eu hangen i gyflawni hyn.
230. Roedd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) yn cydnabod y gwaith arfaethedig i wneud GIG Cymru yn fwy parod i dderbyn cwynion, ond profiad bywyd llawer o bobl yw nad yw cwynion yn cael eu croesawu, nad ydynt yn cael eu deall ac nad ydynt yn destun gweithredu. Fodd bynnag, mae profiad yn dangos bod cefnogaeth trydydd parti ar adeg y digwyddiad, neu gefnogaeth eiriolwyr, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol yn ddiweddarach, yn aml yn annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau na fyddent wedi rhoi gwybod amdanynt fel arall. Cynigiwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cymorth eiriolaeth i staff, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd wrth wneud cwyn.
231. Mynnodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylid manteisio i'r eithaf hefyd ar gyfleoedd i ddysgu o enghreifftiau rhyngwladol o ran sut i ddarparu gofal iechyd sy'n briodol yn ddiwylliannol.

Beth sydd ar goll o'r adran hon o'r Cynllun:

232. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen ymgorffori camau gweithredu ar ddementia yn yr holl nodau a chmau gweithredu ar iechyd. Ar dudalen 18 'Adolygiadau tystiolaeth cyflym', mae'n rhestru'r themâu ac o dan iechyd (corfforol a meddyliol) a gofal cymdeithasol, dylid rhestru 'Dementia' fel pennawd ar wahân. Nodwyd y gall salwch meddwl, mewn sawl ffordd, amlygu'r un symptomau o ddementia, ac i'r gwrthwyneb. Er bod llawer o

debygrwydd rhwng y ddau, mae rhai gwahaniaethau allweddol hefyd. Mae hyn ar goll yn y meysydd blaenoriaeth, ac mae hwn yn salwch sydd nid yn unig yn sylweddol yn y cymunedau lleiafrifol ond yn un a fydd yn cynyddu seithplyg dros y 30 mlynedd nesaf a dim ond yn ddeublyg yn y boblogaeth Wyn Brydeinig.

233. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) nad oes digon o ffocws ar blant, a chydabyddiaeth ohonynt fel unigolion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl. Mae hynny'n siomedig, o ystyried gorgynrychiolaeth plant mewn perthynas â data anghydraddoldebau iechyd. Rhaid cyfeirio yn fwy eglur at blant yn yr adran hon ar iechyd, ac mae hynny'n wir hefyd am rai o'r adrannau eraill yn y Cynllun hwn (mae Adran y Gymraeg yn enghraifft dda yn hyn o beth). Awgrymwyd hefyd y dylid darparu mwy o fanylion mewn perthynas â threfniadau monitro – pwy a sut – er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd. Byddai hyn yn helpu i gryfhau'r adran ar ganlyniadau, gyda ffocws cryfach ar effaith y gweithgaredd, a pha wahaniaeth y gall pobl ddisgwyl ei weld o ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd (er mwyn osgoi unrhyw ymarfer ticio blychau).
234. Nododd un rhwydwaith sector cyhoeddus ($n = 1+$) nad yw'r Cynllun yn cyfeirio at rôl cymorth allweddol nyrsys ysgol, nid oes sôn am wasanaethau iechyd yn mynd i garchardai na'r rhai hynny mewn carchardai sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd eraill. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod tystiolaeth bod niferoedd anghymesur o uchel o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o fewn y system carchardai. Mae nyrsys carchardai, er enghraifft, yn cael eu darparu drwy ofal sylfaenol. Nid oes unrhyw gamau gweithredu ychwaith o ran gofalcwyr neu ofalcwyr ifanc. Mae angen mynd i'r afael â hyn oherwydd gallai'r baich ychwanegol neu'r diffyg gallu i gael gafael ar wasanaethau arwain at gynnydd yn y defnydd o sylweddau anghyfreithlon, mwy o ddieter a rhwystredigaeth ymhlith pobl ifanc sy'n arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fod yn fwy agored i linellau cyffuriau a mathau eraill o gamfanteisio. Mae'r Cynllun hefyd yn brin o ddull iechyd cyhoeddus o ran atal, gan ddefnyddio gwybodaeth am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a dulliau sy'n deall trawma.
235. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw at y ffaith y dylai'r Cynllun gynnwys camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â chefnogi pobl ethnig leiafrifol i gael mynediad cyfartal at driniaeth cyffuriau, alcohol a dibyniaeth. Yn aml, nid yw darparwyr gwasanaethau prif ffrwd yn meddu ar yr hyfforddiant, y ddealltwriaeth ddiwylliannol a'r sensitifrwydd angenrheidiol i weithio'n effeithiol gyda'r grwpiau cleientiaid hyn. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu darparu cymorth wedi'i deilwra, sy'n briodol yn ddiwylliannol, ar gyfer anghenion unigol.
236. Dywedodd un undeb llafur ($n = 1$) fod angen i'r Cynllun wneud mwy ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd – ac mae angen gwneud mwy i ddeall y rhwystrau y mae rhai grwpiau ethnig yn eu hwynebu wrth gael gafael ar wasanaethau penodol a nodi pa gamau sydd ar gael i oresgyn hynny. Er enghraifft, gellir nodi bod angen gwneud mwy i oresgyn rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol i rai cymunedau. Gallai'r Cynllun gynnwys ymrwymiad i wneud gwaith o'r fath ac i fonitro cynnydd yn ei erbyn.

237. Tynnodd un sefydliad ieched (n = 1) sylw at y ffaith bod timau fferyllol yn adnodd allweddol o ran lleihau anghydraddoldebau ieched. Mae angen cydnabod a chefnogi'r rôl hon. Gall mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ieched fod yn rhan annatod o'r holl wasanaethau sydd eisoes yn cael eu darparu gan fferyllfeydd cymunedol.
238. Dywedodd sefydliadau ieched (n = 3) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) y dylai'r Cynllun ystyried yr heriau penodol sy'n cael eu profi gan geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n defnyddio gofal ieched.
239. Tynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) sylw at y ffaith nad oes sôn yn y Cynllun bod poblogaethau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu rhwystrau penodol i gael gafael ar wasanaethau ieched, ac mai ganddynt hwy mae'r canlyniadau ieched gwaethaf o unrhyw grŵp ethnig o hyd. Mae mynediad diffygiol at ddarpariaeth ieched, ynghyd â drwgdybiaeth o weithwyr ieched, proffesiynol wedi dwysáu problemau ieched a lles y poblogaethau hyn. Nodwyd mai materion yn ymwneud â mynediad at wasanaethau meddygon teulu, megis gwahaniaethu gan staff derbynfeidd a materion llythrennedd, oedd y prif rwystrau. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag unigolion Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ymgynghoriad ystyrlon ar eu hanghenion ieched a sicrhau bod pob gweithiwr gofal ieched proffesiynol yn cael hyfforddiant ar anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae angen iddynt fod yn ymwybodol hefyd ei bod yn ofynnol iddynt ddarparu gofal ieched i'r rhai heb gyfeiriad sefydlog.
240. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith nad yw'r Cynllun yn cydnabod gwaith clymblaid o 36 elusennau ieched, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth a thai ar ddileu anghydraddoldebau ieched sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i strategaeth drawslywodraethol i ddileu anghydraddoldebau ieched. Dylai'r Cynllun gydnabod y gwaith hwn ac ymrwymo i weithio tuag at gynllun penodol sy'n canolbwyntio ar anghydraddoldebau ieched, yn hytrach na chynnwys ieched a gofal cymdeithasol fel is-adrannau llai o gynllun mwy.
241. Dywedodd sefydliadau ieched (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) fod diffyg ffocws ar ofal sylfaenol a chymunedol. Dywedodd ymatebwyr y bydd angen ffocws cyfartal ar y meysydd hyn er mwyn ymdrin ag anghydraddoldebau mewn ieched a gofal. Dylai'r Cynllun gynnwys y sector hwn neu unrhyw ddarparwr sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.
242. Dywedodd un sefydliad ieched (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) y gallai'r pandemig parhaus a'i ganlyniadau fod yn rhwystr i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu yn yr adran hon o'r Cynllun, gan fod gwasanaethau ieched yn parhau i fod o dan bwysau aruthrol. Nid yw'r Cynllun yn tynnu sylw at effaith y pandemig a'r newid cyflym i wasanaethau digidol sydd wedi gwaethygu anghydraddoldebau drwy ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng ddulliau rhithwir yn unig. Dylai hyn fod yn elfen gryfach o'r Cynllun o ran camau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith y pandemig. Dylid cynnwys camau gweithredu i gasglu tystiolaeth o allgáu digidol a'r berthynas ag anghydraddoldeb, ac ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r rhain.

243. Nid yw'r Cynllun yn canolbwyntio ar yr anghydraddoldebau sydd wedi cael eu gwaethygu gan ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng dulliau rhithwir yn unig. Mae hyn yn cynnwys rhwystrau ieithyddol, cydraddoldeb rhywiol a materion tlodi, fel rhwystrau i fynediad at wasanaethau iechyd. Dylai hyn fod yn elfen gryfach o'r Cynllun o ran camau gweithredu i fynd i'r afael â hynny, yn wyneb effaith y pandemig.
244. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylai'r Cynllun gynnwys cam gweithredu penodol i fyrddau iechyd sefydlu amgylcheddau llywodraethu clinigol sy'n lleihau ac yn dileu gwahaniaethu mewn prosesau disgyblu ac atgyfeiriadau rheoleiddiol. Dylid cymryd cam gweithredu ychwanegol hefyd i'r GIG yng Nghymru weithio gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar fframwaith a safonau ar y cyd (y DU gyfan) ar gyfer sefydlu a darparu adborth.

Sylwadau ychwanegol ar yr adran hon o'r Cynllun:

245. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$): *“ar y cyfan, ac ar ei gorau yn fy marn i, mae'r bennod ar Wasanaethau Iechyd a Chanlyniadau Iechyd yn ymgais i beidio ag ymddangos yn hiliol ac yn bell o fod yn wrth-hiliol.”*
246. Dywedodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylid ystyried anghydraddoldebau iechyd fel mater o gyfiawnder, ac y bydd penderfyniad i wneud dim yn arwain at ganlyniadau.
247. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) ei bod yn ymddangos bod y CGCH yn gwneud ymdrech i reoleiddio'n lleol pan mae llywodraethu lleol wedi methu dro ar ôl tro yn hyn o beth. Ychwanegodd yr ymatebydd hwn y sylw canlynol hefyd: *“Mae'r ofn llwyr o ddial sy'n bodoli ymhlith gweithwyr gofal iechyd yn adlewyrchiad cadarn o'r distawrwydd byddarol o ran y pwynt fod meddygon yn ystyried bod Cymru yn fynwent i bob uchelgais.”*
248. Gwnaeth awdurdodau lleol ($n = 2$) y pwynt bod yr adran hon o'r Cynllun yn ymwneud yn bennaf â'r byrddau iechyd ac yn cydnabod mai cyrff cyhoeddus ddylai fod y prif ffactorau sy'n sbarduno newid, ond ei bod yn bwysig caniatáu sianel fynediad hawdd i sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector ei dilyn. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen llwybrau atgyfeirio clir, yn enwedig ar gyfer Iechyd, ar gyfer gwahanol grwpiau cymunedol, a bod meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth ynghlwm wrth y llwybrau hynny. At hynny, nododd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) y byddai canllaw i'r math o gymorth sydd ar gael, a sut i gael gafael arno, yn gam cyntaf syml ac effeithiol wrth sicrhau bod pawb yn gwybod beth sydd ar gael, bod bylchau'n cael eu nodi'n gyflym, a bod atebion gwasanaeth newydd yn cael eu datblygu sy'n bodloni sensitifrwydd diwylliannol y rhai sy'n ceisio eu defnyddio.
249. Tynnodd un awdurdod lleol ($n = 1$) sylw at y ffaith bod modd canfod anghydraddoldebau o ran sut mae pobl yn cael gafael ar gymorth mewn sawl maes iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, cael gafael ar gymorth dementia, gwasanaethau iechyd meddwl a'r gymorth sydd ar gael i rieni / gofalwyr plant anabl.

Mae'n bwysig dwysáu dealltwriaeth ein gwasanaeth cyhoeddus o ddinasyddion, gan gynnwys gofalwyr, profiad uniongyrchol wrth gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth ar yr ystod o gymorth sydd ar gael.

250. Dim ond 32 y cant o ymatebwyr o ymgynghoriadau un sefydliad cymunedol (n = 1+) sy'n credu bod lleiafrifoedd ethnig yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd. Roedd sylwadau gan gyfranogwyr ymgynghoriadau'r sefydliad cymunedol hwn yn mynegi siom fawr yn y gwasanaeth. Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn anodd iawn cael apwyntiad amserol gyda meddyg teulu. Pwysleisiodd llawer o gyfranogwyr sut yr oedd meddygon teulu wedi methu â'u trin. Cawsant gamddiagnosis a bu'n rhaid iddynt ymweld â'r meddyg teulu sawl gwaith gyda'r un broblem cyn i'r meddyg teulu gymryd unrhyw gamau difrifol a chynnal profion meddygol. Rhannodd un cyfranogwr bod nodiant Peidiwch â Dadebru wedi'i ychwanegu at ei gofnod meddygol heb yn wybod iddo a heb ei ganiatâd. Roedd y cyfranogwr yn teimlo'n ddigymorth wrth geisio dileu'r nodiant hwn. Nid oes unrhyw gymorth nac esboniad wedi'i gynnig gan y Bwrdd Iechyd.

251. Roedd cyfranogwyr ymgynghoriadau sefydliadau'r trydydd sector (n = 1+) hefyd yn rhannu eu profiad o aros am amser hir i gofrestru gyda deintydd a'r rhwystredigaeth y gallech fod â salwch difrifol sydd angen ei drin, ond bod angen aros am amser hir cyn cael eich gweld. Awgrymodd rhai ymgynghoreion y dylai meddygfeydd preifat dderbyn clefion y GIG. Soniodd yr ymgynghoreion am bwysigrwydd archwilio ac atebolrwydd er mwyn cyflawni'r nodau, y camau gweithredu a'r canlyniadau.

Gofal Cymdeithasol:

252. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 15+) awdurdodau lleol, (n = 5), undebau llafur (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 5), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 6+) ac un sefydliad iechyd (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar adran gofal cymdeithasol y Cynllun.

Polisiau ac adnoddau presennol a phwysigrwydd gweithio cydgysylltiedig:

253. Nododd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) a sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) fod yn rhaid i'r adran hon o'r Cynllun gydweddu â'r holl brif ddeddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru – er enghraifft, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn osgoi dyblygu. Wrth sôn am ymrwymiad y CGCH i olrhain arweinyddiaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar fyrddau perthnasol fel Arolygiaeth Gofal Cymru a gweithredu yn ôl yr angen, mynegodd ymatebwyr syndod nad yw hyn eisoes wedi digwydd o ystyried bod strategaeth Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru wedi bod ar waith ers 2019. Nodwyd bod hyn yn codi'r posibilrwydd gwirioneddol y bydd y

CGCH yn troi'n strategaeth arall ar silff nad yw'n cael ei gweithredu mewn unrhyw ffordd ystyrlon.

254. Mae un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) yn herio i ba raddau y mae gan y CGCH unrhyw beth newydd ynddo a sut y bydd yn wahanol i gynlluniau / strategaethau blaenorol. Mynegwyd pryder ganddynt fod y CGCH yn gawl eildwym o'r un nodau a chatau gweithredu, ar ffurf wahanol, ac y bydd yn troi'n ddim byd ond ymarfer arall ar bapur. Cwestiynwyd pam na chafwyd unrhyw asesiad o'r rheswm na weithiodd cynlluniau / strategaethau blaenorol o'r blaen.
255. Mewn perthynas â Nod 4, dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y bydd yn bwysig bod y camau gweithredu a nodir yn yr adran hon o'r Cynllun yn rhan annatod o Strategaeth y Gweithlu wrth symud ymlaen, yn hytrach na chreu strwythurau cynllunio amgen.
256. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sylw at y ffaith bod '*Teithio at Iechyd Gwell*' yn bwriadu cynorthwyo ymarferwyr iechyd i gau'r bwlch anghydraddoldeb iechyd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ond nad yw wedi arwain at gau'r bwlch hwnnw'n sylweddol.
257. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw at y ffaith bod cyfle o fewn Nod 2 i sefydlu cysylltiadau â'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl newydd (Chwefror 2021) a'r cynllun cyflawni sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) fod y cyflog isel a'r gwerth cymdeithasol isel sy'n gysylltiedig â gwaith gofal cymdeithasol yn ei wneud yn agored i lefelau uchel o drosiant. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn genedlaethol gyda phartneriaid eraill drwy gyflenwi'r Cynllun Gweithlu Integredig. Mae'n hanfodol bod gwaith yn cael ei gydgyssylltu i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ac osgoi unrhyw fylchau neu ddyblygu.
258. Nododd un awdurdod lleol ($n = 1$) y bydd rhoi Systemau Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith yn sicr o helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well a chyflwyno dull tecach a mwy cyfartal.
259. Esboniodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod gweithwyr ym maes gofal plant yn perthyn i'r diffiniad o weithlu gofal cymdeithasol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond nad yw prif gorff y Ddeddf a'r ddyletswydd yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal plant. Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 yw'r ddeddfwriaeth berthnasol o ran cofrestru, rheoleiddio ac arolygu lleoliadau gofal plant a chwarae, gyda'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig yn bren mesur yn hytrach na Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
260. Fel rhan o unrhyw hyfforddiant, awgrymodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod rheolwyr yn ymgysylltu ag egwyddorion [Arweinyddiaeth Dosturiol](#) Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gwerth enfawr i'w weld mewn hyfforddiant cydweithredol, gydag enghreifftiau'n cynnwys rhaglenni Academi Wales a Rhaglenni Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un.

261. Pwysleisiodd un undeb llafur ($n = 1$) yr angen i gael polisïau cyson ar draws y sector gofal cymdeithasol cyfan, fel bod pob cyflogwr yn gweithredu yn unol â'r un arwyddnod. Dylid cyflwyno hyn o'r Fforwm Gofal Cymdeithasol ar lefel Llywodraeth Cymru. Rhaid bod disgwyl i bob darparwr gofal cymdeithasol fodloni safonau arwyddnod, neu ni allant wneud cais am contractau a chânt eu diystyru o'r broses gomisiynu. Roeddent hefyd o blaid gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n gyhoeddus ac y dylid cynnig gwasanaethau gofal cymdeithasol yn fewnol unwaith eto, gan y byddai hyn yn caniatáu i wasanaethau gael eu rheoli'n well ac mewn modd mwy atebol.
262. Roedd un awdurdod lleol ($n = 1$) yn gadarn o'r farn mai dim ond wrth i iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio â phartneriaid eraill fel y trydydd sector y bydd y potensial i wella disgwyliad oes iach yn cael ei greu a bod anghydraddoldebau iechyd parhaus yn cael eu lleihau. Mynnwyd ei bod yn hollbwysig cydnabod yr angen i ofal cymdeithasol fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion pob dinesydd. Bydd cryfhau rhwydweithiau lleol a rhanbarthol i greu cysylltiadau, ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'r economi ehangach, yn cyfrannu at ganlyniadau gwell a thecach.

Datblygu a chefnogi'r gweithlu, beirniadaeth a'r angen i gynyddu cynrychiolaeth:

263. Roedd dau sefydliad a rhwydwaith trydydd sector ($n = 2+$) yn cytuno bod angen cynnydd yn y gweithlu ethnig leiafrifol er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaeth i deimlo bod hwn yn wasanaeth ar eu cyfer hwy, oherwydd bod pobl sy'n edrych fel nhw yn darparu gwasanaethau. Rhaid cael ymrwymiad clir i weithlu amrywiol ar lefel uwch a rhaid cyflwyno darpariaeth i gefnogi cynnydd gyrfaol i leiafrifoedd ethnig a symud drwy sianeli'r gweithle, oherwydd bod pobl ethnig leiafrifol yn wynebu rhwystrau i gynydd gyrfa, e.e. maent yn clywed yn rheolaidd, *"dydych chi ddim yn hollol barod eto,"* gan dîm rheoli sy'n gwbl Wyn; felly, mae penderfyniadau o ran pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu gwneud gan bobl Wyn. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i sefydliadau fynd i'r afael â pham mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn gadael sefydliadau neu'r proffesiwn. Mae dadl gref dros weithredu cadarnhaol o ran recriwtio ar sail hil, rhywedd ac anabledd.
264. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sylw at y ffaith bod 83 y cant o'u hymatebwyr i'r arolwg wedi dweud eu bod wedi profi hiliaeth naill ai yn eu gweithle, mewn addysg (tra'n ymgymryd â rhaglenni cymhwyso mewn gwaith cymdeithasol) neu yn ystod lleoliadau gwaith cymdeithasol. Dywedodd 33 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn cael *"unrhyw gefnogaeth,"* dywedodd 17 y cant eu bod wedi cael *"rhywfaint o gefnogaeth,"* a dywedodd 17 y cant fod yr ymateb yn *"gefnogol iawn."* Darparwyd enghreifftiau o brofiad bywyd o hiliaeth gan weithlu'r sector gofal cymdeithasol:
- "Rhoddwyd cardiau adnabod i ni yn y lleoliad, ond tra bod fy nghydweithwyr Gwyn wedi cael cerdyn a fyddai'n ddilys am ddwy flynedd, doedd fy un i ddim yn cwmpasu fy nghyfnod cyfan ar leoliad. Roeddwn i'n teimlo bod disgwyl i mi fethu."*

- b. *“Mae’n teimlo fel bod llai o enghreifftiau amlwg, gan fod pobl bellach yn defnyddio iaith neu weithredoedd hiliol yn llai amlwg. Weithiau mae hynny’n waeth, mae’n teimlo’n anghyfforddus. Pan fydd y microymosodiadau yn digwydd, mae dod o hyd i’r geiriau i’w henwi yn anodd a dydych chi ddim yn trafferthu oherwydd bod gwneud hynny’n rhy flinedig. Rydych chi’n mewnnoli’r cyfan.”*
- c. *“Sylwadau am fewnfudwyr yn cymryd drosodd a rhannu memynnau cyfryngau cymdeithasol hiliol oedd fy mhrofiad olaf o hiliaeth amlwg yn y gweithle. Mae’n hawdd tynnu sylw at y rhain, ac ar y cyfan, fe fu gweithredu, er na chafodd y tramgwyddwyr eu cosbi. Dosbarthwyd e-bost i ddweud nad yw rhannu cyfryngau ac e-byst o’r fath yn dderbyniol, ond y tu hwnt i hynny, dim byd. Sut ydych chi’n tynnu sylw at y llu o fân bethau, y diffyg dyrchafiadau / y gallu i gael gafael ar yr un cyfleoedd neu’r un gefnogaeth â’ch cydweithwyr Gwyn? Mae’r pethau hyn yn digwydd yn hynod reolaidd, ond mae ‘profi’ hiliaeth bron iawn yn amhosibl. Mae uwch reolwr wedi dweud wrthyf am beidio â ‘chwarae’r cerdyn hil’ yn y gorffennol, felly mae’n parhau’n anodd.”*

265. Nododd sefydliadau’r sector cyhoeddus (n = 2) a sefydliadau a rhwydweithiau’r trydydd sector (n = 3+) fod hiliaeth gudd / microymosodiadau yn anodd eu profi, gan bwysleisio na ddylid disgwyl i weithwyr cymdeithasol o gymunedau Du, Asiaidd a chymunedau sydd wedi cael eu lleiafrifoli ddatrys hiliaeth, allgáu neu wahaniaethu ar eu pen eu hunain. Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o bobl ethnig leiafrifol yn ofni cwyno am hiliaeth a brifwyd ganddynt yn y gwaith, rhag ofn y byddai cwyno yn bygwth eu cyflogaeth eu hunain. Mae hyn yn golygu y dylai’r Cynllun ymrwymo i ddileu microymosodiadau yn y gweithle a’r diwylliant presennol o anghrediniaeth ynghylch honiadau o hiliaeth. Mae angen system gwyno gadarn, dryloyw a chyflym. Mae angen adnoddau hefyd er mwyn cael gwasanaethau eiriolaeth penodol i bobl gael eu clywed yn well ac ymrwymiad i hysbysu pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac annog pobl i ddefnyddio’r llwybr hwnnw pan fo hynny’n bosibl. Roedd angen mynd i’r afael â diwylliant sefydliadol a diwylliant o beidio â chredu profiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y sector gofal cymdeithasol a thangynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn rolau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac fel aseswyr o ran achosion o gwyno. Gan amlaf, mae’r bobl sy’n pwysu a mesur cwynion am hiliaeth yn Wyn; nid ydynt yn deall beth yw hiliaeth nac yn gallu deall profiad fel hiliaeth, ac yn amlach na pheidio yn cadw rhan y gweithiwr neu’r sefydliad gofal cymdeithasol. Mae angen mwy o wiriadau gorfodol hefyd ar gartrefi gofal cyhoeddus a chartrefi gofal preifat er mwyn sicrhau bod polisïau ac arferion yn unol â chanllawiau a rheoliadau. Dylai cartrefi preifat yn arbennig fod yn destun mwy o graffu.

266. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw at y ffaith bod llawer iawn o waith y mae angen i Lywodraeth Cymru ei wneud hefyd i gau’r bwloch cyrhaeddiad i Sipsiwn a Theithwyr er mwyn gwella cyfleoedd a dewisiadau bywyd, a diffyg ymddiriedaeth y cymunedau hyn mewn gweithwyr cymdeithasol. Maent wedi defnyddio ansoddeiriau fel ‘creulon’ wrth gyfeirio at wasanaethau cymdeithasol, oherwydd y cysylltiad â symud plant o ofal rhieni a pherthnasau. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cefnogi cynnydd yn eu niferoedd mewn gwaith cymdeithasol nac mewn rolau gofal cymdeithasol eraill, yn y tymor byr.

267. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod y 'diwydiant' cwnsela yn frith o fenywod Gwyn dosbarth canol, a'i fod eisiau gweld darpariaeth yn yr adrannau gofal cymdeithasol neu iechyd i hyrwyddo swyddi cwnsela a hyfforddiant i gymunedau ethnig lleiafrifol. Dylai hyn gael ei ategu gan gyllid i unigolion / darparwyr hyfforddiant i gynnig cymhorthdal tuag at gostau hyfforddi ac ati.
268. Eglurodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) fod diffyg dealltwriaeth enfawr o ddiwylliant yn y sector gofal cymdeithasol. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ddeall diwylliant defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn teimlo'n hyderus yn defnyddio gofal cymdeithasol, yn enwedig y rhai sy'n fwy agored i niwed, fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid.
269. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$), un undeb llafur ($n = 1$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac ymatebwyr unigol ($n = 3$) ei bod yn bwysig iawn bod staff gofal cymdeithasol yn meddu ar y sgiliau cywir i weithio gyda phobl o wahanol grwpiau ethnig lleiafrifol. Roedd y sylwadau a ddaeth i law yn cynnwys y dylai Gofal Cymdeithasol Cymru chwarae rôl allweddol mewn hyfforddiant gwrth-hiliol, yn ystod y camau cymhwyso ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus a chynnal cofrestriad addasrwydd i ymarfer. Rhaid i hyfforddiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol fod yn orfodol ac yn rheolaidd gyda hyfforddiant gloywi i sicrhau bod amrywiaeth ddiwylliannol yn parhau i fod ar flaen y gad o ran ymarfer. Rhaid i ansawdd hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol gael ei sicrhau, a'i gyd-gynllunio a'i gyd-ddarparu gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Rhaid i fecanweithiau gwerthuso clir gael eu cynllunio i ddangos tystiolaeth o effaith hyfforddiant o'r fath ar y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth ac ar ofalwyr di-dâl. Dylid ystyried cymhwysedd diwylliannol fel agwedd ar hyfforddiant sylfaenol ac addysg a dysgu parhaus, sy'n dwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran gwrth-hiliaeth / croestoriadedd. Mae'n rhaid ei wneud yn orfodol ar bob rhaglen gwaith cymdeithasol ac mewn addysg a hyfforddiant ôl-gymhwyso. Dylai darparu tystiolaeth o fod wedi ymgymryd â chymhwysedd diwylliannol ac addysg gwrth-hiliol (i gynnwys y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i arfer) fod yn ofyniad gorfodol ar gyfer y gofrestr gwaith cymdeithasol, er mwyn cael yr effaith fwyaf. Dywedwyd bod addysgu gwrth-hiliaeth ar gwricwla gwaith cymdeithasol wedi bod yn ad hoc ar y gorau a heb ddigwydd o gwbl ar y gwaethaf. Anaml y bydd myfyrwyr ac ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn dod ar draws unrhyw addysg neu ddysgu ar hiliaeth gwrth-Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth dderbyn addysg gwrth-hiliaeth, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru newid hyn.
270. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod polisi gan lawer o sefydliadau, mewn rhannau o Gymru, bod siarad Cymraeg yn rhagofyniad ar gyfer cyflogaeth (neu i lenwi rolau penodol), sy'n effeithio ar amrywiaeth yn y gweithlu a chynrychiolaeth mewn arweinyddiaeth. O ganlyniad, dylid cynnwys cam gweithredu i annog a chefnogi unigolion ethnig lleiafrifol i ddysgu Cymraeg.
271. Roedd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) yn pryderu'n fawr am Ran 4 o'r Bil Plismona a sut y bydd yn rhwystr sylweddol i'w gwaith (gwella dealltwriaeth rhwng gweithwyr cymdeithasol a phobl Sipsiwn, Teithwyr a Roma), oherwydd bydd

gweithwyr cymdeithasol mewn perygl o fod yn rhan o gamau gorfodi yn hytrach na chymorth.

272. Roedd un undeb llafur (n = 1) yn pryderu'n fawr am yr argymhelliad a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am sefydlu 'gwarcheidwaid' yn y sector gofal cymdeithasol i weithredu fel cynrychiolydd undeb answyddogol ar gyfer gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Teimlwyd bod hyn yn amhriodol, o ystyried atebolrwydd gwarcheidwaid i'r cyflogwr neu'r Wladwriaeth. Yn eu barn hwy, mae'r rolau hyn yn aml yn cael eu cyflwyno fel mesur gwrth-undeb ([fel yn achos Bwrdd Iechyd Bae Abertawe](#)). Byddai rôl o'r fath yn briodol pe bai deiliaid y swyddi yn gynrychiolwyr neu'n swyddogion undebau llafur, ac felly'n atebol i'r gweithlu.

Heriau sy'n wynebu'r sector:

273. Codwyd y pwynt gan un ymatebydd unigol (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac awdurdodau lleol (n = 2) bod angen i'r Cynllun gydnabod goblygiadau o ran adnoddau a thynnu sylw at y ffaith y bydd faint o waith sydd ei angen i gyflawni'r camau gweithredu yn yr adran hon yn gofyn am adnoddau ychwanegol, megis cyllid. Gofynnwyd a fydd cyllid yn cael ei ddyrannu wrth lansio'r CGCH terfynol. Bydd angen hyn er mwyn i'r sector ymateb i'r pwysau cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol i newid; mae hyn yn cynnwys galw cynyddol am wasanaethau cymhleth, newid demograffig a chymdeithasol, effaith COVID-19 ynghyd â breuder y gweithlu yn y sector darparwyr (recriwtio, cadw, gwobrwyo a chydabod).
274. Eglurodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod datblygu a defnyddio methodolegau comisiynu wedi'u teilwra'n bwrpasol ledled Cymru wedi bod, ar y gorau, yn gostus ac, ar y gwaethaf, yn ddi-drefn o ran cynllunio gwasanaethau a darparu canlyniadau penodedig o ansawdd boddhaol. Dywedodd ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru gofio bod y gallu i recriwtio a chadw staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol o unrhyw gefndir ethnig ar hyn o bryd yn heriol iawn. Dim ond drwy broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol, a sicrhau'r un cyflog, amodau, gwahaniaethau o ran cyfrifoldeb a llwybr gyrfa hirdymor â chydweithwyr yn y GIG, y byddwn yn sicrhau'r un parch a chydabyddiaeth ym meysydd cyhoeddus a chyflogaeth y mae aelodau'n eu haeddu.
275. Tynnodd un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) sylw at fater yn ymwneud â'r cyrsiau academaidd i broffesiynoli gofal cymdeithasol – mae mesurau diogelu a chymwysterau ychwanegol mor academaidd fel nad ydynt yn addas i lawer o bobl sydd wedi dysgu Saesneg drwy gwrs SSIE. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys y gofyniad i gynnig dewis iaith yn y ddarpariaeth. Os nad oes modd cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol, oherwydd y cymwysterau, yna'r unig opsiwn yw defnyddio Taliadau Uniongyrchol ac i'r ddarpariaeth ddigwydd drwy'r llwybr Cynorthwywyr Personol nad yw'n cael ei reoleiddio. Mae hynny'n cynyddu'r posibilrwydd o gam-drin, camfanteisio a throseddau yn sgil diffyg goruchwyllo a rheoleiddio. Mae hefyd yn debygol o effeithio ar faint o ddata sydd ar gael am y gweithlu gofal cymdeithasol o gymunedau Du, Asiaidd ac

Ethnig Leiafrifol. Mae hefyd yn lleihau'r gronfa o weithlu gofal cymdeithasol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n gallu symud ymlaen i rolau rheoli.

Cael gafael ar wasanaethau:

276. Eglurodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 4+$) fod gallu teg i gael gafael ar wasanaethau cymorth iechyd, gofal cymdeithasol a lles wedi bod yn broblem a fynegwyd fel mater o drefn, a'i bod wedi gwaethygu yn ystod y pandemig. O'r pwynt cyswllt cyntaf, dylai'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol fod ar gael, yn gyraeddadwy ac yn ystyried anghenion diwylliannol ac ieithyddol. Mae angen ymgysylltiad dinasyddion o ran cynllunio gwasanaethau hyd at ddarparu gwasanaethau a gwerthuso gwasanaethau hefyd. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gwarantu asesiad o anghenion gofalwyr, ond ni all sefydliadau fel Gofalwyr Cymru ymgysylltu'n llawn â gofalwyr ethnig leiafrifol ac mae angen codi pontydd lu – mae angen mynd i'r afael â hyn yn y Cynllun. Esboniodd ymatebwyr fod pobl ifanc yn teimlo'n anghyfforddus iawn wrth ddefnyddio gwasanaethau cymdeithasol gan gyrff statudol fel y llywodraeth. Maent yn teimlo'n fwy cyfforddus a hyderus wrth ymgysylltu â chyrff anllywodraethol a sefydliadau'r trydydd sector. Esboniwyd hefyd nad yw rhai pobl yn ymwybodol eu bod yn gallu cael gafael ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae iaith yn rhwystr i unigolion gael gafael ar wasanaethau cymdeithasol. Mae angen mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o sut i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol fel bod pawb yn hyderus wrth wneud hynny, yn enwedig y rhai sy'n fwy agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Diwygiadau i'r adran hon:

277. Nododd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) fod llawer o'r camau gweithredu cysylltiedig yn amwys a bod angen targedau a therfynau amser ar gyfer newid. Dylid canolbwyntio ar ganlyniadau cyfartal yn ogystal â gwasanaeth cyfartal. Nid yw gwasanaeth cyfartal, ynddo'i hun, yn golygu canlyniadau cyfartal. Dylai fod yn rhan o ddyletswydd swydd i weithio ychydig yn galetach er mwyn sicrhau canlyniad cyfartal i'r unigolyn. Nodwyd bod llawer o'r nodau wedi'u cysylltu a bod angen gweithlu gofal cymdeithasol amrywiol (ar lefelau uwch hefyd) i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch ac i sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin â chydaddoldeb ac urddas. Yn ogystal, mae'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â Nod 1 yn rhy amwys ac mae angen mwy o fanylion – er mwyn bod yn llwyddiannus, mae angen i'r bobl sy'n archwilio'r rhesymau dros ofnau pobl fod yn gynrychioliadol o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae angen mwy o fanylion hefyd am sut y caiff ei wneud ac am y cymorth ariannol sydd ar gael.

278. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) yn gadarn o'r farn y dylai fod lle amlycach i ofal plant yn y cynllun diwygiedig. Mae angen i ddefnydd plant a phobl ifanc o ofal cymdeithasol gael ei fynegi'n fwy penodol yn y Cynllun a dylid ystyried sut y bydd plant o gymunedau ethnig leiafrifol yn cael gafael ar y cymorth hwnnw. Dylid mabwysiadu dull croestoriadol o ymdrin â gwahanol anghenion defnyddwyr gwasanaethau ethnig leiafrifol. Dylai'r Cynllun sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau i roi ystyriaeth benodol i anghenion plant a

phobl ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol, yn enwedig y rhai sy'n ceisio cymorth yn sgil cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

279. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), mewn perthynas â Nod 3A a 3B, fod angen mwy o eglurder ynghylch y cam gweithredu penodol a nodir ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â chwynion ar draws y sector. O ran Nod 5, mae'r ail gam gweithredu yn hynod uchelgeisiol ac mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu ei ffocws o'i gymharu â'r geiriad ar hyn o bryd. Nid yw'n glir ychwaith sut y mae modd defnyddio'r Fframwaith Llywodraethu Staff Gofal Cymdeithasol yn y ffordd a ddisgrifir yn y trydydd cam gweithredu. Mewn perthynas â Nod 6, gellid cryfhau'r Cynllun yma – mae'r Cynllun yn dawedog ar y cyfan ynghylch y defnydd o dystiolaeth y tu hwnt i'w gasglu. Er mwyn bod yn ystyrlon, dylai'r Cynllun nid yn unig gydnabod pwysigrwydd cynhyrchu dystiolaeth ond hefyd datblygu'r gweithlu a systemau er mwyn ysgogi a chyflawni newid ystyrlon.
280. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), mewn perthynas â'r nod: *“Sicrhau bod pob person Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol sy'n cael gafael ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael y cymorth o'r ansawdd uchaf sy'n hygyrch, yn urddasol ac yn briodol yn ddiwylliannol,”* lle mae'r canlyniad yn nodi: *“Mae gofawyr di-dâl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well gan y sectorau statudol, annibynnol a phreifat a'r Trydydd sector,”* mae geiriad yr holl ganlyniadau eraill yn datgan safbwynt uchelgeisiol – mae'r gair “gwell” yn y frawddeg hon yn creu naws llawer llai uchelgeisiol na'r lleill. Felly, dylai'r canlyniad ddarllen fel a ganlyn: *“Mae gofawyr di-dâl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn gan y sectorau statudol, annibynnol a phreifat a'r Trydydd sector.”* Hefyd, mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol – Gweithlu – Nod 3A, tud. 60, dylid ehangu'r nod i gynnwys darpariaethau lles o fewn y gweithlu a'r gweithle, sy'n grymuso pobl a allai fod wedi profi hiliaeth i chwilio am y cymorth cywir o ran eu trawma. Mae'n hanfodol rhoi llais i drawma drwyddi draw gan na ddylem wadu ein hanes ond yn hytrach gydweithio i wella gyda'n gilydd.
281. Mynnodd un awdurdod lleol ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod angen dweud mwy am gyflwyno cyllid, er mwyn sicrhau bod staff i gyd wedi'u hyfforddi ar yr un lefel, a ddylai gynnwys profiad bywyd pobl sy'n derbyn hyfforddiant.
282. Dywedodd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) fod angen datganiad yn yr adran gofal cymdeithasol (tud. 57 ymlaen) ynghylch gofal ieuchyd a thriniaeth i'r rhai sy'n agored iawn i niwed ac nad yw'r gallu ganddynt, neu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol i wneud penderfyniadau. Os nad yw pobl heb alluedd yn derbyn cefnogaeth er mwyn i'w llais gael ei glywed, yna ni fydd gennym wybodaeth i'w chasglu. Gellid cryfhau'r Cynllun ymhellach drwy roi mwy o gydnabyddiaeth i'r rôl bwysig y gall Gofal Sylfaenol a Chymuned ei chwarae o ran gwella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau, hyrwyddo cynhwysiant a lleihau anghydraddoldeb.
283. Mae un awdurdod lleol ($n = 1$) a sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) yn awgrymu newid geiriad y nod, *“diogelwch wrth gael gofal ym mha sector bynnag oherwydd mai safonau sydd flaenaf ym meddyliau darparwyr, comisiynwyr a*

rheoleiddwyr.” Dylid defnyddio a normaleiddio'r term 'diwylliannol gymwys' i ddisgrifio canlyniadau'r camau gweithredu. Mae hefyd yn bwysig diffinio'r term hwn yn glir er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb. Mae llawer o'r datganiadau o dan 'Canlyniadau' yn ailddatgan cwblhau / rhoi 'Camau Gweithredu' ar waith, yn hytrach nag amlinellu'r canlyniad / effaith wirioneddol ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol.

284. Nododd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod dau gyfeiriad at Gorff Llais y Dinesydd i sicrhau datblygiad ei aelodaeth Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ond nid yw'n glir pwy a beth yw hyn, ac a yw'n strwythur a fydd yn cynnwys plant a phobl ifanc fel rhan o'i gylch gwaith.

Beth sydd ar goll o'r adran hon o'r Cynllun:

285. Holodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) a fydd cyrff archwilio ar waith oherwydd bod atebolrwydd yn bwysig. Roeddent yn teimlo bod hyn yn bwysig oherwydd, yn eu profiad hwy, roedd y gwasanaethau cymdeithasol i'w gweld yn gwneud fel y mynnent, ac roedd angen strwythurau ychwanegol i gefnogi defnyddwyr i'w dwyn i gyfrif.
286. Holodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) mewn perthynas â'r nod: *“byddwn yn datblygu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu'n well â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn deall yn well sut mae profiad bywyd yn pennu mynediad at wasanaethau a lefelau defnydd,”* a fyddai'r 'Cultural Competency Toolkit' ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael ei rannu gyda gwasanaethau anstatudol ac a fyddai cost ynghlwm wrth hynny.
287. Er mwyn i'r Cynllun fod yn effeithiol, dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylai gwasanaethau gael eu darparu gan bobl sydd â phrofiad bywyd o'r cymunedau hynny ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, gan y bydd ganddynt well dealltwriaeth o anghenion penodol eu cymunedau.
288. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylid creu rhaglen fentora sy'n benodol ar gyfer y gweithlu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n ystyried eu normau a'u gwahaniaethau diwylliannol a sut y gellir eu denu i ffynnu mewn gweithle gwrth-hiliol. Dylai fod gan fyrddau ieuchyd gynllun o'r fath ar waith a dylai'r mentoriaid hynny gael eu hyfforddi a'u hariannu'n ddigonol i'w gwneud yn sensitif ac yn effeithiol wrth gefnogi'r rhai y maent yn eu mentora.
289. Hoffai un ymatebydd unigol (n = 1) weld gofalwyr maeth yn cael eu cynnwys yn elfen y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys annog / recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i faethu. Bydd angen i hyn gynnwys dealltwriaeth o'r rhwystrau posibl a allai godi.
290. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith nad oedd y Cynllun yn cydnabod y nifer sylweddol o ddarparwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y sector preifat.

291. Roedd un ymatebydd unigol (n = 1) a sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol sy'n cael ei amlinellu yn y Cynllun yn cynnwys y sector gofal plant. Roedd pryder nad yw'r rôl bwysig y mae gofal plant yn ei chwarae fel rhan o'r economi sylfaenol yn cael ei chydabod yn y Cynllun.
292. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi penodi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gymru, ac y dylid cyfeirio ato yn yr adran hon bellach oherwydd dylai'r rôl newydd hon fod yn hanfodol wrth fwrw ymlaen â rhywfaint o'r gwaith hwn ar lefel strategol, ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid eraill y cyfeirir atynt yn yr adran hon.
293. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod angen dweud mwy yn yr adran hon o'r Cynllun am well cefnogaeth i ofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol di-dâl o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Er bod sôn am hyn fel canlyniad dymunol yn Nod 2, nid oes sôn am ddarparu hyfforddiant a chymorth i sefydliadau'r sector gwirfoddol i gyflawni hyn o dan 'camau gweithredu'. Gallai hynny fod yn amryfusedd, ond mae'n rhaid darparu hyfforddiant a chymorth cyfartal i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol y sector gwirfoddol, ochr yn ochr â rhai cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod y nod hwn yn cael ei gyflawni mewn ffordd nad yw'n rhoi sefydliadau gwirfoddol / elusennol o dan bwysau enfawr i'w ddatrys ar eu pennau eu hunain.
294. Roedd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) yn rhwystredig nad yw'r adran hon o'r Cynllun yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at gamau gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Barnwyd bod hyn yn amryfusedd sylweddol ac mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y profiadau ffurfiannol cynnar hyn yn hanfodol i ddatblygiad yr unigolyn yn y dyfodol. Rhaid i wasanaethau gynnwys amrywiaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb. Rhaid i staff sy'n darparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant fod yn ymwybodol o ddiwylliant, ac yn gwbl ac amlwg gymwys, er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a gweithgareddau ar gyfer unigolion ifanc yn hyrwyddo egwyddorion a gwerthoedd Cymru wrth-hiliol. Y farn gref oedd bod hyn yn fwllch sylweddol yn y Cynllun. Roedd pryder hefyd nad oedd llawer o'r Cynllun yn tynnu sylw at gamau gweithredu penodol ar gyfer plant sy'n agored i niwed. Bydd profiadau plant o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyrion gofal, neu mewn gofal, yn llywio eu bywydau.

Addysg, gan gynnwys Addysg Uwch:

295. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 22+), undebau llafur (n = 6), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 6+), awdurdodau lleol (n = 9), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 8), sefydliadau cymunedol (n = 2+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar adran Addysg (gan gynnwys Addysg Uwch) y Cynllun.

Sylwadau ar y cwricwlwm newydd:

296. Soniodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 9+), undebau llafur (n = 5), awdurdodau lleol (n = 5), sefydliadau cymunedol (n = 1+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) am yr angen i datrefedigaethu'r cwricwlwm ar bob lefel o addysg, o Gyfnod Allweddol 1 hyd at addysg uwch ac addysg bellach. Nodwyd nad yw'r Cynllun yn gwneud fawr ddim cyfeiriad at datrefedigaethu, naill ai mewn addysg uwch neu addysg bellach, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau gwrth-hiliaeth ac atal naratifau sefydledig rhag parhau i fod yn flaenllaw ac un system wybodaeth yn cael ei blaenoriaethu dros un arall. Ni ellir mynd i'r afael â hiliaeth os yw sail ddeallusol ac athronyddol sefydliadau yn parhau i fod yn hollol 'Wyn' neu Ewropanolog. Byddai'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Prydain yn gallu dod i'r casgliad fod yr holl waith deallusol pwysig mewn hanes dynol wedi'i wneud gan Ewropeaid, ac nid yw hynny'n wir. O ran hyrwyddo diwylliant o chwilyfrydedd a her, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i sefydlu hawl unigol staff i ryddid academiaidd. Er na fydd uchelgais gadarnhaol fel datrefedigaethu yn cael ei chyflawni dros nos, mae'n annhebygol o gael ei chyflawni o gwbl os bydd sefydliadau'n gosod 'effeithlonrwydd' o flaen meddwl ac ymchwilio rhydd.
297. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), undebau llafur (n = 5), awdurdodau lleol (n = 5), sefydliadau cymunedol (n = 1+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylai addysg hawliau dynol gael ei hymgorffori yn y cwricwlwm newydd i sicrhau bod ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i addysg hawliau dynol wrth ddylunio, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm; bydd angen i Lywodraeth Cymru ariannu'r gwaith hwn yn ddigonol er mwyn cyflawni hyn. Rhaid i'r cwricwlwm newydd fynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu ac ar gyfer addysg gyffredinol (gan ddechrau o'r cyfnod cyn-ysgol, ac ymlaen i'r ysgol gynradd / uwchradd) dylid canolbwyntio mwy ar addysg ddiwylliannol ryngwladol a meithrin sgiliau fel rhan o datdrefedigaethu'r cwricwlwm, yn hytrach nag ar raddau. Rhaid i addysgu a dathliadau o ddiwylliant nad ydynt yn rhai Ewropanolog fynd y tu hwnt i docynistiaeth neu wefus-wasanaeth – yn hytrach na digwyddiadau unigol, ynysig a misoedd ymwybyddiaeth sy'n dathlu cyfraniad lleiafrifoedd ethnig o ran eu hanes, eu diwylliant a'u profiadau bywyd, dylid ymgorffori hyn yn y gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm ar draws y flwyddyn ysgol, er enghraifft Mis Hanes Pobl Dduon, Sipsiwn, Mis Hanes Roma a Theithwyr, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Ramadan ac Eid. Rhaid ymgorffori hanesion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y cwricwlwm newydd hefyd, gan gyfeirio at adnoddau fel Gŵyl Hanes Cymru i Blant. Dylai ysgolion addysgu disgyblion am wahanol walltiau a diwylliannau, gan gynnwys ehangu polisi gwisg ysgolion er mwyn ystyried profiadau amrywiol myfyrwyr hil-ddifiniedig a'u hanghenion diwylliannol ac ethnig, e.e. plethu gwallt, gwallt hir i ddynion Sikh a henna, a dylai hyn gynnwys plant, teuluoedd a chymunedau gymaint â phosibl. Roedd syniadau eraill yn cynnwys annog disgyblion i ddefnyddio TikTok, Instagram a Snapchat i gofnodi eu teithiau i Amgueddfa Cymru, gan ychwanegu capsiwn "*Gwers Hanes Pobl Dduon Cymru*" neu "*#BHL Cymru*" i hybu ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm.
298. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), undebau llafur (n = 5), awdurdodau lleol (n = 5), sefydliadau cymunedol (n = 1+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n

= 1) y dylai'r Cynllun gynnwys enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â darparu'r cwricwlwm ac y dylai fynd i'r afael â'r adnoddau, yn enwedig y cyllid angenrheidiol i gefnogi newid yn y cwricwlwm a hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gweithlu i gyflawni'r cwricwlwm gwrth-hiliol, drwy ariannu hyfforddiant, a chaniatáu amser ychwanegol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth i ymarferwyr addysg ddysgu sut i ymgorffori'r egwyddorion hyn ym mhob agwedd ar ddysgu. Er mwyn cyflawni'r cwricwlwm newydd, bydd angen mynd i'r afael â'r diffyg adnoddau yn y ddwy iaith sy'n cefnogi addysgu Hanes Cymru a chofnodi'r cyfraniadau amhrisiadwy a wnaed i Gymru fel cenedl gan gymunedau ethnig amrywiol.

299. Cyflwynwyd sylwadau gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), undebau llafur (n = 5), awdurdodau lleol (n = 5), sefydliadau cymunedol (n = 1+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ar sut mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o ymreolaeth i ysgolion wrth benderfynu ar y cwricwlwm perthnasol, gan fynnu y byddai angen asesiad priodol a gwybodus o effeithiau'r penderfyniadau ar gydraddoldeb i wneud hyn. Fel arall, maent mewn perygl o effeithio'n negyddol ar hiliaeth ac anfantais sefydliadol. Nid yw'n glir beth fydd cwmphas yr addysg a gaiff ei haddysgu yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer y Nodau ar gyfer Addysg – nid yw pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn grŵp unffurf, ac mae'n rhaid i ddysgu adlewyrchu hyn. Rhaid sicrhau bod 'straeon' amrywiaeth o wahanol grwpiau ethnig yn cael eu cynnwys ac nad yw hyn yn digwydd ar sail tocynistiaeth yn unig. Bydd angen cyngor ac arweiniad ar athrawon yn iaith y ddarpariaeth – gan osgoi iaith sy'n portreadu 'ni' a 'nhw'. Dylai'r Cynllun egluro sut na fydd y cynlluniau i roi mwy o ryddid ac annibyniaeth i ysgolion wrth benderfynu ar y cwricwlwm perthnasol yn cynyddu anfantais.

300. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl Somaliaidd yn teimlo bod y gymuned Somaliaidd a'i chyfraniadau i gymdeithas yng Nghymru yn dal heb ei chydabod, yn enwedig yn y llyfrau hanes.

301. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) y dylid diweddarau'r Cynllun i adlewyrchu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Athro Charlotte Williams.

Bwlch cyrhaeddiad:

302. Mae un undeb llafur (n = 1), un sefydliad ieuchyd (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), un sefydliad trydydd sector (n = 1), un awdurdod lleol (n = 1) a byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) wedi cynnig sylwadau ar fylchau cyrhaeddiad. Mae'r cyfeiriad at gau bylchau cyrhaeddiad yn y Cynllun yn awgrymu bod dysgwyr ethnig leiafrifol yn tangyflawni, ac nid yw hynny'n gywir ar gyfer pob grŵp ethnig lleiafrifol. Awgrymodd rhai sylwadau y dylai'r Cynllun ganolbwyntio ar y grwpiau lleiafrifol sydd ar ei hôl hi yn hytrach na darparu ymateb cyffredinol. Dylai'r Cynllun gynnwys camau gweithredu i ddadansoddi a mynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion Du a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys drwy wella'r drefn o nodi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Holwyd hefyd sut y byddai'r Cynllun yn ymgynghori â phobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr i wella eu cyrhaeddiad.

303. Dywedodd un undeb llafur (n = 1), un sefydliad iechyd (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), un sefydliad trydydd sector (n = 1), un awdurdod lleol (n = 1) a byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) fod angen gweithredu i fynd i'r afael ag effaith COVID-19, a'r cau ysgolion a dysgu ar-lein yn ei sgil, ar gyrhaeddiad. Dylid darparu digon o arian i ysgolion ddatblygu cynlluniau cymorth unigol, gan gynnwys diwallu anghenion plant a phobl ifanc o ethnigrwydd lleiafrifol penodol i fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar ddysgwyr. Rhaid i unrhyw asesiadau o effaith cau ysgolion a diddymu arholiadau o ganlyniad i COVID-19 gael eu dadgyfuno yn ôl grŵp ethnig lleiafrifol, ac yn ôl nodweddion gwarchodedig eraill a chefnidir economaidd-gymdeithasol.
304. Dywedodd un undeb llafur (n = 1), un sefydliad iechyd (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), un sefydliad trydydd sector (n = 1), un awdurdod lleol (n = 1) a byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) bod yn rhaid monitro, lleihau a dileu'r bwlch cyrhaeddiad ymhlith myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol mewn addysg uwch ac addysg bellach. Bydd angen i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni sy'n bwriadu mynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad sy'n effeithio ar bobl o ethnigrwydd penodol, yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cynllun gyfeirio'n fwy helaeth at y cysylltiadau rhwng y bwlch cyrhaeddiad a'r bwlch uchelgais, a bod yr olaf yn cael effaith sylweddol.

Bwlio hiliol – Cofnodi, Atebolrwydd a Llywodraethu:

305. Roedd awdurdodau lleol (n = 5), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 9+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), undebau llafur (n = 5) sefydliadau cymunedol (n = 2+), sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 3) ac un ymatebydd unigol (n = 1) yn gadarn o'r farn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw achosion o fwlio hiliol, gwahaniaethu a throseddau casineb yn cael eu trin yn ddigonol, eu cofnodi a'r gweithdrefnau'n cael eu dilyn. Yn unol ag argymhellion Confensiwn Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil yn eu hadolygiad diwethaf o'r Deyrnas Unedig yn 2016, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gasglu data ansoddol a meintiol ar fwlio a gwaharddiadau o'r ysgol ar sail hil. Awgrymwyd bod angen un system adrodd ganolog ar draws y maes addysg er mwyn deall maint y broblem yn llawn, er mwyn sicrhau cofnodi cyson a sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei gofnodi, hyd yn oed os ydynt yn cael eu hystyried yn gymharol ddi-nod. Dylai casglu data hefyd fabwysiadu dull croestoriadol a rhaid defnyddio'r wybodaeth hon i weithredu a gwerthuso strategaethau gwrth-fwlio. Mae'n bwysig i'r Cynllun gydnabod hefyd fod y rhan fwyaf o fwlio hiliol, aflonyddu a throseddau casineb yn digwydd oddi ar dir yr ysgol, ar y daith adref neu ar fysiau ysgol. Mae angen i'r Cynllun ddelio â hyn oherwydd bod rhieni wedi cael gwybod mai cyfrifoldeb

y rhiant yw rhoi gwybod i'r heddlu am y digwyddiadau bwlio hynny gan ddisgyblion sy'n digwydd y tu allan i dir yr ysgol. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod awdurdodau lleol yn dadansoddi data bwlio sy'n cael ei gasglu gan ysgolion, gan gynnwys bwlio hiliol, er mwyn nodi tueddiadau a helpu i sefydlu atebion yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Dylai fod yn ofynnol hefyd i brifysgolion roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu a dylai adroddiadau fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai fframwaith cliriach fod ar waith i fynd i'r afael â hiliaeth, yn ogystal â fframwaith rheoleiddio cryfach gan gynnwys CCAUC, Estyn a chyrff cyhoeddus eraill. O ran y cam gweithredu sy'n ymwneud â gwella'r amrywiaeth o brofiadau a adlewyrchir yn y cwricwlwm a gwella amrywiaeth y gweithlu, dylid ehangu hyn i'r gwasanaethau cymorth fel Consortia Addysg, a dylai ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb hiliol ddod yn un o'r meini prawf y mae Estyn yn ei ddefnyddio fel ffon fesur ar gyfer ysgolion a cholegau. Bydd llawer o'r nodau yn gofyn am roi trefniadau monitro ac atebolrwydd ar waith, ochr yn ochr â chanllawiau ymarfer, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a hybu ymwybyddiaeth, gyda chyfranogiad grwpiau cymunedol. Er enghraifft, mewn perthynas â'r ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau statudol ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gefnogi canlyniadau addysgol, dim ond os caiff ei ariannu y bydd hyn yn cael y canlyniadau a ddymunir – fel arall, mae perygl iddo fod yn ddim mwy na strategaeth arall. Byddai bod yn glir ynghylch rôl Estyn yn hyn o beth yn ddefnyddiol, a dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff arolygu e.e. Estyn i weld sut y mae modd helpu i gyflawni'r weledigaeth drwy eu cylch gwaith.

306. Roedd awdurdodau lleol (n = 5), sefydliadau'r trydydd sector (n = 7), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), undebau llafur (n = 4) sefydliadau cymunedol (n = 2+), sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 3) ac un ymatebydd unigol (n = 1) yn gadarn o'r farn y dylid darparu model o ysgol gwrth-hiliol yn yr 21ain ganrif fel esiampl i bob ysgol ledled Cymru weithio tuag ati i sicrhau bod safonau'n cael eu codi / bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn. Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo polisi dim goddefgarwch tuag at hiliaeth sy'n mabwysiadu diffiniad pendant a derbyniol o fwlio a bwlio hiliol a sicrhau bod gofyniad cyfreithiol i bob ysgol yng Nghymru fabwysiadu'r polisi hwn a'i hysbysu i bob disgybl, rhiant ac aelod o staff.
307. Teimlai awdurdodau lleol (n = 5), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 8+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), undebau llafur (n = 4) sefydliadau cymunedol (n = 2+), sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 3) ac un ymatebydd unigol (n = 1) ei bod yn bwysig bod yr adran hon o'r Cynllun yn cydnabod pa mor anodd yw hi i blant gamu ymlaen i roi gwybod am fwlio hiliol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd mecanweithiau cadarn a diogel i roi gwybod am fwlio fel rhan o strwythur yr ysgol, gyda'r angen i Lywodraeth Cymru orfodi hyn, a rhaid i ysgolion gael eu dwyn i gyfrif os byddant yn methu â gwneud hyn. Roedd pryder nad yw'r Cynllun yn sôn am sut y bydd ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif os nad ydynt yn ymateb i gwynion yn briodol neu'n cofnodi bwlio ar sail hunaniaeth; neu i fanylu pa fecanweithiau sydd ar waith ar gyfer gwneud cwynion yn erbyn ysgolion. Heb yr atebolrwydd hwnnw a llwybr clir a hygyrch i fynegi pryderon pan na fydd gweithredu wedi digwydd, barnwyd ei bod yn annhebygol a fydd unrhyw newid ystyrlon yn digwydd. Mae angen mannau diogel lle gall disgyblion fynd am help, ynghyd ag angen i sicrhau bod plant yn gwybod at bwy i fynd a sut i gael help. Mae angen

addysg gwrth-hiliaeth a gwrth-fwlio yn yr ystafell ddosbarth a hyfforddiant gwylwyr tawel i helpu plant sy'n cael eu bwlio ac sy'n ofni codi llais. Mae angen rhoi gwybod i rieni hefyd am weithdrefnau adrodd a chwyno a pha gamau y bydd yr ysgol yn eu cymryd os bydd cwyn, oherwydd mae casglu data yn ddiystyr oni bai bod rhieni'n deall sut i roi gwybod ac yn hyderus y bydd materion o'r fath yn cael sylw cadarn a phriodol. Dylid creu corff annibynnol i gefnogi ysgolion a disgyblion neu rieni pan fydd angen uwchgyfeirio achosion. Roedd barn gref bod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw profiadau o wahaniaethu a hiliaeth yn cael eu labelu fel tynnu coes, neu fwlio arferol. Dylid cael canllawiau penodol ar gyfer digwyddiadau hiliol, ar wahân i'r canllawiau ar fwlio. Mae angen i ysgolion gyflwyno diogelwch ac amddiffyniad i fyfyrwyr, oherwydd mae hiliaeth a gwahaniaethu yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu diystyru, eu hanwybyddu ac nad ydynt yn ddiogel. Un awgrym oedd y dylai mannau diogel o'r fath gael eu hwyluso gan weithwyr ieuencid yn hytrach nag athrawon, oherwydd mae angen i'r perthnasoedd hyn fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Mae'n hollbwysig bod dioddefwyr hiliaeth yn cael eu cefnogi'n ddigonol, yn enwedig gan fod disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llai tebygol o gyrchu gwasanaethau cwnsela prif ffrwd. Dylai Uwch Dimau Arwain Ysgolion ac aelodau perthnasol o staff dderbyn hyfforddiant yn y maes hwn i allu rhoi cymorth ar fyrder i'r rhai sy'n profi hiliaeth. Dylent hefyd allu cyrchu cyrff allanol lleol sy'n arbenigo yn y math hwn o gymorth i bobl ifanc.

308. Roedd awdurdodau lleol ($n = 5$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 8+$), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg ($n = 3$), undebau llafur ($n = 4$) sefydliadau cymunedol ($n = 2+$), sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 3$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) yn gadarn o'r farn fod angen i'r Cynllun gydnabod bod gwahanol grwpiau lleiafrifol yn cael eu trin yn wahanol mewn cymdeithas a bod angen i athrawon, ysgolion ac arolygwyr ddeall bod gan bob grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ddiwylliannau gwahanol, a'u bod yn gallu profi gwahaniaethu ar sail hil a chrefydd mewn gwahanol ffyrdd. Mae aelodau o'r grwpiau lleiafrifol llai yn tueddu i gael eu hanwybyddu a'u talpio ynghyd â grwpiau mwy amlwg, gan anwybyddu'r ffaith bod eu profiadau'n wahanol, a gallai eu plant deimlo'n fwy ynysig. Rhaid i'r CGCH terfynol adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn gwahanol grwpiau ethnig a chrefyddol a rhaid iddo gynnwys rhieni, gofalwyr a phlant ar bob cam, gan gynnwys cynllunio, cyflwyno ac arolygu. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion yn gweithio gyda theuluoedd ac nid mewn ffordd docynistaidd. Mae angen dweud mwy yn y Cynllun am deuluoedd a rhieni gan nad yw addysg yn dod i ben wrth gatiau'r ysgol. Gellid dweud mwy yn y Cynllun i gydnabod rhieni a grwpiau cymunedol fel adnodd i ysgolion, h.y. eu cynnwys yn fwy mewn addysg, eu croesawu i ysgolion a chaniatáu iddynt gymryd rhan fel ffordd o ddangos amrywiaeth yn naturiol a sut y gall gwahanol gymunedau fyw gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd.

309. Mynnodd awdurdodau lleol ($n = 5$), sefydliadau'r trydydd sector ($n = 7$), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg ($n = 3$), undebau llafur ($n = 4$) sefydliadau cymunedol ($n = 2+$), sefydliadau sector cyhoeddus ($n = 3$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai pob plentyn, o bob oed, gael ei glywed cyn cael ei wahardd, ac y dylai pob plentyn gael yr hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad a chael cymorth wrth wneud hynny. Dylai plant o'r fath hefyd gael cyngor a chymorth cyfreithiol sy'n briodol i'w hoedran drwy gydol y broses

apelio neu hawlio. Mewn perthynas â'r defnydd o ataliaeth: Dylai Llywodraeth Cymru bennu blaenoriaeth genedlaethol gyda'r nod o leihau ataliaeth a lleihau ei ddefnydd anghymesur. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddata cenedlaethol am y defnydd o ataliaeth mewn ysgolion yng Nghymru. Rhaid sicrhau bod y data ar gael drwy fabwysiadu'r argymhellion ynghylch cofnodi, monitro ac adrodd. Dylai ysgolion gynnwys amcan yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn unol â'r flaenoriaeth genedlaethol hon, gyda'r nod o leihau ataliaeth a lleihau defnydd anghymesur.

310. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymchwiliad ar wahân i hiliaeth yn ysgolion Cymru er mwyn gwella ei dealltwriaeth o hiliaeth mewn ysgolion ac ymchwilio i gyfraddau gwahardd anghymesur o uchel ar gyfer disgyblion ethnig leiafrifol a dadansoddi'r rhesymau dros blant sy'n arddangos ymddygiad o'r fath i warantu gwaharddiad, ac a oedd eu hymddygiad yn ymateb i hiliaeth.
311. Roedd awdurdodau lleol ($n = 5$), sefydliadau'r trydydd sector ($n = 7$), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg ($n = 3$), undebau llafur ($n = 5$) sefydliadau cymunedol ($n = 2+$), sefydliadau sector cyhoeddus ($n = 3$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) wedi bod yn edrych ar rai o'r heriau o ran gweithredu dull gwrth-hiliol. Er enghraifft, os yw plentyn yn hiliol tuag at athro, sut mae'r ysgol a'r awdurdodau'n delio â hyn? A oes gwahaniaeth yn y ffordd y caiff hiliaeth ei thrin pan mae'n tarddu o blentyn? A oes gwahaniaeth rhwng hiliaeth sy'n deillio o anwybodaeth neu hiliaeth sy'n deillio o fwriad maleisus pan fo'r ddau'n gallu effeithio'r un mor negyddol ar y dioddefwr? Sut y byddai athrawon a gweithwyr ysgol yn delio â hyn a sut y gallai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu sefyllfa'r ysgol wrth ddelio â hiliaeth? Mae cwestiynau tebyg mewn sectorau eraill yn y gweithle, ond nid yw'r cwestiynau ymarferol hyn yn cael sylw yn y Cynllun. Cyfeiriodd un undeb llafur ($n = 1$) at brofiad bywyd, gan nodi bod llawer o athrawon wedi sôn am brofiadau o fwlio hiliol ac aflonyddu yng Nghynhadledd Ymgynghori Athrawon BME 2020. Roedd microsarhad, microannilysu a mathau eraill o hiliaeth gudd yn rhan o fywydau beunyddiol llawer o athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Dywedodd 60 y cant o athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu bod wedi cael eu cam-drin yn hiliol gan ddisgyblion; roedd 16 y cant wedi cael eu cam-drin yn hiliol gan riant neu ofalwr; dywedodd 60 y cant nad oeddent wedi derbyn cymorth gan uwch arweinwyr wrth roi gwybod am yr ymddygiad hwn; dywedodd 59 y cant eu bod wedi profi ymdrechion gan eraill i eithrio neu wadu dilysrwydd eu hunaniaeth, eu meddyliau, eu teimladau neu eu profiadau.
312. Mewn perthynas â'r gymuned brifysgol ehangach, roedd awdurdodau lleol ($n = 5$), sefydliadau'r trydydd sector ($n = 7$), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg ($n = 3$), undebau llafur ($n = 4$) sefydliadau cymunedol ($n = 2+$), sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 3$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer o staff Du yn teimlo bod gofyn i sefydliadau fod â fforymau ystyrion lle gall myfyrwyr Du godi eu llais. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n hanfodol bod rhywun sy'n gwneud penderfyniadau yn yr ystafell i wrando'n weithredol. Awgrymwyd nad oedd systemau adrodd yn gweithio mewn o leiaf un sefydliad AU, gan fod diffyg capasiti prosesu yn golygu methiant i fynd i'r afael â rhai cwynion na'u cofnodi, gan arwain at danadrodd difrifol. Mewn enghraifft arall, disgrifiodd darlithydd coleg Du pa mor anodd oedd cael gafael ar gopi o strategaeth cydraddoldeb ei goleg, ac iddo fethu â chael fersiwn ar-lein na chopi caled er gwaethaf holi sawl gwaith. Roedd yr adborth

yn ei gwneud yn glir na fydd staff Du yn codi eu llais oni bai eu bod yn gweld posibilrwydd go iawn o drawsnewid strwythurol eang ac, fel mae pethau, mae llawer o academyddion iau yn amharod i dynnu sylw at eu hunain a gwneud eu hunain yn dargedau: *“oherwydd bod pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol yn y lleiafrif yn y sefydliadau hyn, rwyf wedi gweld staff a myfyrwyr yn llythrennol yn cerdded i lawr y cyntedd gyda’u pennau wedi’u gostwng.”* Mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch, mae taer angen codi proffil a statws staff Du gan fod rhwydweithiau grym anffurfiol o fewn Addysg Uwch wedi’u disgrifio fel rhai nad ydynt bob amser yn croesawu staff Du.

Sicrhau amrywiaeth y gweithlu addysgu, llywodraethwyr, arweinwyr ac awdurdodau rheoleiddio:

313. Mynnodd undebau llafur (n = 6), un sefydliad iechyd (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) fod yn rhaid i'r byd academiaidd a sefydliadau academiaidd yng Nghymru gynrychioli'n well y cyrff myfyrwyr y maent yn darparu dysgu ac addysgu ar eu cyfer. Mae angen strategaeth gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu a'i wneud yn llawer mwy amrywiol. Awgrymwyd y gallai creu rhaglenni mentora ac ysgoloriaethau annog pobl ethnig leiafrifol i ymuno â byd addysgu. Mae addysg ac amgylcheddau llwyddiannus yr ysgol yn dibynnu ar holl weithlu'r ysgol felly, er ei bod yn amlwg yn bwysig cynyddu amrywiaeth ethnig staff addysgu, mae hefyd yn bwysig gwella amrywiaeth ethnig gyfrannol gweithlu cyfan yr ysgol a sicrhau bod strwythurau datblygu gyrfa cadarn ar waith. Mae'r un egwyddor yn berthnasol ar draws y gweithlu addysg cyfan, boed hynny mewn ysgolion, addysg bellach neu addysg uwch. Mae hyn yn bwysig gan fod cyfradd gymharol uchel o weithwyr staff cymorth ysgolion yn bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol – grŵp gwaith sy'n aml yn cael ei anwybyddu mewn trafodaethau am y gweithlu addysg. Mynnodd ymatebwyr ymhellach y dylai staff yn y sector addysg ehangach, gan gynnwys staff Estyn, hefyd ddod yn fwy amrywiol drwy weithredu cadarnhaol wrth recriwtio os oes angen. Dylai'r Cynllun hefyd gynnwys camau gweithredu ynghylch recriwtio mwy o lywodraethwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, fel yr argymhellwyd gan Brentnall yn ei waith ymchwil yn 2017 i wella ymgysylltiad a chyflawniad ymhlith dysgwyr ethnig leiafrifol yng Nghymru. Mae angen mwy o leisiau o'r cymunedau fel llywodraethwyr i dynnu sylw at anghenion diwylliannol, a bydd yn bwysig sicrhau bod y polisi i gynyddu nifer y llywodraethwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael ei weithredu'n drylwyr gan sefydliadau. Yn ogystal, nid yw llawer o rieni'n glir ynghylch sut i ddod yn llywodraethwr, felly mae angen rhannu rhagor o wybodaeth am hyn. O ran Nod 3, nid oes unrhyw uchelgais yn y pwynt bwled olaf o ran cynnwys pobl ethnig leiafrifol ym maes llywodraethu. Mae modd ystyried bod y cam gweithredu i gynnwys pobl ethnig leiafrifol ar fyrddau yn docynistaidd. Dylid ystyried realiti sicrhau bod yr aelodau bwrdd hynny sy'n cynrychioli cymunedau ethnig lleiafrifol yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac nad ydynt yn teimlo fel llais unigol mewn torf. Argymhellwyd yn gryf y dylid adrodd yn rheolaidd ar amrywiaeth a recriwtio staff addysgu (gan gynnwys y gweithlu addysgu ehangach) a recriwtio myfyrwyr.

314. Nododd undebau llafur (n = 5), un sefydliad iechyd (n = 1), un sefydliad trydydd sector (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a byrddau, rhwydweithiau a

chymdeithasau addysg (n = 2) fod staff addysgu ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gael contractau parhaol a'u bod yn fwy tebygol o weithio mewn rolau athrawon cyflenwi. Mae angen cynnwys cynnydd yn amcanion perfformiad a chyflogau swyddi uwch. Bernir nad yw dull drysau caeedig CCAUC o ddatrys arferion gwael, sy'n cael ei ddisgrifio fel 'cyfarfodydd heb goffi', yn dwyn digon o rym na gwelededd i gefnogi diwylliant o newid.

315. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw at bwysigrwydd ymgorffori hyfforddiant ac arfer gwrth-hiliol mewn cymwysterau addysgu, gan gynnwys asesu sut mae myfyrwyr yn ymgorffori hyfforddiant o'r fath yn eu harfer. Mae ymatebwyr eisiau gweld camau gweithredu yn y Cynllun yn ymwneud ag ymgynghori a chyfranogi gyda disgyblion i atal a mynd i'r afael â hiliaeth yn yr ysgol. Os yw disgyblion yn gweld hiliaeth ac yn profi hiliaeth yn yr ysgol ac yn sylwi ei fod yn cael ei ddiystyru neu ei gelu, maent yn llai tebygol o ystyried bod ganddynt ddyfodol eu hunain fel rhan o'r system honno. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) fod angen mwy o fodelau rôl ethnig leiafrifol mewn addysg.

Hyfforddiant athrawon:

316. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), un undeb llafur (n = 1) ac awdurdodau lleol (n = 2) yn gadarn o'r farn fod yn rhaid i athrawon gael eu haddysgu a'u hyfforddi'n well, a deall hil a hiliaeth yn ogystal â materion cyfredol yn well, gydag athrawon sy'n ddiwylliannol gymwys. Rhaid i bob athro/athrawes gael hyfforddiant gwrth-hiliaeth a rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth o hyn wrth ymuno â'r proffesiwn. Byddai angen gwreiddio hyn mewn Addysg Gychwynnol Athrawon a safonau addysgu proffesiynol, ynghyd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol a Chymhwysedd Diwylliannol, er mwyn darparu hyfforddiant a dealltwriaeth gadarn i athrawon dan hyfforddiant newydd wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfa yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylai hyfforddiant amrywiaeth ddiwylliannol fod yn rhan annatod o gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon a'r cwricwlwm, a dylai gael ei ddarparu gan bobl gyda phrofiad bywyd. Rhaid i hyfforddiant o'r fath hefyd fod yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, a dylai Cyngor y Gweithlu Addysg fod yn gyfrifol am oruchwylio hyn. Rhaid i bob athro dderbyn hyfforddiant priodol ar sut i adnabod ac ymateb i hiliaeth yn effeithiol ac yn gadarn, gan sicrhau bod y rhai sy'n darparu addysg wedi'u harfogi i fynd i'r afael â gwrth-hiliaeth mewn ffordd effeithiol a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol fel eu bod yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n llawn i addysgu hanes lleiafrifoedd ethnig ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Rhaid i athrawon hefyd feddu ar y gallu i herio rhagfarn ddarwybod, a dylid ymestyn yr hyfforddiant hefyd i ymdrin yn briodol ac yn adeiladol â chwynion a'r sawl sy'n cwyno. Rhaid i hyfforddiant o'r fath gynnwys amserlenni clir ar gyfer datblygu a gweithredu'r hyfforddiant hwn. Dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys trafodaethau am ficroymosodiadau; hefyd, mae dibwylo yn broblem gyffredin yn yr ystafell ddosbarth. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn ystod yr hyfforddiant hefyd, gan ei fod yn gwneud profiad yr ystafell ddosbarth yn flinedig ac yn anghyfforddus i fyfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

317. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), un undeb llafur (n = 1) ac awdurdodau lleol (n = 2) yn gadarn o'r farn nad ar gyfer ysgolion yn unig y mae hyfforddiant gwrth-hiliol ond ar gyfer arweinwyr, swyddogion awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru – y bobl sy'n gwneud penderfyniadau ac sydd yng ngofal y gyllideb. Nodwyd bod angen i Consortia Addysg Cymru gymryd rhan mewn hyfforddiant a bod yn rhaid iddynt ymgysylltu'n weithredol. Mae angen i'r Cynllun egluro sut y bydd yr hyfforddiant yn digwydd, gan fod angen newid system / diwylliant cyfan arnom – nid ymarfer ticio blychau yn unig. Mae angen rhaglen dreigl gyson, gan fod hyfforddiant untro yn docynistaidd ac yn hiliol ynddo'i hun. Dylai fod ymrwymiad o bob lefel – llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Mynnodd ymatebwyr fod angen cynnwys arolygiaethau fel Estyn yn yr hyfforddiant hwn hefyd oherwydd bod angen i Estyn feddu ar ddealltwriaeth dda o adrodd am fwlio hiliol gan ysgolion a'r wybodaeth a'r arbenigedd i gefnogi ysgolion yn hyn o beth. Mae angen hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol a Chymhwysedd Diwylliannol ar arolygwyr Estyn hefyd.
318. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), un undeb llafur (n = 1) ac awdurdodau lleol (n = 2) fod angen cyllid ar gyfer rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i staff ysgolion presennol. Rhaid ystyried hefyd yr amser sydd ei angen ar staff i gyflawni'r hyfforddiant hwn fel bod modd ymgorffori'r dull cyfan yn llwyr o fewn y cwricwlwm.
319. Mynnodd ymatebwyr hefyd fod angen cronfa adnoddau o ddeunyddiau ar gyfer pob athro (e.e. ar Hwb) fel bod dull cyffredin ledled Cymru e.e. cynlluniau a syniadau gwersi; syniadau ar gyfer cynnwys rhieni a'r gymuned ar gyfer cyfoethogi diwylliannol a rhoi cyfle i ddysgwyr brofi diwylliannau, crefydd, ieithoedd amrywiol ac ati.

Y cyllid a'r adnoddau sydd eu hangen:

320. Mynnodd un undeb llafur (n = 1), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), sefydliadau'r trydydd sector (n = 3) ac awdurdodau lleol (n = 2) fod strwythurau ariannu ac ymgysylltu priodol yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun. Rhaid rhoi digon o arian i ysgolion i ddarparu hyfforddiant gorfodol i bawb – dylai llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon a staff eraill yr ysgol ymgymryd â hyfforddiant i atgyfnerthu ethos ysgol gyfan o wrth-hiliaeth ac amrywiaeth. Er mwyn newid barn athrawon a phlant, rhaid i hyn gael ei ymgorffori yng nghwricwlwm yr ysgol a pheidio â chael ei ystyried yn sesiynau unigol. Rhaid cael ystyr y tu ôl i'r ddarpariaeth a rhaid i blant ac ysgolion ddeall pam eu bod yn ei gyflawni a'r hyn y maent am ei gyflawni, yn hytrach nag ymarfer ymwybyddiaeth yn unig. Bydd angen mwy o gymorth ar sefydliadau addysg uwch hefyd i gyflawni gwrth-hiliaeth yn effeithiol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac AdvanceHE. Mae'r prosiect AdvanceHE a weinyddwyd ar hyn wedi bod yn fuddiol, ond mae angen mwy o gymorth ar sefydliadau AU mawr i gyflawni'n effeithiol o ran yr her anodd o newid canlyniadau i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'n her sylweddol a chymhleth ac mae angen cymorth. Bydd cyllid wedi'i neilltuo at ddiben penodol yn ffordd fwy ystyrlon o ddarparu ymyriadau wedi'u targedu, gan ei bod yn angenrheidiol

i bob dysgwr gael gafael ar ddarpariaeth ar bob grŵp sydd wedi'i ymleiddio'n hanesyddol, ac ni ddylai hyn ddibynnu ar awdurdodau lleol yn ystyried bod hwn yn faes ffocws iddynt. Dylai'r addysg bwysig hon fod yn gyson i bob dysgwr, heb wahaniaethau rhanbarthol o ran ymrwymadau yn y maes hwn.

321. Roedd un undeb llafur (n = 1), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) ac awdurdodau lleol (n = 2) yn tynnu sylw at ostyngiadau mewn cyllid ar gyfer y disgyblion mwyaf difreintiedig, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a thrwy'r Grant Gwella Addysg. Bydd angen i Lywodraeth Cymru wrthdroi'r toriadau a wnaed i'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS) a'r Grant Gwella Addysg er mwyn cyflawni'r canlyniadau yn y Cynllun.

Gallu ceiswyr lloches, Ffoaduriaid a Mudwyr i gael gafael ar addysg:

322. Dywedodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) fod angen i'r Cynllun ddarparu mwy o gymorth a llwybrau cyflym i helpu ffoaduriaid i gael swyddi y maent yn gymwys i'w cael yn eu mamwledydd. Profiad bywyd: *"Mae gen i radd baglor yn ôl gartref ac mae gen i dystysgrif nyrsio, ond i fod yn nyrs yn y wlad hon, mae'n rhaid i mi fynd yn ôl i'r coleg, ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn fy ngwlad fy hun yn astudio ac yn gweithio. Dydw i ddim yn credu bod hynny'n deg. Dydw i ddim yn mynd i dreulio fy mywyd yn mynd i'r coleg, rydw i eisiau gwneud rhywbeth rwy'n ei garu. Os ydych chi wedi cymhwyso fel nyrs, dylech allu gwneud cwrs gloywi a fyddai'n eich galluogi i ymgymryd â swydd yma heb orfod dechrau o'r newydd. Dylai llwybr carlam i nyrsys a meddygon sy'n gymwys yn eu gwledydd eu hunain fod ar gael."* Dylai Llywodraeth Cymru weithredu strategaeth cymorth cyflogaeth gyfannol ar gyfer pobl sy'n ceisio noddfa, gyda llwybrau gyrfa ar gyfer sectorau allweddol, gan gynnwys gallu cychwynnol i gael gafael ar waith a chamu ymlaen mewn gyrfa, a hynny'n cydnabod cymwysterau blaenorol a dysgu a chymau at gofrestru proffesiynol. Dylai hyn adeiladu ar ehangu rhaglen Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru a defnyddio adroddiadau Sgiliau a Chyflogaeth a ReStart Llywodraeth Cymru.
323. Dywedodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) fod angen mwy o wybodaeth a chymorth ar ffoaduriaid, gan gynnwys mwy o gymorth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), mwy o grwpiau cymdeithasol a chefnogaeth gan gymheiriaid i integreiddio. Croesawyd yr adolygiad o'r ddarpariaeth SSIE, ac roedd galwadau am amrywiaeth yn y ffordd y caiff SSIE ei addysgu. Nid yw pobl o'r gymuned Roma sydd wedi wynebu cam-drin ac ymleiddio o addysg yn eu mamwlad yn gallu cymryd rhan mewn agweddau darllen ac ysgrifennu yn yr ystafell ddosbarth o wersi SSIE. Mae hyn yn golygu y bydd gwersi sgysiol, sy'n cael eu sbarduno gan ddulliau ymarferol o wella iaith, yn eu tro yn caniatáu mwy o hygyrchedd i'r farchnad gyflogaeth a gwell canlyniadau i bobl. Tynnwyd sylw at werth cynnig darpariaeth SSIE mewn mamiaith i hwyluso dysgu Saesneg.
324. Dywedodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+) fod angen mwy o gymorth wedi'i dargedu ar ffoaduriaid, ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion. Profiad bywyd: *"Mae rhai rhieni sydd ddim yn siarad Saesneg o gwbl, sy'n*

effeithio ar blant yn yr ysgol. Mae'n bosibl nad ydyn nhw'n hyderus i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae plant a ddaeth i'r wlad hon heb fawr o Saesneg yn ei chael hi'n anodd dal i fyny. Mae angen i ni addysgu rhieni hefyd. Mae'n dorcalonnus bod angen i blant gyfieithu ar gyfer eu rhieni. Mae angen addysgu rhieni hefyd. Dylai'r Cynllun gynnwys mecanweithiau i gynorthwyo'r rhieni hyn." Dylai Llywodraeth Cymru ariannu gwersi Cymraeg a Saesneg am ddim i bawb sy'n ceisio noddfa, gan gynnwys dulliau digidol ac wyneb yn wyneb a digon o gymorth i symud ymlaen i lefelau uwch, a chynnwys ymwybyddiaeth a chyfeiriadedd diwylliannol fel rhan o ddysgu iaith. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod angen addysgu rhieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd am eu hawliau os yw eu plentyn yn profi hiliaeth neu fwlio, a'r camau sydd ar gael iddynt fynd i'r afael â hyn.

325. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) y dylid ehangu cymhwysedd i dderbyn grantiau addysgol i blant a phobl ifanc mudol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Datblygu Disgyblion. Awgrymwyd bod hwn yn gyfle gwych i ddarparu sylfaen gadarn i unrhyw gynllun yn y dyfodol drwy sicrhau'r ymrwymïadau tymor hwy angenrheidiol gan y Cabinet, gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Gweinidogion Cyllid. Byddai ymrwymiad trawsbynciol ar y gallu i gael gafael ar holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i bawb sydd eu hangen yn gam hollbwysig tuag at hyrwyddo rhoi Cymru Wrth-Hiliol ar waith.
326. Cynigiodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) nifer o feysydd ar gyfer gweithredu:
 - a. Ehangu gwasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod hawl gan bob plentyn mewn teulu sy'n ceisio lloches i eiriolwr annibynnol, a'u bod yn cael eu cefnogi drwy gyfranogiad gweithredol.
 - b. Cynyddu'r cymorth i Blant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches, gan gynnwys mwy o adnoddau eiriolaeth i'r rhai sy'n herio asesiadau oedran, a rhaglen recriwtio a hyfforddi ar gyfer oedolion priodol i gymryd rhan annibynnol yn y broses asesu oedran.
 - c. Darparu canllawiau clir i ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc o gefndiroedd ffoaduriaid o dan anfantais o ran cael gafael ar leoedd ysgol, a'u bod yn cael eu cefnogi os ydynt yn dechrau mewn ysgol hanner ffordd drwy'r flwyddyn academiaidd.
 - d. Ariannu prydau ysgol am ddim i blant o deuluoedd ar gymorth adran 4 a'r rhai sydd heb hawl i arian cyhoeddus, gan gynnwys y rhai y gwrthodwyd lloches iddynt.
 - e. Ehangu'r ddarpariaeth o gynnig gofal plant am ddim y Llywodraeth i bob teulu, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio lloches a'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus.
 - f. Hepgor ffioedd ar gyfer hyfforddiant uwch a thrydyddol i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches. Mae ymatebwyr hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y gallu i gael gafael ar gyllid ar gyfer Addysg Uwch, o dan bolisi'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, yn wahanol i bobl â Statws Preswyllydd Cyn-Sefydlog a Statws Preswyllydd Sefydlog. Dylid mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn er mwyn sicrhau bod gan bob mudwr o'r Ardal

Economaidd Ewropeaidd allu cyfartal i gael gafael ar addysg uwch / addysg bellach / addysg drydyddol ac nad ydynt yn cael eu cau allan o'r ddarpariaeth hon gan gostau astudio afresymol o uchel.

327. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$) yn croesawu'r ddealltwriaeth yn y Cynllun o brofiadau niweidiol yn y gorffennol ymhlith plant Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid, a sut y gall y rhain effeithio ar fywyd ysgol, perfformiad addysgol a chanlyniadau. Cynigiwyd y dylid ymestyn y ddealltwriaeth hon i blant Roma a mudwyr sy'n profi caledi difrifol yn eu mamwledydd ac y mae eu rhieni'n cael trafferth addasu i fywyd yn y DU.

Y strategaeth bresennol:

328. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), undebau llafur ($n = 2$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) mai'r ffordd orau o gefnogi sefydliadau yw sicrhau bod y Cynllun yn cydweddu â phob ffordd weithredol o lywodraeth. Mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, bydd hyn yn cynnwys y Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig, y Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio. Dylid hefyd ystyried Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, sy'n cyffwrdd â chynllunio sgiliau yn ogystal â diwygio cymwysterau (Cymwys am Oes), o ran cynnwys ac effaith asesu. Er enghraifft, ceir tystiolaeth bod profion crynodedol pwysig fel TGAU a Safon Uwch yn cyfuno ag anfantais gefndirol i esgor ar ganlyniadau negyddol i rai myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Awgrymwyd y bydd arweinwyr yn llai tebygol o ddibynnu ar ddadleuon ynghylch ymreolaeth sefydliadol os yw'n amlwg bod y Cynllun yn cyffwrdd â phob agwedd ar eu cynllunio a'u gweithrediadau. Mewn perthynas â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol, gellir sicrhau cydweddu naill ai drwy gylch gwaith gweinidogol, penodi aelod penodol o'r bwrdd a / neu gynnull is-bwyllgor penodol i adrodd yn ôl i'r bwrdd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyn yng ngoleuni asesiad yr Undeb Prifysgol a Choleg – mae tuedd i sefydliadau esgusodi eu hunain o rwymedigaethau (fel Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb) ar y sail nad ydynt yn 'ddigon strategol'.
329. Eglurodd un undeb llafur ($n = 1$) nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael fawr o effaith mewn ysgolion hyd yma, ac mae ymchwil NASUWT yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd; o ganlyniad, ymdriniwyd â materion hil a chydraddoldebau eraill yn aml mewn modd 'ticio blychau'. Ychwanegodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) fod yn rhaid i ysgolion yng Nghymru gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn benodol y gofyniad i gyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb. Dylai cynlluniau o'r fath ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf arwyddocaol, gan gynnwys bwllo ar sail hunaniaeth sy'n gysylltiedig â bylchau hiliol a bylchau cyrhaeddiad.

330. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), undebau llafur ($n = 2$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar y ffordd orau o alluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig, i asesu a mesur cynnydd yn effeithiol o ran a yw darparwyr Addysg Uwch wedi gweithredu'n ddigonol i fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol, a gosod amodau ariannu neu gofrestru lle nad ydynt, drwy ehangu eu pwerau neu gynyddu'r defnydd o'u pwerau presennol. Dylai Llywodraeth Cymru wneud AU yn atebol drwy ei chynllun ffioedd a chyrchu, wrth bennu egwyddorion allweddol ar gyfer sut y dylai pobl weithio a fyddai'n llywio'r holl waith y mae'r ddogfen yn cyfeirio ato. Dylid disgwyl i unrhyw sefydliad sy'n derbyn symiau sylweddol o arian cyhoeddus gadw at y Cynllun.
331. Roedd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), undebau llafur ($n = 2$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) yn gadarn o'r farn fod yn rhaid ailwampio'r modd y mae Estyn yn gwerthuso amrywiaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb mewn ysgolion. Adroddwyd bod arolygiadau Estyn, hyd yma, wedi bod â ffocws cyfyngedig ar ystyriaethau cydraddoldeb, er bod hynny'n faes y dylid ei werthuso. Dylai'r Cynllun gynnwys mwy o fanylion am fframwaith arolygu newydd Estyn a sut y bydd yn cefnogi addysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd targedau, cyfrifoldebau penodedig a mecanweithiau gwerthuso a monitro effeithiol, gan gynnwys arolygiadau Estyn, yn gyfrifol am lwyddiant neu fethiant y gwaith o wireddu nodau sy'n gysylltiedig ag addysg yn y cynllun gweithredu hwn. Dylid archwilio pob proses sefydliadol i sicrhau cydraddoldeb cyffredinol er mwyn sicrhau bod hil yn cael ei chodi i lefel ffrydiau cydraddoldeb eraill. Mae cynnwys Estyn mewn arolygiadau gwrth-hiliaeth i'w groesawu'n fawr, ond nid ar sail yr hyn y mae'r ysgol yn ei gyflwyno y dylid barnu arolygon. Dylent gynnwys trafodaeth gyda rhieni hefyd.
332. Amlygodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), undebau llafur ($n = 2$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) y cyfle i gyfeirio at gydweddu â Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, y cyfeirir ati fel SchoolBeat Cymru. Mae ymatebwyr yn cyfeirio at ddyfyniad ar dudalen 67 o'r Cynllun: *"byddwn yn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer casglu data a rhoi gwybod am ddigwyddiadau hiliol ac achosion o aflonyddu mewn ysgolion yng Nghymru."* Teimlwyd na fydd y nod hwn yn cael ei gyflawni heb wneud cofnodi bwllo ar sail hunaniaeth yn ddyletswydd gyfreithiol i ysgolion yn hytrach na disgwyliad yn unig, fel y mae ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd fod diffyg manylder yn yr adran Addysg a Gwasanaethau Ieuencid, a bod angen iddi ganolbwyntio mwy ar rôl gwasanaethau ymgysylltu â phobl ifanc wrth gefnogi'r Cynllun. Mae llawer o'r camau gweithredu yn cyfeirio at gynlluniau a strategaethau gweithredu ychwanegol / atodol y mae angen eu datblygu i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn, gan arwain at ddiffyg eglurder a phenodoldeb mewn perthynas â chamau gweithredu yn y dyfodol a chanlyniadau mesuradwy.
333. Mae sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), undebau llafur ($n = 2$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) hefyd wedi cynnig sylwadau ar y nod canlynol:

“Sicrhau y caiff staff ethnig lleiafrifol eu galluogi a’u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth mewn addysg uwch, a llwyddo a gwneud cynnydd, ni waeth beth fo’u cefndir hiliol,” gan ddatgan y dylid cydweddu’r nod hwn gyda strategaeth addysgol ehangach. Dywedodd ymatebwyr y dylai’r camau gweithredu o fewn y nod hwn, megis sicrhau gwybodaeth am fwlch cyflog ethnigrwydd a chymorth staff, fod yn gydlynol ac yn gydweithredol.

334. Awgrymodd un undeb llafur (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr adnoddau presennol gan undebau fel NEU (yr Undeb Addysg Cenedlaethol) a NASUWT.

Camau gweithredu coll / awgrym o welliannau / sylwadau eraill:

335. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau’r trydydd sector (n = 10+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 5), awdurdodau lleol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 2+), undebau llafur (n = 2) a sefydliadau a rhwydweithiau’r sector cyhoeddus (n = 4+) yn siomedig nad yw’r adran hon o’r Cynllun yn cynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar – dylid ystyried hyn yn y Cynllun a sut y gall y Cynllun gysylltu â’r Agenda Addysg a Gofal Plentynod Cynnar (agenda AGPC), yn enwedig gan y dylai hyfforddiant ddechrau yn y cyfnod sylfaen / addysg blynyddoedd cynnar. Mae aneglurdeb a diffyg sail weithredol y camau gweithredu sy’n gysylltiedig ag addysg ac ysgolion yn golygu na fyddant yn ddefnyddiol i ysgolion. Teimlwyd bod angen ystod lawer ehangach o gamau gweithredu i gyflawni’r canlyniadau a ddymunir. Mae angen cam gweithredu ychwanegol i gyrff cyhoeddus a sefydliadau addysg gynnal adolygiadau ar bolisiau sy’n ymwneud ag ysgolion ac addysg, gyda gofyniad i ddiwygio polisiau sy’n arwain at ddisgyblion yn profi hiliaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol, a hynny’n unol â’u hanghenion ethnig a diwylliannol a’u hunaniaeth. Er enghraifft, mae polisiau gwisg ysgol rhai ysgolion yng Nghymru wedi effeithio’n anffafriol ar ddisgyblion Du, yn enwedig o ran gwahardd steiliau gwallt penodol.
336. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru annog sefydliadau addysg uwch i ddatblygu mentrau fel y [New Buckinghamshire University Pledge](#) fel cyfrwng i sicrhau cynhwysiant cadarnhaol. Nid yw’r fenter hon yn feichus, ac mae modd ei hintegreiddio i strategaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant addysg uwch. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud mentrau o’r fath yn orfodol i sefydliadau addysg uwch os ydynt o ddifrif ynghylch dileu’r rhwystrau ymarferol i gynhwysiant mewn addysg uwch a galwedigaethau proffesiynol. Mewn perthynas â’r Porth Sgiliau, argymhellodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) y dylid defnyddio dulliau darparu profedig, gan bwysu ar brofiad y rhai yn y sector addysg oedolion. Mae OpenLearn, platfform dysgu ar-lein rhad ac am ddim y Brifysgol Agored, yn meddu ar y potensial i gynnig llwybr ar gyfer darparu cyrsiau ac adnoddau ar-lein i gefnogi’r gwaith hwn. Nid yw’n ymddangos bod dysgu gydol oes yn cael ei ystyried yn y Cynllun drafft, a’r unig gyfeiriad at ddysgu oedolion yn y gymuned yw darpariaeth SSIE. Dylid ystyried rôl dysgu oedolion yn y gymuned, dysgu gydol oes, a dysgu hyblyg / rhan-amser wrth roi terfyn ar anghydraddoldeb hiliol.

337. Roedd sefydliadau'r trydydd sector (n = 9), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 5), awdurdodau lleol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 2+), undebau llafur (n = 2) a sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+) yn teimlo nad oedd iaith y ddogfen ynddi yn hygyrch a'i bod yn adlewyrchu termau polisi di-fudd. Roedd angen ailysgrifennu'r Cynllun mewn arddull sy'n hygyrch i bawb sydd â diddordeb mewn gwrth-hiliaeth, gan gynnwys staff, rhieni, llywodraethwyr a chynghorwyr. Rhaid i rieni, teuluoedd, gwarcheidwaid, gofalwyr (nid dim ond yr ysgol / staff / dysgwyr) gael eu cynnwys a'u hadlewyrchu yn y nodau ar gyfer addysg, a dylai'r Cynllun fod yn sail ar gyfer ymgysylltu.
338. Cynigiodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 9), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 5), awdurdodau lleol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 2+), undebau llafur (n = 2) a sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+) bod y geiriau: *"Byddwn yn annog,"* yn cael ei newid i, *"Bydd gofyn i,"* yn y camau gweithredu ar gyfer prifysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried newid y geiriad, *"ni waeth beth,"* o gefndir hiliol i *"sicrhau bod myfyrwyr / staff ethnig lleiafrifol yn cael profiad cyfatebol i staff nad ydynt o grŵp ethnig lleiafrifol."* Hefyd: ystyried newid *"gall staff o grwpiau ethnig lleiafrifol llwyddo,"* i *"bydd staff o grwpiau ethnig lleiafrifol yn llwyddo,"* i atgyfnerthu'r ymrwymiad i newid. Mewn perthynas â Nod 2: *"To ensure that anti-racist practice in all policies and procedures enables ethnic minority students can access, progress and succeed in higher education regardless of their racial background,"* nodwyd bod camgymeriad gramadegol yn y Saesneg ac y dylid diwygio'r frawddeg. Nodwyd hefyd nad yw'r camau gweithredu mewn perthynas â Nod 2 yn ddigon penodol a bod yr iaith a ddefnyddir yn amwys. Byddai'n ddefnyddiol ymhelaethu ar bwy yw'r rhanddeiliaid. Nodwyd hefyd fod *"Addysg Uwch yng Nghymru i ddod yn fan mwy gwrth-hiliol, cadarnhaol a chynhwysol i staff a myfyrwyr,"* yn amwys ac nad yw'r cymal *"i ddod"* yn cynnig eglurder o ran newid clir a mesuradwy. Mae ymatebwyr yn argymhell bod y Cynllun yn cynnwys mwy o ddangosyddion perfformiad allweddol, er enghraifft ynghylch canlyniadau graddedigion, y gallu i gael gafael ar leoliadau ac ati, a fydd yn dangos tystiolaeth o'r gwelliannau ym mhrofiadau a chanlyniadau myfyrwyr ethnig leiafrifol.
339. Mae un undeb llafur (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar y nodau canlynol: dylai Nod 1 gyfeirio at wella profiadau dysgwyr a gweithlu'r ysgol, nid dim ond athrawon (fel y mae ar hyn o bryd). Nod 2 yw gwella amrywiaeth y gweithlu addysg a chynnwys dysgu proffesiynol gwrth-hiliol. Nid yw'n glir a oes bwriad i'r ymadrodd 'gweithlu addysgu' gynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu ac eraill, gan fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu cysylltiedig i'w gweld yn benodol berthnasol i athrawon. Mae angen mwy o eglurhad yma. Nodwyd enghreifftiau eraill o eiriad amwys. Er enghraifft, beth yw ystyr *"Mae'r sector Addysg Bellach yng Nghymru yn amrywiol, yn arbennig o ran lleiafrifoedd ethnig"?* (Addysg Bellach Nod 2, Cam Gweithredu 2). Mae angen aralleirio er mwyn sefydlu beth sy'n amrywiol: safonau addysg o fewn sefydliadau, hiliaeth ar draws gwahanol sefydliadau addysg bellach neu rywbeth arall. Argymhell aralleirio yn yr adran Gwaith leuenctid (Addysg: Nod 1, Cam Gweithredu 4) fel ei bod yn glir pwy yw'r *"Partneriaid Sector,"* *"Bwrdd"* a *"Gweithlu"* y cyfeirir atynt. Er enghraifft, a yw'r rhain yn cwmpasu staff a swyddogion ysgolion neu a ydynt yn cyfeirio at y Gwasanaeth leuenctid yn unig?

340. Nododd sefydliadau'r trydydd sector (n = 9), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 5), awdurdodau lleol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 2+), undebau llafur (n = 2) a sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+) fod angen i'r canlyniadau ddilyn egwyddorion CAMPUS, gyda mesurau llwyddiant clir. Ar hyn o bryd, gan nad yw'r amserlenni'n glir, mae'n anodd deall a oes modd cyflawni'r camau gweithredu. Byddai'n helpu pe bai'r Cynllun yn fwy cyson, h.y. mae gan yr adran dai amserlenni mwy clir ac mae'n cynnwys llawer mwy o fanylion yn y camau gweithredu.
341. Mae un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) am weld gweithredu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt ar gyfer addysg, gan gynnwys adnoddau digidol megis band eang a thechnoleg ddibynadwy. Bydd yn bwysig gweld tystiolaeth glir o gynnwys disgyblion yn y gwaith sy'n cael ei wneud ar ganllawiau gwahardd ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Bydd yn bwysig i unrhyw ganllawiau newydd adlewyrchu profiadau bywyd y rhai sydd wedi cael eu gwahardd ac y gallai eu hymatebion i'r broses gynnig cipolwg ar ba newidiadau sydd angen eu gwneud. Dylai'r Cynllun ddweud mwy am ymchwilio i'r niferoedd isel o ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn lleoliadau AAA. Y teimlad yw bod angen gwneud rhagor o waith i archwilio'r mater hwn, gan y gallai fod yn arwydd o ragfarn ar waith ar lefel awdurdod lleol neu leoliad.
342. Yng nghyd-destun addysg uwch, mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 9), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 5), awdurdodau lleol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 2+), undebau llafur (n = 2) a sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+) y gallai fod mwy o ystyriaeth i groestoriadedd hil â diwylliant a chrefydd. Nodwyd hefyd nad yw'n ymddangos bod y ddogfen yn ystyried cyfeiriadedd rhywiol yn y ddogfen. Dylid ymdrin â chynhwysiant LGBTQ+ a thegwch hiliol mewn modd rhyngddibynnol, yn hytrach nag fel blaenoriaethau ar wahân. Dylai gweithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru fabwysiadu dull ysgol gyfan at gynwysoldeb sy'n defnyddio pob Maes Dysgu a Phrofiad fel cyfrwng lle mae pawb yn gallu gweld eu hunain yn yr hyn y maent yn ei ddysgu.
343. Nododd sefydliadau'r trydydd sector (n = 9), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 5), awdurdodau lleol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 2+), undebau llafur (n = 2) a sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+) fod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i edrych ar y sector addysg ehangach yn cael ei groesawu, ond bod yn rhaid i hyn gynnwys ystyried ffactorau y tu hwnt i ysgolion unigol sy'n effeithio ar ganlyniadau plant a phobl ifanc, er enghraifft, argaeledd pynciau galwedigaethol. Dylid manteisio ar arbenigedd y Grŵp Arweinyddiaeth Addysg Bellach Du parthed ystod o nodau a chmau gweithredu, ond yn arbennig felly ar fater data.
344. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) yn tynnu sylw at y ffaith bod gan ysgolion gwledig lai o brofiad o weithio gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, felly bydd angen cymorth wedi'i dargedu er mwyn iddynt gyflawni'r nodau yn y Cynllun. Dylid tynnu sylw at arferion da ysgolion a'u dathlu er

mwyn cynnig meincnod i ysgolion eraill. Awgrymwyd hefyd fod angen i'r Cynllun gydnabod sut y mae systemau addysg wedi'u cynllunio ar hyn o bryd i gynnal gwynder a braint.

Troseddu a Chyfiawnder:

345. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 17+), undebau llafur (n = 2), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), un sefydliad ieuchyd (n = 1), awdurdodau lleol (n = 8), ymatebwyr unigol (n = 11), sefydliadau cymunedol (n = 2+), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 4+) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar adran troseddu a chyfiawnder y Cynllun.

Gwella systemau rhoi gwybod am droseddau casineb a chyfiawnder troseddol:

346. Roedd undebau llafur (n = 2), sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) yn tynnu sylw at y ffaith y dylai'r adran hon o'r Cynllun gynnwys camau gweithredu i wella'r broses o roi gwybod am droseddau casineb yng Nghymru a Lloegr, drwy gryfhau'r ffordd y caiff adroddiadau troseddau casineb eu trin a'u cofnodi i ddechrau, gwella ansawdd y cymorth i ddioddefwyr a gwella effeithiolrwydd hyfforddiant troseddau casineb i heddluoedd. Dylai pob dioddefwr gael gwybod, a'u diweddarau'n rheolaidd, ynghylch hynt a helynt yr ymchwiliad a / neu'r erlyniad. Er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau uchel o danadrodd, awgrymwyd fod heddluoedd yng Nghymru yn datblygu ac yn darparu system neu borth i'w gwneud yn haws rhoi gwybod am, a monitro, digwyddiadau casineb a throseddau casineb, gan gynnwys y rhai sydd â chymhelliant hiliol, fel bod modd ymdrin â hwy'n gynt ac o fewn terfynau amser. Dylid archwilio a chryfhau ymateb cychwynnol yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a rôl y Farnwriaeth wrth ddelio â throseddau a digwyddiadau casineb.
347. Awgrymodd undebau llafur (n = 2), sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agosach gyda'r holl bartneriaid Cyfiawnder Troseddol, nid dim ond Cymorth i Ddioddefwyr – drwy Fwrdd Troseddau Casineb Cymru – i archwilio a deall profiad dioddefwyr troseddau casineb a sut i'w wella. Awgrymwyd bod y cysylltiadau rhwng y sector cyfiawnder troseddol a'r sector hil yn wan a heb ddatblygu'n ddigonol. Dylid cael strwythurau cryfach a pharhaus lle mae dolenni cyfathrebu ac adborth ar waith, a dylid ehangu grwpiau presennol fel Bwrdd Troseddau Casineb Cymru a'r Grŵp Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i gynnwys o leiaf ddau gynrychiolydd o'r sector cymunedol / hil – ni ddylid disgwyl i un grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gynrychioli amrywiaeth y sector.
348. Mynegodd undebau llafur (n = 2), sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) bryder am ormodedd o bobl Wyn mewn rolau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a

Chynhwysiant. Mae hyn yn effeithio ar bobl o liw oherwydd bod pobl Wyn wedyn yn gyfrifol am benderfynu os oes achos o hiliaeth wedi digwydd – mae angen proses i adael i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol benderfynu a yw digwyddiad yn hiliol ai peidio. Roedd yn bwysig annog gweithwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol i roi gwybod i Wasanaeth Erlyn y Goron am unrhyw brofiad yn y gweithle ac i'r achosion hynny gael eu trin mor gyflym ac mor ddifrifol ag unrhyw honiad o ymosod, yn hytrach na'u gollwng mor fuan. Awgrymwyd hefyd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn gweithio'n gadarn tuag at gyfiawnder ac y bydd yn trin honiadau o hiliaeth a chreulondeb ar ran yr heddlu gyda'r difrifoldeb mwyaf.

349. Tynnodd asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$) sylw at y ffaith bod rhaiartneriaid cyfiawnder troseddol yn teimlo bod y gynrychiolaeth gynyddol o grwpiau penodol o fewn y system cyfiawnder troseddol o ganlyniad i fethiannau gyda pholisïau a strwythurau cymdeithasol, cymunedol ac economaidd eraill, ac y byddai llai o bobl yn disgyn i grafangau'r system cyfiawnder troseddol pe bai hynny'n cael ei ddatrys. I'r graddau hynny, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried pa fethiannau mewn polisi sy'n arwain at fwy o droseddu a gwrthdroi polisi o'r pwynt hwnnw er mwyn ei ddatrys. Dylai fod cyfle i arweinwyr yr holl benodau / llinynnau allweddol ddod at ei gilydd a thrafod materion allweddol ar lefel strategol.

Yr adnoddau (hyfforddiant, cyllid, gwasanaethau) sydd eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu hyn:

350. Awgrymodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 7+$), un sefydliad ieuchyd ($n = 1$), un awdurdod lleol ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod mesurau cymorth a chynghor tegwch hiliol yn cael eu hintegreiddio mewn un system gynghori, gyda lefelau priodol o fuddsoddiad. Nodwyd bod sefydliadau'r trydydd sector yn hanfodol er mwyn hybu ymwybyddiaeth o droseddau casineb, cefnogi dioddefwyr ac annog rhoi gwybod – felly mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn cael eu hariannu'n ddigonol i barhau â'r gwaith hwn ac i gefnogi'r Cynllun. Mae adnoddau staff yn brin mewn cynghorau lleol, yn yr heddlu ac mewn awdurdodau eraill gyda chyllid tymor byr, ac mae hynny'n gwneud cynllunio tymor hwy yn heriol – mae angen cyllid cynaliadwy er mwyn sicrhau newid cynaliadwy, neu fel arall bydd yn anodd gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen a sicrhau ei lwyddiant.
351. Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch diben ac effaith bosibl darparu gwasanaethau arbenigol, dywedodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 7+$), un sefydliad ieuchyd ($n = 1$), un awdurdod lleol ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) y byddai mwy o arian ar gyfer darpariaeth gyffredinol yn ateb mwy effeithiol, gan ryddhau pwysau ar dimau staff sydd wedi'u gorlwytho. Byddai hyn yn peri bodd modd rhoi gwell ffocws ar sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn gallu uwchsgilio eu gweithluoedd i ddarparu'r gwasanaeth gorau i bob dioddefwr (pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol, gweithwyr stryd, dioddefwyr anabl neu unrhyw grwpiau eraill).

352. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), un sefydliad ieuchyd (n = 1), un awdurdod lleol (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un ymatebydd unigol (n = 1) yn tynnu sylw at y ffaith bod angen mwy o fuddsoddiad mewn rhaglenni atal troseddau casineb a chymau ataliol yn ymwneud â hiliaeth drwy ymgorffori addysg gwrth-hiliol a chynrychiolaeth gadarnhaol o amrywiaeth ethnig ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol. Mae nifer cyfyngedig o wasanaethau wyneb yn wyneb penodol ar gyfer troseddau casineb i gefnogi plant, ac mae'n rhaid i gyfeiriadau at blant yn yr adran hon o'r Cynllun fod yr un mor fanwl ag mewn adrannau eraill o'r Cynllun. Mae angen rhaglen bendant i arfogi unigolion ynghylch sut i beidio â bod yn wylwyr tawel, oherwydd ni fydd yn digwydd heb hynny. Mae gwella sgiliau'r gweithlu a datblygu'r gweithlu ymhellach yn allweddol i sicrhau bod gweithluoedd yn gallu ymgorffori'r egwyddorion yn eu harferion sy'n gwarantu bod cydraddoldeb hiliol yn norm diarwybod; bydd angen cyllid i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol. Yn ogystal, mae angen addysgu ymarferwyr therapiwtig mewn ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chrefyddol wrth gefnogi dioddefwyr, yn unol â thrin pob cymuned leiafrifol yn gyfartal, gyda'u credoau a'u gwerthoedd eu hunain. Mae addysg yn ffactor allweddol wrth fynd i'r afael â throseddau casineb ac mae angen addysg gymunedol ynghylch trais rhywiol hefyd oherwydd, yn aml, mae rhesymau diwylliannol, hanesyddol a chrefyddol yn aml dros beidio â chydabod elfennau o drais rhywiol (o fewn priodasau er enghraifft) fel trais rhywiol yr un fath.

353. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), un sefydliad ieuchyd (n = 1), un awdurdod lleol (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un ymatebydd unigol (n = 1) y dylai'r Cynllun sicrhau bod hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar 'ddyletswydd Prevent' yn wrth-hiliol er mwyn mynd i'r afael â'r camddefnydd bwriadol neu anwybodus o Prevent i ymleiddio poblogaethau sydd wedi cael eu lleiafrifoli ymhellach, ac i Prevent gydnabod, ymateb i, a lleisio graddfa radicaleiddio asgell dde eithafol. Dylai gwreiddio diwylliant o ddim goddefgarwch a gwrthsefyll hiliaeth sefydliadol gynnwys diffinio'r angen i weithredu ar adroddiadau am droseddau casineb hiliol ac anghyfiawnder fel mater o bolisi cymdeithasol.

Mynd i'r afael â'r diffyg gwasanaethau cymorth gwahaniaethu:

354. Amlygodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+), un sefydliad ieuchyd (n = 1) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+) bod diffyg cymorth yng Nghymru i sefydliadau ymgymryd ag achosion i herio gwahaniaethu. Ym maes cyffredinol 'troseddau, cyfiawnder, agweddau atgas a chydlyniant cymunedol', mae diffyg manylion ynghylch croestoriad hil gyda nodweddion gwarchodedig eraill. Dylai Llywodraeth Cymru weithio i gynyddu ymwybyddiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig a mynd i'r afael â rhai o'r materion craidd sylfaenol sy'n sail i achosion mynych o wahaniaethu. Rhaid i'r cam gweithredu arfaethedig i sicrhau bod aflonyddu hiliol a gwahaniaethu yn cael sylw gael eu hariannu'n briodol drwy gyllid ychwanegol wedi'i neilltuo, hyfforddiant ac amser staff.

Nid yw troseddau casineb / plismona wedi'u datganoli – a oes modd cyflawni'r camau gweithredu hyn?

355. Oherwydd nad yw deddfwriaeth troseddau casineb wedi'i datganoli, roedd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), un undeb llafur (n = 1), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2), un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) yn pryderu na fydd y camau gweithredu arfaethedig sy'n ymwneud â throseddau casineb yn syml i'w cefnogi na'u gweithredu am eu bod yn groes i bolisi / cyfarwyddiadau cenedlaethol o San Steffan. Byddai angen i unrhyw grŵp monitro fod yn ymwybodol o gwmpas cymhwysedd datganoledig, a bod yn ochelgar rhag dwyn y cyrff hynny nad ydynt wedi'u datganoli i gyfrif os nad yw'r grym ganddynt i roi camau gweithredu'r Cynllun ar waith. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati i geisio sicrhau mwy o bwerau datganoledig mewn perthynas â'r system cyfiawnder troseddol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd lobïo Llywodraeth y DU yn gryf (efallai gyda chefnogaeth y gweinyddiaethau datganoledig eraill) i ddefnyddio deddfwriaeth i fynd i'r afael â 'phwll casineb' y cyfryngau cymdeithasol a'r plattform sy'n cael ei ddarparu i bobl hiliol. Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i fynd i'r afael â chasineb a gwahaniaethu hiliol seiber sy'n cael ei bostio mor aml ar y cyfryngau cymdeithasol ac sy'n un o'r dulliau mwyaf cyffredin o droseddau casineb. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd datganoli plismona a chyfiawnder yn unol ag argymhelliad Comisiwn Thomas.
356. Mewn perthynas â'r cam gweithredu *“Nodi a chynnig gwelliannau i gyfraith a phrosesau troseddau casineb drwy Fwrdd Troseddau Casineb Cymru,”* nododd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), un undeb llafur (n = 1), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) y byddai'r ffaith nad yw cyfiawnder a phlismona wedi'i ddatganoli yn rhwystr mawr o ran gweithredu. Mae angen newid y geiriad ar gyfer y cam gweithredu hwn rhag iddo roi'r argraff bod gan Lywodraeth Cymru y grym i newid cyfraith troseddau casineb. Fel geiriad amgen, awgrymir: *“Nodi a chynnig gwelliannau i Lywodraeth y DU ar gyfraith a phrosesau troseddau casineb nad ydynt wedi'u datganoli, drwy Fwrdd Troseddau Casineb Cymru.”*

Strategaethau / mentrau / cynlluniau presennol a chysylltiadau posibl:

357. Dywedodd awdurdodau lleol (n = 5), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) ac ymatebwyr unigol (n = 3) fod symleiddio'n bwysig oherwydd bod llawer o waith tebyg a grwpiau amlasiantaeth eisoes yn cyfarfod i drafod troseddau casineb a hiliaeth ledled Cymru. O ran darparu canllawiau, mae llawer o gyfarwyddyd ysgrifenedig eisoes yn bodoli. Dylai'r Cynllun ganolbwyntio ar hybu'r ymwybyddiaeth o adnoddau cyfredol a'r ddarpariaeth canllawiau, neu edrych ar yr angen am atebion gwahanol, neu archwilio atebion gwahanol. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith y dylai camau gweithredu tai penodol ganolbwyntio ar adlewyrchu ac ymuno â'r camau gweithredu a'r mentrau yn adran benodol troseddau casineb er mwyn cynnal hawliau pob tenant, er enghraifft. Dywedodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) y dylid croesgyfeirio'r wybodaeth a'r camau gweithredu

yn yr adran 'Troseddau, cyfiawnder, agweddau atgas a chydlyniant cymunedol' o ran sicrhau mynd i'r afael â digwyddiadau casineb a safbwyntiau hiliol gyda'r camau gweithredu yn yr adran Addysg. Mae camau gweithredu yn yr adran Addysg o ran sicrhau dysgu gorfodol o ddeall gwrth-hiliaeth a sut i herio normau diwylliannol. Mae'r camau gweithredu hyn hefyd yn rhan o nodau cyffredinol yr adran ar agweddau atgas. Cwestiynwyd sut y bydd yr ymgyrchoedd troseddau casineb yr ymrwymwyd iddynt yn yr adran hon yn wahanol i'r hyn a gynhaliwyd o'r blaen, e.e. wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb. Roedd angen ystyried a yw'r ymgyrchoedd hyn wedi newid unrhyw beth ac, os nad ydynt, beth fydd y Cynllun hwn yn ceisio ei wneud yn wahanol a beth fydd y disgwyliadau parthed y System Cyfiawnder Troseddol? Bydd esbonio hyn yn cryfhau'r camau gweithredu a'u heffaith debygol.

358. Awgrymodd awdurdodau lleol (n = 5), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) ac ymatebwyr unigol (n = 3) y dylai Llywodraeth Cymru newid y camau gweithredu ynghlwm wrth y Timau Cydlyniant Cymunedol o fod yn rhai tymor byr i fod yn rhai tymor canolig i hirdymor er mwyn hwyluso gwelliannau parhaus o ran cydlyniant. Byddai cyfnodau ariannu hwy ar gyfer y rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn caniatáu cynllunio strategol tymor hwy a chyfle pellach i ymgorffori arfer da. Cwestiynwyd rhesymeg peidio â sôn am bartneriaethau eraill sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y Bwrdd Plismona a Phartneriaeth, Bwrdd CONTEST Cymru, Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuencid, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae angen i bob partner weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo Cymru wrth-hiliol. Mae angen cydnabod yr ystod lawn o bartneriaethau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol yn y Cynllun ac ymgysylltu â hwy ar lefelau strategol a gweithredol uchel. Dylai sefydliadau'r trydydd sector gael llais ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i lywio strategaeth a sicrhau bod hawliau newydd o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yn cael eu bodloni. Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu'r CGCH â'r cynlluniau cydlyniant cymunedol, a dywedwyd y dylid hefyd ystyried cynnwys rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn yr adran hon. Dylid hefyd ystyried rôl Partneriaethau Cymunedau Mwy Diogel / CONTEST wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun yn yr adran hon oherwydd bod y grwpiau amlasiantaethol hyn yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella cydlyniant cymunedol. Roedd mwy i'w wneud i sicrhau bod y Cynllun yn gweithio gyda strategaethau presennol ac yn gysylltiedig â nhw, gan leihau'r risg o ddyblygu a'r risg o adael bylchau.

359. Roedd awdurdodau lleol (n = 5), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) ac ymatebwyr unigol (n = 3) yn tynnu sylw at nifer o bethau y dylid eu cynnwys yn y Cynllun: y Grŵp Strategol / Aur arfaethedig dan arweiniad Llywodraeth Cymru i gyfeirio gwaith cydraddoldeb hiliol ar draws y sector cyhoeddus; Rhaglen Swyddogion Heddlu Ysgolion Cymru ac ychwanegu Hanes Pobl Dduon at y rhaglen hon; pecyn hyfforddi arfaethedig i Gymru gyfan ar gydraddoldeb hiliol at ddefnydd gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ac ymgyrch gyfathrebu wedi'i

chydlynu gan Lywodraeth Cymru i ddenu, cadw a sicrhau cynnydd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i weithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

360. Dywedodd awdurdodau lleol (n = 5), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) ac ymatebwyr unigol (n = 3) y dylai'r camau gweithredu sy'n cael eu nodi yn y Cynllun hefyd archwilio rhaglenni cyfredol sydd eisoes yn mynd i'r afael ag ymddygiad hiliol a gwahaniaethol a'u haddasu yn ôl yr angen, e.e. rhaglen ar ddad-radicleiddio, gwaith Erase sy'n eiddo i Gwmni Adsefydlu Cymunedol sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad hiliol. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriad penodol at Banel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru na grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru yn y Cynllun. Ymddengys bod gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar gamau gweithredu mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid, drwy gyflawni elfen Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol y Grant Plant a Chymunedau, wedi'i anwybyddu.
361. Awgrymodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) fod Llywodraeth Cymru yn adolygu swyddogaeth a model gweithredu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru Gyfan ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol ac yn ystyried sut y mae'n rhan o lywodraethu ehangach Llywodraeth Cymru a phlisma. Awgrymwyd bod y grŵp ar hyn o bryd yn teimlo fel grŵp 'annibynnol' nad yw o reidrwydd yn gysylltiedig â grwpiau eraill Llywodraeth Cymru / grwpiau cenedlaethol y gallai ddylanwadu arnynt.
362. Mynnodd awdurdodau lleol (n = 5), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) ac ymatebwyr unigol (n = 3) fod yn rhaid bodloni hawliau cyfreithiol dioddefwyr o dan y Cod Ymarfer Dioddefwyr, a bod yn rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau i ddioddefwyr. Mae'n gwbl hanfodol darparu gwasanaeth cymorth troseddau casineb i Gymru gyfan sy'n canolbwyntio ar asesu anghenion unigol, sydd wedi'i wreiddio gyda rhwydweithiau cymorth lleol ac sy'n meddu ar brofiad o ddarparu cymorth o safon wedi'i deilwra. Dim ond 40 y cant o droseddau y mae'r heddlu'n cael gwybod amdanynt, sy'n golygu nad yw dioddefwyr, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder. I'r rhai sydd yn rhoi gwybod, mae tystiolaeth nad yw eu hawliau o dan y Cod Dioddefwyr bob amser yn cael eu bodloni ac, yn rhy aml, nad yw asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cyflawni eu rhwymedigaethau i ddioddefwyr. O ganlyniad, mae argaeledd cymorth annibynnol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn rhoi gwybod i'r heddlu yn gallu cael cymorth annibynnol. Er mwyn sicrhau tegwch o ran troseddu a chyfiawnder, rhaid i'r heddlu a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol gael eu cynnwys, eu haddysgu a pherchnogi eu rôl a'u cyfrifoldeb eu hunain wrth gyflawni'r weledigaeth. Dim ond os bydd sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i weithredu'r Cynllun Gweithredu'n gyson y gellir atal troseddau casineb. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith bod y Siarter Troseddau Casineb a'r nod ymddiriedaeth wedi bod yn llwyddiant a bod angen ehangu a datblygu hynny gan ddefnyddio'r berthynas sydd wedi cael ei chreu dros y pedair blynedd diwethaf. Dylai gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gydweithio'n agos i sicrhau bod negeseuon a llwybrau at gymorth yn glir ac yn gyson:

gyda chefnogaeth y rhwydwaith o gydlynwyr cydlyniant cymunedol, byddai modd rhannu rhai negeseuon allweddol ar draws rhanbarthau yng Nghymru.

363. Roedd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), un undeb llafur (n = 1), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer o themâu cyd-ddibynnol a thrawsbynciol sy'n effeithio ar fwy nag un maes. Er enghraifft, mae buddsoddi mewn gwasanaethau ieuencid cymunedol yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar droseddau ieuencid. Tra'n parchu'r rhaniad datganoledig / heb ei ddatganoli o ran darparu gwasanaethau, efallai y byddai'n werth gwneud y cysylltiadau gwaith partneriaeth rhwng plismona a Llywodraeth Cymru yn fwy eglur.
364. Tynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) sylw at y ffaith nad yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gweithio yn ôl y bwriad gan nad yw pobl yn cael eu herlyn am yr hyn a wnant.

Gwelliannau a chymau gweithredu coll:

365. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y dylid egluro graddfa neu amserlen y gwaith arfaethedig sy'n cael ei ragweld. Mae angen i gamau gweithredu ganolbwyntio'n gliriach ar amser oherwydd bydd diffyg pwyntiau gwerthuso wedi'u targedu a chyfle i addasu neu newid pethau nad ydynt yn gweithio yn arwain at ganlyniadau aneffeithiol a llai o barodrwydd i roi gwybod ac, o ganlyniad i hynny, i ddatrys problemau. Mae mesur hiliaeth yn gallu bod yn arbennig o anodd. Er enghraifft, mae defnyddio troseddau casineb fel arwydd o densiynau cymunedol yn broblem oherwydd lefelau'r digwyddiadau casineb nad ydynt yn cael eu cofnodi – a fyddai cynnydd o ran rhoi gwybod yn cael ei ystyried yn llwyddiant oherwydd gwell ymwybyddiaeth o droseddau casineb neu a fyddai'n dangos cynnydd mewn cam-drin a thrais hiliol? Rhaid i'r Cynllun terfynol nodi'n glir y dangosyddion sydd i'w defnyddio i fesur llwyddiant a sut y caiff y rhain eu dehongli.
366. Barnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) fod yr adran hon yn wan a bod y cynnwys yn eiriog ond yn amwys. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o ddiffyg cysondeb rhwng yr adran 'Ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r Nodau', sy'n dweud ar dudalen 22 fod yr egwyddorion allweddol ar gyfer swyddogion polisi sy'n datblygu'r nodau yn cynnwys: *"Ffocws ar gamau gweithredu gwrth-hiliol, yn hytrach nag amlddiwylliannaeth neu ddulliau gweithredu eraill,"* a'r naratif yn yr adran 'Troseddau, cyfiawnder, agweddau atgas a chydlyniant cymunedol' ar dudalen 110, sy'n dweud: *"Yn yr un modd, byddwn yn ceisio hyrwyddo a dathlu amrywiaeth, addysgu a dathlu caredigrwydd a pharch gan anelu at sefyllfa lle y bydd y mathau hyn o ymddygiad cadarnhaol bob amser yn trechu dros gasineb ac anghyfiawnder."* Derbyniwyd sylwadau hefyd ar *"trechu agweddau atgas hiliol ar-*

lein,” a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn – mae angen mwy o fanylion. Roedd dryswch ynghylch defnyddio'r term 'dim goddefgarwch' gan nad yw'n ymarferol mewn bywyd go iawn, a dylid dwyn pobl i gyfrif am yr hyn y maent wedi'i wneud. Cynigiwyd y dylid atal tramgwyddwyr o'u swydd hyd nes bod ymchwiliadau wedi dod i ben ac i golli'u swydd ar unwaith os ydynt yn cael eu canfod yn euog. Awgrymwyd y dylai hyn fod yn berthnasol i wleidyddion, aelodau'r Fyddin, yr Heddlu ac ati, os ydynt yn ymddwyn yn hiliol ar-lein ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn print (cylchgronau / papurau newydd / llyfrau ac ati), ar y teledu neu'r radio neu unrhyw fforymau ar-lein lle mae modd gadael sylwadau. Mae angen i ysgolion wneud mwy i herio ac atal agweddau atgas gan mai'r norm mewn ysgolion yw anwybyddu neu wadu hiliaeth. Awgrymwyd y bydd y CGCH yn methu oni bai bod pobl ar y brig yn gweithredu. Gallai'r Cynllun nodi sut y dylai pobl mewn swyddi dylanwadol ddangos drwy eu gweithredoedd eu bod yn gynghreiriad, sut maent yn dangos eu bod yn wrth-hiliol. Er nad oes gan arweinwyr y sector cyhoeddus yr un cyrhaeddiad a dylanwad â phêl-droedwyr e.e. cymryd y pen-glin, mae ganddynt ddylanwad i ryw raddau. Dylai gofynion i osgoi naratifau atgas fod yn benodol berthnasol i bobl mewn rolau cyhoeddus, ac mae angen eu dwyn i gyfrif os ydynt yn meithrin rhaniadau neu gasineb, oherwydd mae cyfrifoldeb cryf ar arweinwyr i arwain drwy esiampl.

367. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) yn tynnu sylw at y ffaith nad oes sôn yn y Cynllun am y casineb y mae pobl o dras Dwyrain Asia wedi'i wynebu o ganlyniad i bandemig y coronafeirws ac nad oes unrhyw gamau gweithredu yn y Cynllun i fynd i'r afael â hyn. Mae'n bwysig bod effaith COVID-19 ar droseddau casineb a'r cynnydd mewn troseddau casineb tuag at bobl Tsieineaidd ac, yn fwy diweddar, cymunedau Indiaidd, o ganlyniad i'r pandemig, yn cael eu cydnabod. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod 10 y cant o'r troseddau casineb hiliol a gofnodwyd yn 2020 yn y gogledd yn droseddau casineb Cymreig-Seisnig neu Seisnig-Gymreig. Dylid cyfeirio at y rhain yn y Cynllun i ystyried beth fydd yr effeithiau ar droseddau casineb nad ydynt yn ymwneud â phobl Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, yn arbennig y troseddau casineb sydd wedi bod yn cynyddu rhwng cenedligrwydd Cymreig a Seisnig. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith bod casineb sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig ac wedi cynyddu problemau o ran iechyd meddwl i bobl, yn rhannol oherwydd y cyfyngiadau ac yn rhannol oherwydd troseddau casineb. Mae hyn wedi amlygu bylchau yn y ddarpariaeth iechyd meddwl i ddioddefwyr troseddau casineb, ac o ganlyniad, dylid ychwanegu hyn at y Cynllun. Tynnodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) sylw at y ffaith y dylai'r Cynllun gyfeirio at drawma hiliol a sut y mae'n effeithio ar brofiadau bywyd unigol ac ar gymunedau ethnig lleiafrifol o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol, ac o ran teimladau am gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus. Nid oedd sôn am wasanaethau carchardai yng Nghymru, y tu hwnt i'r glasbrint newydd ar gyfer droseddau menywod a throseddau ieuenctid. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw gyfeiriad ychwaith at y gwasanaeth prawf ac adsefydlu troseddwyr, y mae nifer anghymesur ohonynt yn dod o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Gallai methiant i fynd i'r afael â'r rhain amharu ymhellach ar y cynlluniau sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol.

368. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) yn teimlo bod diffyg ffocws ar ddiogelwch cymunedol, sy'n bwysig o ran cydlyniant cymunedol. Nid yw'r CGCH yn cyfeirio unwaith at les a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n awgrymu achos tebygol o weithio ynysig, gyda thimau polisi i gyd yn gweithio yn eu meysydd eu hunain yn hytrach na gweithio'n gyfannol. Mewn perthynas â negeseuon Cydlyniant Cymunedol, mae cyfathrebu cyhoeddus effeithiol a hybu ymwybyddiaeth yn hanfodol, er mwyn gwella dealltwriaeth a chefnogaeth gyffredinol i'r gymuned sy'n ceisio noddfa ac o leiaf er mwyn gwrthsefyll iaith a datganiadau camarweiniol iawn ar adegau gan Lywodraeth y DU a ffynonellau eraill. Dylai chwalu camsyniadau a thynnu sylw at y cyfraniadau cadarnhaol mae'r gymuned hon yn gallu eu gwneud i'n cymdeithas. Dangosodd yr ymateb lleol i ganolfan ceiswyr lloches byrhoedlog y Swyddfa Gartref yn Penalun y cydymdeimlad a'r potensial enfawr am gefnogaeth gan y cyhoedd yng Nghymru. Mae ffocws gwrth-fewnfudwyr cynyddol i rethreg ac ymddygiad hiliol, ac mae angen ei herio'n effeithiol drwy bolisi ac arfer. Mae angen cefnogi grwpiau cymunedol lleol a phrosiectau cyfeillio sy'n gweithio i groesawu pobl sy'n ceisio noddfa, hwyluso cyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol a chynyddu cydlyniant cymdeithasol; dylai Llywodraeth Cymru geisio dysgu gwersi o'r prosiectau hyn er mwyn atgyfnerthu'r gwaith ar gydlyniant cymunedol mewn partneriaeth â gwasanaethau lleol sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dylai fod elfen benodol o fewn adran Troseddu a Chyfiawnder y Cynllun sy'n ymwneud â'r problemau penodol y mae ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr yn eu hwynebu.
369. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 8+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) yn tynnu sylw at y ffaith bod anfodlonrwydd cynyddol â'r heddlu ymhlith pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol, ynghyd â diffyg ymddiriedaeth, yn fygythiad gwirioneddol i gydlyniant cymunedol yn y tymor hwy ac y dylid mynd i'r afael â hynny yn y Cynllun mewn ffordd fwy cadarn.
370. Mynnodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), un undeb llafur (n = 1), un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) nad gwaith y gymuned yw sicrhau nad yw'r bobl y maent yn eu cynrychioli yn dioddef creulondeb o du'r heddlu neu ymosodiadau gan bobl â safbwyntiau hiliol. Mae angen deialog am blismona ac mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn ddewr yn hyn o beth. Mae angen camau gweithredu penodol sy'n canolbwyntio ar y system cyfiawnder troseddol o blismona, y farnwriaeth a'r system carchardai. Roedd barn gref nad yw'r adran hon o'r Cynllun yn ddigon radical ac nad yw'n cynnig digon o sicrwydd i bobl o gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio. Roedd y diffyg sôn am yr heddlu yn peri pryder mawr i rai o'r ymatebwyr, yn enwedig yn sgil marwolaethau Moyied Bashir a Mohamud Mohammed Hassan. Dylid rhoi sylw

uniongyrchol i driniaeth unigolion wrth iddynt ddod i gysylltiad â'r heddlu, ac unrhyw gyswllt pellach sy'n dilyn. Tynnodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) sylw at y ffaith bod yn rhaid pontio'r bwloch rhwng Heddlu De Cymru ac aelodau o'r gymuned ieuenctid yn arbennig. Cynigiwyd enghreifftiau penodol lle mae pobl wedi gweld yr heddlu'n targedu bechgyn Du ifanc am ddim rheswm. Awgrymwyd bod angen gwiriadau cefndir mwy trylwyr ar swyddogion, ac y dylai swyddogion wynebu canlyniadau am gamddefnyddio eu grym. Dylai'r Cynllun bwysleisio triniaeth deg i garcharorion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o'u cymharu â'u cymheiriaid Gwyn. Mae adborth gan Gyngor Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn awgrymu y dylid pennu targed ar gyfer 2030 i wella'r ffydd sydd gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn sefydliadau fel yr heddlu. Nododd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) hefyd y dylai'r Cynllun ddweud mwy am recriwtio a chadw pobl ethnig leiafrifol i weithio yn y system cyfiawnder troseddol.

371. Cyflwynwyd sylwadau gan sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) am arwyddocâd croestoriadedd, yn enwedig y croestoriad rhwng hil ac oedran, o ran troseddau a chyfiawnder, a bod unigolion sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig hyn yn dioddef mwy o wahaniaethu nag eraill o fewn y system cyfiawnder troseddol. Gallai'r Cynllun gynnwys camau gweithredu penodol ar y croestoriadedd hwn – yn ogystal, dylid ystyried elfen rhywedd ychwanegol hefyd i'r enghraifft groestoriadol honno, gyda ffocws ar ddynion. Yn ogystal, mae ffactorau economaidd-gymdeithasol hefyd yn berthnasol. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar ymddiriedaeth pobl i ymgysylltu â'r heddlu a chyda gwasanaethau, ac mae hynny'n gwaethygu pan fydd yn groestoriadol. Mae angen gwell disgrifiad o sut y gall troseddau casineb weithio'n groestoriadol, gan dynnu sylw at y ffaith bod y troseddau casineb LGBTQ+ a gofnodwyd yng Nghymru wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf ochr yn ochr â throseddau casineb yn seiliedig ar hil. Rhaid i'r dull o fynd i'r afael â throseddau casineb ystyried hynny, gan ei fod yn effeithio ar bob grŵp sydd wedi'i ymleiddio yn ogystal ag ar groestoriad y grwpiau hyn. Mae'n ymddangos bod y cymhlethdod hwn wedi'i anwybyddu, ond gallai hefyd ddisgyn y tu allan i gwmpas y Cynllun, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Dylai'r naratif gysylltu â phrofiadau gwahanol bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol LGBTQ+. Mae hefyd yn bwysig ymgorffori croestoriadedd o fewn partneriaethau ffurfiol, paneli defnyddwyr gwasanaethau, byrddau cynghori, asesiadau cyfaill beirniadol o adnoddau ac ymgyrchoedd a chyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar faterion a phrosiectau penodol.

372. Cyflwynwyd sylwadau penodol gan sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) ynghylch y nodau canlynol:

- a. Mewn perthynas â Nod 1 yn yr adran hon, *“i Gymru fod yn wlad wrth-hiliol sy'n teimlo fel lle diogel i fyw, drwy ddileu agweddau atgas a chefnogi dioddefwyr*

troseddau casineb â chymhelliant hiliol," mae angen dull mwy adsefydliadol, yn hytrach nag un ymchwiliol.

- b. Mewn perthynas â Nod 2: *"mynd i'r afael â hiliaeth drwy greu cymunedau cydynus ac integredig,"* mae angen canllawiau clir ar sut y bydd y system cyfiawnder troseddol yn cysylltu â gwaith lleol ac yn rhan ohono – sut y bydd y tîm cydlyniant cymunedol yn cysylltu â staff perthnasol ar draws y system cyfiawnder troseddol? Beth yw canlyniadau penodol y system cyfiawnder troseddol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r amcan hwn?
- c. O ran Nod 3 yn yr adran hon, mae diffyg disgrifiad cadarn o sut y caiff gwaith yn y dyfodol ei weithredu, ei adolygu a'i fonitro. Mae angen dull integredig hefyd i staff ar draws y sefydliad fynd i'r afael â'r rhesymau y tu ôl i ragfarn unigolyn ac mae angen mwy o waith yn y sector addysg i hyrwyddo gyrfaedd yn y system cyfiawnder troseddol.
- d. Mewn perthynas â Nod 5: *"Byddwn yn sicrhau y gall aelodau cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gael gafael ar y cyngor sydd ei angen arnynt i ddatrys problemau lles cymdeithasol,"* holodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) sut y caiff hyn ei adolygu, a sut y caiff llwyddiant ei fonitro. Gofynnwyd nifer o gwestiynau ganddynt am y manylion sydd eu hangen yma a sut i gyflawni a mesur yr effaith:
 - I. Sut mae sefydliadau'n dod yn ymwybodol o'r grantiau sydd ar gael?
 - II. Sut y gallwn fod yn siŵr ein bod yn cyrraedd yr holl wasanaethau – nid dim ond y gwasanaethau sydd â'r lleisiau uchaf neu'r cwmpas ariannol ehangaf?
 - III. A oes tystiolaeth sy'n dangos bod gwahaniaeth neu anghymesuredd i grwpiau lleiafrifol o ran cael gafael ar y gwasanaeth hwn?
 - IV. Os felly, mae angen i hynny fod yn dryloyw i ddangos pryd / os bydd y bwlch yn cau.
 - V. Sut ydych chi'n gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch i gymunedau sy'n agored i niwed os oes angen?
 - VI. Beth sy'n eu hatal rhag cael gafael ar y gwasanaethau hynny? Mae angen casglu data'r gweithlu presennol yn well ac mae angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r data hwn er mwyn gwahodd craffu gan y cyhoedd.
 - VII. Rhaid i holl staff y system cyfiawnder troseddol fod yn ddiwylliannol gymwys. Er mwyn cyflawni hyn, dylid osgoi digwyddiadau hyfforddi untro, mae angen darlun cyson o allu gweithio unigolyn.

373. Awgrymodd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y dylai'r adran hon o'r Cynllun gynnwys camau gweithredu sydd yn gwneud y canlynol:

- a. Sicrhau bod atebion hirdymor yn cael eu canfod i ddarparu cyngor ar wahaniaethu a hawliau dynol.
- b. Sicrhau bod y rhwystrau y mae lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu o ran cael gafael ar gyngor ar wahaniaethu yn cael eu deall a'u dileu fel bod pob cymuned yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gyngor ar wahaniaethu a hawliau dynol wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion.

- c. Sicrhau cynnal dadansoddiad o effaith Canolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth, a'i fframwaith ar gyfer gweithredu ar droseddau casineb, a bod y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer lleihau troseddau casineb yng Nghymru.
 - d. Rhoi mwy o eglurhad ar beth yw troseddau casineb a systemau ar gyfer rhoi gwybod amdanynt.
374. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru er mwyn:
- a. Gwerthuso effaith y Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021.
 - b. Datblygu strategaeth ariannu gynaliadwy a hirdymor ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol yng Nghymru, yn ystod, a thu hwnt i bandemig y coronafeirws, gyda darpariaeth benodol wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau arbenigol a ddarperir 'gan ac ar gyfer' menywod ethnig lleiafrifol, gan gynnwys menywod nad oes ganddynt hawl i dderbyn arian cyhoeddus.
 - c. Ariannu sefydliadau arbenigol i gynnal ymchwil er mwyn deall yn well brofiadau trais pobl ethnig lleiafrifol a mudwyr yn erbyn dioddefwyr sy'n fenywod a merched, a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu i roi gwybod am gamdriniaeth, cael gfael ar wasanaethau cymorth ac ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.
 - d. Gweithredu i ddiogelu a chefnogi'r holl ddioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched, waeth beth fo'u statws mewnffido, a sicrhau bod pob dioddefwr mudol sydd angen gwasanaethau yn gallu'u cyrchu yn gyfartal, gan gynnwys menywod heb hawl i dderbyn arian cyhoeddus.
 - e. Sicrhau bod anghenion menywod hŷn yn cael eu gweld yng nghyd-destun trafodaethau ar gam-drin domestig mewn cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r anghenion hyn yn gallu amrywio o fewn gwahanol gymunedau ethnig. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael i fenywod hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn gyfyngedig, felly mae angen gweithredu yn y CGCH i fynd i'r afael â'r bwlch hwn er mwyn cyflawni nod y Cynllun o sicrhau gwasanaethau cymorth arbenigol i fenywod Duon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n cael eu cam-drin.
375. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 3+), undebau llafur (n = 2), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 8), awdurdodau lleol (n = 6), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y dylid sicrhau bod data rheolaidd wedi'i ddadgyfuno sy'n cael ei ddal gan sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol, megis Cymorth i Ddioddefwyr, ar gael ar lefel leol i lywio ymyriadau ystyrllon. Mae data a fyddai'n fuddiol yn cynnwys tueddiadau, proffiliau o dramgwyddwyr, dioddefwyr a natur digwyddiadau. Roedd pryder bod y Cynllun i'w weld yn awgrymu nad yw data Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei gasglu. Mae gofyniad am strategaethau

rhanbarthol wedi bod ar waith yn dilyn Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Mae'n ddyddiau cynnar ar y strategaethau hyn ac felly dylid rhoi cyfle iddynt gyflawni cyn cymryd camau gweithredu eraill a allai ystumio'r ffocws oddi wrth wybodaeth a gwybodaeth leol. Nodwyd nad yw Nod 4 – "*Sicrhau data ystyrllon, cadarn a defnyddiadwy ar ethnigrwydd*," yn cyfeirio nac yn gwneud unrhyw ymrwymiad i wella argaeledd casglu data mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Dylid blaenoriaethu hyn fel rhan o'r camau gweithredu sydd wedi'u rhestru i weithredu'r nod hwn. Dylid newid geiriad y canlyniad i "*Mae data ar ethnigrwydd yn cynnwys gwahanu yn ôl (ychwanegu oedran), rhyw, anabledd a'r holl nodweddion gwarchodedig eraill*." Mae hyn yn ofynnol o ystyried y bwlch sylweddol sydd yn nata Cymru ar gyfer y garfan hon o blant.

Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon:

376. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 10+) awdurdodau lleol, (n = 3), un undeb llafur (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 10), sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 2), un corff ariannu (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 2+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) ac un sefydliad arall (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar adran celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon y Cynllun. A

Dathliadau a mwy o gynrychiolaeth o amrywiaeth hanesyddol Cymru:

377. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylid gwneud mwy i hyrwyddo hanes ac etifeddiaeth Tiger Bay a gwaddol hanesyddol arall sy'n deillio o gymunedau Du yng Nghymru. Dylid rhoi pwyslais ar y pwynt bod Cymru wedi bod yn amrywiol erioed; mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb i gynrychioli a hyrwyddo gwybodaeth am hyn, yn ogystal â'r tensiynau hiliol sydd wedi bodoli yng Nghymru, er enghraifft yn Nociau Caerdydd a Butetown, Casnewydd ac Abertawe. Mae cyfle hefyd i'r sector diwylliannol ehangach gydweithio dros Gymru a rhannu gwybodaeth a'r hyn a ddysgwyd, yn hytrach na dilyn eu llwybr eu hunain.
378. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 2+), ymatebwyr unigol (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylid cydnabod Diwylliant Carnifal fel cyfrwng ar gyfer cyflwyno diwylliant a cherddoriaeth Ddu ac Asiaidd i gymunedau Cymru. Rhaid cael balchder mewn cerddoriaeth Ddu Gymreig – mae angen mwy o gydnabyddiaeth, cymorth a hyrwyddo i hyn newid. Profiad bywyd gan ymatebwyr: "*Fel person Du, mae'n ymddangos bod stigma bob amser ynghlwm wrth ddod o Gymru, ac nid yw artistiaid yn arbennig o hyd yn cael eu cydnabod fel rhai credadwy o safbwynt y DU ac yn Rhyngwladol*." Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ei bod yn ymddangos bod Cymru bob amser yn cael ei heithrio o deithiau rhyngwladol mawr, gydag asiantau heb fawr ddim hyder, os o gwbl, i werthu i gynulleidfaoedd Cymru. Yn rhy aml, dywedir wrth bobl Ddu sy'n cael eu geni ac sy'n byw yng Nghymru nad ydynt yn cael eu cydnabod fel Cymry ac nad ydynt yn perthyn. Mae ymwybyddiaeth bod 'cyfryngau Cymru' sefydliadol yn frawychus iawn, ac mae hyn wedi dod yn broblem wirioneddol. Mae cyfryngau Cymru yn tueddu i beidio â

chanolbwyntio ar artistiaid Du sy'n dod i'r amlwg ac nid ydynt yn dangos fawr ddim diddordeb pan nad yw'r Gymraeg yn nodwedd amlwg.

379. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), sefydliadau cymunedol (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) bod angen digwyddiadau cenedlaethol i annog pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gymryd rhan yn niwylliant Cymru, e.e. dylai'r Eisteddfod Genedlaethol annog dehongliadau amrywiol o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymry. Mae angen i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol deimlo'n rhan o'r cyhoedd yng Nghymru, mae angen iddynt fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, ac o ran cynhyrchu a phresenoldeb diwylliant, y celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon yng Nghymru. Mae angen celfyddydau, diwylliant a chwaraeon mwy amrywiol i adlewyrchu cyfraniad ethnig leiafrifol i fywyd a diwylliant Cymru. Mae profiad bywyd gan ymatebwyr yn cynnwys: *"Doeddwn i ddim wir yn gweld unrhyw un Du nac Asiaidd yn cael eu cynrychioli o'n hysgol ni yn yr Eisteddfod. Yr un bobl a oedd yn cael eu dewis flwyddyn ar ôl blwyddyn,"* a *"Does neb yn tybio fy mod i'n Gymro/Gymraes wrth edrych arna i. Rwy'n cael fy ystyried yn dramorwr/wraig oherwydd fy nillad Islamaidd a lliw fy nghroen. Does neb yn meddwl fy mod i'n deall Cymraeg, er fy mod i'n rhugl ac wedi astudio Cymraeg Lefel A. Maen nhw'n gweld fy nghrefydd yn gyntaf, yna fy nghroen, maen nhw'n clywed fy llais; Dro ar ôl tro, rwy'n cael fy marnu fel dim digon Cymraeg. Dyna pam rwy'n teimlo, waeth pa mor galed rwy'n ymdrechu, na fyddaf byth yn cael fy nerbyn fel Gymro/Cymraes. Rwy'n siarad Cymraeg yn rhugl, rwyf wedi bod i'r ysgol yma, ceisiais fy ngorau i amrywio'r Eisteddfod yn yr ysgol, ond gwithwyd hynny o'r neilltu gan fy athrawon am nad ydyn nhw'n gweld fy hunaniaeth Somaliaidd-Gymreig yn cyd-fynd â diwylliant Cymru."*

380. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), sefydliadau cymunedol (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod angen canolfannau / digwyddiadau cymunedol croestoriadol sy'n ailddiffinio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn 'Gymreig a X'. Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau, gan gynnwys sefydlu dathliad blynyddol a chydabyddiaeth o gyfraniad cymunedau ethnig amrywiol mewn chwaraeon, treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau, gan broffilio modelau rôl. Mae angen mwy o amlygrwydd i leiafrifoedd ethnig mewn ffilmiau, lle maent yn chwarae'r prif rannau, yn wyddonwyr a chyfreithwyr, yn hytrach na'n cael eu portreadu fel y dosbarth is. Mae angen cynnwys mwy o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar y teledu ac yn y theatr – gallai BAFTA Cymru arddangos talent pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n dod i'r amlwg mewn gwobrau cenedlaethol fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u cyfraniadau. Rhaid dathlu arwyr chwaraeon a diwylliannol amrywiol hefyd – mae angen i bobl ifanc weld cyflawniadau pobl sy'n edrych fel nhw. Mae angen plethu straeon amrywiol i wead diwylliant Cymru. Bydd hyn yn atal hunaniaeth Gymreig rhag ymwneud â gwynder yn unig. Mae angen i'r gwaith hwn ddechrau mewn ysgolion. Mae angen rhoi mwy o bwyslais hefyd ar lwybrau mynediad i yrfaeod yn y sector diwylliant a threftadaeth ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol. Dylai bywyd cyhoeddus fod yn hygyrch i bawb gan gynnwys pethau fel gwyliau diwylliannol, polisi dillad a chael gafael ar fwydydd diwylliannol. Byddai creu mannau a digwyddiadau di-alcohol ar gyfer pobl ifanc hŷn yn helpu pobl Ddu, Asiaidd ac

Ethnig Leiafrifol i deimlo eu bod yn cymryd mwy o ran ym mywyd Cymru ac yn caniatáu iddynt gyfranogi yn niwylliant Cymru. Mae defnyddio profiad bywyd yn bwysig er mwyn sicrhau cynrychiolaeth a dehongli sy'n cydnabod ac yn dathlu diwylliant cyfoethog ac amrywiol cymdeithas. Mae angen dweud mwy yn yr adran hon o'r Cynllun ar sut y caiff profiadau byw eu cipio a sut y bydd sefydliadau ar lawr gwlad yn cymryd rhan. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) y dylai cyrff ariannu ymgysylltu â grwpiau llawr gwlad ethnig leiafrifol i nodi anghenion y gymuned mewn perthynas â dathlu diwylliant ac amrywiaeth a chadw treftadaeth. Dylid ymhelaethu ar hyn yn y Cynllun.

381. Mynegodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 1+), ymatebwyr unigol (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) yr angen i drefedigaethu a chynnig esboniadau dilys o henebion hanesyddol, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd a mannau cyhoeddus yng Nghymru. O ran caethwasiaeth a threfedigaethedd ac ailasesu'r hanes hwnnw, awgrymwyd bod dathlu amrywiaeth hanesyddol Cymru hefyd yn cael ei gynnwys fel cam gweithredu. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cysylltiadau hanesyddol cynnar megis amrywiaeth y llengoedd Rhufeinig yng Nghymru, neu'r cymunedau rhyngwladol a oedd yn ymwneud â llongau a masnach. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys ymweliadau â safleoedd amgueddfeydd a hanes yn y cwricwlwm **Hanes Pobl Dduon** newydd.

382. Er nad yw cwmnïau'r cyfryngau a darlledu yn dod o dan nawdd Llywodraeth Cymru, dywedodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+), un undeb llafur (n = 1), un awdurdod lleol (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylid eu cynnwys yn narpariaethau'r CGCH gan eu bod yn chwarae rôl allweddol yn y sector creadigol. Dylid cynnal sgwrs gyda chomisiynwyr BBC Cymru i drafod ffordd ymlaen ar gyfer cynnwys newydd sy'n adlewyrchu'r angen am fwy o amrywiaeth a chefnogaeth gan artistiaid o'r diaspora Du / Asiaidd. Mae angen cynnal ymchwil ar y cyd â lleoliadau yng Nghymru ynghylch hyrwyddo cerddoriaeth Ddu a churadu / rhaglennu gwyliau i lwyfannu cerddoriaeth a diwylliant y diaspora Du / Asiaidd.

Cyllid ac Adnoddau:

383. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), un awdurdod lleol, (n = 1), un undeb llafur (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+) ac un ymatebydd unigol (n = 1) fod angen dyrannu adnoddau – yn enwedig amser a chyllid – er mwyn gallu ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Dylai fod yn ofynnol i staff cyrff cyhoeddus dderbyn hyfforddiant mewn ymgysylltu a hwyluso a hyfforddiant ar ragfarn ddarwybod er mwyn sicrhau nad yw hiliaeth yn ailgodi mewn mannau newydd. Rhaid darparu gwybodaeth am fynediad at adnoddau mewn gwahanol ieithoedd. Rhaid i baneli asesu grantiau fod yn amrywiol ac adlewyrchu'r boblogaeth, a dylai adnoddau fod ar gael i gyllidwyr grantiau hyrwyddo cynlluniau i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae angen i gyllid wedi'i neilltuo gydnabod y gallai grwpiau penodol o fewn grŵp ethnig neu grefyddol fod o dan anfantaes arbennig (e.e. menywod). Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng grwpiau Du,

Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol penodol a thargeddu camau gweithredu penodol tuag at grwpiau hiliol penodol.

384. Mae sefydliadau'r trydydd sector ($n = 3$), un awdurdod lleol ($n = 1$), un undeb llafur ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) yn tynnu sylw at y ffaith bod cyllid yn hanfodol ac yn honni y dylid rhoi cyllid i gefnogi prosiectau bach sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau bach, yn hytrach na dyfarnu cyllid i sefydliadau sefydledig mwy bob amser. Rhaid i asesiadau effaith ariannol adrodd ar sut y maent yn cefnogi sefydliadau / cymunedau ar lawr gwlad yn ogystal â sefydliadau mawr. Dylai'r gallu i gymunedau ac ymarferwyr ethnig leiafrifol gael gafael ar gymorth ariannol i gynhyrchu neu gyflwyno eu ffurfiau celf gael eu trin yn gydradd â'u cyfranogiad yn y celfyddydau. Dylai fod mwy o gyfleoedd i gynnal arddangosfeydd nodedig (nawdd ar gyfer hyfforddiant a chael gafael ar goetsio a mentora arbenigol). Roedd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer y sectorau amgueddfeydd ac archifau i ganiatáu hwyluso / arwain a chefnogi prosiectau. Dylai hyn gynnwys cyllid penodol ar gyfer prosiectau ailddehongli a chyllid penodol ar lefel llywodraeth leol ar gyfer casglu data, adolygu polisi a rheoli newid er mwyn mynd i'r afael â natur ddadleuol adolygiad hanesyddol.

385. Roedd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$), un awdurdod lleol ($n = 1$), ymatebwyr unigol ($n = 3$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ac un corff ariannu ($n = 1$) yn croesawu'r cyfeiriadau ar draws yr adran hon o'r Cynllun i gynnwys ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol Du ac Ethnig Leiafrifol, ond mae hyn yn gofyn am adnoddau penodol a chynaliadwy. Heb adnoddau, mae grwpiau cymunedol yn cael eu llethu gan geisiadau ad hoc i ymgysylltu a chyfrannu, ond nid ydynt yn meddu ar y staff, mewn swyddi wedi'u hariannu, i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

386. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$), un awdurdod lleol ($n = 1$), ymatebwyr unigol ($n = 3$) a sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) y dylid cynnal adolygiad o Chwaraeon Cymru gan gynnwys ei gyllid, ei staffio, ei arweinyddiaeth a'i raglenni i asesu i ba raddau y gall ddiwallu anghenion poblogaeth amrywiol Cymru ac ymgorffori amcanion gwrth-hiliol yn ei ffyrdd o weithio a chynlluniau busnes.

Goresgyn hiliaeth yn y Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon:

387. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 5+$), un awdurdod lleol ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), un ymatebydd unigol ($n = 1$), un undeb llafur ($n = 1$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylai'r Cynllun gynnwys gam gweithredu sy'n ymwneud â chynnal iaith gwrth-hiliol mewn hysbysebu a mannau cyhoeddus. Byddai cam gweithredu ychwanegol yn ymwneud â sicrhau presenoldeb a marchnata cyfryngau cymdeithasol sy'n wrth-hiliol hefyd yn cael eu croesawu.

388. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 5+$), un awdurdod lleol ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), un ymatebydd unigol ($n = 1$), un undeb llafur ($n = 1$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylid sefydlu corff i gwmpasu'r diwydiant cyfan sy'n gallu casglu adroddiadau am hiliaeth gan holl brif gyrff y diwydiant, yn ogystal â bod yn gorff y gall pobl yn y diwydiant fynd ato a rhoi gwybod am achosion o hiliaeth, gan gynnwys rhoi gwybod yn ddienw. Dylai'r corff

allu cychwyn ymchwiliadau i faterion hiliaeth systemig a fyddai'n annhebygol o gael eu mynegi gan achwynwyr unigol. Dylai'r corff allu cynnig cyngor a chymorth i bobl sy'n credu eu bod yn dioddef hiliaeth, a / neu'n teimlo eu bod wedi derbyn triniaeth anghyfartal oherwydd eu hil, ar sut i brosesu cwyn a'r adnoddau sydd ar gael iddynt i gyflwyno cwyn. Dylai'r corff gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyflwr hiliaeth yn y diwydiant er mwyn mesur cynnydd, adeiladu ar arferion gorau a dysgu o gamgymeriadau. Dylai'r adroddiad blynyddol fod yn gyflawn gydag awgrymiadau polisi ar gyfer rhanddeiliaid y diwydiant ar sut i fynd i'r afael â hiliaeth.

389. Cynigiodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+), un awdurdod lleol (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un ymatebydd unigol (n = 1), un undeb llafur (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cyd-drefniadau ymgynghori / bargeinio sectoraidd ffurfiol ar gyfer undebau creadigol, gyda'r nod o fonitro gweithrediad y 'Contract Diwylliant', arferion gwaith teg a bwrw iddi i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth hirsefydlog o fewn y sector.

Arfer da a dysgu mewn chwaraeon:

390. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 1+) ac un corff ariannu (n = 1) fod hiliaeth yn dal i fod yn rhemp mewn chwaraeon ac mae angen i'r Cynllun gynnwys cam gweithredu ynghylch gwella'r ymateb cyfreithiol i'r rhai sy'n profi aflonyddu hiliol mewn chwaraeon, yn ogystal â gwneud seiberfwlio ac aflonyddu ar-lein yn drosedd. Dylai pobl hiliol gael eu gwahardd am oes o bob digwyddiad mewn chwaraeon, y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a dylai hynny gynnwys campau lleol ynghyd â champau proffesiynol fel Uwch Gynghrair Cymru. Byddai hefyd yn berthnasol i ddigwyddiadau fel dawnzio, cwpan y byd amryfal gampau, gemau rhyngwladol fel gemau cyfeillgar, gemau rhagbrofol ar gyfer pob twrnament ym mhob camp gan gynnwys Gemau Olympaidd y gaeaf a'r haf waeth ble maent yn cael eu cynnal.
391. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 1+) ac un corff ariannu (n = 1) fod angen mentrau sy'n annog menywod a merched Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ymuno â chwaraeon ac y dylid eu cynnwys yn y Cynllun. Dywedodd ymatebwyr unigol fod angen mwy o gyfleusterau yng Nghymru, yn enwedig yn Adamsdown a Butetown, oherwydd nid yw pobl yn teimlo bod y cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli ar eu cyfer hwy.
392. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3), sefydliadau cymunedol (n = 1+) ac un corff ariannu (n = 1) fod angen gwella cynrychiolaeth ethnig leiafrifol mewn chwaraeon. Mae diffyg Asiaid mewn grwpiau chwaraeon prif ffrwd, gyda dim un sy'n cynrychioli timau cenedlaethol Cymru, yn enwedig Asiaid Dwyreiniol. Awgrymwyd bod y materion ym mhob camp yn cael eu nodi a'u datrys o'r blynyddoedd cynnar gydag athrawon aeddfed a dylid croesgyfeirio'r pwyntiau a'r gwersi cadarnhaol o un ddisgyblaeth ag eraill.

393. Mynegodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) rwystredigaeth nad yw Cymru wledig wedi'i chynnwys mewn cynlluniau cenedlaethol, sy'n golygu nad yw pobl ethnig leiafrifol wedi elwa ar raglenni fel prosiect Chwaraeon Cymru, Chwaraeon BME Cymru. Mae angen mynd i'r afael â hyn fel bod pobl ethnig leiafrifol hefyd yn gallu elwa ar fwy o gyfranogiad mewn chwaraeon ynghyd â'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles
394. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y dylai'r Cynllun nodi'r hyn sy'n ofynnol gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r pwynt: *"Cyhoeddi nodweddion llwyddiant,"* (Nod 1, Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon) ac yn ogystal, pa fesurau metrig o lwyddiant fyddai eu hangen. Nododd ymatebwyr hefyd y gellid hefyd sôn am y rolau allweddol y mae awdurdodau lleol yn eu chwarae o ran chwaraeon, canolfannau hamdden a thwristiaeth yn y naratif.
395. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) mewn perthynas â Nod 5, yn ogystal â rhaglenni gwirfoddoli strwythuredig, y dylid ystyried interniaethau â thâl a phrentisiaethau fel ffordd o gynnwys pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon.

Beth sydd ar goll o'r adran hon:

396. Roedd sefydliadau'r trydydd sector (n = 6), un awdurdod lleol (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 2), sefydliadau cymunedol (n = 1+) ac un sefydliad arall (n = 1) yn rhwystredig am ddiffyg targedau CAMPUS o fewn y Cynllun gan fod hyn yn ei gwneud yn anodd mesur cynnydd. Mynegwyd pryderon y gellid datblygu maes celfyddydau a diwylliant y Cynllun ymhellach i fynd y tu hwnt i naratif ni / nhw lle mae diwylliannau leiafrifol yn cael eu gosod yn erbyn traddodiad diwylliannol Cymru. Mynegodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) rwystredigaeth bod celf, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon wedi'u 'talpio' gyda'i gilydd yn y Cynllun, gan ddweud y dylid edrych ar y meysydd hyn ar wahân.
397. Mae sefydliadau'r trydydd sector (n = 6) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) yn rhwystredig gyda chefnidir a naratif y bennod Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon, sydd wedi colli'r cyfraniad sylweddol y mae ymddiriedolaethau diwylliant a hamdden yn ei wneud i'r tirlun diwylliant a chwaraeon yng Nghymru, a chyda hynny y rôl y maent yn ei chwarae wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Bydd eithrio ymddiriedolaethau diwylliant a hamdden yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru gyflawni ei cham gweithredu o gynyddu amrywiaeth ethnig yn y gweithlu ar bob lefel. Yn yr un modd, os nad yw darparwyr yn rhan o'r broses o gytuno ar ba ddata sydd ei angen i ddeall amrywiaeth ethnig yn y gweithlu a sut y caiff hyn ei fonitro, bydd y data sy'n cael ei gasglu ar gyfer y sector yn anghywir. Nid yw'r Cynllun yn cynnwys digon o wybodaeth am y rôl y mae angen i sefydliadau a mudiadau celfyddydol ei chwarae mewn gwrth-hiliaeth. Yn ogystal, er mwyn sicrhau'r cam gweithredu i *"gynyddu amrywiaeth ethnig ar bob lefel o'r gweithlu, ac yn benodol, o fewn timau arwain ac ar*

fyrddau, yn ogystal ag o fewn swyddi cynllunio, dylunio, curadu a gwneud penderfyniadau, boed yn swyddi â thâl neu'n swyddi di-dâl," dywedodd ymatebwyr y bydd angen sicrhau monitro systemig o ran cynnydd rolau cyflogedig, gan wneud yn siŵr nad oes gwahaniaethu o ran yr hyrwyddiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i weithwyr o gymunedau ethnig amrywiol.

398. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 6), un awdurdod lleol (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 2), sefydliadau cymunedol (n = 1+) ac un sefydliad arall (n = 1) bod angen camau gweithredu wedi'u targedu i gynnwys menywod a merched, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a phobl ag anfanteision croestoriadol.
399. Nododd sefydliadau'r trydydd sector (n = 6), un awdurdod lleol (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 2) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) nad oes canlyniad ar gyfer yr ail gam gweithredu o dan y Naratif Hanesyddol. Gallai hyn gynnwys: pecyn cymorth ar gyfer datrefedigaethu casgliadau ar gyfer y sector amgueddfeydd yng Nghymru, wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â chymunedau amrywiol ledled Cymru; datblygu methodolegau cyd-guradu sy'n dathlu ymwybyddiaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws y sector amgueddfeydd; helaethu a dathlu lleisiau'r rhai a esgeuluswyd yn naratifau hanesyddol y gorffennol.
400. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 6), un awdurdod lleol (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 2) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y dylai *"gweithio gyda phob partner priodol, gan gynnwys y diwydiannau creadigol a chyrrff y celfyddydau i gefnogi, hyrwyddo a meithrin celfyddydau gweledol a chelfyddydau perfformio grwpiau ethnig lleiafrifol"* (...) a chysylltu â sefydliadau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn rhyngwladol," hefyd gynnwys sefydliadau diwylliant a chelfyddydau dan arweiniad pobl Ddu neu grwpiau diaspora yng Nghymru. Fel arall, mae perygl y bydd hwn yn fodel lle mae sefydliadau diwylliannol sy'n bodoli eisoes yn edrych allan at bartneriaid rhyngwladol, a grwpiau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru yn cael eu hanwybyddu unwaith eto.
401. Roedd sefydliadau'r trydydd sector (n = 6), un awdurdod lleol (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 2) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) am weld y camau nesaf mewn perthynas ag archwiliad Llywodraeth Cymru o gerfluniau, enwau strydoedd ac adeiladau yn y Cynllun.
402. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 6), un awdurdod lleol (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 2) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y bydd angen canllawiau priodol i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn mynd i'r afael â dulliau ac adolygiadau o amgueddfeydd ac orielau ac ati. Roedd cwestiynau ynghylch a fyddai'r dangosyddion perfformiad yn ddull 'Cymru gyfan' neu wedi'u teilwra i ddemograffeg pob awdurdod lleol? Awgrymwyd y dylai unrhyw system fonitro a ddefnyddir gynnwys

data ar nifer yr unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n manteisio ar brentisiaethau yn y diwydiannau creadigol lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol.

Llywodraeth Leol:

403. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+), awdurdodau lleol (n = 9), un undeb llafur (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 4), sefydliadau sector cyhoeddus (n = 2), a sefydliadau cymunedol (n = 1+) wedi cynnig sylwadau ar adran llywodraeth leol y Cynllun.

Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr adran hon:

404. Mynegwyd pryderon gan un undeb llafur (n = 1), sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), awdurdodau lleol (n = 7), ymatebwyr unigol (n = 4) a sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 2) bod y diffyg amrywiaeth ar draws awdurdodau lleol yn rhwstr i weithredu'r adran hon o'r Cynllun. Mae awdurdodau lleol wedi codi'r pwynt nad oes demograffeg ddigonol yn lleol mewn rhai ardaloedd i weithredu a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Ni roddwyd digon o ystyriaeth yn y Cynllun i ardaloedd heb gymunedau amrywiol ond sydd angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chenedlaethau a diwylliant i ddileu hiliaeth.

405. Dywedodd awdurdodau lleol (n = 5) a sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) fod hyfforddiant cydraddoldeb eisoes ar gael i Aelodau Etholedig ond y byddai'n amserol adolygu hyfforddiant o'r fath, fodd bynnag. Roedd y sylwadau'n cynnwys barn gref bod angen rhaglenni hyfforddi wedi'u hariannu a'u safoni'n llawn sy'n orfodol i'r holl staff ar awdurdodau lleol, yn enwedig yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae angen hyfforddiant yn y meysydd canlynol i ddechrau: sut i ddefnyddio gweithredu cadarnhaol wrth recriwtio; rhagfarn ddjarwybod; ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb. Dylai'r data sy'n cael ei gasglu yn ystod yr hyfforddiant hwn gael ei adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy Adroddiadau Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Dylai adroddiadau blynyddol hefyd dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â thorri cod ymddygiad sydd angen mynd i'r afael â hwy.

406. Dywedodd awdurdodau lleol (n = 5) ei bod yn hanfodol bod hyfforddiant, cymorth ac adnoddau priodol ar gael i aelodau etholedig a'r cyngor i weithredu a monitro'n llawn y nod hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cynghorydd ymrwymo i fod yn Wrth-hiliol o 2022. Mae ymatebwyr yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dull safonol o hyfforddi cynghorwyr, e.e. gweithdy sy'n cael ei gyflwyno'n gyson ledled Cymru. Mae angen dull gweithredu Cymru-gyfan er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy.

407. Roedd awdurdodau lleol (n = 5) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob awdurdod lleol yn rhoi'r un pwyslais ar gyflawni'r Cynllun a blaenoriaeth i sut y caiff ei graffu. Dylid rhoi canllawiau i aelodau sy'n craffu ar gydraddoldeb hiliol. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl gadarn i'w chwarae o ran helpu'r sector cyhoeddus i weithredu cysyniadau allweddol cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth a nodweddion ymarferol y rhain.

408. Roedd awdurdodau lleol (n = 5) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn gadarn o'r farn fod angen buddsoddi, data a hyfforddiant er mwyn i awdurdodau lleol ddatblygu'r camau gweithredu a amlinellir yn y CGCH. Mae angen cyllid i redeg a chyflawni prosiectau'n llwyddiannus yn lleol, a bydd buddsoddi o safbwynt ariannu yn galluogi awdurdodau lleol i gyflogi staff a fyddai'n gyswllt rhwng yr awdurdod lleol a chymunedau. Rhaid i'r gwaith o gasglu data cydraddoldeb wella a chael ei ddefnyddio i nodi poblogaethau lleol a fydd wedyn yn llywio gwasanaethau'r awdurdod lleol. Mae ymateb gan awdurdodau lleol yn dangos eu bod yn cytuno y dylai data lywio polisïau a fframweithiau perfformiad ar gyfer gwella. Fodd bynnag, bydd newidiadau i fframweithiau yn effeithio ar awdurdodau lleol a'r gofyniad i gael gafael ar ddata ychwanegol. Dywedodd awdurdodau lleol fod angen rhybudd ymlaen llaw o hyn er mwyn sicrhau bod data'n cael ei gasglu, ac, os oes angen prosesau neu fecanweithiau newydd ar gyfer cael y data, sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.
409. Tynnodd awdurdodau lleol (n = 5) sylw at y ffaith y byddai o gymorth mawr pe bai arian ar gael i'r sector cyhoeddus ar gyfer prynu tir i ddarparu ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr os nad oes safleoedd addas ym mhortffolio tir y Cyngor.

Ymgorffori cynlluniau a threfniadau llywodraethu presennol:

410. Mynegwyd pryderon gan awdurdodau lleol (n = 5) ynghylch y Grŵp Atebolrwydd arfaethedig – a fydd yn dwyn awdurdodau lleol i gyfrif – ar sut y bydd trefniadau craffu a llywodraethu lleol yn cael eu hymgorffori yn y trefniadau llywodraethu a chraffu sydd eisoes yn bodoli o fewn awdurdodau lleol. Mae angen eglurhad ar sut mae'r Grŵp Atebolrwydd yn debygol o weithredu – rhaid i'r grŵp egluro pa ddulliau statudol y mae'n eu defnyddio i ddwyn awdurdodau i gyfrif. Dywedodd awdurdodau lleol fod angen i'r camau gweithredu yn yr adran hon o'r Cynllun ganolbwyntio ar ganlyniadau a hwyluso'r broses o wir integreiddio camau gweithredu / amcanion o fewn strategaethau mewnol eraill. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut y gall y CGCH wella'r Amcanion Cydraddoldeb presennol a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol a llywio'r gwaith o adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf.
411. Mae awdurdodau lleol (n = 5) yn awgrymu y dylid cynnwys dull cydraddoldeb hiliol yn y fframwaith ar gyfer Deddfwriaeth a Chanllawiau Llywodraeth Leol ac yn y Llawlyfr Democratiaeth. Mae awdurdodau lleol hefyd yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru adfer cyllid penodol ar gyfer cyflogi Swyddogion Cydraddoldeb CLILC a arferai gynnig lefel ardderchog o gymorth a chynghor i Lywodraeth Leol, e.e. canllawiau a hyfforddiant ar anghenion Sipsiwn a Theithwyr a materion eraill i aelodau etholedig a swyddogion.

Camau gweithredu coll / ychwanegol:

412. Mae awdurdodau lleol (n = 5) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) wedi mynegi pryder am y diffyg nodau neu gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar addysg yn yr adran hon o'r Cynllun. Roedd profiad EYST o gyflawni

ymgyrch Gwneud Eich Marc 2021 i ddenu pleidleiswyr ethnig lleiafrifol ifanc yn etholiadau'r Senedd yn 2021 yn amlygu'r bwlch enfawr yn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o strwythurau democrataidd lleol a chenedlaethol yng Nghymru.

413. Nododd un undeb llafur (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+), awdurdodau lleol (n = 5), ymatebwyr unigol (n = 4) a sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 2) fod y Cynllun yn sôn am weithio gyda CLILC, Un Llais Cymru ac Academi Wales i gryfhau cynlluniau mentora. Mae ymatebwyr yn awgrymu y byddai gweithredu ar gefnogi ac ehangu cynlluniau mentora presennol sy'n canolbwyntio ar leiafrifoedd ethnig yn fuddiol, fel cynllun mentora EYST i nodi llwybrau i fywyd cyhoeddus ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
414. Roedd un undeb llafur (n = 1) yn rhwystredig nad oes sôn yn y Cynllun am lywodraeth leol ac Undebau Llafur. Rhaid rhoi amser cyfleuster ychwanegol ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer Cynrychiolwyr Cydraddoldeb – bydd hyn yn caniatáu gwell craffu ar bolisiau a gweithdrefnau yn y gweithle. Gall undebau llafur roi cymorth enfawr i fynd i'r afael â hiliaeth mewn awdurdodau lleol ac mae angen cydnabod hyn yn y Cynllun. Mae ymatebwyr yn nodi llawer o ddigwyddiadau lle mae rheolwyr yn cysylltu ag aelodau staff Du i geisio cymorth ar faterion hil sydd wedi codi yn y gweithle. Mae hyn yn annheg ac yn afresymol ac weithiau mae wedi golygu bod rheolwr yn rhannu gwybodaeth gyfrinachol am ddigwyddiad a allai fod yn hiliol gyda mwy o staff Du iau i geisio cyngor. Mae taer angen mynd i'r afael â hyn, sy'n mynd y tu hwnt i 'archwilio'r opsiwn ar gyfer cwtâu' neu 'brosesau adolygu'.
415. Mynnodd un undeb llafur (n = 1), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 4+), awdurdodau lleol (n = 5), ymatebwyr unigol (n = 4), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 2) bod angen cynyddu amrywiaeth o fewn llywodraeth leol, a'i fod wedi tynnu sylw'n benodol at dangynrychiolaeth poblogaethau Dwyrain Asia, Somalia, Gwlad Pwyl a Dwyrain Ewrop ar gynghorau lleol ac mewn llywodraeth leol. Mae angen mwy o ymgysylltu â'r cymunedau hyn er mwyn rhoi llais iddynt a chaniatáu i berthnasoedd gael eu meithrin rhwng y cymunedau hyn a'r rhai sydd mewn grym. Nodwyd mewn rhai ymatebion fod gwrthwynebiad i gyflogi pobl ethnig leiafrifol mewn llywodraeth i ddatblygu gwaith cydraddoldeb hiliol, gan arwain at yr un sgysiau'n cael eu cynnal drosodd a throsodd. Roedd galwadau am gyflwyno cwtâu ar gyfer lleiafrifoedd ethnig mewn pleidiau gwleidyddol fel yr argymhellwyd gan Glymblaid Diverse 50/50. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebwyr yn cefnogi cwtâu / rhestrau am eu bod yn eu hystyried yn annemocrataidd. Nododd rhai fod yn rhaid mynd i'r afael â'r agenda cydraddoldeb mewn ffordd gyfannol nid unigol, er mwyn sicrhau bod croestoriadedd yn cael ei ystyried, a bod canlyniadau cyfartal i bawb, yn enwedig y rhai sydd â hunaniaethau lluosog, yn cael eu cyflawni, gan y gallai canolbwyntio ar un nodwedd warchodedig benodol achosi gwahaniaeth wrth gyflawni'r agenda cydraddoldeb. Nodwyd yr angen i gyflwyno ymgyrchoedd hysbysebu wedi'u hanelu at bobl ifanc ethnig leiafrifol i ddeall prosesau democrataidd lleol ac i addysg yn y gymuned ddigwydd. Mae angen i'r adran hon o'r Cynllun hefyd gydnabod y nifer sylweddol o ddarparwyr gofal Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol nad ydynt yn cael eu trin yn deg gan gomisiynwyr gwasanaethau awdurdod lleol.

Cwestiynau ar nodau a chatau gweithredu penodol yn yr adran hon:

416. Gofynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) gwestiynau am y nodau a'r camau gweithredu penodol yn yr adran hon o'r Cynllun a sut y byddent yn cael eu gorfodi. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Llawlyfr Democratiaeth fod ar gael mewn gwahanol ieithoedd fel mater o drefn.

Y Gymraeg:

417. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 17+), awdurdodau lleol (n = 13), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 7), ymatebwyr unigol (n = 25), sefydliadau iechyd (n = 5), sefydliadau cymunedol (n = 4+), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 7+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+), undebau llafur (n = 2), un corff ariannu (n = 1) a sefydliadau eraill (n = 2) wedi cynnig sylwadau ar adran y Gymraeg y Cynllun. Derbyniwyd ystod o sylwadau yn manylu ar yr angen am fodelu rôl cadarnhaol o siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, mwy o anogaeth i bobl ethnig leiafrifol ddysgu Cymraeg a phwysigrwyd parchu a dathlu ieithoedd lleiafrifol eraill ochr yn ochr â'r Gymraeg.

Polisi a strategaeth gyfredol:

418. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), awdurdodau lleol (n = 5), un ymatebydd unigol (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau iechyd (n = 2) y dylai'r Cynllun atgyfnerthu'r deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli a gynlluniwyd i ddiogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cydweddu deddfwriaeth a gofynion y Gymraeg yn agosach â deddfwriaeth cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod dulliau sy'n cael eu defnyddio i hyrwyddo gwrth-hiliaeth yn ystyried yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg. (Roedd ymatebwyr yn cydnabod nad yw'r Gymraeg yn nodweddiadol fel y cyfryw ond yn tynnu sylw at y ffaith bod y dull hwn yn addas tuag at y nod o Gymru lle mae cydraddoldeb i bawb.)
419. Dywedodd awdurdodau lleol (n = 5) ac un ymatebydd unigol (n = 1) bod angen i'r adran hon o'r Cynllun gysylltu â strategaethau presennol megis Cymraeg 2050 ac y dylai'r CGCH weithio ochr yn ochr â Cymraeg 2050. Mae un ymatebydd unigol (n = 1) yn gofyn sut mae'r cam gweithredu canlynol: *"Caiff adolygiad ei gynnal gan randdeiliaid addysg perthnasol i ddechrau er mwyn casglu gwybodaeth fanwl am y darlun cyfredol a'r rhwystrau sy'n atal unigolion o'r gymuned ddu ac ethnig leiafrifol,"* yn cyd-fynd â Cymraeg 2050?
420. Mynnodd awdurdodau lleol (n = 3), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un sefydliad iechyd (n = 1) fod yn rhaid i'r adran hon o'r Cynllun gysylltu â strategaethau sy'n bodoli eisoes megis Cynllun Strategol Addysg Gymraeg, Strategaethau Pum Mlynedd, a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig *"Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."* Awgrymwyd yn gryf bod

ymchwilio i'r rhwystrau a wynebier gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol rhag manteisio ar y Gymraeg yn gam cyntaf allweddol. Bydd yn bwysig cysylltu'r nodau yn y Cynllun â'r strategaeth bresennol a chynlluniau i helpu i brif ffyrddio'r nodau er mwyn helpu i arwain at effaith gadarnhaol. Mae angen cydlynu gwaith fel bod y negeseuon cenedlaethol a lleol yn atgyfnerthu ei gilydd.

421. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sylw at yr angen i gynyddu nifer yr athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n siarad Cymraeg ac i hyn gael ei integreiddio i Gynllun 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a Chyfrwng Cymraeg a gwella sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg.
422. Dywedodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) y gallai'r adran hon o'r Cynllun fod wedi cynnwys cydnabyddiaeth fwy sylweddol o faterion allweddol. Er enghraifft, dylid cydnabod bod cymunedau perthnasol, mewn llawer o achosion, wedi eu hatal rhag gallu mynychu addysg Gymraeg yn hanesyddol. Mae'r ymatebydd hwn hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Brifysgol Caerdydd Strategaeth Gymraeg newydd (wedi'i llunio'n unol ag ymrwymadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ehangach) sy'n cael ei gweithredu.

Herio rhagfarnau a chamsyniadau:

423. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), sefydliadau iechyd ($n = 3$) a sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru weithio i ddangos yn glir nad yw'r bobl hynny sydd â'r Gymraeg fel iaith gyntaf i gyd yn Wyn. Mynnodd ymatebwyr y byddai modelu rôl cadarnhaol siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y rhai â'r Gymraeg fel iaith gyntaf, y rhai sydd wedi dysgu Cymraeg a'r rhai sydd wedi dysgu Cymraeg fel sgîl yn y gweithle) a dathlu amrywiaeth siaradwyr Cymraeg yn gwneud llawer i ymateb i rai rhagfarnau a chamsyniadau. Mynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) fod angen i Lywodraeth Cymru gefnogi ac annog aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n siarad Cymraeg i fynd i fyd addysgu er mwyn rhoi modelau rôl cadarnhaol y gall y cymunedau hyn uniaethu â hwy. Gellir cyflawni hyn drwy weithio gyda darparwyr addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru ynghylch y ffordd y maent yn targedu darpar fyfyrwyr o'r cymunedau hyn. Yn ogystal, mynnodd ymatebwyr unigol ($n = 2$) y dylai mwy o bobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol Cymru (yn enwedig menywod) gael llais yn y cyfryngau yng Nghymru – dylai'r Cynllun edrych ar sut i godi proffil poblogaethau amrywiol yng Nghymru a sut y maent yn cyfrannu at ein cymdeithas heddiw fel nad yw hanes Cymru'n cael ei wyngalchu. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) fod angen annog a chefnogi mwy o Somaliaid Mwslimaidd sy'n siarad Cymraeg i swyddi dylanwadol, er mwyn cynyddu gwelededd a pherthnasedd a fydd yn ei dro yn lleihau anwybodaeth, ac yn y pen draw hiliaeth, yng Nghymru.
424. Mynnodd un awdurdod lleol ($n = 1$) ac un sefydliad iechyd ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid sy'n hyrwyddo ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg, o addysg cyn-ysgol hyd at addysg ôl-16 ac addysg bellach i hyrwyddo cyfleoedd a manteision dwyieithrwydd / amlieithrwydd, gan sicrhau neges a dull gweithredu cyson er mwyn chwalu rhagdybiaethau nad yw addysg cyfrwng

Cymraeg yn opsiwn i aelwydydd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol lle nad yw'r Saesneg yn cael ei siarad. Dywedodd un corff ariannu (n = 1) y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg drwy annog creu partneriaethau aml-iaith, gyda'r Gymraeg yn cael ei siarad ynghyd ag ieithoedd eraill yng Nghymru.

425. Tynnodd un awdurdod lleol (n = 1) sylw at bwysigrwydd ystyried y Gymraeg a diwylliant Cymru yn yr un modd ag ieithoedd a diwylliannau eraill, gan sicrhau y gellir sicrhau dull mwy cadarn o berthyn mewn Cymru amrywiol.
426. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), sefydliadau'r trydydd sector (n = 4) ac un undeb llafur (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi tafodieithoedd lleiafrifol. Cynigiodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi tafodieithoedd lleiafrifol eraill Cymru, megis tafodiaith Cymraeg Kale y Romani, sy'n unigryw i Gymru ac wedi'i hachub diolch i ddygnwch dau deulu Sipsiwn Cymreig sydd wedi cadw'r hyn sy'n weddill o'r dafodiaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, heb unrhyw gydnabyddiaeth na chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae ymatebwyr yn cynnig bod y dafodiaith hon yn cael ei haddysgu ar gwricwlwm yr ysgol fel rhan o'r ymrwymiad i ddysgu hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'i haddysgu i blant Sipsiwn Cymru, fel hawl ddynol sylfaenol unrhyw un i gyrchu eu hiaith frodorol. Mae sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) yn ategu bod angen yma i barchu nid yn unig y Gymraeg ond hefyd yr ystod amrywiol o ieithoedd cyntaf poblogaethau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Ni ddylai'r cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ddigwydd ar draul dileu ieithoedd eraill. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) fod angen i Lywodraeth Cymru wahaniaethu rhwng y rhwymedigaethau cyfreithiol i weithredu'n bennaf fel gwladwriaeth ddwyieithog, a'r realiti bod Cymru'n genedl amlieithog, lle mae pobl sy'n byw yng Nghymru yn cyfathrebu â'u ffrindiau, eu teulu a'u cydweithwyr, yn masnachu, ac yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus (fel ymgynghoriadau meddygon teulu) mewn llawer o ieithoedd gwahanol. Nodwyd bod disgrifio Cymru'n barhaus fel gwlad ddwyieithog yn atgyfnerthu teimladau llawer o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o fod yn cael eu hanwybyddu a'u hisraddio mewn cymhariaeth â'r diwylliant a'r dosbarth prif ffrwd. Ychwanegodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ei bod yn allweddol i Lywodraeth Cymru ddeall pwysigrwydd a gwerth amlieithrwydd mewn dyfodol lle nad oes hiliaeth nac anghydraddoldeb yn ein Cymru amlldiwylliannol, gyfartal a thecach. Yn ogystal, mae 55 y cant o'r rhai a arolygwyd gan un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn cytuno y dylai effeithiau polisïau, strategaethau a chamau gweithredu'r llywodraeth ar siaradwyr y Gymraeg, neu ieithoedd lleiafrifol eraill a siaredir yng Nghymru (megis iaith Romani neu Romanës), fod yn gadarnhaol.

Materion, pryderon a heriau a fynegwyd yn yr adran hon:

427. Tynnodd ymatebwyr unigol (n = 4) sylw at y ffaith bod rhai ymgyrchwyr gwrth-hiliol yn ystyried y Gymraeg yn niwsans ac yn teimlo bod llinell denau rhwng annog y defnydd o'r Gymraeg a gwahaniaethu anuniongyrchol. Nodwyd nad yw'n ymarferol disgwyl i'r di-Gymraeg feddu ar yr amser i'w neilltuo i ddysgu iaith newydd a mynegwyd y teimlad bod y pwyslais ar sgiliau Cymraeg i gael swyddi yn y sector

cyhoeddus yn bolisi gwahaniaethol hiliol, sy'n rhwystro'r di-Gymraeg rhag gallu gwneud cais am rolau penodol.

428. Mae sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) ac ymatebwyr unigol (n = 6) wedi mynegi pryderon ynghylch y gofyniad am y Gymraeg mewn cyflogaeth, yn enwedig y sector cyhoeddus, gan barhau i roi pobl hil-ddiffiniedig dan anfantais oherwydd nad ydynt wedi cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i'r lefel a ddymunir. Mae un awdurdod lleol (n = 1) yn rhagweld tensiwn posibl o fewn gweithle sy'n gofyn am Gymraeg ac amrywiaeth. Dywedodd ymatebwyr unigol (n = 6) y dylid ystyried y Gymraeg fel sgîl ychwanegol, nid gwahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn y rhai nad ydynt yn ei siarad yn rhugl. Dylid dyfarnu rolau yn unol â sgiliau, ac ni ddylid eithrio'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

429. Amlygodd ymatebwyr unigol (n = 2) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod nifer y myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn isel iawn, felly bydd y gofyniad am y Gymraeg mewn cyflogaeth yn creu rhwystr ychwanegol i unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gael gafael ar gyflogaeth ehangach os nad oes cymorth ychwanegol ar gael i bontio'r bwlch mewn dysgu a phrofiad. Gall rhwystrau hefyd gynnwys diffyg gwybodaeth neu wybodaeth anghywir am addysg cyfrwng Cymraeg. Dylid cydnabod rhwystrau yn y Cynllun ochr yn ochr â sut mae profiadau a rhwystrau yn amrywio o un ardal i'r llall. Profiad bywyd: *"Rwy'n mynd i ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd. Er bod Caerdydd yn ddinas amrywiol, dydw i ddim ond yn gallu meddwl am 9-10 o bobl Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn fy ngrŵp blwyddyn (Blwyddyn 7). Rwy'n credu y dylid cael mwy o ymdrech i sicrhau bod grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifol eraill yn ystyried, a gobeithio'n dewis, dysgu mewn ysgolion Cymraeg. Dydw i ddim yn gwybod a yw pawb yn ymwybodol o fanteision dysgu iaith arall, neu Gymraeg yn benodol. Dydw i ddim yn gwybod chwaith os yw pawb yn gwybod eich bod chi'n dysgu Saesneg mewn ysgol Gymraeg. Yng Nghaerdydd, mae'n cael ei addysgu'n dda, ac mae pobl yn gwneud yn dda yn eu TGAU Saesneg yn ogystal â'r holl bynciau eraill sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dydw i ddim yn siŵr bod pawb yn sylweddoli hynny, a bod hynny'n gwneud i bobl beidio â dewis addysg Gymraeg."* Tynnodd un awdurdod lleol (n = 1) sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi nodi diffyg eglurder ynghylch y cymorth iaith Gymraeg sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar lefel leol a chenedlaethol i liniaru'r rhwystrau ychwanegol y mae plant ethnig leiafrifol yn eu hwynebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae angen gwasanaeth Cymraeg fel iaith Ychwanegol diffiniedig mewn lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg tebyg i'r gwasanaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol sydd eisoes wedi'i hen sefydlu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae angen i gynghorau hyrwyddo budd addysg cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau ethnig lleiafrifol. Hefyd, byddai angen i unrhyw adnoddau sy'n cael eu datblygu mewn perthynas â'r cwricwlwm fod yn ddwyieithog i fodloni safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dosbarthiadau Cymraeg trochi addas i bob myfyriwr ym mhob sefydliad addysg statudol, gan sicrhau bod y rhai hynny heb y Gymraeg na'r Saesneg fel iaith gyntaf yn cael cymorth pwrpasol i ddysgu trydedd+ iaith yn yr ysgol. Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau eraill ar gyfer sut y dylai Llywodraeth Cymru weithredu:

- a. Gorchymyn sefydliadau addysg statudol i ddefnyddio gweithredu cadarnhaol i gynyddu nifer yr athrawon Cymraeg sy'n cynrychioli hunaniaethau hiliol, ethnig a chrefyddol amrywiol plant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw.
- b. Gorchymyn ysgolion cyfrwng Cymraeg i sicrhau cynrychiolaeth ar draws eu corff disgyblion a darparu dosbarthiadau Cymraeg ychwanegol i gefnogi myfyrwyr nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg iaith gyntaf.
- c. Dileu gofynion cymhwysedd Cymraeg blaenorol i blant a phobl ifanc fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu weithgareddau allgyrsiol.
- d. Sicrhau bod cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i Saesneg neu iaith arall ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel y gallant ymgysylltu â'r ysgol ac addysg eu plentyn mewn ffordd mor gadarnhaol â rhieni eraill.
- e. Casglu a chyhoeddi data clir ar nifer dysgwyr y Gymraeg sy'n manteisio ar leoliadau addysg statudol ac ôl-16, a'u cynnydd.
- f. Casglu a chyhoeddi data clir ar nifer yr athrawon Cymraeg o gefndiroedd hil-ddiffiniedig. Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data clir ar nifer y bobl hil-ddiffiniedig sy'n gwneud cais am rolau ble mae'r Gymraeg yn hanfodol, a thra'u bod ar waith, rolau ble mae'r Gymraeg yn ddymunol, a chymharu hynny â nifer y bobl hil-ddiffiniedig sy'n llwyddo i gael y swyddi hynny.

430. Amlygodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) sut y mae'r ffocws ar gynwysoldeb iaith yn y Cynllun yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y Gymraeg yn peryglu bwydo i hierarchaeth o angen, gydag anghenion grwpiau sydd wedi cael eu lleiafrifoli, o ran iaith yn yr achos hwn, unwaith eto'n disgyn i haenau is. Mae ymatebwyr wedi datgan nad yw'n glir a yw'r Gymraeg yn teilyngu ei lle yn y Cynllun – mae ymatebwyr yn pryderu bod hyn yn flaenoriaeth o'r brig i lawr, yn hytrach na'i fod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau bywyd.

431. Awgrymodd ymatebwyr unigol (n = 2) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) bod modd ystyried hyrwyddo'r Gymraeg fel peth senoffbig gan nad yw'r rhan fwyaf o bobl nad ydynt yn dod o Gymru fel arfer yn siarad Cymraeg ac fel arfer yn siarad Saesneg. Mae diffyg gallu siarad Cymraeg yn rhwystr i bobl o'r tu allan i Gymru i symud i Gymru.

432. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) y dylid ymgynghori â rhieni ynghylch yr ymwybyddiaeth o ddewis a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu neu ddeall agweddau at addysg Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ogystal â phobl nad ydynt wedi cael y cyfle i fod yn siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; byddai'r ddau safbwynt yn werthfawr o ran deall y rhwystrau a'r hyn y gallwn ei wneud i newid / gwella profiadau. Mae angen i awdurdodau lleol hefyd ystyried a yw eu cynlluniau strategol addysg cyfrwng Cymraeg yn wrth-hiliol ac yn cynnwys y nod o gynyddu amrywiaeth. Dylai awdurdodau lleol hefyd weld addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan annatod o'u camau gweithredu gwrth-hiliol yn eu siroedd. Mae angen i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ystyried gwasanaethau cymorth mewn lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer grwpiau lleiafrifol difreintiedig, e.e. ffoaduriaid, ceiswyr lloches a dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er mwyn gwneud y lleoliadau'n fwy cynhwysol ar gyfer y grwpiau hyn sydd â hawl i addysg cyfrwng Cymraeg. Rhaid i

Lywodraeth Cymru fapio lle mae cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru a chynllunio i ddechrau neu ehangu addysg cyfrwng Gymraeg yn nes at y cymunedau hynny er mwyn sicrhau bod mwy o'r unigolion hyn yn gallu cael gafael ar addysg o'r blynyddoedd cynnar ymlaen.

433. Mynnodd un ymatebydd unigol (n = 1) y dylid diogelu'r Gymraeg. Dywedodd un awdurdod lleol (n = 1) fod perygl o drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg oni bai bod y Cynllun yn cydnabod rôl y Gymraeg y tu hwnt i addysg a'r gwahaniaethu ychwanegol a wynebwr gan yr iaith. Ar y llaw arall, dywedodd awdurdod lleol arall (n = 1) nad yw'n ymddangos bod y Cynllun yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; mae'r Cynllun yn mynd ati'n fwriadol i annog rhieni o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gofrestru eu plant mewn addysg cyfrwng Gymraeg. Mae hynny'n gadarnhaol ac yn cefnogi targed Comisiynydd y Gymraeg o gyrraedd miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050. Mae awdurdod lleol arall (n = 1) yn cydnabod y pwysigrwydd bod pob awdurdod lleol yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Eglurodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y gallai'r Gymraeg gael ei hystyried yn ffactor sy'n peri cymhlethdod ychwanegol ac felly nad yw wedi'i gwreiddio'n llawn o'r cychwyn cyntaf. Gall croestoriadedd iaith ac amrywiaeth ethnig fod yn anodd, yn enwedig lle mae adnoddau'n gyfyngedig. Dylai'r Cynllun gydnabod bod siaradwyr Gymraeg yn gyfyngedig o ran eu dewisiadau o ran defnyddio cynnwys Gymraeg, ffaith na ellir ei newid oherwydd natur fyd-eang yr iaith Saesneg. Felly, mae'n hanfodol bod yr hyn sydd ar gael nid yn unig yn cael ei ddiogelu ond ei ymestyn lle bo hynny'n bosibl ac na ddylid caniatáu iddo gael ei gwtogi i gefnogi blaenoriaethau eraill.
434. Mae un awdurdod lleol (n = 1) yn tynnu sylw at y ffaith nad oes cyfleuster ar hyn o bryd yn CYBLD ar gyfer cofnodi camau'r Gymraeg fel iaith ychwanegol (CIY) h.y. y dysgwyr hynny lle nad yw iaith yr aelwyd yn Gymraeg na Saesneg (SIY). Mae hwn yn bwynt dadleuol, ac mae hyn wedi'i drafod yn helaeth drwy Fforwm Cyflawni Awdurdodau Lleol ar Leiafrifoedd Ethnig. Mae angen datrys y mater hwn fel y gellir cofnodi camau ar gyfer SIY a CIY ar gyfer dysgwyr o'r fath fel bod cydraddoldeb rhwng addysg cyfrwng Gymraeg a Saesneg o ran cofnodi cynnydd mewn caffael iaith ychwanegol. Roedd un ymatebydd unigol (n = 1) yn cefnogi hyn, gan ddweud bod angen cydnabod mai'r Gymraeg yw'r drydedd neu'r bedwaredd iaith i lawer o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae angen cynlluniau priodol ar gyfer hyn.
435. Roedd un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn rhagweld y gallai heriau godi o ran nodi cymorth parhaus i ddysgwyr ag anghenion SSIE ychwanegol i ymarfer eu sgiliau Gymraeg; dod o hyd i gyflogwyr cefnogol i recriwtio o gronfa ethnig leiafrifol sy'n siarad Gymraeg; sicrhau bod llwybr tuag at ganlyniad cyflogaeth cadarnhaol. Roedd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) yn awyddus iawn i weld cefnogaeth i bawb o gefndir ethnig leiafrifol, yn enwedig y rhai yn y gogledd-ddwyrain, lle mae cyfran gyfan o bobl wedi'i heithrio rhag ategu'r gweithlu oherwydd y Gymraeg, yn enwedig mewn addysg blynyddoedd cynnar.
436. Roedd un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn pryderu nad yw'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel opsiwn ar gyfer mewnfydwyr. Roedd pryderon bod y Gymraeg

yn ymylol i'r cynllun hwn yn hytrach nag wedi'i gwreiddio ar draws y cynllun ac yn rhan annatod o'r gweithredu i greu Cymru wrth-hiliol a chynhwysol.

437. Tynnodd un awdurdod lleol ($n = 1$) sylw hefyd at y ffaith na ddylid tybio nad oes gan grwpiau neu unigolion ethnig leiafrifol ddiddordeb mewn siarad Cymraeg.

Beth sydd angen ei ddiwygio yn yr adran hon:

438. Dywedodd awdurdodau lleol ($n = 2$), un ymatebydd unigol ($n = 1$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) nad yw'n glir beth yw 'gorchymyn masnachu diwygiedig'. Dywedodd ymatebwyr nad yw'r ymadrodd yn ymddangos yn y Cynllun a'i bod yn ymddangos bod y gorchymyn masnachu yn cyfeirio at ymgynghoriad arall.
439. Mynnodd awdurdodau lleol ($n = 3$), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) a sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$) fod y CGCH yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog, gyda chyfle cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cenedlaethol sy'n sicrhau bod cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog fel y gellir lledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd. Byddai angen i unrhyw drefniadau hyfforddi a darpariaeth gwasanaethau fod yn ddwyieithog hefyd, ac mae hefyd yn bwysig cynnwys yr angen i wasanaethau a gwybodaeth fod ar gael mewn ieithoedd eraill. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylid annog cyflawni'r nodau a'r camau gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd y Grŵp Atebolrwydd. Tynnodd asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$) sylw hefyd at y ffaith ei bod yn bwysig sicrhau nad yw cymunedau sy'n ei chael hi'n anodd ennill sgiliau Cymraeg yn cael eu gadael gyda theimlad o fod o dan anfantais.
440. Dywedodd awdurdodau lleol ($n = 2$) y byddai wedi bod yn fuddiol pe bai ymchwil pellach ar yr iaith Gymraeg a chymunedau ethnig lleiafrifol eisoes wedi digwydd fel y gallai'r Cynllun gynnig camau gweithredu mwy pendant ac uchelgeisiol mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd awdurdodau lleol ($n = 2$), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) ac un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) yn gadarn o'r farn fod angen Cynllun neu strategaeth fwy radical a fydd yn cynyddu nifer y bobl ethnig leiafrifol sy'n siarad Cymraeg; gellid cryfhau'r adran hon ar y Gymraeg a'i chroestoriadau â chydaddoldeb hiliol yn sylweddol. Roedd cwestiynau gan awdurdodau lleol ynghylch pwy fydd yn arwain yr adolygiad i gasglu gwybodaeth fanwl am y darlun presennol ac i gael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a chael gwared ar y rhwystrau i fynediad at y Gymraeg mewn addysg. Bydd dull safonol o ymdrin â hyn yn fuddiol er mwyn sicrhau bod yr un cwestiynau'n cael eu gofyn, gan rybuddio y bydd y canlyniad yn wahanol ym mhob awdurdod lleol oherwydd y boblogaeth.
441. Mynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) y dylid casglu data ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw archwiliadau a'i ystyried fel rhan o'r trafodaethau ar groestoriadedd. Ategir hyn gan un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sy'n nodi pwysigrwydd ymchwil a dealltwriaeth ychwanegol digonol ar ddinasyddion penodol o Gymru sy'n uniaethu fel pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'u profiadau eu hunain o'r rhwystrau a'r heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg.

442. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) nad yw'n glir i bwy y mae'r camau gweithredu sy'n ymwneud â Chymraeg i oedolion yn berthnasol – eu teimlad yw bod angen mwy o eglurder. Nododd yr ymatebydd hwn fod angen adolygiad mewnol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ar hyn o bryd ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Dylai'r Ganolfan hefyd edrych ar strategaethau cyfredol sydd ar waith i hyrwyddo cyrchu, casglu data ar ethnigrwydd a phennu targedau penodol fel rhan o gyllid grant a chynllun gweithredu i wella cynrychiolaeth y rhai hynny o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Wrth ymateb i'r camau gweithredu yn y Cynllun i gomisiynu ymchwil i'r rhwystrau i gael gafael ar y Gymraeg ar gyfer pobl ethnig leiafrifol, dywedodd yr ymatebydd hwn y dylai hyn ddigwydd ar fyrder, fel y gall borthi gwaith y Ganolfan wrth adolygu ei strategaethau a llunio cynllun gweithredu a phennu targedau.
443. Ymatebodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) o ran y pwynt a wnaed ar dudalen 69 y Cynllun, lle nododd Llywodraeth Cymru y byddant yn "herio" partneriaid grant, megis yr Urdd, Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin a RhAG i *"ystyried eu rôl wrth gyfleu agweddau cadarnhaol ynghylch hil, ethnigrwydd, cydraddoldeb yn ogystal â'r Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol."* Dywedodd ymatebwyr fod y cam gweithredu hwn yn bwysig gan fod amgylcheddau cyfrwng Cymraeg yn eithriadol o Wyn. Mae'n hanfodol dod â gwrth-hiliaeth i'r amgylcheddau hyn a chyfuno gwrth-hiliaeth â'r Gymraeg, yn enwedig yn y gogledd-ddwyrain. Nodwyd ei bod yn ddigon posibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar sefydliadau fel y rhai a grybwyllir uchod i ymgymryd â gweithgarwch fel hyn. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) nad yw'r cam gweithredu hwn yn glir, a bod angen eglurder ynghylch partneriaid cyllid grant mewn perthynas â'r cynlluniau gweithredu y bwriedir iddynt eu cynhyrchu a'r gwahaniaeth rhwng y ddau weithgaredd. Ategodd un awdurdod lleol ($n = 1$) y byddai'n fuddiol i'r camau gweithredu ar bartneriaid cyllid grant fod yn fwy clir ynghylch y disgwyliadau o ran partneriaid grant.
444. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) nad yw'n glir at bwy y mae 'derbynwyr y grant' a 'sefydlu Cymuned Ddysgu' yn cyfeirio, a bod angen eglurder ar hyn er mwyn deall bwriad y gweithredu.
445. Roedd un awdurdod lleol ($n = 1$) yn gadarn o'r farn y dylai sefydliadau a noddir gan Lywodraeth Cymru, neu sy'n derbyn grantiau, hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaethau. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru weithredu sancsiynau clir ar gyfer cyrff cyhoeddus nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau'r Gymraeg, neu'r argymhellion a gyflwynwyd iddynt gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ôl eu hadolygu. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu'r broses i sicrhau bod sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth y Gymraeg yn gweithredu drwy gydymffurfio i'r eithaf â chyfraith cydraddoldeb.
446. Dywedodd awdurdodau lleol ($n = 3$), un ymatebydd unigol ($n = 1$) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) fod angen rhoi ystyriaeth bellach i sut i brif ffyrddio'r Gymraeg yn y cynllun gweithredu cyfan, ac ystyried ble y byddai'r Gymraeg yn cyfrannu ac yn ategu camau gweithredu eraill.

447. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) y dylid mynd i'r afael â hygyrchedd cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg o safbwynt gwrth-hiliol. Dylid cynyddu'r cyfleoedd i bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ddysgu Cymraeg. Tynnodd un undeb llafur ($n = 1$) sylw at y ffaith y dylai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sicrhau bod oedolion a gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael yr un cyfle i ddysgu Cymraeg ag eraill.
448. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$) fod angen cryfhau'r camau gweithredu yn yr adran hon o'r Cynllun mewn perthynas ag addysg ac y dylent fod yn fwy uchelgeisiol. Nid yw'r Cynllun yn ddigon uchelgeisiol i gynyddu nifer y bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n dewis cyfleoedd i gael mynediad at y Gymraeg, naill ai drwy addysg, dysgu iaith, y gweithle a gweithgareddau cymunedol. Dylid bod wedi cynnwys mwy o fanylion am sut i annog mwy o blant o gymunedau ethnig lleiafrifol i ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cynllun yn y lle cyntaf. Nid oedd yn glir pam mai'r bwriad yw canolbwyntio'n benodol ar athrawon SSIE yn hytrach na denu athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n siarad Cymraeg i weithio ym mhob rhan o'r sector addysg. Mae angen cryfhau'r bwriad i *"ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu erbyn mis Medi 2021 er mwyn cynyddu'r niferoedd yn y gweithlu addysg o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a chynnwys grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli"* er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
449. Roedd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) yn gadarn o'r farn y dylid pennu nodau cyflawniad o fewn y blynyddoedd cynnar, y cyfnod addysg statudol, addysg ôl-16 ac addysg bellach yn ogystal â Chymraeg i oedolion mewn perthynas â'r Gymraeg. Dywedodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) y gellid cynnig mwy o gymorth o fewn addysg i bob dysgwr i wella eu sgiliau Cymraeg ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Gallai gymorth o'r fath gynnwys cefnogi ac annog athrawon i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth a chynnig cyrsiau Cymraeg am ddim.
450. Mynnodd un awdurdod lleol ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda siaradwyr Cymraeg a'u cynnwys ar ddechrau'r Cynllun er mwyn sicrhau bod eu barn, eu sylwadau a'u mewnbwn yn cael eu casglu.
451. Dywedodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) y gallai'r Cynllun lunio ffyrdd mwy dychmygus o bontio a lleddfu'r bwlch iaith drwy ddefnyddio technolegau newydd (yn gymdeithasol ac yn y gweithle), drwy brosiectau sy'n hyrwyddo dysgu a chyfnewid iaith cydfuddiannol gan ddefnyddio'r ystod lawn o gyfryngau, cyfryngau cymdeithasol ac ati. Yn ogystal, dywedodd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) y dylai'r Cynllun weithio i annog cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gymryd rhan weithredol a chyfranogi mewn digwyddiadau artistig, diwylliannol a chwaraeon cenedlaethol. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylid ehangu dull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo'r Gymraeg i un o hyrwyddo amlieithrwydd gan gydnabod yr ystod o famieithoedd sy'n cael eu siarad yng Nghymru.
452. Dywedodd un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) y dylai'r Cynllun nodi sut y gall sgiliau Cymraeg wella cyfleoedd gyrfa a bywyd. Dylai'r Cynllun hefyd gynnwys

cydweithrediad â sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n gwerthfawrogi neu'n denu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i annog recriwtiaid o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ymgeisio am swyddi a defnyddio eu sgiliau Cymraeg. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ofalus ynghylch sut y mae'n gweithredu ei dull polisi arfaethedig ar gyfer cynwysoldeb pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Os yw cyflogwyr yn mynnu bod sgiliau Cymraeg sylfaenol yn hanfodol ar gyfer rôl, yn enwedig pan fydd symudiadau i gyflwyno hyn ar gyfer sefydliad cyfan (h.y. y Senedd) gallai hynny ei gwneud hi'n anos i rai pobl gael swyddi sy'n talu'n well neu atal pobl rhag gwneud cais, os nad ydynt yn gallu siarad unrhyw Gymraeg o gwbl. Mae llawer o unigolion ethnig leiafrifol yn aml yn siarad mwy nag un iaith. Mae goblygiadau gorchymyn yr angen am Gymraeg sylfaenol yn wrthgynhyrchol i Gymru ddatgan ei hun fel Cenedl Noddfa i ffoaduriaid oherwydd gallai rhai o'r uchelgeisiau polisi ynghylch iaith wahardd y ffoaduriaid hyn rhag llwyddo i gyrraedd swyddi uchaf cymdeithas yng Nghymru. Dywedodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) fod eu haelodau wedi tynnu sylw at rwystrau i ddewisiadau gyrfa oherwydd rhwystrau ieithyddol, gan nodi bod angen iddynt ddysgu Cymraeg er mwyn dileu'r rhwystrau hyn. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru ddileu sgiliau Cymraeg fel 'dymunol' o unrhyw swyddi yn y Sector Cyhoeddus ac yn hytrach dylai ofyn i ymgeiswyr ymrwymo i ymgymryd â gwersi Cymraeg dwys fel rhan o'u rôl. Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo hyn mewn sectorau eraill hefyd. Pan fydd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer rôl yn y sector cyhoeddus, dylai Llywodraeth Cymru ganiatáu darpariaeth ar gyfer trefniadau rhannu swyddi, er mwyn caniatáu i rywun heb sgiliau Cymraeg rannu'r rôl â rhywun sy'n meddu ar y sgiliau hynny. Cefnogwyd yr awgrym hwn gan ymatebwyr unigol (n = 3), a dynnodd sylw at y ffaith y dylid ystyried y Gymraeg mewn cyflogaeth fel sgîl ychwanegol a gwerth ychwanegol ac na ddylid gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg am beidio â siarad yr iaith. Mynnodd ymatebwyr unigol (n = 3) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylid cynnig dysgu Cymraeg fel mater o drefn lle mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr, ac y dylid neilltuo amser ar gyfer hyn fel nad yw'n dod o amser personol pobl. Roedd ymatebion eraill yn gwneud pwyntiau tebyg. Dywedodd un awdurdod lleol (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y dylid cefnogi unigolion i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg yn yr amgylchedd gwaith fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Awgrymodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru greu cyfleoedd i hwyluso dysgu Cymraeg a rhaid i'r cyfleoedd hyn gael eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n dda a'u bod ar gael yn hawdd ac ar adegau cyfleus. Dywedodd ymatebwyr unigol (n = 4) ac un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) y dylai gwersi Cymraeg fod ar gael yn rhad ac am ddim i bawb. Dywedodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) y dylai'r cyfleoedd hynny i bobl ddysgu Cymraeg o blith siaradwyr ieithoedd eraill, nid yn unig Saesneg, fod ar gael, a lle bo'n briodol, dylid addysgu ymadroddion Cymraeg allweddol drwy ieithoedd eraill i helpu i ddeall cysyniadau a geiriau. Dywedodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) y dylai cyflogwyr / sefydliadau gael cymorth ychwanegol (h.y. y gallu i gael gafael ar diwtoriaid / cyrsiau Cymraeg) i gynnal dosbarthiadau Cymraeg yn eu gweithle. Dylid cynnig cymhellion ar gyfer staff, oherwydd yn sgîl llwythi gwaith uchel iawn, gall staff fod yn amharod i wneud cynnydd. Awgrymodd ymatebwyr y gellid dyfarnu gwobrau sefydliadol i dynnu sylw at gefnogaeth / hyrwyddo parhaus i waith ar y Gymraeg ac y gellid cynnig cyrsiau ychwanegol i aelodau'r gymuned, yn enwedig y rhai sydd â phlant yn

mynychu ysgolion Cymraeg. Dywedodd un ymatebydd unigol (n = 1) hefyd y dylid darparu mwy o gyfleoedd i deuluoedd ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg ond sydd yn ddihyder, a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a manteision siarad Cymraeg. At hynny, nododd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru orchymyn bod pob corff cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd dysgu Cymraeg cyfunol parhaus, o ansawdd uchel, i'w holl staff, gan ystyried dulliau dysgu a gweithio amrywiol, a chynnig yn ddi-amod ac yn unol â dewis y cyflogai, darparu gwersi 1-1, dysgu ar-lein, dysgu yn yr ystafell ddosbarth, cyfnewidfeydd iaith, dysgu preswyl a chyfleoedd dysgu trochol. Dylid cynnig y rhain o fewn oriau gwaith, heb amharu ar weddill y rôl, h.y. neilltuo un diwrnod gwaith i holl staff cyrff cyhoeddus i ddysgu Cymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu grantiau ar raddfa symudol i drigolion Cymru, yn dibynnu nid yn unig ar incwm ond ar leoliad daearyddol, tlodi digidol a statws mudo, i ymgymryd â'r math uchod o gyfleoedd dysgu Cymraeg, hyd yn oed os nad ydynt eto'n cael eu cyflogi gan gorff cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob cyfle cyhoeddus i ddysgu Cymraeg yn canoli camau gweithredu cadarnhaol i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar ddosbarthiadau Cymraeg gan bobl hil-ddiffiniedig. Os yw'r Gymraeg yn amod cyflogaeth, mynnodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) bod yn rhaid darparu mentora i helpu pobl i wella eu sgiliau iaith.

453. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith bod angen nodau ychwanegol ar gyfer y Gymraeg, gyda phwyslais ar greu a chefnogi rhwydweithiau ar gyfer cysylltiadau a gwasanaethau proffesiynol, arferion gorau a chyfleoedd dysgu i sefydliadau. Byddai ymatebwyr yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod a hyfforddiant ar gydraddoldeb hiliol arall yn y Gymraeg fel blaenoriaeth i gefnogi siaradwyr Cymraeg sy'n barod i ddad-drefedigaethu eu mamiaith.

454. Nododd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) y byddai'r Cynllun yn cael ei wella ymhellach gan gam gweithredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cefnogi ac yn cynrychioli cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ddatblygu eu gwasanaethau a'u darpariaethau Cymraeg eu hunain, gan gynnwys hyrwyddo eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Teimlir y byddai'r camau gweithredu pellach hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiad cryf rhwng y Gymraeg a'n cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

455. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod angen mwy o eglurder ynghylch y trafodaethau y bwriedir eu cynnal, a beth fydd eu hallbwn. Nid yw'n glir ychwaith pwy fydd yn arwain ac yn rhannu'r canfyddiadau rhwng awdurdodau lleol a chyrff perthnasol eraill.

456. Mynegwyd dryswch gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) ynghylch y gyllideb o £600k a ddyrannwyd yn y Cynllun i athrawon dreulio blwyddyn allan yn dysgu Cymraeg, o ystyried cyrhaeddiad cyfyngedig y lefel honno o gyllid. Mynegwyd pryderon cryf ganddynt hefyd am y diffyg eglurder ynghylch ariannu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

Beth sydd ar goll o'r adran hon:

457. Teimlai un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) nad oedd y Cynllun yn dangos dealltwriaeth o'r rhwystrau i addysg cyfrwng Cymraeg nac yn nodi camau gweithredu i'w goresgyn. Mynnodd un awdurdod lleol (n = 1) fod yn rhaid cydnabod y Gymraeg ym mhob un o'r gwahanol feysydd polisi a pheidio â'i thrin fel endid ar wahân. Mae rôl allweddol i'r iaith yn enwedig ym meysydd addysg a'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon, ond nid yw'r Cynllun yn gwneud hynny'n ddigon clir ar hyn o bryd. Nododd un awdurdod lleol (n = 1) ymhellach fod yr iaith yn rhan hanfodol o ddiwylliant amrywiol y wlad, ac felly er mwyn trin y Gymraeg yn deg a chydabod y statws swyddogol a roddwyd iddo drwy Fesur y Gymraeg 2011, dylai iaith dreiddio'n gyson i feysydd eraill y Cynllun hefyd, heb i'r Llywodraeth boeni am ddelio â mater cymhleth ac anodd perthynas gwahanol garfanau o bobl â'r iaith.
458. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw at y ffaith bod yn rhaid ystyried croestoriadedd wrth herio'r safbwyntiau sy'n rhagdybio pwy sy'n gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes llawer o sôn am y Gymraeg ar wahân i nodau polisi addysg a'r iaith Gymraeg.
459. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod yn rhaid i'r Cynllun bwysleisio'r angen i gynyddu'n ystadegol nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Dylai'r Cynllun hefyd ystyried y gall plant o gartrefi Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd brofi microymyrraeth am siarad neu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'u hil. Er bod y Cynllun yn cyfeirio at nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dod o gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru, nododd un awdurdod lleol (n = 1) nad yw'n nodi pa gyfartaledd yw'r 10,000 o'r boblogaeth ethnig leiafrifol yng Nghymru. Er mwyn deall y cyd-destun, dywedodd ymatebwyr fod angen nodi'r ddau ffigur. Faint o gynnydd y mae'r llywodraeth am ei weld yng nghyd-destun y ffigurau hyn? Er mwyn cysylltu yn y ffordd lawnaf bosibl â'r 10,000 o bobl hynny a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg amrywiol o ran ethnigrwydd yn y cyfrifiad diwethaf, dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi a chreu rhwydweithiau a rhoi cyfleoedd â thâl iddynt weithredu fel llysgenhadon, cysylltwyr cymunedol neu hyfforddwyr. Mae angen recriwtio arbenigol wedi'i dargedu i gefnogi'r sector preifat a chyhoeddus i recriwtio siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd ethnig amrywiol, yn ogystal â threfniadau sabothol ar gyfer sefydliadau sy'n barod i gefnogi staff newydd i ddysgu a gwella eu Cymraeg. Yn ogystal, dylid darparu cymhellion croeso ariannol i staff ethnig amrywiol sy'n ystyried gweithio mewn lleoliad Cymraeg.
460. Mynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) y dylid cydnabod yn y Cynllun nad yw cymunedau perthnasol, mewn llawer o achosion, wedi cael mynediad at addysg Gymraeg yn hanesyddol. Dylid cael mwy o ymrwymiad i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ac ysgolion yn cael eu hehangu yn y cymunedau hynny (yn y cyd-destun hwn byddai hyfforddiant ar y croestoriad rhwng y Gymraeg a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol, a gellid ei gyflwyno i sefydliadau eraill yn sgil hynny o bosibl). Mae cyfleoedd

addysgol o'r fath yn arbennig o bwysig lle gall y Gymraeg weithredu fel cyfalaf cymdeithasol a sgîl alwedigaethol sy'n gallu cynyddu symudedd cymdeithasol dinasyddion sy'n wynebu nifer o rwystrau croestoriadol strwythurol. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at rôl bwysig i Sefydliadau Addysg Uwch Cymru o ran helpu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n siarad Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau fel eu bod yn hyderus i ddod yn rhan o weithlu dwyieithog (sy'n arbennig o berthnasol i'r angen am athrawon Cymraeg eu hiaith o grwpiau lleiafrifol). Dylai'r Cynllun felly nodi sut y gall Sefydliadau Addysg Uwch weithio'n agosach gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod y rhai o grwpiau lleiafrifol yn arbennig yn elwa ar ddarpariaeth Gymraeg mewn prifysgolion. Mynnodd un sefydliad arall (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai pob person ifanc gael y cyfle i ddysgu Cymraeg, dylid defnyddio Cymraeg mwy achlysurol mewn ysgolion a dylid darlledu rhaglenni teledu Cymraeg ar sianeli prif ffrwd.

461. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) y dylid cael menter o fewn y Cynllun yn manylu ar y cyfle i ddosbarthiadau iaith Somalieg ymuno â'r dosbarthiadau Cymraeg – mae ymatebwyr yn awgrymu creu diwrnod cyfnewid ieithoedd i ddathlu gwahanol ieithoedd, crefyddau a chefnidiroedd bob mis mewn ysgolion.
462. Awgrymodd ymatebwyr unigol (n = 3), un awdurdod lleol (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un sefydliad trydydd sector (n = 1) ac asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) y dylid hyrwyddo'r Gymraeg gyda digwyddiadau, gwersi am ddim a chysiau fforddiadwy. Hoffai'r ymatebwyr i'r Cynllun fanylu ar fwy o gyfleoedd i hyrwyddo'r iaith. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob ymdrech a wneir i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys drwy sianeli cyfryngau, yn cynnwys pobl hildiffiniedig o wahanol gefndiroedd yn eu gwaith, i chwalu'r ystrydeb 'Cymraeg = Gwyn'.
463. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr effaith y gallai'r adran hon o'r Cynllun ei chael ar bobl nad ydynt yn siarad Saesneg neu sy'n dysgu'r iaith. Mae ymatebwyr yn manylu sut y mae angen sicrwydd ar y rhieni hynny sydd â Saesneg cyfyngedig na fydd eu plant o dan anfantais o fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg oherwydd capasiti cyfyngedig i gefnogi eu haddysg gartref.
464. Mae un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) yn awgrymu bod rôl casgliadau, ymchwil a rhaglenni Hanes Naturiol Amgueddfa Cymru hefyd yn cael ei hamlygu yn yr adran hon.
465. Roedd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) yn siomedig gyda bwriad y Cynllun i "*gynnal adolygiad er mwyn ystyried y materion gweithredol a godwyd ynghylch dysgu oedolion yn y gymuned, yn enwedig y cysylltiad rhwng hyfforddiant SSIE a hyfforddiant galwedigaethol,*" heb unrhyw fwriad i ystyried y Gymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn mynd yn groes i'r amcan yn yr adran ar addysg mewn ysgolion sy'n nodi'r bwriad i gynyddu'r ddarpariaeth, a nifer y bobl sy'n ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Comisiynydd y

Gymraeg eisoes wedi gohebu â Llywodraeth Cymru gan dynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill fel cyfle i hyrwyddo integreiddio a chynyddu cyfleoedd gwaith.

466. Nododd un awdurdod lleol ($n = 1$) fod y Cynllun yn pwyntio tuag at gyflwyno gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru, ond gan fanylu pwy yw'r partneriaid hynny yn yr adran Addysg yn unig. Dywedodd ymatebwyr y bydd yn rhaid cyfleu unrhyw ofynion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn caniatáu i'r partneriaid hyn wneud y defnydd gorau o'u hamser a'u hadnoddau i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau. Bydd angen hyfforddiant priodol ar bartneriaid Cymru gyda therminoleg briodol i leihau'r risg o wahaniaethu anfwriadol.
467. Dywedodd un awdurdod lleol ($n = 1$) y dylai'r Gymraeg fod yn rhan o'r adolygiad arfaethedig o'r Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill.
468. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw at sut y byddai sefydlu rhwydweithiau iaith Gymraeg o bobl sy'n cynrychioli grwpiau cyfiawnder hiliol i graffu ar bolisiâu yn helpu partneriaid yng Nghymru i fod â rhwydwaith i gysylltu ag ef i ystyried effeithiau posibl na fyddent efallai wedi sylwi arnynt neu eu hystyried.
469. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylid gwneud gwaith ymgysylltu â goroeswyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac y dylai comisiynu gwasanaethau sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg lle mae tystiolaeth o'r angen am hynny. Rhaid i fynediad at wybodaeth mewn ieithoedd eraill fod ar gael i fenywod sydd â'r Gymraeg a'r Saesneg fel ail iaith, yn enwedig menywod mudol. Er y dylai'r Gymraeg fod ar gael a chael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg, dylid ariannu ystod eang o ddarpariaeth iaith, gan sicrhau nad yw iaith yn rhwystr i gymorth.
470. Tynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) sylw at y ffaith mai prin yw'r cyllid i ddarparu adnoddau ar gyfer y Gymraeg, a gall hyn gostio i sefydliadau o ran gwasanaethau cyfieithu a recriwtio personél sy'n siaradwyr Cymraeg, felly byddai cymhellion pellach yn ddefnyddiol.
471. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn y Gymraeg ar raddfa symudol i sefydliadau nad ydynt wedi'u gorchymyn i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, a'r rhai nad ydynt wedi ystyried darparu cyfieithu yn eu cyllidebau, lle mae sefydliadau anllywodraethol yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau.

Mae sylwadau eraill yn yr adran hon yn cynnwys:

472. Mynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) na fydd hybu ymwybyddiaeth ac annog pobl i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn gwneud gwahaniaeth i hiliaeth. Mae'n rhan o agenda ar wahân gan y llywodraeth, fel herio Fforymau Cynllunio Addysg Cymru.

473. Er ei fod yn cymeradwyo'r camau gweithredu yn y Cynllun, dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) nad yw wedi'i argyhoeddi y bydd yn llwyddo i gau'r bwlch ac unioni'r anghydraddoldeb sydd wedi arwain at sefyllfa lle mae cyn lleied o bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n gallu siarad Cymraeg.
474. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) na ddylai'r cynigion gael unrhyw effaith ar y Gymraeg – dylai fod yn bosibl gweithio tuag at Gymru wrth-hiliol yn ogystal â bod yn genedl sy'n gwerthfawrogi'r Gymraeg, nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd.
475. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ei bod yn bwysig safoni terminoleg mewn perthynas â hunaniaethau eraill, megis LGBTQ+. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dull croestoriadol o safoni terminoleg a defnyddio iaith mewn perthynas â hunaniaeth pobl yn y Gymraeg. Er enghraifft, beth fyddai cyfieithiad Cymraeg derbyniol o'r acronym QTPOC (Pobl Cwiar, Trawsryweddol a Rhyngrywiol)?
476. Eglurodd un undeb llafur (n = 1) sut nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf i lawer o'u haelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y sector cludo teithwyr, yn enwedig gyrwyr tacsï. Effeithiodd hyn yn fawr yn ddiweddar ar allu rhai aelodau i wneud cais am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, a oedd ar gael oherwydd COVID-19. Gwrthodwyd ceisiadau ar-lein oherwydd gwallau a wnaed oherwydd camddealltwriaeth neu ddehongliad anghywir o gwestiynau a holwyd yn Saesneg. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith nad oes safoni o ran ceisiadau o fewn awdurdodau lleol ychwaith a bod yn rhaid mynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

Yr Amgylchedd:

477. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), awdurdodau lleol (n = 2), un sefydliad ieuchyd (n = 1), un undeb llafur (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 7) ac un sefydliad arall (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar adran amgylchedd y Cynllun.

Byrder yr adran hon o'r Cynllun:

478. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+), un sefydliad ieuchyd (n = 1) ac awdurdodau lleol (n = 2) yn siomedig ynghylch hyd yr adran hon o'r Cynllun gan nodi bod hyn yn dangos bod materion amgylcheddol yn cael eu hystyried yn llai pwysig. Teimlwyd nad oedd yr adran hon o'r Cynllun yn canolbwyntio ar rymuso ynghlwm wrth yr achos ac nad oedd cysylltiad rhyngddi a gweddill y Cynllun. Dywedodd ymatebwyr fod byrder yr adran hon yn arwydd o broblem ehangach – y gagendor rhwng y sector amgylcheddol a'r sector hil. Mae angen cryfhau'r adran hon o'r Cynllun, ac mae angen ychwanegu mesurau mwy pendant.
479. Credai sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+), un sefydliad ieuchyd (n = 1) ac awdurdodau lleol (n = 2) y dylai'r adran hon o'r Cynllun sôn am yr

argyfwng hinsawdd a natur a sut mae'r argyfwng amgylcheddol yn gwaethygu tlodi. Mae angen i'r adran hon o'r Cynllun ddweud mwy am fynd i'r afael yn benodol â newid hinsawdd a'r effeithiau anghymesur ar bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r rhai o gefndir ethnig leiafrifol (er enghraifft, ar y cysylltiadau rhwng llygredd ac asthma). Mae angen dweud mwy hefyd am sut y bydd cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cyfrannu syniadau i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd a chyfranogi mewn mentrau amgylcheddol cymunedol, o gymryd rhan mewn ymgyrchoedd casglu sbwriel cymunedol i redeg cynlluniau ynni cymunedol.

Beth sydd ar goll o'r adran hon o'r Cynllun o ran tai:

480. Mae sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), ymatebwyr unigol (n = 3), awdurdodau lleol (n = 2) ac un undeb llafur (n = 1) am weld yr adran hon o'r Cynllun yn cysylltu â nodau / camau gweithredu tai cymdeithasol (lle mae lefelau uchel o denantiaid ethnig leiafrifol). Mae angen ystyriaeth amgylcheddol ychwanegol ar gyfer tai er mwyn gwella cynllunio a sicrhau gwell gallu i gyrchu mannau gwyrdd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod llygrwyr mawr yn cael eu capio a sicrhau bod tai ger ardaloedd llygredig yn cael eu diogelu fel nad yw prisiau tai isel yn ei gwneud yn ofynnol i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fyw yno. Gan fod llawer o adroddiadau ac erthyglau'n pwysleisio bod cefn gwlad yn parhau i fod yn lle hynod Wyn sy'n aml yn fygythiol i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (canfu Natural England mai dim ond 26 y cant o bobl Ddu a dreuliodd amser yng nghefn gwlad o'i gymharu â bron i 45 y cant o bobl Wyn), dylai'r Cynllun gynnwys camau gweithredu a chanlyniadau i fynd i'r afael â hyn.
481. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) y dylai'r Cynllun gomisiynu mwy o ymchwil ar effaith hiliaeth amgylcheddol i ddarparu gwell data ar effeithiau anghymesur ffactorau amgylcheddol ar iechyd gan gynnwys llygryddion aer, y gallu/diffyg gallu i gyrchu mannau gwyrdd, agoswydd at safleoedd brown, gweithfeydd trin gwastraff, ardaloedd diwydiannol a thraffyrdd.

Beth sydd ar goll o'r adran hon o'r Cynllun o ran cyflogaeth:

482. Awgrymodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un undeb llafur (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3) ac awdurdodau lleol (n = 2) fod angen i'r Cynllun gynnwys cynllun gwarantu swyddi wedi'i ariannu sy'n darparu swyddi o ansawdd da ac sy'n cynnwys datgarboneiddio fel rhan o'i feini prawf. Dylai hyn gael ei reoli a'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr. Dylai swyddi newydd sy'n cael eu creu yn yr economi werdd hefyd gael eu targedu at y rhai hynny o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a dylid canolbwyntio ar ddenu ymgeiswyr mwy amrywiol i'r sector hwn, gan gynnwys drwy brentisiaethau.
483. Awgrymodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un undeb llafur (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3) ac awdurdodau lleol (n = 2) y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ddatblygu ac integreiddio cadwyni cyflenwi lleol er budd cymunedau a'r amgylchedd, gan sicrhau gwell swyddi yn nes at adref. Awgrymwyd bod pethau i'w dysgu o'r ffyrdd newydd o weithio sydd wedi datblygu o reidrwydd oherwydd y

cyfyngiadau clo. Os oes cyd-fanteision i weithwyr a'r amgylchedd yn sgil y rhain, dylent allu parhau. Er enghraifft, gallai ehangu gweithio gartref helpu pobl i arbed amser ar gymudo, sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a lleihau llygredd aer niweidiol.

484. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un undeb llafur (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3) ac awdurdodau lleol (n = 2) y dylai'r adran hon o'r Cynllun gynnwys y camau gweithredu canlynol ar ariannu a buddsoddi:
- Buddsoddi i gefnogi diwydiannau sy'n gorfod pontio i fodolau carbon is (e.e. cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu ar gyfer dur gwyrddach).
 - Buddsoddi i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Cymru i ddatblygu diwydiannau gwyrdd newydd a rhai sy'n datblygu (e.e. ynni'r llanw, ynni'r môr ac ynni hydrogen).
 - Buddsoddi i ddatblygu seilwaith teithio carbon isel ar lwybr carlam (e.e. gwelliannau i'r rheilffyrdd fel y Metro a theithio llesol, gan gynnwys llwybrau beicio a cherdded dros dro mewn trefi a dinasoedd).
 - Cyllid i wella'r gallu i gael gafael ar fand eang, caledwedd digidol, meddalwedd a sgiliau digidol i gynyddu'r galluedd i weithio gartref a lleihau'r angen am deithio sy'n gysylltiedig â gwaith.

Prosiectau / mentrau / gweithredoedd amgylcheddol presennol y dylai'r adran hon o'r Cynllun gyfeirio atynt / eu hystyried:

485. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 2) ac un sefydliad arall (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r sefydliadau a'r rhwydweithiau ethnig lleiafrifol amrywiol presennol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd i gael mwy o effaith / cyrhaeddiad a chwilio am ffyrdd parhaus o ddarganfod ac ymhelaethu ar arferion da sydd ar waith gan sefydliadau eraill. Dylid ymgorffori rôl a disgwyliadau cyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru, gan fod nifer o'u dyletswyddau yn berthnasol i'r adran hon o'r Cynllun. Mae'r adran hon o'r Cynllun hefyd yn gyson â'r disgwyliadau ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru megis Chwaraeon Cymru, Cyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru. Dylai sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys elusen Maint Cymru, sydd â grŵp llysgenhadon ieuenctid ac arbenigedd yn y maes hwn, ac elusen Plant yng Nghymru a'u rhaglen Cymru Ifanc, a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i ymgynghori â phlant ar raglenni coedwigoedd cenedlaethol y Prif Weinidog, hefyd gael eu hymgorffori yn y rhan hon o'r Cynllun. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd graffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru a gwaith Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru i nodi cyfleoedd i integreiddio amcanion gwrth-hiliol yn eu rhaglenni gwaith a'u fframwaith rheoleiddio. Mae angen sgwrs hefyd gyda phobl o gymunedau ethnig lleiafrifol am yr hyn y maent am ei gael o ran yr amgylchedd a sut i ddiwallu eu hanghenion – byddai cynhwysiant a mewnbwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y Parciau Cenedlaethol a Sefydliadau Cefn Gwlad a Chadwraeth o fudd i'r nod hwn.

486. Nododd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 2) ac un sefydliad arall (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru adolygu swyddogaethau ei Huned Cenedlaethau'r Dyfodol i nodi ffyrdd y gall pobl ethnig lleiafrifol chwarae mwy o ran yn

yr agenda werdd a'r agenda cenedlaethau'r dyfodol – gan gynnwys drwy waith cyflogedig.

487. Roedd un awdurdod lleol (n = 1), sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 2), un sefydliad arall (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r Cynllun yn sôn am ymgysylltu ag awdurdodau lleol i gynllunio digwyddiadau gwyrdd cyhoeddus (fel glanhau afonydd a thraethau) i ddod â phobl at ei gilydd a chreu ymgysylltiad. Mae cyfle i ddatblygu arweinwyr cymunedol i weithio'n gydgynghyrchol gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i wella ein hamgylcheddau trefol yn sylweddol, o ddefnyddio eiddo gwag yng nghanol trefi i redeg stondinau marchnad lleol. Gallent hefyd helpu gyda chais Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pawb yn byw o fewn munudau i fannau gwyrdd. Dylai'r adran hon ddefnyddio egwyddorion cyd-ddylunio lle bynnag y datblygir rhaglenni neu ffyrdd o weithio i sicrhau arfer gwrth-hiliol (gellid mabwysiadu dull tebyg i Fethodoleg #NothingAboutUsWithoutUs b/Byddar ac anabl).

Mae sylwadau eraill yn yr adran hon yn cynnwys:

488. Mynegwyd pryderon gan un awdurdod lleol (n = 1), un sefydliad trydydd sector (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3) ac un sefydliad arall (n = 1) nad yw'r Cynllun yn cydnabod mater natur wledig a chydaddoldeb hiliol, a'r croestoriad rhwng anabledd a hil a chynorthwyo pobl anabl i gyrchu mannau agored naturiol Cymru.
489. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1), ymatebwyr unigol (n = 3), un awdurdod lleol (n = 1) ac un sefydliad arall (n = 1) fod angen i ddeunydd marchnata ar gyfer cyrchfannau gwledig a gwyrdd ledled Cymru fod yn fwy croesawgar a chynhwysol i bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Awgrymwyd bod Llywodraeth Cymru yn nodi cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd eisoes yn cymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn prosiectau a'u harwain. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn cynllunio amgylcheddol a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer prosiectau amgylcheddol: er enghraifft, mae cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn mwynhau tyfu eu bwyd eu hunain – gallai prosiectau arloesol i sefydlu mentrau cydweithredol i dyfu a rhannu bwyd fod yn enghreifftiau da o adeiladu cydlyniant ac integreiddio cymunedol.

Nodau Trawsbynciol:

490. Mae awdurdodau lleol (n = 6), ymatebwyr unigol (n = 3), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 11+), sefydliadau ieuchyd (n = 4), undebau llafur (n = 2), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) a sefydliadau sector cyhoeddus (n = 3) wedi cynnig sylwadau ar adran nodau trawsbynciol y Cynllun.

Data:

491. Mae un awdurdod lleol ($n = 1$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) a sefydliadau ieuchyd ($n = 2$) yn esbonio mai dim ond gyda data y gellir mesur cynnydd, ac mae Cymru wedi bod yn wael iawn yn casglu data priodol; awgrymodd ymatebwyr fod data yn broblem benodol yn y Gogledd, o ystyried prinder cymharol y boblogaeth leiafrifol. Mae angen i'r gwaith o gasglu a dadansoddi data fod yn nodwedd allweddol ar draws pob maes polisi. Bydd sicrhau bod systemau cadarn ar gyfer cofnodi, dadansoddi a chyflwyno data yn gonglfaen i gyflawni gweledigaeth y CGCH. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cymysgedd da o ddata yn cael ei gasglu e.e. o arolygon, profiad bywyd ac ati. Byddai'n bwysig triongli'r data i gynhyrchu dadansoddiad o'r themâu allweddol wedi'u croesgyfeirio ar draws yr holl setiau data fel nad yw data o un grŵp o bobl / data o un rhan o'r sir yn dominyddu setiau data.
492. Mynnodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) god diffyg eglurder ar faterion pwysig yn y Cynllun, megis diffiniadau a llinellau sylfaen, ac nad yw'n cyfeirio'n ddigonol at yr angen am ddata i gyflwyno'r achos dros newid – sef yr iaith y mae llawer mewn awdurdodau cyhoeddus yn ei deall. Mae'r symudiad tuag at werthfawrogi profiadau byw cymaint â data ystadegol yn cael ei groesawu, ond mae angen dweud mwy am sut y dylid defnyddio data i gefnogi darpariaeth effeithiol, codi safonau a monitro a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau. Er mwyn cryfhau'r broses o gasglu a dadansoddi data ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag arbenigwyr sy'n deall y naratif y tu ôl i'r wybodaeth ystadegol.
493. Nododd un awdurdod lleol ($n = 1$) fod angen dadgyfuno data'r cyfrifiad a'i fod ar gael yn lleol i gefnogi eu dealltwriaeth o ddemograffeg y boblogaeth leol. Dylid nodi pa wasanaethau ddylai fod yn casglu data cydraddoldeb yn y Cynllun ochr yn ochr â chamau gweithredu i ddarparu canllawiau. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi data cyflogaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fel sy'n cael ei nodi yn y Cynllun, mae angen i systemau cyhoeddi fod yn ymwybodol o hyn, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a gwaith ychwanegol. Os bydd angen i gyrff cyhoeddus newid eu systemau i fodloni gofynion y Cynllun hwn, mae'n ddigon posibl y bydd costau ariannol i newid systemau electronig yn ogystal â materion capasiti a hyfforddiant. Bydd y rhain yn effeithio ar yr amserlenni ar gyfer cyflawni camau gweithredu. Byddai'n fuddiol pe bai data sy'n cael ei gasglu ledled Cymru ar gael ac yn cael ei ddadgyfuno yn ôl ardal awdurdod lleol. Byddai hyn yn helpu cyrff cyhoeddus i gwblhau asesiadau effaith, i ganolbwyntio camau gweithredu ac i gyfrannu at bennu amcanion, megis amcanion cydraddoldeb. Nododd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) ac un undeb llafur ($n = 1$) hefyd fod angen gwella'r broses o gasglu data ar frys, gan gynnwys dadgyfuno data yn ôl hil, oedran a rhywedd yn benodol. Ar hyn o bryd, nid oes digon o ddata ar blant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws ystod o feysydd thematig. Amlygwyd hyn yn adroddiad Grŵp Monitro CCUHP Cymru (a ddatblygwyd gan Plant yng Nghymru) i'r Cenhedloedd Unedig y llynedd. Nododd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) hefyd fod data wedi'i ddadgyfuno yn ganolog o ran gwybod yn iawn am anghenion pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Mae hyn yn broblem arbennig o ran deall yr wybodaeth fwyaf sylfaenol am y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr; dim ond yng nghyfrifiad 2011 yr oedd Sipsiwn a Theithwyr yn gallu hunaniaethu, a phobl Roma am y tro cyntaf yn 2021.

Nid yw llawer o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn teimlo'n hyderus i hunaniaethu oherwydd erledigaeth, presennol a hanesyddol, gyda'r Bil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd yn darparu amgylchedd arbennig o heriol o ran hunaniaethu ar hyn o bryd. Nid yw'n glir pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu hyder wrth hunaniaethu.

494. Dywedodd sefydliadau ieuchyd ($n = 2$) y gallai data gael ei gasglu fel mater o drefn wrth gofrestru gyda Meddygfeydd Teulu, ond pan gaiff unigolyn ei atgyfeirio i wasanaethau gofal eilaidd neu ieuchyd meddwl, nid yw'r wybodaeth hon yn teithio gyda'r claf fel mater o drefn. O ganlyniad, nid yw dadansoddi rhestrau aros yn ôl amseroedd aros hwyaf, cymarebau brys / arferol, pobl ddim yn mynychu apwyntiadau ac ati, yn ymarferol ar sail hil, ond gallai ddarparu sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer nodi rhwystrau sydd heb eu gweld neu eu hadnabod neu rwystrau anfwriadol. Gellid mabwysiadu dull syml o adolygu gwybodaeth monitro cydraddoldeb wedi'i chadw mewn amrywiaeth o bwyntiau cyswllt. Mae angen data ieuchyd cyhoeddus ychwanegol er mwyn deall yn well yr anghydraddoldebau ieuchyd a brofir gan rai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn sefydlu llinell sylfaen ac olrhain cynnydd. Dylid hefyd ystyried ymgorffori croestoriadedd o fewn y dull o ddadgyfuno data. Dylai'r gwaith o gryfhau'r broses o gasglu data ac adrodd gael ei lywio'n ganolog gan GIG Cymru. Mae materion yn ymwneud â'r system ynghyd ag angen am setiau data cyson y cytunwyd arnynt. Dylai mesurau clir yn cydweddu â Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu fod ar gael fel y gellir meincnodi a chydgrynhoi / dadgyfuno Cymru gyfan er mwyn monitro cynnydd. Mae angen hyfforddiant ac mae yna oblygiadau o ran adnoddau i sefydliadau unigol adrodd, dadgyfuno a dadansoddi'r wybodaeth hon. At hynny, nid yw'r Dangosfwrdd Brechu COVID-19 ar hyn o bryd yn casglu data yn ôl y nodweddion gwarchodedig ac eithrio oedran a rhywedd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynhyrchu adroddiadau gwyliadwriaeth manylach misol sy'n cynnwys data Cymru gyfan ar ethnigrwydd. Nid oes unrhyw ddata lleol gyda dadansoddiad o'r nifer sy'n manteisio ar y brechiad yn ôl grŵp ethnig. Gofynnodd Arolwg Staff GIG Cymru 2020 gwestiwn cyffredinol am fwlio, aflonyddu a cham-drin. Bydd angen i arolygon yn y dyfodol gynnwys cwestiynau'n benodol am hiliaeth i fesur cynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu.

495. Nododd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) fod ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r ffordd y caiff data ei gasglu a hefyd y cam gweithredu uchelgeisiol o *"gomisiynu archwiliad allanol untro o holl bolisiau a phrosesau Llywodraeth Cymru; o'r adeg dangos diddordeb hyd at yr adeg ymadael mewn perthynas â pholisiau recriwtio, dethol, gwneud cynnydd, ymadael a pholisiau cysylltiedig ac o brofiadau bywyd staff ethnig lleiafrifol a sampl o reolwyr"* i'w croesawu'n fawr. Mae'n enghraifft o arwain o'r blaen a dylid rhannu'r canfyddiadau hyn yn ehangach er mwyn dangos tryloywder, annog sgwrs, gyda disgwyliad i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddilyn eu hesiampl.

496. Nododd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) mewn perthynas â chasglu data defnyddiol a chywir ar fynediad at wasanaethau ac ar staff yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, fod angen dweud mwy yn y Cynllun ynghylch a fydd y nodau hyn yn berthnasol i bob maes gwaith, neu dim ond y rhai sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru?

497. Mae un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) yn cefnogi adrodd ar y bwlch cyflog ethnigrwydd mewn egwyddor, ond dywedodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw ddadansoddiad yn y dyfodol yn cael ei gynnal ar lefel briodol i faint y sefydliad. Fel arall, gallai beryglu adnabod pobl unigol, yn dibynnu ar lefel y dadgyfuno i wahanol grwpiau ethnig y mae'n ofynnol adrodd arnynt.
498. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) y gall defnyddio algorithmau mewn prosesau penderfynu yn seiliedig ar ddata mawr arwain at wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol; felly, mae angen datblygu llawer mwy o ymchwil a gwaith i sicrhau nad yw hyn yn digwydd a bod mesurau diogelu'n cael eu hystyried wrth symud ymlaen.

Ymgysylltu ac Ariannu Cymunedau:

499. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylai unrhyw fersiynau llawn o ddeunyddiau a gyhoeddir yn Saesneg gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ar yr un pryd hefyd. Dylid cyhoeddi fersiynau hawdd eu darllen Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen ar yr un pryd â'r fersiynau llawn.
500. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) mewn perthynas â nod trawsbynciol 1a: Er mwyn "*sicrhau bod y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu yn gydnaws â'r gwersi a ddysgwyd, arferion gorau, ac fel y cytunwyd drwy ddeialog â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol,*" y prif gamau gweithredu o dan y nod hwn yw nodi a mapio grwpiau cymunedol a gweithredwyr allweddol ethnig leiafrifol a chadw cronfa ddata a chysylltu'n rheolaidd â'r grwpiau / unigolion hyn. Mae sefydliadau sydd â'r cylch gwaith hwn eisoes, ac mae'n ddianghenraid ac yn wrthgynhyrchol i'w wneud ddwywaith. Dull gwell o weithredu yw i Lywodraeth Cymru gysylltu, buddsoddi yn y sefydliadau hyn a'u cefnogi i wella yn eu rôl, sydd yn aml hefyd â'r cylch gwaith i ymgynghori a rhoi llais i gymunedau amrywiol.
501. Dywedodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+), mewn perthynas â Nod 1b: Er mwyn "*adolygu a chyd-gynllunio gwell dulliau gweithredu ar gyfer cyllido sefydliadau ethnig lleiafrifol,*" dylai'r Cynllun atgyfnerthu pwysigrwydd sefydliadau cymorth seilwaith wrth gefnogi grwpiau cymunedol ethnig leiafrifol lleol i gynyddu capasiti a sgiliau i fod yn rhan o weithredu cymunedol, ffurfio a llywio sefydliadau cymunedol, fel y gallant ffynnu fel sefydliad a gweithio mewn partneriaeth.
502. Nododd un sefydliad trydydd sector (n = 1), mewn perthynas ag adolygu dulliau ariannu, fod corff o arbenigedd o fewn Fforwm Cyllidwyr Cymru, Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru ac Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector y dylid ei gynnwys gyda'r bwriad o gynnal adolygiad Cymru gyfan o gyllid ar gyfer y sector hil.

Asesu Effaith er mwyn Datblygu Polisi Gwell:

503. Dywedodd sefydliadau ieuchyd ($n = 2$) fod y nod o wella'r broses ar gyfer cynnal asesiad effaith yn sylweddol i'w groesawu. Mae hwn yn adnodd hanfodol i wirio a yw pob grŵp wedi'i gynnwys, nodi bylchau a chytuno ar y camau gweithredu i weithio tuag at fynd i'r afael â nhw. Rhaid ystyried hyn yn arf effeithiol yn hytrach na baich ychwanegol. Mae asesiad cadarn o'r effaith ar ieuchyd, asesu effaith economaidd-gymdeithasol a chydraddoldeb, hyfforddiant, prosesau a chraffu yn fecanweithiau hanfodol wrth ddatblygu polisi sylfaenol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynllunio effaith niweidiol bosibl wrth wneud penderfyniadau. Mae cyfleoedd i gryfhau ymgysylltiad â chymunedau ethnig lleiafrifol er mwyn llywio'r broses hon. Byddai dull Cymru gyfan o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r polisi / proses yn llywio ansawdd yr asesu effaith ar draws y sector cyhoeddus a hefyd yn mynd i'r afael â chysondeb wrth wneud penderfyniadau mewn partneriaeth h.y. nid yw'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u rhestru o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb, partneriaid unigol sy'n gyfrifol am asesu effaith. Mae angen meithrin capasiti ar draws y sector cyhoeddus a chryfhau atebolrwydd sefydliadol yn hyn o beth.
504. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai unrhyw ddull Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gynnwys asesiadau risg COVID-19 ar gyfer staff o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n dychwelyd i'r gweithle a'r rhai sy'n gweithio gartref, ac ar gyfer y rhai mewn galwedigaethau rheng flaen yn arbennig.
505. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai pob corff cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant pan fydd polisi a phenderfyniadau'n cael eu gwneud a fydd yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant. Byddai hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn unol â'r ddyletswydd sylw dyledus a ragnodir o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011.
506. Dywedodd un awdurdod lleol ($n = 1$) fod cyfeiriad at y ffaith nad yw'r mecanweithiau presennol yn cael eu defnyddio'n llawn i fynd i'r afael â hiliaeth (fel Asesiadau Effaith Integredig). Mae angen deall hyn yng nghyd-destun blynyddoedd olynol o gyni, sydd wedi gweld adnoddau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu disbyddu'n ddifrifol.
507. Dywedodd awdurdodau lleol ($n = 2$) y byddai datblygu asesiadau effaith enghreifftiol y gellir eu rhannu â'r sector cyhoeddus yn cael eu gwerthfawrogi ac y byddent yn cyfrannu at wella safonau. Awgrymodd awdurdodau lleol fod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r hyn mae wedi'i ddysgu ar wella canlyniadau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb fel y gallai cyrff cyhoeddus eraill elwa ar y wybodaeth hon. Dywedodd un sefydliad arall ($n = 1$) y dylai Llywodraeth Cymru nodi, rhannu a hyrwyddo arfer da yn gyffredinol a sicrhau ymrwymiad parhaus i gyd-ddylunio a rhannu profiad ar draws a thrwy gydol y ddarpariaeth (gyda gwerth y profiad bywyd hwnnw'n cael ei gydnabod a'i dalu amdano).

Gwasanaethau i unigolion sy'n wynebu hiliaeth:

508. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen y cymorth cywir ar bobl sy'n profi hiliaeth i deimlo'n hyderus i rannu eu profiadau fel rhan o'r broses o newid agweddau at ddileu hiliaeth.
509. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai'r nod o ran gwella cymorth i achwynwyr a dioddefwyr hiliaeth gynnwys cynnal adolygiad cyfanwerthol o wasanaethau Eiriolaeth dan gomisiwn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc, am eu priodoldeb a'u gallu i gefnogi cwynion ethnig leiafrifol a dioddefwyr hiliaeth. Dylid cynnal adolygiad tebyg hefyd o Wasanaethau Cynghori sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Y pwynt yw bod arian eisoes yn cael ei wario gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau hyn, ond nid ydynt yn hygyrch nac yn effeithiol o ran pobl ethnig leiafrifol.
510. Mae un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) wedi datgan fod unrhyw gamau sy'n arwain at system gwynion fwy effeithiol yn cael eu cefnogi, ond nid yw'n glir yn y Cynllun beth yw cwmpas y camau gweithredu sy'n ymwneud â systemau cwynion, ac o dan awdurdodaeth pwy y mae'r cwynion hyn.
511. Er bod y gallu i gael gafael ar eiriolaeth a chymorth yn cael ei nodi ym mhwynt bwled rhagarweiniol 2 yn yr adran hon o'r Cynllun, dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) nad yw hyn wedi trosglwyddo i'r iaith yn Nod 2. Mae hyn yn bwysig gan y bydd llawer o blant yn elwa ar eiriolwr mewn oed a all gefnogi ac eiriol ar eu rhan / gyda nhw i roi gwybod am drosedd casineb a darparu rhywfaint o gymorth ôl-ofal. O ganlyniad, dylid diwygio Nod 2.

Rôl gwirfoddoli anffurfiol:

512. Roedd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) yn croesawu cynnwys gwirfoddoli anffurfiol fel thema drawsbynciol a'r dyhead i adlewyrchu'r ymdrechion ychwanegol, heb gydnabyddiaeth yn aml, gan wirfoddolwyr o grwpiau lleiafrifol. Mae hyn yn bwysig iawn o ran y nodau ar gyfer gofal cymdeithasol, addysg a chydlyniant cymunedol.
513. Mynegodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) siom ynghylch cyn lleied o gydnabyddiaeth a roddir yn y Cynllun ar y gwaith gwirfoddoli anffurfiol a wneir gan unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyfer eu priod gymunedau – dim ond ychydig o frawddegau ar dudalen 102 a'r tablau nodau terfynol. Roedd ymatebwyr yn gadarn o'r farn fod ymgysylltu â gwasanaethau gwirfoddol a chyfleoedd i wirfoddoli yn hanfodol. Dylai gwirfoddoli, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, fod wedi'i amlygu yn yr adran 'Yr achos dros newid', ochr yn ochr â phrofiad y gweithlu o dan 'Trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu', a dylai naill ai gael ei bennawd ei hun neu gael ei gydbblethu'n gryf â nodau polisi perthnasol eraill. Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio at fuddsoddi mewn gwirfoddolwyr yn y strategaeth derfynol fel dull o ymgorffori arferion gorau cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes gwirfoddoli. Derbyniwyd awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o gydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr, er enghraifft drwy gredydau amser a system wobrwyo y byddai angen ei chyd-greu, neu dylid ystyried cysylltu derbyn gwobr gyda chymhwysedd i gael cyllid (fel y soniwyd ar dudalen 102) er mwyn ffurfioli ymdrechion gwirfoddoli?

514. Roedd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) yn siomedig am y diffyg gwybodaeth yn y Cynllun am weithio gyda'r sector gwirfoddol (yr unig sôn yw'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl, sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn unig ac nid agweddau eraill ar fywyd.
515. Dywedodd un rhwydwaith sector cyhoeddus ($n = 1+$) fod credydau amser yn cynnwys costau parhaus ac nad ydynt yn cael eu caniatáu ar gyfer ceiswyr lloches na'r rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus. Gallai hynny beri i bobl gael eu hallgáu ymhellach. Lle mae credydau amser wedi'u defnyddio yn y gymuned, bu problemau, gydag amnest gan un sefydliad yn arwain at filoedd yn cael eu dychwelyd gan bobl yn dweud eu bod yn gwirfoddoli i'r gymuned ac wedi bod yn eu rhoi mewn drôr. Mae angen cyfleoedd i wario'r gwaith hwnnw ar gyfer y gymuned ac ar fusnesau. Ataliodd COVID-19 bron pob cyfle i wario, gydag o leiaf un Cyngor yn trafod peidio â bwrw ymlaen â'u cynllun credydau amser mwyach gan nad oedd yn diwallu anghenion y gymuned leol.
516. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y dylai'r nod ar wirfoddoli gynnwys cam gweithredu i adolygu effaith a chwmpas rhaglen y Grant Gwirfoddoli yng Nghymru, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan CGGC, a sut y gellir ei llunio'n well a chanolbwyntio ar y dyfodol i gynyddu'r cymorth i wirfoddolwyr ethnig lleiafrifol.

Sylwadau Cyffredinol:

517. Dywedodd awdurdodau lleol ($n = 2$) fod y Cynllun yn helaeth ac y gallai ei gynyddu ymhellach arwain at leihau ymhellach y gallu i gyflawni camau gweithredu sydd eisoes wedi'u nodi. Gellid nodi themâu trawsbynciol eraill yn y Cynllun ymhellach, a fyddai'n helpu i symleiddio a byrhau'r Cynllun. Er enghraifft, mae nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn y gweithlu mewn gwahanol ddisgyblaethau a gallai hyn gael ei gwmpasu gan un weithred gyffredinol.
518. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) y dylai'r Cynllun sicrhau y dylai ymyriadau geisio integreiddio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn gyson ag egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a chyfrannu at ganlyniadau'r themâu trawsbynciol ar gyfer y Cynllun, drwy integreiddio fertigol a llorweddol.
519. Nododd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) y dylai'r Cynllun gynnwys ymrwymiad trawsbynciol ar fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i bawb sydd eu hangen, waeth beth fo'u statws mewnffudo.
520. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) fod angen strategaeth gyfathrebu sy'n ystyried protocolau ynghylch rhannu gwybodaeth sensitif ar draws sectorau a meysydd polisi. Yn yr un modd â hyfforddiant traws-sector gorfodol i'r rhai sy'n ymwneud â chyflenwi'r sector cyhoeddus a sefydliadau dan arweiniad lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau cymorth hanfodol ar gyfer eu priod gymunedau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth

ddiwylliannol a llunio polisïau, yn y drefn honno. Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd gynnwys hawliau ffoaduriaid a mudwyr i wasanaethau cyhoeddus.

521. Nododd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), o ran y cam gweithredu ynghylch cael un 'map' o gymunedau a grwpiau ethnig lleiafrifol, fod y map ar-lein eisoes wedi'i greu gan EYST drwy eu rhaglen Ymgysylltu BAME Cymru Gyfan a'i fod wrthi'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd (dyddiad cwblhau Awst 2021). Mae'n bwysig nodi bod angen adnewyddu unrhyw fapiau o'r fath yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol – ac mae angen darparu adnoddau priodol ar gyfer hyn.
522. Dywedodd un awdurdod lleol ($n = 1$) ac un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y bydd profiadau byw cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ardaloedd gwledig yn wahanol i'r rhai mewn ardaloedd dinesig ac felly dylid adlewyrchu hyn yn y Cynllun. Mae angen i bob awdurdod ystyried ac ymgynghori â grwpiau lleol wrth ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol y cyngor ar gyfer ymateb mwy lleol.
523. Roedd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) yn pryderu am ddefnyddio sancsiynau fel modd o ysgogi newidiadau a allai fod yn nodweddiadol o faterion systemig ehangach y tu allan i reolaeth unigolyn neu sefydliad unigol.

C3. A oes unrhyw nodau a chamau gweithredu y gallwch feddwl amdanynt sydd ar goll? Pwy ddylai eu cyflawni a pha gamau a fyddai'n eu helpu i wneud hynny?

524. Ar gyfer nodau a chamau gweithredu coll, gweler y sylwadau o dan benawdau'r maes polisi yng nghwestiwn 2, sydd ag is-adran '*Beth sydd ar goll*' ar gyfer pob un. Mae unrhyw nodau a chamau gweithredu sydd ar goll o'r Cynllun, a hynny wedi'i nodi gan ymatebwyr, wedi'u rhestru o dan y maes polisi perthnasol. Rhestrir unrhyw flaenoriaethau sydd ar goll o'r Cynllun isod.
525. Cynigiwyd sylwadau ar gwestiwn 3 gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 5+$), awdurdodau lleol ($n = 3$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 4+$), un ymatebydd unigol ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), sefydliadau ieuchyd ($n = 2$) ac un corff sy'n cynrychioli crefydd ($n = 1$).
526. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) fod cynhwysiant digidol ar goll o'r Cynllun i raddau helaeth. Ers i COVID-19 amlygu bod pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cynnwys nifer anghymesur o bobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ogystal â phobl hŷn a phobl sy'n dioddef tlodi a phroblemau ieuchyd, dylai'r Cynllun gynnwys y materion hynny.
527. Roedd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) yn siomedig nad yw cymorth a gwasanaethau profedigaeth yn cael eu crybwyll yn benodol, yn enwedig gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol – dylid llunio cysylltiad uniongyrchol â'r fframwaith profedigaeth terfynol.

528. Mae un awdurdod lleol (n = 1), un ymatebydd unigol (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) yn tynnu sylw at y ffaith bod mater natur wledig ac yn benodol, yr haen ychwanegol mae'n gallu ei ychwanegu at broblemau ynysu, ar goll o'r Cynllun yn ei grynswth.
529. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod angen mwy yn y Cynllun i ddeall anghenion penodol plant a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a sut y gall hiliaeth a rhagfarn effeithio ar eu gallu i gael gafael ar gymorth priodol. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar rwystrau, megis anrhydedd, o fewn y gymuned, ond nid yw'n sôn am y duedd hiliol sy'n bodoli yn y gymdeithas yn ehangach sy'n gallu effeithio ar y cymorth y mae plant a phobl ifanc o liw yn ei dderbyn.
530. Roedd un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+) ac un sefydliad iechyd (n = 1) yn teimlo bod cyfeiriad at ddiogelwch cymunedol ar goll, a allai gyfuno nifer o feysydd. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod hyn yn ymddangos fel tueddiad parhaus o fewn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i beidio ag edrych ar ddiogelwch cymunedol mewn modd cyfannol ac felly i beidio â'i ystyried yn flaenoriaeth. Mae hynny'n arwain at gyllid ar gyfer y meysydd mwyaf amlwg, ac felly'n colli llawer o'r elfennau ataliol ar gyfer camau gweithredu lefel is sy'n cynyddu diogelwch cymunedol ac sy'n atal ac yn lleihau rhai o elfennau mwy costus diogelwch cymunedol. Dylai gwybodaeth gefndir gydnabod yr anghydraddoldebau hanesyddol y mae cymunedau wedi'u hwynebu ers blynyddoedd lawer.
531. Nododd un rhwydwaith sector cyhoeddus (n = 1+), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), un ymatebydd unigol (n = 1) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 5+) nad yw'r Cynllun yn cynnig diffiniad penodol o wrth-hiliaeth sy'n berthnasol i'r Cynllun cyfan. Mae'r paragraff olaf ond un ar dudalen 25 yn sôn am yr hyn y mae gwrth-hiliaeth yn ei olygu ond nid yw'n cynnig diffiniad manwl. Cynigiwyd y diffiniad canlynol: *"Mae gwrth-hiliaeth yn ymwneud â chymryd camau rhagweithiol i frwydro yn erbyn annhegwch hiliol. Mae'n wahanol i ddulliau eraill sy'n canolbwyntio ar amlddiwylliant neu amrywiaeth oherwydd ei fod yn cydnabod bod hiliaeth systemig yn bodoli ac yn mynd ati i wynebu'r ddeinameg pŵer anghyfartal rhwng grwpiau a'r strwythurau sy'n ei chynnal. Mae gwrth-hiliaeth yn cynnwys asesu strwythurau, polisïau a rhaglenni yn gyson, a thrwy fonitro canlyniadau, sicrhau eu bod yn deg a chyfartal i bawb."* Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ei bod yn feiddgar dweud y bydd gwrth-hiliaeth yn cael ei gyflawni erbyn 2025 neu hyd yn oed 2030 heb gynnig diffiniad ohoni.
532. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod yn rhaid i unrhyw Gynllun o'r math hwn ystyried yr heriau ynghlwm wrth dwf ymddangosiadol cam-drin hiliol drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hanesion wythnosol bron iawn ar y cyfryngau a fydd, os nad eir i'r afael â hwy, yn tanseilio uchelgais y Cynllun hwn. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff dylanwadol eraill wneud mwy i ddweud eu dweud, a chymryd camau gweithredu yn erbyn y duedd gynyddol hon, a herio hiliaeth a gwahaniaethu sy'n cael eu sianelu drwy'r cyfrwng hwn.

533. Y tu hwnt i'r darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n caniatáu i gamau gweithredu cadarnhaol gael eu cymryd, i ddelio ag anfanteision penodol sy'n effeithio ar un grŵp oherwydd nodwedd warchodedig, mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylid nodi y gall partneriaid cyflawni hefyd weithredu'n gadarnhaol mewn perthynas â grwpiau eraill sy'n wynebu anfantais ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf. Yn hyn o beth, dylid cynnwys Gofalwyr Ifanc a Phlant â Phrofiad o Ofal (plant sy'n derbyn gofal yn unol â diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2016) a disgyblion o gefndiroedd incwm isel yn y categori hwn, llawer ohonynt yn dod o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
534. Dywedodd un awdurdod lleol (n = 1) y byddai'n ddefnyddiol i'r Cynllun amlinellu ar ffurf diagram sut y dewiswyd meysydd polisi.
535. Dywedodd un awdurdod lleol (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) nad yw'n glir faint o'r Cynllun hwn sy'n berthnasol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Cofnodir y rhwystrau i gyflogaeth, y gallu i gael gafael ar wasanaethau ac anghenion ieuchyd sylfaenol, ond nid oes cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r anghenion penodol hyn.
536. Mae un ymatebydd unigol (n = 1) yn teimlo nad yw Sir Benfro wedi cael digon o ystyriaeth wrth ddatblygu'r Cynllun hwn.
537. Tynnodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) sylw at y ffaith bod angen mwy o ffocws a gwaith manwl gyda chymunedau cyfan yn y de ar beth yw'r blaenoriaethau craidd.
538. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) y bydd camau cynnar gweithredu'r CGCH yn gofyn am greu llinell amser wedi'i chymell gan Lywodraeth Cymru, gan nodi rolau a cherrig milltir allweddol sy'n arwain at weledigaeth o Gymru wrth-hiliol erbyn 2030.
539. Roedd un corff sy'n cynrychioli crefydd (n = 1) a sefydliadau ieuchyd (n = 2) yn pryderu nad yw'r Cynllun yn sôn am y cymunedau Iddewig. Tynnwyd sylw at y ffaith bod bywyd Iddewig yn gymysgedd o grefydd ac ethnigrwydd, mynnwyd y gellid cryfhau'r Cynllun drwy gydnabod gwrth-Semitiaeth yn benodol fel mater difrifol a heriau penodol gwrth-Semitiaeth. Gofynnwyd a fu ymgysylltu penodol â'r cymunedau Iddewig ynghylch eu barn ar y mathau penodol o hiliaeth y maent yn eu profi.
540. Dywedodd un corff sy'n cynrychioli crefydd (n = 1) y dylid deall bod y term 'hiliaeth' yn cyfeirio at ffenomena mewn cymdeithas sydd weithiau'n dod i'r amlwg mewn gwahanol ffyrdd – mae gwrth-Semitiaeth, neu hiliaeth gwrth-Iddewig, wedi'i gwreiddio mewn ffurfiau cyffredin o senoffobia sy'n 'dyrnu i lawr' ond hefyd mewn damcaniaethau cynllwyn am bŵer a chyfoeth Iddewig maleisus a dirgel sy'n honni eu bod yn 'dyrnu i fyny'. Mae'r syniad bod gwrth-Semitiaeth yn 'dyrnu i fyny' yn syniad ffug, gan fod Iddewon yn parhau i fod yn lleiafrif agored i niwed gyda modd economaidd unigol mor amrywiol â'r gymdeithas o'u cwmpas. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod teuluoedd Iddewig yng Nghymru, yn ystod y cynnydd diweddar mewn trais rhwng Gaza ac Israel, wedi dweud wrth y Bwrdd Dirprwyon sut

y cyhuddwyd eu plant yn sydyn gan eu cyfoedion o fod yn 'lladdwyr babanod', ar ôl prin brofi gwrth-Semitiaeth yn yr ysgol o'r blaen. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y gall y Gymuned Iddewig wynebu trafferthion pan nad yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'r anghenion diwylliannol perthnasol. Er enghraifft, gofynion i weithio'n hyblyg er mwyn gallu cadw'r Saboth Iddewig, Shabbat, uchelwyliau a dyddiau sanctaidd. Er bod cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau yn gallu bod yn ymwybodol o'r angen i barchu nodweddion gwarchodedig unigolyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n bosibl nad ydynt yn ymwybodol – mewn cymdeithas gynyddol seciwlar – o oblygiadau ffydd ar y crediniwr selog.

541. Teimlwyd ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru gydnabod bod syniadau gwrth-Semitig o 'bŵer' neu 'faint' Iddewig yn gallu cyniwair os na wneir sylw o natur fregus y gymuned. Pan fydd hyfforddiant gwrth-Semitiaeth yn cael ei gyflwyno drwy safbwynt ôl-drefedigaethol am hiliaeth, nododd ymatebwyr eu bod wedi gweld cynnwys dadansoddiadau economaidd o'r gymuned Iddewig. Yng nghyd-destun trosiadau gwrth-Semitig traddodiadol yn ymwneud ag Iddewon, cyfoeth a phŵer, gall hyn wneud niwed go iawn.
542. Er mwyn i Gymru barhau i fod yn amgylchedd croesawgar i'r Gymuned Iddewig, argymhellodd un corff sy'n cynrychioli crefydd ($n = 1$) y canlynol:
- Prif ffrydio [Diffiniad Gwrth-Semitiaeth Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocaust](#) (IHRA) i bolisïau ac arferion cyrff cyhoeddus, gan gynnwys ceidwaid y gyfraith, llywodraeth leol a phrifysgolion. Dylai sefydliadau cyhoeddus o'r fath gael hyfforddiant gwrth-Semitiaeth fel y bo'n briodol.
 - Dylai Llywodraeth Cymru annog sefydliadau cyhoeddus i fabwysiadu diffiniad yr IHRA. Deallwn fod Prifysgol Caerdydd, er enghraifft, wedi gwrthwynebu ei fabwysiadu ar y sail nad yw'n gallu mabwysiadu diffiniadau ar gyfer pob grŵp. Dylai Llywodraeth Cymru, sydd wedi mabwysiadu diffiniad yr IHRA, bwysu ar y rhai sy'n mynegi gwrthwynebiad o'r fath. Fodd bynnag, gellir cryfhau'r achos hwnnw os bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ymgysylltu â'i Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, a'i bod yn cynnal mentrau tebyg ar gyfer grwpiau eraill a allai fod wedi'u hymyleiddio, fel y gellir sicrhau mudiadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector bod modd iddynt ymgysylltu â'r agenda cydraddoldeb mewn ffordd gynhwysfawr.
 - Dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda'r Community Security Trust, sefydliad adrodd trydydd parti'r gymuned Iddewig, i sicrhau diogelwch Iddewon.
 - Dylai unrhyw ysgolion sydd wedi profi cynnydd mewn gwrth-Semitiaeth, yn enwedig mewn cysylltiad â gwrthdaro Israel-Palesteina, ymgysylltu â sefydliadau fel y Bwrdd Dirprwyon, Solutions Not Sides a Stand Up! i ddadwenwyno'r drafodaeth o fewn ysgolion.
 - Pan fydd y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol yn gwaethygu, dylai ffigurau cyhoeddus gymryd gofal gyda'u rhethreg a'u cysylltiadau er mwyn osgoi rhoi hwb i leisiau mwy eithafol eraill, waeth pa mor ddiarwybod, a allai fygwth trais yn erbyn Iddewon.

- f. I gyflogwyr a sefydliadau cyflogeion hyrwyddo [Canllaw Iddewiaeth i Gyflogwyr](#) y Bwrdd Dirprwyon fel eu bod yn deall anghenion gweithwyr Iddewig.
- g. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a chymunedau lleiafrifol i herio a threchgu casineb ar-lein, gan sicrhau bod rheoleiddio ar waith yn y lle iawn.

C4. Beth yw'r heriau allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025?

543. Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 6), sefydliadau iechyd (n = 3), awdurdodau lleol (n = 10), ymatebwyr unigol (n = 10), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 10+), un corff ariannu (n = 1), undebau llafur (n = 2), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+) a sefydliadau cymunedol (n = 2+) wedi cynnig sylwadau ar gwestiwn 4.
544. Holodd un sefydliad trydydd sector (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) ac un ymatebydd unigol (n = 1) a yw cwestiwn pedwar yn cynnwys camgymeriad teipio – ai 'erbyn 2030' yw'r geiriau i fod, yn hytrach na 'erbyn 2025'?
545. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+), un ymatebydd unigol (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un awdurdod lleol (n = 1) ac un corff ariannu (n = 1) fod hyd a chymhlethdod y Cynllun yn ei wneud yn anhygyrch ac y gallai fod yn her i sefydliadau sydd eisiau rhoi camau gweithredu craidd ar waith. Gallai hyn gyflwyno heriau o ran gweithredu a monitro. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i hygyrchedd a darllenadwyedd fersiynau terfynol y Cynllun. Ychwanegodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y bydd defnyddio iaith gymhleth a jargon, megis 'hiliaeth systemig' a 'microymosodiadau', yn her bellach gan na fydd llawer yn eu deall – mae'n bwysig bod yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn y CGCH yn cael ei chadw'n syml er mwyn i bawb ei deall.
546. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y sefydliadau hynny sy'n cael eu harwain gan grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n dioddef o hiliaeth sefydliadol ac mae hyn yn her allweddol, yn enwedig gan fod y Cynllun yn dibynnu'n helaeth ar y sefydliadau hyn a'u harbenigedd. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod rhwng 9,000 a 10,000 o elusennau a grwpiau cymunedol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn gweithredu'n genedlaethol, 65 y cant â throsiant o lai na £10,000 y flwyddyn. Incwm cyfartalog elusennau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yw £78,000 o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o £142,439. Yn y sefyllfa wedi COVID-19, roedd 87 y cant o'r elusennau sy'n gweithio dros bobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ac yn cael eu harwain ganddynt, mewn perygl o gau'n barhaol – mae hyn yn ganran uwch nag ar gyfer elusennau eraill. Yn ogystal, yn dilyn y pandemig, mae grwpiau dan arweiniad pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: yn fwy tebygol o fod yn profi cynnydd yn y galw ar ôl Covid; yn fwy tebygol o weld eu hadnoddau'n cael eu lleihau; yn llai tebygol o fod â 6 mis o incwm wrth gefn; yn fwy tebygol o fod wedi diswyddo staff ers dechrau'r pandemig. Mae hon yn her allweddol – mae angen i'r Cynllun ddarparu adnoddau digonol, cynaliadwy a dibynadwy, yn enwedig cyllid.

547. Dywedodd un corff ariannu ($n = 1$) nad yw cyrff y sector cyhoeddus yn meddu ar yr atebion na'r arbenigedd bob tro wrth sbarduno'r newid sydd ei angen i greu Cymru wirioneddol wrth-hiliol. Heb waith diflino sefydliadau craidd y trydydd sector yng Nghymru, ni fyddai Cymru wedi gallu symud ymlaen fel y mae o ran materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu croestoriadol. Bydd y ddibyniaeth ar y sefydliadau hyn i arwain eraill wrth weithredu'r Cynllun hwn yn heriol. Bydd gofyn dyrannu adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn, o ganlyniad i hynny.

548. Roedd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) ac awdurdodau lleol ($n = 2$) yn tynnu sylw at y ffaith bod y diffyg cydweithio rhwng sefydliadau ac asiantaethau yn her, gan na ellir tanbrizio rôl y trydydd sector o ran lledaenu negeseuon a chynnwys cymunedau, ac mae angen ymchwilio i hyn i raddau mwy. Mae'r gallu i gael gafael ar gyngor arbenigol a chynnal ymgysylltiad asiantaethau partner dros gyfnod estynedig o bosibl yn heriol pan allai adnoddau grwpiau eiriolaeth fod yn brin oherwydd galwadau gan Lywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus. Dywedodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), un awdurdod lleol ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod yn rhaid i'r asiantaethau perthnasol gael y cymorth angenrheidiol, a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu ar draws sectorau, neu fel arall bydd y Cynllun yn methu. Tynnodd asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$) sylw at y ffaith bod parhad ac ymrwymiad parhaus i weithredu yn bwysig, fel nad yw'r Cynllun yn cael ei ystyried yn ddim byd ond un fenter arall. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw eu Cynllun hirdymor ar gyfer cadw'r CGCH yn flaenoriaeth, yn enwedig wrth ymgysylltu â phartneriaid cyfiawnder troseddol. Tynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) sylw at y ffaith ei bod hefyd yn bwysig sicrhau nad yw'r CGCH yn cystadlu / yn mynd ar goll ymhlith mentrau addysgol eraill gan arwain at ychydig o gynnydd ymarferol yn unrhyw faes.

549. Cafwyd sylwadau y gallai diffyg adnoddau digonol beri her allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth gan un sefydliad ieuchyd ($n = 1$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$), sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$), un ymatebydd unigol ($n = 1$), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) ac awdurdodau lleol ($n = 5$).⁴ Dywedodd awdurdodau lleol ($n = 5$) y bydd adnoddau a chapasiti i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun yn her gan nad yw adnoddau a chyllid yn gyson ar draws pob awdurdod, ac mae hyn yn bryder gan fod y Cynllun yn uchelgeisiol iawn ac yn cwmpasu nifer o feysydd allweddol. Dywedodd ymatebwyr hefyd, ar ben llwythi gwaith ychwanegol, y gallai heriau godi gyda phwysau ychwanegol i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun, ac i sicrhau bod pob awdurdod yn gweithio tuag at yr un nod. Mae angen i'r Cynllun gael canlyniadau mwy mesuradwy, camau gweithredu a chyfrifoldebau clir wedi'u neilltuo i sefydliadau ac unigolion ynghyd â dealltwriaeth o'r canlyniadau os nad yw camau gweithredu yn cael eu cyflawni.

⁴ Mae'r sylwadau y gallai diffyg adnoddau digonol beri her allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth yn cael eu hamlinellu'n fanylach yn yr ymateb cryno i gwestiwn 5.

550. Tynnodd un sefydliad iechyd ($n = 1$) sylw at y ffaith mai un her allweddol i iechyd yw cymorth strategol a chydlynu camau gweithredu'n ganolog i ymgorffori gwrth-hiliaeth a datblygu arfer da cyson ledled Cymru. At hynny, yn dilyn diddymu'r Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR), nid oes adnodd cydraddoldeb strategol canolog sy'n cefnogi ac yn cysylltu GIG Cymru bellach. Mae hyn wedi creu gwagle wrth i sefydliadau mawr cymhleth weithio i fynd i'r afael â'r bwlch theori / tystiolaeth i ymarfer mewn modd annibynnol.
551. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 9$), sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 4$), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$), asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$), un undeb llafur ($n = 1$) ac ymatebwyr unigol ($n = 4$) mai'r brif her a fydd yn atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025 yw gweithredu'r Cynllun heb ategu dyletswydd gyfreithiol i'r camau gweithredu a'r argymhellion yn y cynllun gweithredu. Rhaid cael llwybrau atebolrwydd clir hefyd. Rhaid i'r Cynllun terfynol gynnwys monitro ac atebolrwydd. Bydd cael cyfnodau gwerthuso pwrpasol, camau gweithredu y gellir eu monitro a chamau gweithredu penodol gyda phobl / sefydliadau cyfrifol penodol i'w cwblhau, yn helpu i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu. At hynny, rhaid i ryngweithio, adolygu ac adborth fod yn gyson. Nid yw'n gwbl glir beth yw'r mesurau llwyddiant, a dylid diffinio'r amserlenni ymhellach oherwydd eu bod yn amwys ar hyn o bryd. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu eglurder llwyr ar y flaenraglen a'r cynllun. Mae'r ddogfen ymgynghori ei hun yn cyflwyno amserlenni gwahanol ar gyfer gweithredu, er enghraifft, a bydd angen i'r Cynllun terfynol fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn.
552. Amlygodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 4+$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) bynciau fel Brexit, hiliaeth sefydliadol / systemig, rhagfarn ddarwybod, diffyg gweithredu, diffyg data sylfaenol i fesur cynnydd fel heriau i'r Cynllun gyflawni ei ganlyniadau. Bydd y diffyg data sylfaenol yn atal Llywodraeth Cymru rhag gwybod a yw pethau wedi aros yr un fath, wedi gwaethygu neu wedi gwella. O ganlyniad, mae angen i'r Cynllun gynnwys data sylfaenol (mewn dementia, iechyd meddwl, tai ac ati) er mwyn mesur cynnydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd sefydliadau'n meincnodi eu sefyllfa ar hyn o bryd a sut y byddant yn gwneud gwelliannau.
553. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sylw at y ffaith bod gan y Cynllun natur drafodol, sy'n bryder gan fod angen trawsnewid sy'n newid diwylliant. Mae angen damcaniaeth benodol o newid fel sail i'r Cynllun hwn. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw at y ffaith mai un o'r prif heriau a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025 fyddai colli cyfleoedd allweddol i ddefnyddio'r pwerau hyn i'w llawn botensial a sicrhau newid gwirioneddol mewn diwylliant. Mae angen ariannu grwpiau a sefydliadau cymunedol llai a fydd yn hanfodol wrth lywio a monitro'r Cynllun.
554. Roedd un undeb llafur ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$) a sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) yn pryderu y gallai newid llywodraeth yn y dyfodol effeithio ar y flaenoriaeth a'r gwaith dan sylw.

Dywedodd ymatebwyr fod cael cefnogaeth o bob sector a chymuned yng Nghymru yn hollbwysig felly. Mae ymatebwyr unigol (n = 3), un awdurdod lleol (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) yn pryderu am ddiffyg ymrwymiad y bobl sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cynllun a'r diffyg parodrwydd i ymgysylltu a newid – gan amlygu anwybodaeth fel her a diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol fel Deddf Cydraddoldeb 2010.

555. Tynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw at y ffaith y gallai'r diffyg cynrychiolaeth a modelau rôl gweladwy fod yn rhwystr sylweddol i sicrhau gwrth-hiliaeth erbyn 2025. Bydd mwy o gynrychiolaeth yn helpu i chwalu canfyddiadau mai dim ond pobl benodol o gefndiroedd breintiedig sy'n gallu cyflawni eu potensial mewn cymdeithas.
556. Dywedodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) y gallai penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU hefyd arwain at heriau parhaus, e.e. cynigion diweddaraf Llywodraeth y DU i newid cyfraith mewnfudo a'r cynigion presennol ynghylch y Mesur Heddlu, Troseddu a Dedfrydu newydd. Dylid hefyd ystyried unrhyw newidiadau posibl o ran stopio a chwilio a throseddau cyffuriau a chyllyll, gan fod y rhain yn faterion sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol ar hyn o bryd. Tynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) sylw at y ffaith y gallai cyni fod yn her hefyd.
557. Dywedodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) y gallai diffyg arloesi fod yn her, gydag ymatebwyr yn datgan fod angen symud at ffyrdd mwy dychmygus ac effeithiol o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol hiliaeth er mwyn sicrhau bod newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud.
558. Roedd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un awdurdod lleol (n = 1), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) yn tynnu sylw at y ffaith y gallai'r pandemig parhaus effeithio ar weithredu'r Cynllun yn brydlon.
559. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw at y ffaith nad yw'r Cynllun yn cyflwyno gwahaniaethau o ran gweithredu ar blatfformau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n ddigon posibl y bydd gwahanol fathau o sefydliadau a / neu sectorau yn pennu gwahanol gamau gweithredu ac felly'n defnyddio trothwyon gwahanol o'r hyn sy'n fesur derbyniol wrth gyflawni canlyniad y nod. O ganlyniad, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i bennu disgwyliadau clir am y canlyniadau a ddymunir fel bod cytundeb ledled Cymru ynghylch y trothwyon.
560. Nododd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un undeb llafur (n = 1) ac awdurdodau lleol (n = 2) y gallai diffyg dealltwriaeth o bwysigrwydd y Cynllun ymhlith y boblogaeth ehangach hefyd lesteirio cynnydd. Gall hiliaeth a rhagfarn ddarwybod hefyd atal cynnydd o ran y nodau a'r camau gweithredu. Un her benodol fyddai'r rhai hynny sy'n ystyried Mae Bywydau Du o Bwys a gwrth-hiliaeth fel 'gwleidyddiaeth sioe' neu 'frolio rhinweddau', yn hytrach na gwerthfawrogi materion cyfiawnder cymdeithasol yn eu cymuned. Mae perygl hefyd nad oes digon o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn tueddu i gynnig am swyddi uwch ar draws yr ystod o sectorau

oherwydd rhagfarn hanesyddol. Yn yr un modd, mae potensial i grŵp bach o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gael cais i gyfrannu eu harbenigedd dro ar ôl tro, gan arwain at faich gwaith gormodol a lludded. Mae un undeb llafur ($n = 1$), un sefydliad ieuchyd ($n = 1$), un ymatebydd unigol ($n = 1$) a sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) yn ychwanegu ymhellach y bydd y cyfryngau, yn enwedig y cyfryngau asgell dde, yn dylanwadu ar eu darllenwyr a'u gwrandawyr ac y bydd hyn yn dylanwadu'n arbennig ar agweddau pobl tuag at fewnfudo a cheiswyr lloches. Tynnwyd sylw hefyd at dwf sarhad hiliol ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallai hyn felly effeithio'n negyddol ar y Cynllun. Mae angen rhoi mwy o sylw i'r ffordd y mae polisi mewnfudo yn porthi hiliaeth mewn cymdeithas. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod y polisiâu mewnfudo a ffiniau presennol yn arwain at broffilio hiliol ac allgáu cymdeithasol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, felly, herio polisi cenedlaethol neu geisio datganoli materion mewnfudo er mwyn i'r Cynllun lwyddo.

561. Mynnodd sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) fod angen canllawiau clir ar sut i gefnogi pobl i rannu eu profiadau, gan y gallai esgor ar bryder ynghylch sut mae safbwyntiau'n cael eu derbyn. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y bydd rhwystrau ieithyddol yn her allweddol yma, fel ar adeg cyflwyno'r brechlyn, gan fod camwybodaeth ar gael mewn sawl iaith ar y dechrau,
562. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y gallai'r canlynol atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth:
 - a. Gwreiddiau dwfn biwrocratiaeth mewn gwasanaethau allweddol – er enghraifft, mae'r Cynllun hwn yn glir ynghylch cyrhaeddiad myfyrwyr. Fodd bynnag, mae gwahaniaethu hiliol systemig wedi gwreiddio'n ddwfn mewn addysg uwch. At hynny, nid yw'r gweithlu, gan gynnwys darlithwyr, yn cynrychioli'r carfannau y maent yn eu haddysgu – mae myfyrwyr eisiau newid.
 - b. Pŵer ac arweinyddiaeth yn dal yn nwylo'r diwylliant amlycaf, wedi'i nodweddu gan Ffaint Pobl Wyn (mae lleiafrifoedd ethnig Gwyn wedi'u heithrio o'r term hwn).
 - c. Dim ystyriaeth i ddosbarth cymdeithasol wrth ystyried hil.
 - d. System gyfreithiol a pholisïau cymdeithasol annheg nad ydynt yn cydnabod gormes ac ymleiddio ond sydd yn hytrach yn eu dwysáu.
 - e. Dim ffocws na diffyg ffocws ar y manteision i'r gymdeithas ehangach yng Nghymru – mae angen mwy o addysg yn y maes hwn i ddileu'r mythau parhaus am rai cymunedau.
 - f. Heb fabwysiadu dull croestoriadol clir a chadarn o ymdrin â hiliaeth sy'n ystyried pob agwedd ar hunaniaeth, ni ddaw newid hirdymor cynaliadwy ac ni fydd y nodau a ddymunir yn cael eu cyflawni.
 - g. Osgoi mesurau symbolaidd sy'n gwneud mwy o ddrwg nag o les ac a fydd yn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth ar bob cam.
 - h. Gorddibyniaeth ar ddata neu ddiffyg data. Ni ddylai data lesteirio nac atal gweithredu mewn meysydd allweddol – mae'n rhaid bod â ffydd yn straeon pobl gyda phrofiad bywyd, a pheidio ag aros am ddata i gyfiawnhau gweithredu.
 - i. Rhaid dilyn y drefn briodol wrth ddelio â materion pan nad yw pethau'n mynd yn ôl y bwriad. Gallu gwneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt a gwneud y newidiadau a'r gwelliannau priodol i bwyntiau gweithredu.

- j. Heb ryddid creadigol a rhywfaint o hyblygrwydd i addasu wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith, mae'r broses yn debygol o fynd yn anhyblyg a pheidio ag esblygu gyda newidiadau cymdeithasol, sy'n hanfodol ar gyfer yr effaith hirdymor a'i chynaliadwyedd.
- k. Rhaid i ofal cymdeithasol dderbyn arian ac adnoddau digonol. Rhaid i Weithwyr Cymdeithasol fod wedi'u lleoli o fewn y cymunedau hynny y maent yn eu gwasanaethu i feithrin ymddiriedaeth, gwell dealltwriaeth a pherthynas ystyrion gyda'r rhai y maent yn eu gwasanaethu. Roedd hyn yn gweithio'n dda cyn i'r systemau canolog gael eu cyflwyno. At hynny, ni ddylid dibynnu ar elusennau i ymgymryd â'r hyn y dylai'r Wladwriaeth fod yn ei ddarparu i bob dinesydd.
- l. Rhaid rhoi mwy o gydnabyddiaeth a chyhoeddusrwydd cadarnhaol i weithwyr cymdeithasol. Dylid eu hyfforddi i greu cynghreiriau gyda phobl o bob cefndir. Dylid ystyried hyn yn gam cysylltu gwerthfawr i lwyddiant y cynllun hwn.

C5. Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, gallu i gael gafael ar wasanaethau cymorth neu eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

563. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 28+), un corff sy'n cynrychioli crefydd (n = 1), sefydliadau ieuchyd (n = 7), undebau llafur (n = 6), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 6), awdurdodau lleol (n = 14), ymatebwyr unigol (n = 11), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus (n = 11+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a sefydliadau eraill (n = 2) wedi cynnig sylwadau ar gwestiwn 5.⁵
564. Cafwyd datganiad cryf iawn gan sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 13+), un corff sy'n cynrychioli crefydd (n = 1), awdurdodau lleol (n = 7), sefydliadau ieuchyd (n = 4), sefydliadau sector cyhoeddus (n = 7), undebau llafur (n = 5), ymatebwyr unigol (n = 9), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 1+) a sefydliadau eraill (n = 2) bod yn rhaid i'r Cynllun gael adnoddau digonol er mwyn rhoi'r camau gweithredu ar waith, gan fod angen cefnogaeth ddigonol ar y rhai hynny sy'n cyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun. Nid yw'r Cynllun yn manylu'n ddigonol ar yr adnoddau a fydd yn cael eu darparu i ddatblygu gwaith gwrth-hiliaeth yng Nghymru. O ystyried bod y Cynllun yn uchelgeisiol iawn, heb yr adnoddau ychwanegol, cynaliadwy angenrheidiol, roedd pryder na fydd modd ei gyflawni ac y gallai camau gweithredu'r Cynllun ymuno â'r rhestr o fecanweithiau eraill sy'n bodoli

⁵ Noder – ar draws bron pob maes polisi, tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bolisiau / strategaethau / cynlluniau / mentrau presennol sydd eisoes yn bodoli ac nad ydynt wedi'u defnyddio'n llawn. Mae ymatebwyr yn teimlo'n rhwystredig nad yw'r CGCH yn cyfeirio at y strategaethau cyfredol hyn nac yn cysylltu â nhw. Noder bod manylion am y sylwadau a dderbyniwyd ar y strategaeth bresennol wedi'u cynnwys yn eu priod feysydd polisi yn yr Adroddiad hwn.

eisoes nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn y Cynllun terfynol.

Yr adnoddau sydd eu hangen:

565. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 6+) ac ymatebwyr unigol (n = 3) fod angen adnoddau i gefnogi grwpiau cymunedol, sefydliadau llawr gwlad a'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector yn gyffredinol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ac ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd o anghydraddoldeb hiliol, gan gynnwys gweithio gyda phobl 'anodd eu cyrraedd' a'u hannog i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol. Bydd hyn yn gofyn am gyllid. Mynnodd un sefydliad ieuchyd (n = 1) y dylai cyllid fod ar gael i sefydliadau'r sector cyhoeddus wneud cais amdano, yn ogystal â sefydliadau cydraddoldeb hiliol.
566. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod angen cefnogi cyrff cyhoeddus i gyd-gynhyrchu a chyd-gynllunio gwasanaethau i greu cyd-ddealltwriaeth a pharch gyda defnyddwyr eu gwasanaethau. Mae'n debygol y bydd angen hyfforddiant i'w cefnogi yn hyn o beth, ac i brif ffrydio gwerthoedd y Cynllun i sefydliadau ledled y wlad. Dywedodd awdurdodau lleol (n = 2) fod angen cymorth ar bob awdurdod lleol i gyflawni'r camau gweithredu, rhaid i awdurdodau lleol wybod ble i fynd am gymorth, a rhaid i gymorth o'r fath fod ar gael ac yn gyson. Dywedodd ymatebwyr y bydd dulliau cydgysylltiedig o ddarparu, rhwydweithio a chydweithio hefyd yn fuddiol. Galwodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) am gomisiynu gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' parhaus a chynyddol, a fydd yn gofyn am fodel ariannu cynaliadwy, a dywedodd fod yn rhaid i lais goroeswyr fod yn ganolog i unrhyw waith a phob gwaith i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod.
567. Mynnodd un awdurdod lleol (n = 1) fod angen adeiladu capasiti o fewn Partneriaethau Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd er mwyn gwella sut rydym yn mynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol drwy Gynlluniau Ardal, asesu poblogaeth a chynlluniau comisiynu rhanbarthol yn ogystal â lleol.
568. Awgrymodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Cynllun Ardystio Diverse Cymru.
569. Teimlai un awdurdod lleol (n = 1) y dylai'r Cynllun gyfeirio at lyfrgelloedd cyhoeddus, gan dynnu sylw at y ffaith eu bod yn wasanaeth hanfodol ar gyfer gweithredu'r Cynllun hwn. Maent mewn sefyllfa unigryw i gynnig ymgysylltu â'r gymuned a chyswllt dynol gan gefnogi ystod eang o bobl. Mae llyfrgelloedd yn cefnogi ac, mewn rhai achosion, yn darparu gwasanaethau uniongyrchol sy'n cwmpasu nifer eang o'r themâu a drafodir yn y ddogfen hon gan gynnwys 'Cyflogadwyedd a Sgiliau', 'Diwylliant a Threftadaeth' a'r Gymraeg. O ganlyniad, dylid eu hystyried nid yn unig fel adnodd allweddol ond dylid darparu adnoddau iddynt gan gynnwys cyllid, amser staff a hyfforddiant.
570. Dywedodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gael digon o adnoddau i ymgymryd â'r rôl reoleiddio a fu'n sail i'w sefydlu.

Hyfforddiant:

571. Dywedodd sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 5), un undeb llafur (n = 1), sefydliadau'r trydydd sector (n = 3), awdurdodau lleol (n = 2), sefydliadau cymunedol (n = 1+) ac un ymatebydd unigol (n = 1) fod angen o leiaf hyfforddiant ystyrlon a rhyngpersonol mewn rhagfarn ddarwybod a gwrth-hiliaeth ar gyfer yr holl randdeiliaid / penderfynwyr ar draws pob sector yn barhaus, a hwnnw wedi'i ddarparu gan hwyluswyr medrus a phobl gyda phrofiad bywyd. Dylai ymgorffori croestoriadedd hefyd. Ategir hyn gan un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), a dynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd darparu hyfforddiant gan y rhai o'r grwpiau y mae'r Cynllun hwn yn ceisio'u cefnogi. Mae hyn yn gofyn am gyllid. Mae'r model presennol o hyfforddiant gorfodol goddefol a generig untro yn annigonol ar gyfer sicrhau newid gwirioneddol mewn agweddau a diwylliannau. Dylai hyfforddiant o'r fath hefyd sicrhau bod gan bob rhanddeiliad ddealltwriaeth glir o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a hawliau a chyfrifoldebau eraill ynghlwm wrth hynny. Rhaid i hyfforddiant i arweinwyr fod yn flaenoriaeth gan nad ydynt o reidrwydd yn meddu ar y sgiliau i ddatblygu gwaith gwrth-hiliaeth. Er hynny, mae angen hyfforddiant ar bob aelod o staff, nid arweinwyr yn unig.
572. Tynnodd awdurdodau lleol (n = 2) ac undebau llafur (n = 3) sylw at y ffaith bod yn rhaid neilltuo amser staff, ynghyd â chyllid, ar gyfer ymchwil, adolygu polisi, prosesau a gweithdrefnau, ymgynghori, monitro, gwerthuso a gwelliannau parhaus. Os yw pob corff cyhoeddus yn rhannu'r un amcanion, nododd un awdurdod lleol (n = 1) y gallai hynny effeithio ar y gallu i gomisiynu darparwyr hyfforddiant addas oherwydd prinder. Bydd pob ardal awdurdod yn chwilio am arbenigedd gan sefydliadau fel Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), Race Council Cymru a Race Equality First; o ganlyniad, roedd ymatebwyr yn cwestiynu a yw eu hadnoddau cyfyngedig yn ddigonol i allu cefnogi pob corff cyhoeddus yng Nghymru? Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw pellach at y ffaith y dylid darparu amser gwarchodedig i'r rhai sy'n hyrwyddo'r Cynllun hwn ac na ddylid ei ystyried yn 'ychwanegiad' at gyfrifoldebau rôl presennol. Ychwanegodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) y bydd angen amser ar staff i fynychu hyfforddiant, cyrchu, cefnogi a hyrwyddo gwaith ymhlith partneriaid. Mae angen rheoli data er mwyn coladu arferion / cynnydd parhaus yn erbyn amcanion y Cynllun.
573. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) mai rhaglen hyfforddi ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol ac ar draws Cymru fyddai'n gweithio orau. Yn yr un modd, byddai'n gwneud synnwyr i weithwyr o gyrff archwilio a rheoleiddio, arolygiaethau ac ombwdsmyd gael rhaglen hyfforddi a chefnogi gyffredin. Byddai'n fuddiol cael rhyw fath o gymorth mentora parhaus a / neu raglen cymorth gan gymheiriaid ar gyfer arweinwyr sefydliadau sy'n gyfrifol am weithredu newid. Dywedodd ymatebwyr y byddai hyn yn helpu i ymgorffori newid.
574. Mynnodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 2+) hefyd y bydd cydweddu'r ddarpariaeth hyfforddiant ar draws gwasanaethau a darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant gwell i Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb, gan gynnwys hyfforddiant mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma, o fudd mawr i ddioddefwyr

troseddau casineb. Bydd hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol ar ffurf amser, arian a'r gallu i gael gafael ar ddata / arferion sy'n seiliedig ar wybodaeth seicolegol er mwyn cryfhau'r gallu i gyflawni'r camau gweithredu.

575. Tynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) sylw at y ffaith y bydd angen i unrhyw ganllawiau, hyfforddiant a chyfranogiad mewn cynlluniau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i gyrff cyhoeddus gefnogi gweithredu gwrth-hiliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hefyd fod ar gael i'r gweithredwyr dan gontract y mae gyrff cyhoeddus yn gweithio gyda nhw. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y bydd angen mwy o adnoddau i hwyluso sgysiau rhwng darparwyr diwylliant a hamdden cyhoeddus a chymunedau ethnig amrywiol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau ar gael i helpu unrhyw sefydliad sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol i ddatblygu ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ei hun sy'n ystyried nod, cenhadaeth a gweledigaeth y sefydliad, y cyd-destun y maent yn gweithredu ynddo, a'u buddiolwyr.
576. Mynnodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) fod angen hyfforddiant ar staff ar draws pob sector ar sut i ddefnyddio cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn effeithiol. Weithiau gall dioddefwr trosedd, neu rywun sydd â chyflwr meddygol, deimlo wedi'i neilltuo o'i sgwrs ei hun gan y bydd pobl yn cyfeirio cwestiynau at y cyfieithydd ar y pryd. Mae angen ystyried pethau wrth ddod o hyd i gyfieithwyr, fel tafodieithoedd ac ati, a all fod yn rhwystrau, rhywbeth nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol ohono. Hefyd, mae'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyfleu yn bwysig iawn. Mae angen gallu cael gafael ar ddeunyddiau ysgrifenedig mewn sawl iaith, neu wybodaeth weledol. Mae hefyd angen edrych ar sut, ac i ble, y mae negeseuon yn cael eu hanfon. Er enghraifft, nid oedd hysbysebion teledu prif ffrwd / darllediadau newyddion i annog pobl i gael eu brechiadau COVID-19 yn taero deuddeg gyda rhai cymunedau Mwslimaidd sy'n derbyn eu gwybodaeth gan eu henaduriaid teuluol ac arweinwyr crefyddol, ffynonellau y maent yn ymddiried ynddynt. Felly mae gweithio gyda'r mentoriaid cymunedol, a sefydliadau llawr gwlad o ran cyfathrebu, trafod ac anfon negeseuon, yn hanfodol.
577. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 4+$), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$) fod yn rhaid i staff addysg yn eu crynswth gael eu hyfforddi mewn addysg gwrth-hiliol, rhagfarn bersonol, trawma hiliol a sut i ymateb a chefnogi, ac arweinyddiaeth gynhwysol, gan gynnwys athrawon, staff nad ydynt yn addysgu, athrawon dan hyfforddiant, llywodraethwyr a disgyblion. Rhaid i hyfforddiant o'r fath ddechrau yn y cyfnod sylfaen a rhaid ei gynnwys yn arolygiadau Estyn a bod yn rhan orfodol o hyfforddiant athrawon. Rhaid i hyfforddiant o'r fath fod yn barhaus ac nid yn beth untro, a rhaid i ddarparwyr allanol (sydd yn meddu ar arbenigedd mewn cydraddoldeb hiliol a phrofiad byw) gyflwyno'r hyfforddiant hwn. Dylai awdurdodau lleol dderbyn cyllid ar gyfer hyfforddiant ac athrawon cyflenwi er mwyn cydlunu'r hyfforddiant ar lefel leol neu ar lefel ranbarthol drwy'r consortiwm ranbarthol. Rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiadau cydraddoldeb blynyddol sy'n manylu ar yr hyfforddiant, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i wella profiadau plant ethnig leiafrifol. Bydd hyn i gyd yn cael effaith sylweddol ar gyllid, y dylid ei neilltuo at ddiben penodol yn unol â'r bwriad. Ychwanegodd un

bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) fod sawl siarter berthnasol a all helpu i gefnogi sefydliadau. O fewn Addysg Uwch, mae Advance HE yn darparu ambell enghraifft ragorol o arferion gorau yn y sector. Gall sefydliadau fel Busnes yn y Gymuned hefyd helpu i gefnogi hyn. Tynnodd un undeb llafur (n = 1) sylw hefyd, mewn perthynas â'r cwricwlwm ysgol newydd, at y ffaith nad yw'r adnoddau priodol ar gael ar hyn o bryd mewn llawer o feysydd pwnc a bod y deunyddiau sy'n bodoli yn aml yn anhygyrch oherwydd diffyg trefn glir ar Hwb. Mae angen i'r Cynllun nodi'r amserlenni ar gyfer hyfforddiant o'r fath a phryd y caiff hyfforddiant o'r fath ei ddarparu.

578. Dywedodd awdurdodau lleol (n = 2) fod angen rhaglenni hyfforddi wedi'u hariannu a'u safoni'n llawn arnynt a bod yn rhaid i'r rhain fod yn orfodol i'r holl staff, yn enwedig yn ystod y cyfnod sefydlu. Dylai'r data sy'n cael ei gasglu yn ystod yr hyfforddiant hwn gael ei adrodd yn ôl naill ai'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu drwy Adroddiadau Blynnyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae hyfforddiant yn ofynnol yn y meysydd canlynol i ddechrau; *Sut i ddefnyddio Gweithredu Cadarnhaol wrth recriwtio? Rhagfarn Ddiarwybod; Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb*. Dylai awdurdodau lleol wneud hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn orfodol a sicrhau bod prosesau clir ar waith ar gyfer cwynion yn erbyn cynghorwyr pan fydd cwynion am hiliaeth yn codi, yn ogystal â phrosesau i gefnogi cynghorwyr pan fydd hyn yn digwydd.
579. Mynnodd un awdurdod lleol (n = 1) y dylid cynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth mewn cyrsiau hyfforddi proffesiynol ar gyfer rolau fel Adnoddau Dynol, Swyddogion Cynllunio, Seicolegwyr, Cwnselwyr, Cofrestryddion, Swyddogion Gwasanaethau Cwsmeriaid, Swyddogion Cwynion a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. Dylai adnoddau ar gyfer hyfforddiant troseddau casineb fod yn gyson ledled Cymru i sicrhau ein bod yn rhaeadru'r un negeseuon. O ran data, mae angen cytuno ar gategorïau monitro cydraddoldeb a'u safoni er mwyn sicrhau bod data cyson yn cael ei gyhoeddi gan wasanaethau penodedig a bod modd gwneud cymariaethau ledled Cymru.
580. Roedd un awdurdod lleol (n = 1), un undeb llafur (n = 1) a sefydliadau iechyd (n = 2) yn gadarn o'r farn y dylai hyfforddiant i weithwyr iechyd, gofal cymdeithasol a gweithwyr tai hefyd fod yn orfodol ac yn rhan annatod o raglenni hyfforddi proffesiynol a gofyniad datblygiad proffesiynol parhaus. Yng nghyd-destun iechyd, mynnodd ymatebwyr fod yn rhaid i'r modiwl e-ddysgu 'Fy Nhrin yn Deg' gynnwys profiad bywyd a chwestiynau sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd i ysgogi ystyriaeth a dealltwriaeth. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) fod angen modiwl hyfforddiant gwrth-hiliaeth 'annibynnol' oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd cynnwys gwrth-hiliaeth o fewn y modiwl 'Fy Nhrin yn Deg' yn ddigonol. Dylai egwyddorion hyfforddiant gwrth-hiliaeth hefyd gael eu prif ffrydio o fewn hyfforddiant perthnasol arall, h.y. diogelu, polisi'r gweithlu ac ati. Mynnodd awdurdodau lleol (n = 2), sefydliadau iechyd (n = 2), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) fod yn rhaid hyfforddi staff clinigol hefyd i ddarparu gwasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol.

581. Awgrymodd un undeb llafur (n = 1) y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun gweithredu erbyn mis Mawrth 2022. Mae gweithredu yn digwydd mewn sawl ffurf, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i; Bil Gwrth-Hiliaeth, hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol i benaethiaid a gweithwyr, yn ogystal ag ymgorffori gwaith gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm ochr yn ochr â'r cwricwlwm Hanes Pobl Dduon.
582. Tynnodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) sylw at y ffaith y bydd adnoddau technolegol yn adnodd pwysig o fewn hyfforddiant gwrth-hiliaeth. Mynnodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid cael systemau a chronfeydd data digonol a phriodol i gasglu data ystyrlon a fydd yn ein galluogi i ddatblygu camau gweithredu a chanlyniadau. Rhaid buddsoddi yn y bobl iawn i gyflawni'r cynllun hwn, a rhaid iddynt gael yr adnoddau cywir i allu bwrw ymlaen â'r Cynllun hwn, gan gynnwys adnoddau ffisegol megis adeiladau neu ofod swyddfa, meddalwedd a systemau, ac adnoddau i gyflawni elfennau addysgol.

Cyllid:

583. Mynnodd sefydliadau iechyd (n = 4), awdurdodau lleol (n = 8), sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 5), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 7+), sefydliadau cymunedol (n = 1+), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 4), undebau llafur (n = 4) ac ymatebwyr unigol (n = 4) bod angen cyllid hirdymor, cynaliadwy wedi'i ddiogelu er mwyn datblygu'r camau gweithredu a'r nodau yn y Cynllun. Cafwyd cwestiynau ynghylch ffynhonnell yr arian a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu'r Cynllun. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei sefydlu a mynd i'r afael ag ef o'r dechrau er mwyn sicrhau bod y cyfle gorau gan y Cynllun i gyflawni'r nodau a ddymunir.
584. Dywedodd sefydliadau iechyd (n = 2), un undeb llafur (n = 1) ac un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) fod angen cyllid arnynt ar gyfer staff, hyfforddiant, gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a fersiynau hygyrch o'r holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys papurau'r bwrdd. Mae sefydliadau iechyd yn gofyn am adnoddau cydraddoldeb strategol ychwanegol ar gyfer GIG Cymru gyfan i gefnogi a chysylltu Byrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau wrth ymgorffori camau gweithredu gwrth-hiliaeth yn gyson ac i fynd i'r afael â rhwystrau wrth weithredu'n strategol h.y. casglu data ac adrodd. Mae hefyd angen gwella'r systemau a'r prosesau presennol ar gyfer casglu data. Mae angen cymorth ar gyfer adnoddau addysg a hyfforddiant ychwanegol ar draws y sefydliad hefyd er mwyn sbarduno codi ymwybyddiaeth drwy hyfforddiant gwrth-hiliaeth.
585. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) fod angen targedu ymdrechion recriwtio drwy rwydweithiau cymunedol a bod angen adnoddau ar Fyrddau Iechyd, megis Arweinwyr Allgymorth Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, i gadarnhau'r gwaith hwn. Byddai pennu gofyniad i bob Bwrdd Iechyd gael rôl o'r fath yn barhaus yn gymorth enfawr a byddai'n cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae hefyd angen mynediad mwy trefnus, o ansawdd uchel a chyson at wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Mae angen buddsoddiad ariannol i ddarparu hyfforddiant gwylwyr tawel gweithredol ar draws y sefydliad. Amlygir y gofyniad am gyllid ychwanegol yn yr adroddiad [‘Ethnic Health Inequalities and the NHS’](#) (Mehefin 2021).

Cafodd hwn ei olygu a'i gyhoeddi gan Arsyllfa Hil ac Iechyd y GIG a'i gomisiynu fel adroddiad annibynnol gan The King's Fund. Roedd negeseuon allweddol yr adroddiad yn cynnwys yr angen am:

- a. Mwy o fuddsoddiad mewn gwaith ymgysylltu â'r gymuned gyda chymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n ddiwylliannol gymwys – er mwyn meithrin cydberthnasau parhaus ac ymddiriedus rhwng gwasanaethau a chymunedau.
- b. Rhaid i'r GIG hefyd fuddsoddi mewn mesurau sy'n nodi ac yn targedu cymunedau sydd mewn mwy o berygl o iechyd gwael. Yn hollbwysig, rhaid i hyn gynnwys cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch atal sylfaenol diwylliannol gymwys sy'n targedu ffactorau risg fel gordewdra, deiet, ymarfer corff ac ysmygu, mewn strategaethau cenedlaethol a lleol sy'n adlewyrchu sbardunau strwythurol ac amgylcheddol y ffactorau risg hyn, megis amddifadedd a gwahaniaethu.

586. Tynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) sylw at y ffaith y bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddi staff. Bydd angen gwneud gwaith gyda rheolwyr system gwybodaeth rheoli Addysg Bellach i sicrhau bod data sylfaenol ar faterion sy'n berthnasol i'r Cynllun mor hawdd i'w nodi a'i gasglu â phosibl a'i fod yn gyson a chymaradwy ar draws y sector. Dylai unrhyw waith ychwanegol gael ei ariannu ac ni ddylid disgwyl iddo gael ei amsugno gan y sector Addysg Bellach, er mwyn sicrhau bod gwir allu i ymgymryd â'r agwedd bwysig hon ar y Cynllun. Er mwyn cyfathrebu ac ymgorffori'r Cynllun yn effeithiol ar draws sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yn ehangach, byddai angen buddsoddi adnoddau ymlaen llaw mewn staff a nodwyd er mwyn cyfleu gweledigaeth a nodau'r Cynllun a gweithio gydag eraill (staff, dysgwyr a rhanddeiliaid) ym mhob un o'r sefydliadau i ymgorffori'r Cynllun yn effeithiol mewn diwylliant, polisiau, systemau, cynlluniau a gweithdrefnau presennol.

587. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y bydd angen i bob corff cyhoeddus a gwleidyddol sicrhau capasiti cytunedig i gyflawni nodau'r Cynllun. Rhaid i'r capasiti hwn gynnwys amser i ddechrau i ddysgu sut i weithredu'r camau gweithredu a'r hyn y mae'r Cynllun yn ei olygu'n ymarferol, ynghyd ag amser staff cyflogedig, yna amser ac arian i sicrhau y caiff yr holl gamau gweithredu eu rhoi ar waith. Dylai fod o leiaf un aelod o staff ym mhob adran sy'n gyfrifol am oruchwylio hyn.

588. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) y dylai cyrff ariannu ymgysylltu â'r grwpiau ethnig lleiafrifol ar lawr gwlad am nad oes ganddynt brofiad o sut i ysgrifennu ceisiadau am gyllid yn y dull Gorllewinol. Yn ogystal, tynnodd un awdurdod lleol ($n = 1$) sylw at y ffaith y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid yn ymestyn i grwpiau ymylol nad ydynt fel arfer yn cael cyllid. Nododd un sefydliad arall ($n = 1$) ymhellach y dylid pennu targedau a thryloywder ar draws unrhyw gorff sy'n derbyn arian cyhoeddus o safbwynt rhoi cyfrif am sut y caiff cyllid ei wario (yr holl gyllid, nid dim ond dyraniadau penodol ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu) mewn perthynas â phobl ethnig lleiafrifol. Byddai peidio â gwneud hynny yn peri'r risg o ddelio â thangynrychiolaeth drwy gynlluniau neu ymyriadau wedi'u targedu yn unig. Mae lle a gwerth i'r rheini, ond ni ddylent ddisodli atebolrwydd ehangach a gallu

cyfartal i gael gafael ar bob rhaglen / ffrwd ariannu / cyfleoedd gwaith ac ati.

589. Hoffai un undeb llafur (n = 1) ystyried creu swydd Comisiynydd Cydraddoldeb Hiliol – gan dynnu sylw at y ffaith bod proffil rolau Comisiynwyr eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi caniatáu statws a chraffu ar faterion allweddol, yn ogystal ag arbenigedd sy'n benodol i rôl y Comisiynydd. Mae'n hanfodol bod y bobl iawn yn ymgymryd â phenodi i swydd o'r fath a byddai angen trafodaeth bellach ar gylch gwaith y rôl. Dylai rôl y Comisiynydd fod â phwerau tebyg i rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn a Phlant. Mae'n bwysig gwrandao ar gymunedau Du ynghylch pwy ddylai gael eu hystyried ar gyfer swydd o'r fath, a byddem yn galw am i'r rôl fod 'i'r bobl, gan y bobl'. Mae gan rai cymunedau henaduriaid adnabyddus ac uchel eu parch a fyddai'n naturiol addas ar gyfer rôl o'r fath.
590. Mynnodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) y dylai Llywodraeth Cymru ariannu mwy o ganolfannau cynghori, clybiau ieuenctid a chymorth cyfreithiol yn ogystal ag ariannu'r gwasanaeth mewnfudo i fynychu canolfannau cynghori i helpu. Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru gael ei dull ei hun o ymdrin â deddfwriaeth gan y Swyddfa Gartref a gwneud rhywbeth i wrthbwysio effaith deddfwriaeth sy'n dod o San Steffan.
591. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd.
592. Gofynnodd un sefydliad arall (n = 1) pa gyllid sydd ar gael i fusnesau a sefydliadau cymunedol a fydd yn cynorthwyo gyda'r Cynllun hwn. Mynegwyd her ynghylch tegwch llywodraeth sy'n cynnwys dynion Gwyn yn bennaf sy'n gwneud penderfyniadau ar ran pobl o liw. Roeddent hefyd yn cwestiynu a oes gan Lywodraeth Cymru gyfeiriadur cynhwysfawr o'r holl sefydliadau ac elusennau cymunedol sy'n eiddo i bobl o liw neu sy'n cael eu harwain ganddynt, sydd eisoes yn ymgymryd â'r gwaith a nodwyd yn y Cynllun hwn. Holodd un awdurdod lleol (n = 1) a oedd asesiad o oblygiadau ariannol cyflawni'r Cynllun wedi'i gynnal. Holodd un awdurdod lleol (n = 1) hefyd a fyddai adnoddau ychwanegol ar gael, neu a fydd disgwyl i hyfforddiant a chymorth ddod o gyllidebau presennol.
593. Er mwyn cefnogi nodau tymor hwy y CGCH, dywedodd un awdurdod lleol (n = 1) y dylai cyllid ar gyfer gwaith y tîm Cydlynu fod yn fwy hirdymor. Ar hyn o bryd, cyllid tymor byr yw hwn sydd i fod i ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2022. Cwestiynwyd a oedd lle i ymgorffori'r gwaith hwn ymhellach drwy gael Cydlynnydd / Swyddog ym mhob awdurdod lleol yn hytrach nag un tîm bach yn cwmpasu ardaloedd pedwar awdurdod lleol. Mae angen i'r Cynllun gynnig sicrwydd bod y cyllid a'r gwasanaethau sydd ar gael drwy raglen grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn y dyfodol yn hygyrch i ardaloedd gwledig Powys.

C6. Ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriad hil â nodweddion gwarchodedig eraill megis crefydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, rhyw, a statws priodasol a phartneriaeth sifil? Os na, sut y gallwn wella hyn?

594. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 14+), sefydliadau ieuchyd (n = 3), sefydliadau sector cyhoeddus (n = 9), un corff ariannu (n = 1), undebau llafur (n = 4), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), awdurdodau lleol (n = 7), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), ymatebwyr unigol (n = 9) a sefydliadau cymunedol (n = 2+) wedi cynnig sylwadau ar gwestiwn 6. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad yw'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol â'r croestoriad rhwng hil â nodweddion gwarchodedig eraill. Mae ymatebwyr yn teimlo'n gryf nad yw'r Cynllun yn manylu ar brofiadau pobl ethnig leiafrifol sy'n meddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig. Mae ymatebwyr wedi tynnu sylw at sut mae'r Cynllun yn methu ag archwilio'r croestoriadau rhwng hil a rhyw, hil a chrefydd, hil ac oedran, hil a chyfeiriadedd rhywiol a / neu hunaniaeth o ran rhywedd a hil ac anabledd. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at feysydd penodol yn y Cynllun lle mae trafodaethau croestoriadol ar goll ac yn honni bod yn rhaid ymhelaethu ar yr ardaloedd hyn o safbwynt croestoriadol. Mae ymatebwyr hefyd yn teimlo'n gryf bod yn rhaid gwreiddio croestoriadedd drwy'r Cynllun cyfan, nid ei gyfyngu i un adran yn unig.
595. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod y Cynllun yn gadarn o ran cydnabod pwysigrwydd dulliau croestoriadol. Dywedodd sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 7), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 10+), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 3+), sefydliadau cymunedol (n = 2+), sefydliadau ieuchyd (n = 3), un corff ariannu (n = 1), undebau llafur (n = 3), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), awdurdodau lleol (n = 5) ac ymatebwyr unigol (n = 7) nad yw'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol â'r croestoriad o hil â nodweddion gwarchodedig eraill. Mae hunaniaeth yn ymwneud â mwy na hil yn unig a bydd profiadau menyw Ddu, person anabl Du, neu berson LGBTQ+ Du, er enghraifft, yn amrywio'n fawr. Dim ond newid ar lefel arwynebol a ddaw yn sgil mynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol heb ganolbwyntio ar agweddau eraill ar hunaniaeth, a bydd yn cynyddu'r perygl o ffyrdd ynysig parhaus o weithio. Ni ddylai pobl orfod dewis blaenoriaethu un rhan o'u hunaniaeth dros un arall – dylent allu bod yn nhw'u hunain yn llwyr. Rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull croestoriadol clir a chadarn o ymdrin â hiliaeth sy'n ystyried pob agwedd ar hunaniaeth er mwyn sicrhau newid hirdymor cynaliadwy a chyflawni'r nodau a ddymunir yn y Cynllun. Nododd un ymatebydd unigol (n = 1) ac un awdurdod lleol (n = 1) y risg o greu bylchau pellach mewn cymunedau drwy ddefnyddio adnoddau ar gyfer un nodwedd warchodedig benodol yn hytrach na mabwysiadu dull cyfannol.
596. Holodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) pam mae'r Cynllun yn cael ei alw'n "wrth-hiliaeth", yn hytrach na "gwrth-wahaniaethu", o ystyried bod y term olaf yn fwy croestoriadol a chynhwysol ac nad yw'n pennu hil fel y ffactor sy'n gyfrifol am anfantais. Nododd un sefydliad trydydd sector (n = 1) nad yw'r Cynllun yn rhoi diffiniad cynhwysfawr o'r hyn a olygir wrth groestoriadedd a sut y mae wedi, a sut y bydd yn effeithio ar ddrafftio a gweithredu'r Cynllun. O ystyried pa mor bwysig yw'r egwyddor hon o ran sicrhau llwyddiant y Cynllun, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei

gynnwys yn y dechrau. Lle sonnir am groestoriadedd yn ddiweddarach yn y Cynllun, disgrifir yr egwyddor, ond dylid gwneud hyn ar y dechrau, wrth nodi gwerthoedd, nodau a gweledigaeth y Cynllun yn gyffredinol. Heb hyn, nid yw'n teimlo bod croestoriadedd wedi effeithio'n wirioneddol ar y Cynllun cyfan.

597. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod y Cynllun yn ymddangos braidd yn brin o ran croestoriadedd. Er enghraifft, nid yw'r meysydd polisi Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth a Llywodraeth Leol yn sôn yn benodol am groestoriadedd yn eu gweithredoedd, er gwaethaf yr un cam gweithredu (allan o 39) o dan Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth sy'n cyfeirio at "...y% o'r bobl a gaiff eu recriwtio gennym yn bobl ethnig leiafrifol, gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y rhywiau," a dau gam gweithredu (allan o 18) o dan Llywodraeth Leol yn sôn am ryw, ochr yn ochr ag un yn sôn am oedran mewn perthynas â dadansoddi ac ymgynghori. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1), ar gyfer pob cam gweithredu drwy gydol y Cynllun lle y sonnir am bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, bod angen gofyn y cwestiwn: "beth mae hyn yn ei olygu i groestoriadedd?" Er enghraifft, y cam gweithredu ar dudalen 61 sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol: "*Byddwn yn bwrw ati i gynllunio cymorth datblygu arweinyddiaeth a chyfleoedd i annog pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gweithlu gofal cymdeithasol i ymgymryd â rolau rheolwyr canol...*" Er mwyn i'r cam gweithredu hwn fod yn ystyrlon, mae'n rhaid cydnabod croestoriadedd o fewn y gweithlu er mwyn arwain at newid mwy parhaol.

598. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) hefyd fod mannau ychwanegol yn y Cynllun lle mae angen ystyried croestoriadedd, yn enwedig rhwng grwpiau hiliol a chrefyddol sydd wedi cael eu lleiafrifoli. Er enghraifft, nid oes sôn am effaith yr agenda Prevent ar grwpiau crefyddol lleiafrifol a'r croestoriad â lleiafrifoedd ar sail hil. Cydnabyddir bod Prevent yn fater a gadwyd yn ôl, ond mae atgyfeiriadau i Prevent, i raddau helaeth, yn dod gan sefydliadau datganoledig (yn enwedig addysg ac iechyd). Dylai'r Cynllun felly sicrhau bod hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar 'ddyletswydd Prevent' yn wrth-hiliol er mwyn mynd i'r afael â'r camddefnydd bwriadol neu anwybodus o Prevent i ymleiddio poblogaethau sydd wedi cael eu lleiafrifoli ymhellach, ac i Prevent gydnabod, ymateb i, a lleisio graddfa radicaleiddio asgell dde eithafol. Dylai gwreiddio diwylliant o ddim goddefgarwch a gwrthsefyll hiliaeth sefydliadol gynnwys diffinio'r angen i weithredu ar adroddiadau am droseddau casineb hiliol ac anghyfiawnder fel mater o bolisi cymdeithasol. Yn ogystal, roedd pryderon nad yw llawer o'r Asesiad Effaith integredig wedi'i gyhoeddi, gan ei gwneud yn anodd gweld sut (er enghraifft) y cynrychiolwyd grwpiau crefyddol ethnig leiafrifol, y mae croestoriadedd yn effeithio'n fawr arnynt yn aml, ar y grŵp llywio ac wrth ymgysylltu. Yn ogystal, nododd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) fod angen mynd i'r afael yn well â'r croestoriad rhwng ethnigrwydd a chrefydd, er enghraifft, anghenion crefyddol penodol, megis yr angen am drefniadau gweithio hyblyg ychwanegol yn ystod Ramadan.

599. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) ac un ymatebydd unigol (n = 1) y dylai'r Cynllun gydnabod y ffyrdd y mae profiadau ceiswyr lloches LGBTQ+ yn cael eu dwysáu gan anghydraddoldebau cyfeiriadedd hiliol a rhywiol sy'n croestorri â'i gilydd. Er enghraifft, mae rhai ceiswyr lloches LGBTQ+ wedi cael eu cartrefu mewn llety anaddas, gan rannu gyda phobl nad ydynt yn derbyn eu hunaniaeth. Mae rhai

achosion wedi arwain at droseddau casineb, trais corfforol a bygythiadau. Dylai'r Cynllun hefyd gydnabod ymhellach effaith croestoriadedd yn yr adran gofal iechyd: mae menywod Du bum gwaith yn fwy tebygol o ddioddef marwolaeth yn y cyfnod beichiogrwydd neu eni a menywod Asiaidd ddwywaith yn fwy tebygol, o gymharu â menywod Gwyn yn y DU. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod data penodol i Gymru yn bodoli ynghylch hyn. Dylai Llywodraeth Cymru felly sicrhau bod data wedi'i ddadgyfuno yn ôl grŵp ethnig a bwrdd iechyd ynghylch hyn yn cael ei gasglu ac ar gael i'r cyhoedd.

600. Dywedodd sefydliadau iechyd ($n = 3$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) a sefydliadau'r trydydd sector ($n = 3$) y dylid ystyried ymgorffori croestoriadedd o fewn y dull o ddadgyfuno data er mwyn sicrhau bod ymchwil a chasglu data yn gallu llywio ymarfer. Dylid mynd i'r afael â chasglu data fel blaenoriaeth ar lefel y gweithlu ac ar lefel y boblogaeth. O'r rhai a ofynnwyd gan fudiad Ethnic Minority Women in Welsh Healthcare, dywedodd 82 y cant y dylid casglu a defnyddio data ar hil ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig eraill ar gyfer datblygu gwasanaethau.
601. Roedd sefydliadau iechyd ($n = 2$), sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$), un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$) yn gadarn o'r farn y dylai croestoriadedd fod yn rhan o hyfforddiant a bod yn rhaid i hyfforddiant o'r fath ddigwydd yn rheolaidd, nid fel peth untro, ac y dylai'r rhai sydd â phrofiad bywyd ei ddarparu.
602. Mynnodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$) y dylai'r Cynllun geisio sicrhau bod yr un pwys yn cael ei roi i'r holl nodweddion gwarchodedig. Mae angen mwy o bwyslais ar groestoriadedd ar draws gwahanol nodweddion gwarchodedig yn unol ag amcanion cydraddoldeb cenedlaethol; byddai hyn yn lliniaru'r ffaith bod anghydbwysedd yn y gefnogaeth i un nodwedd warchodedig dros un arall, yn hytrach na mynd i'r afael â materion yn gyfannol.
603. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$) ac un sefydliad iechyd ($n = 1$) fod angen i'r Cynllun ystyried y croestoriad rhwng hil ac anabledd yn llawnach. Os nad yw rhywun yn siarad Saesneg, a bod ganddynt nam sy'n effeithio ar y clyw neu'r lleferydd hefyd, bydd anghenion ychwanegol. Nid yw 56 y cant o'r rhai a arolygwyd gan Gwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani yn teimlo bod y CGCH yn cynnwys hil a nodweddion eraill a ddiogelir yn gyfreithiol mewn modd priodol; nid yw 57 y cant yn teimlo bod y CGCH yn cynnwys anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd mewn ffordd briodol.
604. Roedd sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) yn siomedig nad yw'r Cynllun yn grymuso menywod ethnig lleiafrifol. Rhoddodd un undeb llafur ($n = 1$) enghreifftiau o groestoriadedd yn seiliedig ar brofiad aelodau, a oedd yn cynnwys tanbrizio'r gwaith mewn sectorau lle mae menywod, gan gynnwys menywod ethnig lleiafrifol, yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn swyddi cyflog isel a swyddi achlysurol. At hynny, mae menywod ethnig lleiafrifol a mudol yn profi cyfraddau uwch o gam-drin domestig a thrais (mae'r cyfnod clo wedi gwaethygu'r sefyllfa). Yn ogystal, mae aelodau ethnig

lleiafrifol sydd hefyd yn nodi eu bod yn LGBTQ+ a / neu'n anabl, yn wynebu rhwystrau ychwanegol a lefelau uwch o wahaniaethu. Dywedodd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) ymhellach fod anabledd wedi'i nodi fel maes penodol i'w ddeall yn well o ystyried y perygl ychwanegol a nodwyd ynghylch troseddau rhywiol yn benodol, a sut mae hynny'n croestorri â hil. Tynnodd ymatebwyr unigol (n = 3) sylw hefyd at y ffaith nad yw'r Cynllun yn cynnwys y rhai sy'n fyddar a'r rhai sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Teimlai ymatebwyr hefyd nad yw'r Cynllun yn sôn llawer am anghenion pobl LGBTQ+ sydd hefyd yn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan fynnu bod yn rhaid i'r Cynllun roi mwy o ystyriaeth i bobl sy'n meddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig – e.e. y rhai sydd o gefndir ethnig leiafrifol ac sydd hefyd yn niwroamrywiol / byddar / anabl / uniaethu fel LGBTQ+.

605. Roedd un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn teimlo bod y modd y mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â chroestoriadedd yn dameidiog, yn hytrach na bod dull sy'n bwydo drwy'r Cynllun cyfan. Er enghraifft, cyfeiriad byr sydd i hunaniaethau LGBTQ+ yn adran addysg a thai'r Cynllun. Dywedodd ymatebwyr nad yw'n glir sut yr ymgynghorwyd â phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol LGBTQ+ wrth ddatblygu'r Cynllun, nac os digwyddodd hynny o gwbl. Gan dybio nad yw'r ymgysylltu hwn wedi digwydd eto, mae ymatebwyr yn argymhell bod y gwaith ymgysylltu hwn yn digwydd er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn ogystal â'r profiadau byw a amlygwyd yn y Cynllun yn cynrychioli'r unigolion hyn. Byddai'r ymgysylltu hwn hefyd yn helpu i bontio'r bwlch ymchwil o ran deall profiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol LGBTQ+ yng Nghymru. Er mwyn bod yn wirioneddol groestoriadol, y ffordd y rhoddir cyfrif am drawstoriad hunaniaeth person yn gyhoeddus, mynnodd ymatebwyr ymhellach na ellir fforddio i'r cynlluniau hyn ddigwydd mewn ffordd ynysig.

606. Cydnabu sefydliadau'r trydydd sector (n = 2), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un undeb llafur (n = 1) fod Llywodraeth Cymru hefyd yn y broses o ddatblygu cynllun gweithredu LGBTQ+ a strategaeth newydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i Gymru. Mynnwyd y bydd cydweddu rhwng y cynlluniau a'r strategaethau hyn yn hanfodol er mwyn casglu nodweddion croestoriadol a'r rhwystrau y mae'r rhain yn eu creu, yn ogystal â nodi cymorth ac atebion ar gyfer cydweithio ar draws meysydd. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) sylw hefyd at y ffaith y bydd yn bwysig i'r mentrau hyn ddilyn yr un mecanweithiau er mwyn sicrhau atebolrwydd a mesur llwyddiant. Croesawodd un undeb llafur (n = 1) archwiliad pellach o groestoriadedd o fewn Cynllun Gweithredu LHDTG+ Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill yn ogystal â'r cyfleoedd i ymgysylltu ymhellach â phobl a grwpiau pobl a grwpiau pobl anabl, iau, hŷn, beichiog a phobl LGBTQ+ Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i archwilio sut y gall y Cynllun fynd i'r afael â'r materion penodol sy'n codi o'u croestoriadau. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) hefyd fod angen i hyfforddiant yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ar gyfer ymarferwyr ac ar gyfer cymunedau, gynnwys (yn dyner a than arweiniad y cymunedau eu hunain lle bynnag y bo modd), ystyriaethau o berthnasoedd LGBTQ+, yn ogystal â phriodas a chrefydd.

607. Mynnodd un awdurdod lleol (n = 1) fod angen i'r Cynllun gydnabod y gall menywod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fod o dan anfantais fawr os ydynt

yn dod i mewn i'r wlad ar fisa eu priod ac nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus ohonynt eu hunain. Yn aml, mae ganddynt blant ac felly nid ydynt yn cronni digon o amser yn y gweithle i gael yr hawl i gael cymorth gan y sector cyhoeddus ac mae hyn yn eu gadael yn agored iawn i gael eu cam-drin. Mae'n hanfodol bod menywod yn cael eu hystyried yn gyfartal, waeth beth fo'u statws mewnfudo, gan y gall effeithio ar eu hawliau o ran gofal cymdeithasol, iechyd ac ati. Gall hefyd beri anhawster os ydynt yn ceisio cymorth i'w plant gan y gwasanaethau cymdeithasol.

608. Dywedodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) fod angen mwy o eglurder o ran sut mae hil yn croestorri â'r nodweddion gwarchodedig eraill. Gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac iechyd meddwl, mae angen mwy o ffocws ar anghenion gwahanol grwpiau. Mae stigma iechyd meddwl yn fwy cyffredin mewn cymunedau ethnig lleiafrifol, hyd yn oed yn fwy felly os ydych yn ychwanegu nodweddion eraill fel cyfeiriadedd rhywiol ac ati.
609. Dywedodd un awdurdod lleol ($n = 1$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) nad yw'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriadedd o ran addysg ac nad oes cyfeiriad at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn yr adran ar Addysg. Mae angen mwy o enghreifftiau o brofiad bywyd, gwybodaeth a thystiolaeth i godi ymwybyddiaeth o effaith groestoriadol.
610. Dywedodd asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 3+$) fod oedran a hil yn ffactorau arbennig o bwysig o ran gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol, gan fod pobl ifanc Du Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cyfrif am 52 y cant o blant yn y ddalfa. Mae angen mwy o bwyslais ar groestoriadau rhwng hil ac oedran ac y gellid cynnwys mwy yn ymwneud â phobl ifanc yn yr adran cyfiawnder troseddol – e.e. ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid fabwysiadu dull hawliau plant o gynnwys pobl ifanc mewn ymgysylltu. Dylai'r Comisiynydd Plant fod yn rhan o'r ymgynghoriad ynghylch yr adran cyfiawnder troseddol os nad yw hynny eisoes yn digwydd. Dylai mynd i'r afael ag anghymesuredd a'r ymateb i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol gael ei gynnwys mewn ffordd gyfannol ar draws Cynllun Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Mae'r system gyfiawnder yn peri problemau penodol i Fenywod, a'r cyfleoedd drwy'r Glasbriant Troseddwyr Benywaidd i sbarduno newid i gefnogi menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol neu sydd wedi gwneud hynny eisoes.
611. Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) sylw at y ffaith y bydd rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran hefyd yn ffactor sy'n effeithio'n negyddol ar fywydau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. O'r herwydd, rhaid cynnwys mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â hiliaeth a rhagfarn ar sail oedran o fewn y camau gweithredu a nodwyd yn erbyn y nodau penodol yn y Cynllun, yn ogystal â'u hadlewyrchu drwy'r CGCH yn ehangach.
612. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) y dylai'r Cynllun gynnwys ffyrdd eraill o fyw – e.e. goth a dyneiddiaeth fel cred.

613. Tynnodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) sylw at y ffaith bod llawer o gynlluniau'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ar draws gwahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig, sy'n beth cadarnhaol, ond bod angen eu mynegi fel naratif cydgysylltiedig ac ymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol ar draws y llywodraeth. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol wedi'i ohirio ond mae hyn yn allweddol i gyflawni'r CGCH hefyd gan fod llawer o faterion croestoriadol.

C7. Gweler yr adran Llywodraethu. Pa awgrymiadau allwch chi eu cynnig ar gyfer mesur llwyddiant wrth greu Cymru wrth-hiliol ac ar gyfer cryfhau atebolrwydd am weithredu?

614. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 10+$), asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 2+$), sefydliadau iechyd ($n = 7$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 16+$), un corff ariannu ($n = 1$), undebau llafur ($n = 5$), awdurdodau lleol ($n = 4$), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg ($n = 4$), ymatebwyr unigol ($n = 9$), sefydliadau cymunedol ($n = 2+$) a sefydliadau eraill ($n = 2$) wedi cynnig sylwadau ar gwestiwn 7.

Beth sydd ar goll o'r adran hon:

615. Roedd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 8$), sefydliadau iechyd ($n = 4$), ymatebwyr unigol ($n = 3$), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 2+$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 3+$) ac un sefydliad arall ($n = 1$) yn tynnu sylw at y ffaith mai prin yw'r manylion am strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer craffu ar weithredu'r CGCH. Roedd cynnwys y Cynllun drafft yn amwys iawn. Roedd pryderon nad yw'r Cynllun yn rhoi digon o gyfrifoldeb ac atebolrwydd ar awdurdodau statudol yn hytrach nag ar bobl a grwpiau sydd wedi cael eu lleiafrifoli ar sail ethnigrwydd. Heb fframwaith ar gyfer rheoleiddio, cyfrifoldeb priodol, a defnyddio data i ddangos tystiolaeth, hysbysu, creu a sbarduno diwylliant o newid, nid yw'n glir y bydd y Cynllun yn arwain at newid ystyrlon. Mae angen newid diwylliant – sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur hyn? Er mwyn i'r Cynllun gael y siawns fwyaf o lwyddo, awgrymwyd fod yn rhaid cael sylfaen o ddyletswydd gyfreithiol i'r camau gweithredu, gyda llwybrau atebolrwydd clir, neu mae'n rhy hawdd anwybyddu'r camau gweithredu a'r argymhellion fel arall. Mae angen ymgorffori atebolrwydd gwirioneddol o'r brig yn y drafodaeth onest hon am anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru a sut y gall pethau wella – dim ond wedyn y gallwn sicrhau Cymru 'wrth-hiliol'. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu strwythurau ac adnoddau llywodraethu clir i sicrhau goruchwyliaeth gadarn a chyflawni'r camau gweithredu yn y CGCH yn llwyddiannus. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth fonitro ddigonol, gan gynnwys casglu data monitro ar weithredu'r CGCH a'i effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae angen data i sefydlu manau cychwyn fel bod modd mesur cynnydd, ac mae cadw cofnodion priodol yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn meithrin hyder yn y data sy'n sail i ddatblygiad polisi ac y caiff ei fesur yn ei erbyn. Dylai'r Cynllun nodi nodweddion llwyddiant a sut y caiff ei fesur a'i asesu, oherwydd er mwyn gallu dwyn sefydliadau i gyfrif, mae angen iddynt wybod beth sy'n cael ei ddisgwyl ganddynt, nodweddion gweithredu llwyddiannus, ac y bydd yr atebolrwydd yn digwydd mewn ffordd

gyhoeddus. Bydd y trefniadau llywodraethu a rheoli sy'n rhan o'r Cynllun hwn yn gwbl allweddol, a bydd angen ystyried hyn yn ofalus, neu mae posibilrwydd y daw'r Cynllun yn gynllun strategol arall sy'n edrych yn wych ar bapur ond nad yw'n cyflawni.

616. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$), un sefydliad ieuchyd ($n = 1$) a sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$) ymhellach fod yn rhaid i'r Cynllun hwn fod yn Gynllun cyson a pharhaus sy'n cael ei ymgorffori mewn sefydliadau, yn hytrach na thicio blwch. Rhaid i atebolrwydd fod yn seiliedig ar ganlyniadau a newidiadau sylweddol / ystyrion yn hytrach na nifer y gweithdrefnau a / neu dicio blychau yn unig. Mynnodd ymatebwyr y dylid cynnal asesiadau effaith yn gynnar gyda'r bwriad o flaenoriaethu effeithiau cadarnhaol yn hytrach na lliniaru effeithiau negyddol.
617. Roedd sefydliadau ieuchyd ($n = 4$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) yn gadarn o'r farn y dylid cael dull CAMPUS gyda cherrig milltir chwarterol a thargedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ganiatáu ar gyfer atebolrwydd clir a llinellau adrodd. Ar hyn o bryd, mae gormod o'r camau gweithredu yn y Cynllun wedi'u geirio'n llac. Dylai'r dull o ymdrin ag atebolrwydd fod yn seiliedig ar fframwaith sy'n cynnwys yr amcanion a nodir yn y Cynllun. Dylid lansio fframwaith a mesurau atebolrwydd o'r fath ar yr un pryd â'r Cynllun i roi eglurder o'r cychwyn cyntaf. Bydd angen cysoni'r fframwaith atebolrwydd â fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd sy'n benodol i'r sector, gan gynnwys cyrff arolygu. Mynnodd ymatebwyr fod yn rhaid i fframweithiau atebolrwydd o'r fath gael cyfres o ganlyniadau realistig a mesuradwy, a bod yn rhaid i'r rhain fod yn realistig i'r ddemograffeg leol. Rhaid hefyd eu datblygu ar y cyd â'r rhai sy'n gorfod cyflawni'r camau gweithredu, e.e. awdurdodau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol o safbwynt llywodraethu i ddeall beth sydd o fewn eu gallu i sicrhau bod y camau gweithredu yn y Cynllun yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) y byddai sefydliadau'n elwa ar fframwaith cytûn i feincnodi eu gwasanaethau a sicrhau bod rhywfaint o gysondeb cenedlaethol, tra'n ystyried yr angen am rywffaint o hyblygrwydd er mwyn gallu darparu atebion a phrosesau wedi'u teilwra. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y byddai model 'Stonewall' o feincnodi yn hytrach na safonau / asesu, ynghyd ag adborth a chymorth ystyrion ar weithredoedd a chynnydd sefydliad, yn fwy effeithiol. Byddai'r elfen o gystadleuaeth mewn cynllun o'r fath hefyd yn sbarduno'r awydd am newid.
618. Eglurodd awdurdodau lleol ($n = 2$), un sefydliad ieuchyd ($n = 1$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) a sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 4+$) fod amrywiaeth o ddangosyddion sy'n dangos crynswth effaith lefelau'r anfantais hiliol sy'n bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau tlodi, anghydraddoldeb ieuchyd, marwolaeth wrth roi genedigaeth, cyrhaeddiad addysgol, cynrychiolaeth mewn gweithluoedd ac ar fyrddau / ar lefelau uwch, lefelau diweithdra, lefelau carcharu, canlyniadau gwaeth gyda systemau cyfiawnder troseddol gan gynnwys marwolaeth yn dilyn cyswllt â'r heddlu, adborth defnyddwyr gwasanaethau, lefelau uwch o anfonlonrwydd gyda darpariaeth gwasanaethau, dioddefwyr troseddau casineb. Bydd gostyngiadau yn y tueddiadau yn y mesurau hyn yn dangos bod profiad bywyd grwpiau sydd wedi cael eu lleiafrifoli yn gwellu.

619. Mae sefydliadau iechyd ($n = 2$), un awdurdod lleol ($n = 1$), un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) yn tynnu sylw at y ffaith bod natur eang y CGCH a'i amserlenni eang presennol yn ei gwneud yn anodd monitro gweithrediad yn effeithiol. Rhaid i'r Cynllun ddwyn sefydliadau i gyfrif mewn perthynas â'u data cydraddoldeb a chyflogaeth, gan gynnwys eu cyfraddau recriwtio a chynnydd ethnig a'r bwlch cyflog ethnigrwydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn rhoi gormod o gyfle i gyflogwyr, awdurdodau statudol ac ati fwrw ymlaen â'r Cynllun heb atebolrwydd effeithiol. Nid yw polisi'n golygu dim heb ei weithredu, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osgoi sefyllfa lle caiff cyflogwyr ac awdurdodau statudol eu monitro yn erbyn y Cynllun hwn ymhen pum mlynedd, a chanfod na welwyd unrhyw gynnydd, neu ddim ond ychydig o gynnydd. Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi siom ynghylch diffyg amserlenni yn y Cynllun presennol. Rhaid i fesurau atebolrwydd fod ar waith yn gynnar, ac wedi'u hatgyfnerthu gan archwiliad, a rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn dryloyw ynghylch pa mor bell a pha mor gyflym y mae'n barod i fynd i wneud Cymru'n wrth-hiliol gan fod effaith hiliaeth ar fywydau pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol ar lefel argyfyngus. Dylai pob cyflogwr ac awdurdod statudol fod â rheolwr atebolrwydd hiliol, gyda chronfa ddata atebolrwydd hiliol fel rhan o'r protocol. Awgrymwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys atebolrwydd mewn disgrifiadau swydd ac ym mesurau perfformiad uwch weision sifil er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu yn y Cynllun hwn yn cael eu cyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod y seilwaith a'r adnoddau hyn fel gofynion brys a'u cefnogi drwy fuddsoddiad priodol. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at rôl allweddol cyrff rheoleiddio / arolygu yn hyn oll – e.e. dylai Estyn fesur perfformiad ysgolion o ran dad-drefedigaethu'r cwricwlwm, darparu hyfforddiant perthnasol i athrawon, trin a chofnodi digwyddiadau hiliol yn effeithiol; dylid craffu ar gyrff tai o ran gweithredoedd a chynnydd landlordiaid cymdeithasol wrth amrywio eu gweithlu a'u byrddau a dyrchafu gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i swyddi uwch.
620. Mynegwyd pryder gan sefydliadau iechyd ($n = 2$), un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), sefydliadau cymunedol ($n = 2+$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un ymatebydd unigol ($n = 1$) nad yw'r Cynllun yn amlinellu beth fydd y canlyniadau os nad yw'r camau gweithredu a nodir yn cael eu cyflawni, a pha sancsiynau, os o gwbl, a fyddai'n cael eu gosod ar sefydliadau sy'n methu â chyflawni eu gweithredoedd neu pa gymhellion a gynigir i'r sefydliadau hynny sy'n cyrraedd eu targedau. Derbyniwyd awgrymiadau i greu sefydliad annibynnol ar wahân (a allai gael ei letya gan gorff sefydledig) i sicrhau craffu ac atebolrwydd annibynnol. Yn ogystal, mae angen tynnu sylw at agweddau cadarnhaol a chynnydd drwy astudiaethau achos ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau cymunedol ac ati.
621. Nododd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) y dylai'r adran lywodraethu egluro dull strategol Llywodraeth Cymru o gydlynw gwaith ar bob cynllun sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol, er mwyn sicrhau synergedd, cydweddu a chydabyddiaeth o groestoriadedd ac er mwyn osgoi unrhyw risg neu ganfyddiad o hierarchaeth o gydraddoldebau. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith cenedlaethol ar gyfer gweithredu, adrodd a chynnal gwaith dilynol – trefn drawslywodraethol sefydlog i sicrhau dull cydlynol ac effeithlon o ymgysylltu ag

adolygiadau hawliau dynol a darparu atebolrwydd cryfach am oruchwylio'r gwaith o weithredu rhwymedigaethau hawliau dynol. Mae hyn yn debyg i draciwr hawliau dynol ar-lein y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a sefydlwyd i wella atebolrwydd, tryloywder a dealltwriaeth o rwymedigaethau hawliau dynol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys o dan CERD.

622. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) a sefydliadau'r trydydd sector (n = 2) er bod Gwerth 2 – Seiliedig ar hawliau (tud. 26) i'w groesawu, dylid cryfhau'r adran hon gyda chydabyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar Sail Hil (CERD) sydd wedi'i gadarnhau gan y llywodraeth ac sy'n destun adroddiadau cyfnodol, ac ymrwymiad i'w wireddu. Mae'r Rhaglen Lywodraethu newydd yn nodi ymrwymiad i weithredu dau gytundeb ategol gan y Cenhedloedd Unedig sy'n canolbwyntio ar fenywod (CEDAW) a phobl anabl (CRPD) i ddatblygu ei agenda hawliau dynol a chydaddoldeb, ond nid oes cyfeiriad at CERD yn yr adran hon o'r Cynllun (er ei fod yn ymddangos mewn mannau eraill). Dylid cyflwyno [Adroddiad Cysgodol NGO ar y Cyd ar Anghydraddoldeb Hiliol yng Nghymru 2021](#) i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu ar Sail Hil i fesur cynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei nod o sicrhau Cymru wrth-hiliol erbyn 2030, gan fod yr Adroddiad Cysgodol yn cynnig ciplun amser real o anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru yn 2021.

623. Ychwanegodd un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) y dylai'r Cynllun weithio ochr yn ochr gyda'r ddeddfwriaeth bresennol, gan nodi y gellid defnyddio'r adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a chydymffurfiaeth â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (Mawrth 2021) i helpu i gefnogi atebolrwydd hefyd. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ymhellach y dylid cael cyn lleied â phosibl o brosesau a gweithdrefnau, a'u cadw'n syml: dylai Llywodraeth Cymru osgoi dyblygu a gweithdrefnau gweinyddol diangen, gan rannu arferion gorau ar draws adrannau a gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau bod adroddiadau ar gynnydd yn hygyrch ac yn hawdd i aelodau'r gymuned eu deall, e.e. beth gafodd ei ddweud, beth gafodd ei wneud, beth gafodd ei gyflawni. Yn ogystal, dywedodd un undeb llafur (n = 1) fod yn rhaid cynnwys disgwyliadau clir yn neddfwriaeth y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, y Rhaglen Adnewyddu a Diwygio a rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn sicrhau llinell welediad ddi-dor ar draws holl feysydd gweithgarwch y llywodraeth. Ni ellir caniatáu i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol weithredu yn ynysig. Yr unig ffordd y bydd newid yn bosibl yw os yw pobl o liw yn 1: yn yr ystafell, 2: yn gallu siarad yn rhydd a 3: yn rhannu cymwysterau cyfartal gydag aelodau eraill o'r pwyllgor. Mae hyn i gyd yn cyfeirio at yr angen i addasu strwythurau a phrosesau llywodraethu corfforaethol tuag at gyflawni'r Cynllun.

624. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) y bydd llywodraethu strategol ac atebolrwydd effeithiol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol yn hanfodol os yw'r Cynllun hwn i lwyddo, ac argymhellodd y canlynol:

- a. Creu strategaeth a chynllun cyflawni cenedlaethol sy'n cynnwys gweithredu ar draws y llywodraeth, wedi'i datblygu, ei weithredu a'i fonitro mewn partneriaeth â goroeswyr a'r sector.

- b. Rhaid i'r strategaeth newydd fod yn uchelgeisiol, a chynnwys camau gweithredu mesuradwy ar draws y llywodraeth, a nodi sut y bydd yn gweithio gyda dyletswyddau cyrff cyhoeddus datganoledig awdurdodau lleol a byrddau iechyd.
 - c. Mae ymatebwyr yn llwyr gefnogi ymrwymiad y Cynllun i 'bartneriaeth gymdeithasol' drwy gynlluniau i osod 'Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol' ar bob corff cyhoeddus a sefydlu cyngor partneriaeth gymdeithasol dan arweiniad gweinidogion. Mae ymatebwyr yn argymhell yn gryf bod y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a goroeswyr yn cael eu cynrychioli ar y grŵp hwn.
 - d. Gweithredu'r gofyniad i fyrddau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol strategol rhanbarthol ddatblygu trefniadau llywodraethu ar y cyd ar gyfer strategaethau ar lefel leol yn unol â [Chanllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol](#) Llywodraeth Cymru. Mae hyn ynghyd â'r nod o ymgorffori darpariaeth 'gan ac ar gyfer' o fewn model ariannu cynaliadwy a sicrhau goruchwyllo ar lefel genedlaethol o'r anghenion amrywiol ym mhob cymuned.
625. Nododd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) ac un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig cyllid ac adnoddau digonol i drefniadau llywodraethu'r Cynllun fel bod pobl yn gallu fforddio mynychu ac fel eu bod yn gallu cyfranogi ar sail gyfartal waeth beth fo'u cefndir. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen briffio rhai aelodau o'r gymuned cyn cyfarfodydd ffurfiol y Grŵp er mwyn sicrhau cyfranogiad cyfartal; dylai Llywodraeth Cymru ddigolledu aelodau'r Grŵp yn briodol. Bydd rhai aelodau'n mynychu fel rhan o'u gwaith cyflogedig, ond rydym yn aml yn disgwyl i aelodau'r gymuned roi o'u hamser, eu harbenigedd a'u hymdrechion am ddim – mae'r arfer hwn yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau'r gymuned.

Sylwadau ar y Grŵp Atebolrwydd arfaethedig:

626. Roedd sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 4$), un ymatebydd unigol ($n = 1$), un undeb llafur ($n = 1$), sefydliadau'r trydydd sector ($n = 4$), un awdurdod lleol ($n = 1$), un corff ariannu ($n = 1$) ac un sefydliad arall ($n = 1$) yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'n glir yn y Cynllun a yw'r Grŵp Llywio (a fydd yn monitro gweithrediad y Cynllun) yn rhan o Lywodraeth Cymru na pha rym sydd ganddo i ymgymryd â'r rolau llywodraethu sy'n cael eu hamlinellu yn y Cynllun. Dywedodd ymatebwyr nad yw'n glir ar beth fydd y Grŵp yn edrych i asesu a oes cynnydd wedi'i wneud, sut y penderfynir ar aelodaeth o'r grŵp hwn, sut y bydd yn ddemocrataidd, a sut y bydd pobl o gefndiroedd a chroestoriadau amrywiol yn cael eu cynrychioli – yn enwedig pobl o grwpiau incwm is. Mae angen nodi'n glir y cyfrifoldebau a'r llinellau adrodd, ynghyd ag eglurder ar sail gyfreithiol y rhain, er mwyn sicrhau atebolrwydd cryf dros weithredu. Dylai'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â gwaith y Grŵp Atebolrwydd fod yn hygyrch. Bydd yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil a'r Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn. Er hynny, mae ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod angen atebolrwydd cytbwys rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn enwedig ym maes cyflogaeth a gofal cymdeithasol. Mae angen strwythur gwirio rheolaidd gyda grwpiau polisi profiad bywyd er mwyn cael atebolrwydd go iawn gydag aelodau Du ac Ethnig Leiafrifol o'r cyhoedd.

627. Dywedodd ymatebwyr unigol (n = 2), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru ryngweithio â'r cyhoedd i weld beth sy'n gweithio. Bydd dull sy'n paru profiad bywyd ag ymchwil ac ystadegau, ond sydd hefyd yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, yn hanfodol wrth symud pethau ymlaen. Dylid cynnal arolygon cyfnodol mewn ysgolion a gweithleoedd i helpu i nodi sefyllfaoedd sy'n anodd i bobl eu trafod ac i gasglu barn. Byddai un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) yn croesawu Arolwg Blynnyddol i gasglu adborth, i lywio Adroddiad Blynnyddol ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at greu Cymru wrth-hiliol. Dylai hyn fod ar gael i'r cyhoedd. Dywedodd un ymatebydd unigol (n = 1) hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cwynion gan bobl ethnig leiafrifol yn cael eu cymryd o ddifrif.
628. Roedd asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+) yn gadarn o'r farn fod yn rhaid monitro cynnydd a chraffu'n fanwl arno drwy archwilio ac adolygu rheolaidd. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith i ddeall ac archwilio'r cynnydd a wnaed o fewn y system cyfiawnder troseddol a'r rhwystrau i gynnydd yn ogystal. Dylid olrhain profiad bywyd gwirioneddol cymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol gydol oes y Cynllun hwn, a hynny wedi'i ategu gan ddata arolwg penodol o garfan ehangach.
629. Tynnodd un awdurdod lleol (n = 1) sylw hefyd at y ffaith ei bod yn ymddangos bod rolau a chyfrifoldebau'n cael eu dyblygu rhwng y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Grŵp Atebolrwydd. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ei bod yn hanfodol bod aelodaeth o'r Grŵp Atebolrwydd yn cael ei hystyried yn llawn, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a rheoleiddwyr ledled Cymru o ran archwilio, iechyd a gofal cymdeithasol a'r gweithlu. Mae'n hanfodol bod llwyddiant y Cynllun hefyd yn cael ei gyfuno â chraffu allanol ar y Cynllun, er enghraifft rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Byddai'n fuddiol deall ymhellach y broses uwchgyfeirio uwchlaw'r Grŵp Atebolrwydd ond, yn yr un modd, y trefniadau llywodraethu eraill sydd wrth wraidd gweithredu agweddau ar y Cynllun. Ai'r bwriad yw trefnu'r ddarpariaeth ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a lleol? Beth fydd yn cael ei fonitro ac yn destun adrodd, a sut y bydd hynny'n digwydd (y tu allan i'r Uned Gwahaniaethau ar sail Hil a'r Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb)? Mae angen ystyried defnyddio iaith gymhellol os yw'r Cynllun am arwain at welliannau ledled Cymru. Er enghraifft, mae'r defnydd o 'dylai' a 'rhaid' yn awgrymu gofynion gwahanol iawn. Mae 'dylai' yn awgrymu bod dewis – felly mae'n ofynnol defnyddio 'rhaid'.
630. Mynnodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod yn rhaid i'r Grŵp Atebolrwydd gael digon o adnoddau a chynnal annibyniaeth dryloyw oddi wrth y rhai y mae'n eu goruchwyllo i bob pwrpas. Ond mae'n rhaid i'r Grŵp hefyd ymgorffori egwyddorion cyd-gynhyrchu a sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni newid yn eistedd ochr yn ochr â'r rhai a fydd yn gweld effaith y newid hwnnw. Ategwyd hyn gan fyrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 2) ac un undeb llafur (n = 1), gan ddweud y dylid cynnwys cynrychiolydd o'r sector addysg bellach fel aelod o'r Grŵp Atebolrwydd. Mynnodd un ymatebydd unigol (n = 1) y dylai'r Grŵp Atebolrwydd hefyd gynnwys cynrychiolaeth gan CLILC neu rai o'r cyrff rhanbarthol datganoledig a fydd yn cyflwyno adroddiadau. Mynnodd un undeb

llafur (n = 1) hefyd y dylid cadw lleoedd ar y Grŵp Atebolrwydd ar gyfer aelodau undebau llafur. Mynnodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) fod angen i Lywodraeth Cymru hefyd fuddsoddi mewn darparu hyfforddiant a chymorth i staff sy'n gyfrifol am gyflwyno ac adrodd ar y Cynllun.

631. Dywedodd un sefydliad ieuchyd (n = 1) fod yn rhaid monitro targedau a chyflwyno adroddiadau arnynt ar Lefel Weinidogol neu hyd yn oed yn Senedd Cymru ei hun. Mae cynlluniau gweithredu hefyd wedi methu yn y gorffennol oherwydd bod y neges yn cael ei gwanhau'n ormodol erbyn iddi gyrraedd y rheolwyr canol mewn lleoliadau gweithredol yn y gwahanol sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Pe bai disgwyl i uwch reolwyr sefydliadau fel pob Bwrdd Iechyd, Penaethiaid Colegau a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ymateb i gais gan Bwyllgor Dethol ar gydraddoldeb hiliol yn null Senedd y DU, byddent yn llawer mwy tebygol o weithredu cydraddoldeb hiliol o fewn eu sefydliadau, yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru. Bydd cynhadledd flynyddol o bartion â diddordeb i dynnu sylw at gyflawniadau Cynllun Gweithredu Cymru hefyd o fudd wrth fesur llwyddiant.
632. Tynnodd un awdurdod lleol (n = 1) sylw at y ffaith bod awdurdodau lleol eisoes yn cael eu dwyn i gyfrif drwy eu Pwyllgorau Craffu eu hunain a gofynnodd a fydd y 'Grŵp Atebolrwydd' yn rhan o fframwaith yr awdurdod lleol? Yn yr un modd, roedd un corff ariannu (n = 1) yn pryderu y gallai model llywodraethu gorfodol greu heriau i gyrff cyhoeddus. Dylai gweithredu'r Cynllun fod yn ymdrech gydweithredol rhwng sefydliadau, cymunedau, grwpiau ac unigolion.
633. Mae pryderon un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ynghylch y Grŵp Atebolrwydd yn cynnwys y canlynol:
- a. Mae'n ymddangos yn annhebygol y gall un Grŵp cenedlaethol gynnig y lefel o her, craffu ac arweiniad angenrheidiol ar draws gwasanaethau cyhoeddus os ydym am gyflawni ei uchelgeisiau.
 - b. Rhaid i'r cynigion strwythurol (yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil a'r Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb newydd) osgoi'r risg y caiff y gwaith o oruchwylio cynnydd ei ddirprwyo gan gyrff polisi a chyflawni prif ffrwd i'r strwythurau newydd. Os yw newid i fod yn ystyrlon ac yn gynaliadwy, yna rhaid i unigolion a sefydliadau ymgorffori nodau'r Cynllun hwn yn eu gwaith bob dydd. Nid yw'n bosibl allanoli mynd i'r afael â hiliaeth, ac asesu perfformiad rhywun wrth wneud hynny.
 - c. Rhaid i'r Fframwaith Atebolrwydd unigol beidio â disodli natur ganolog newid diwylliannol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, wedi'i lywio gan y gwerthoedd a nodir ar ddechrau'r Cynllun. Rhaid mynd i'r afael â hiliaeth drwy newid cynaliadwy a pharhaol, ac er y gall mesurau perfformiad fod yn ddefnyddiol, nid ydynt yn cynnig yr un trawsnewidiad hirdymor sy'n cael ei gyflawni drwy newid y ffordd rydym yn meddwl am y materion hyn.

Sylwadau eraill:

634. Dywedodd undebau llafur (n = 2) y dylai Llywodraeth Cymru dynnu sylw at ei gwaith llywodraethu [a gwahaniaethu] rhwng y weithred anghyfreithlon (anghyfreithlon o dan gyfraith y DU gyda'r heddlu yn ei orfodi) a mater ehangach

hiliaeth o fewn y sector cyhoeddus. Dywedodd ymatebwyr y dylai'r Grŵp Atebolrwydd edrych ar ddiffyg cydymffurfio neu esgeulustod bwriadol hefyd.

635. Roedd un undeb llafur (n = 1) yn pryderu am hyd y Cynllun. Mae'r Cynllun yn ddogfen eithriadol o fawr, wedi'i hysgrifennu mewn iaith bolisi lefel uchel nad yw'n hygyrch i lawer, gan gynnwys y rhai hynny gyda sgiliau llythrennedd sylfaenol neu sy'n anabl. Mae'n bosibl fod yr iaith hon wedi dieithrio rhai ymatebwyr, neu ddarpar ymatebwyr. Datblygwyd y Cynllun mewn fformatau byrrach eraill i sicrhau hygyrchedd; mae'r cynnwys yn aml yn aneglur. Mae materion trawsbynciol yn y Cynllun nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y fformat hygyrch. Er mwyn cryfhau'r atebolrwydd wrth weithredu, mae ymatebwyr yn awgrymu bod Grŵp Atebolrwydd trawsbleidiol yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r Cynllun. Dylai'r Grŵp Atebolrwydd trawsbleidiol hwn fod o fewn y Llywodraeth, a chyhoeddi Adroddiad Blyneddol bob mis Hydref sy'n dod gerbron y Senedd, er mwyn derbyn ymateb i bob un o'r canfyddiadau a'r llwyddiant wrth gyflawni nodau'r Cynllun. Bydd y cyfarfodydd yn caniatáu ar gyfer atebolrwydd a thryloywder o ran yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac am weithredu nodau.

636. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) y bydd rhywfaint o lwyddiant y Cynllun hwn mewn rhai meysydd yn dibynnu ar ailwampio ac ailddyfeisio rhai systemau'n llwyr. Bydd gweithio o fewn systemau gwahaniaethol presennol a cheisio eu haddasu yn mynd yn groes i ethos y Cynllun hwn a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru i'w weld yn ei addo – newid sy'n esiampl. Gofynnwyd nifer o gwestiynau ganddynt. Er enghraifft, a yw Llywodraeth Cymru yn barod i wneud hyn a sut y maent am geisio gwneud hyn? Sut y bydd blaenoriaethau'r Cynllun yn cael eu pennu, a phwy fydd yn penderfynu? Mae'r Cynllun yn cyfeirio'n aml at atebolrwydd a mecanweithiau i sicrhau bod yn rhaid i hyn fod yn glir, yn dryloyw ac yn agored i'w herio. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhai hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth o ran camau gweithredu'r Cynllun hwn? Er enghraifft, gwella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd, cyflogaeth, addysg a gofal cymdeithasol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; gwell canlyniadau o fewn gwasanaethau mamolaeth i fenywod Du?

C8. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

637. Gweler y sylwadau o dan y pennawd 'Y Gymraeg' o dan gwestiwn 2.

C9. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y dull polisi arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

638. *Ibid.*

C10. Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos nad yw llawer o bobl yn ystyried bod y term 'BAME' yn briodol. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu bobl ethnig leiafrifol penodol yn y Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y term hwn hefyd yn broblemus a'i bod yn well, lle bo'n bosibl, bod yn fwy penodol am yr hil neu'r ethnigrwydd y mae unigolyn neu gymuned yn uniaethu ag ef. Fodd bynnag, ar adegau mae angen cyfeirio at yr holl bobl hynny sy'n rhannu'r profiad o fod yn destun hiliaeth.

Rydym wedi defnyddio'r term pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at y diben hwn. Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis arall sy'n well gennych? Gall siaradwyr Cymraeg ystyried termau addas yn y ddwy iaith.

639. Mae ymatebwyr unigol (n = 11), awdurdodau lleol (n = 10), sefydliadau iechyd (n = 4), byrddau, rhwydweithiau a chymdeithasau addysg (n = 3), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 20+), undebau llafur (n = 4), sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 8), un corff ariannu (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 3+) ac un sefydliad arall (n = 1) wedi cynnig sylwadau ar gwestiwn 10. Mae llawer o ymatebwyr wedi manylu ar eu dirmyg tuag at y term 'BAME', ac mae nifer wedi cynnig awgrymiadau amgen. Nid yw rhai ymatebwyr wedi cynnig awgrymiadau amgen oherwydd eu bod yn teimlo na fydd modd dod o hyd i derm sy'n cael ei hoffi a'i dderbyn gan bawb sy'n profi hiliaeth. Dywedodd eraill na ddylem gael ein caethiwo gan drafodaethau diddiwedd am derminoleg ar draul y gwaith sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â hiliaeth yn ein cymdeithas.

Sylwadau ar y term 'BAME':

640. Dywedodd un ymatebydd unigol (n = 1) ac un awdurdod lleol (n = 1) fod BAME yn briodol a bod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn derm derbyniol a didramgwydd. Dywedodd un sefydliad iechyd (n = 1) fod y term pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, 'pobl ethnig leiafrifol' yn fyr, yn cael ei gefnogi gan eu rhwydwaith staff.

641. Mae ymatebwyr unigol (n = 3), sefydliadau iechyd (n = 2), un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1), asiantaethau cyfiawnder troseddol (n = 1+), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 9+), awdurdodau lleol (n = 4), undebau llafur (n = 2), un corff ariannu (n = 1), sefydliadau cymunedol (n = 2+) a

sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 3) wedi mynegi nad ydynt yn hoffi'r term 'BAME'. Dywedodd ymatebwyr y dylid osgoi'r term 'BAME' gan ei fod yn derm hen ffasiwn, difudd a phroblemus; mae'n gynhennus ac yn elyniaethus ac mae'n gwahaniaethu drwy grwpio pawb nad ydynt yn Wyn mewn un categori. Ar ben hynny, mae BAME yn arwain at ddiffyg gwerthfawrogiad o'r amrywiaeth sy'n bodoli o fewn grwpiau y tu hwnt i'r grŵp ethnig Gwyn, gan orgyffredinol cymunedau o dan un gair / term; mae'n dileu hunaniaeth pobl ac mae hefyd yn anwybyddu gwahaniaethau croestoriadol. Mae teimlad hefyd fod y term hwn yn cadw pobl o dan nenfwd gwydr ac yn cyfyngu ar y lle sydd ar gael i hynodrwydd neu unigoliaeth. Roedd ymatebwyr hefyd nad yn teimlo nad yw BAME yn derm cynhwysol gan ei fod yn eithrio'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nid yw 65 y cant o'r rhai a arolygwyd gan Gwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani yn teimlo bod y term Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu BAME yn briodol ar gyfer eu cymunedau.

642. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un awdurdod lleol (n = 1) fod termau ymbarél / cyffredinol megis 'BAME', 'BME', 'lleiafrifoedd ethnig' a 'GRT' [y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr] yn dermau dadleuol. Mae modd eu hystyried yn dermau amhersonol, termau sy'n gwahaniaethu, neu dermau sy'n cyfuno poblogaethau gyda phrofiadau a diwylliannau gwahanol iawn, sy'n broblemus. Nid yw termau cyffredinol yn adlewyrchu profiadau gwahanol grwpiau ethnig lleiafrifol yn ddigonol, gan amlygu ymhellach bwysigrwydd cael neges gyson ar derminoleg. Mae'n bwysig bod yn benodol lle bo hynny'n bosibl ac osgoi defnyddio termau cyffredinol. Dywedodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) fod labeli'n esgor ar stigma.
643. Mae un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) yn esbonio nad yw pobl sy'n profi hiliaeth yn grŵp unffurf. O'r herwydd, nid oes un gair nac ymadrodd i'w disgrifio. Yn union fel nad yw 'Gwyn' yn disgrifio'n ddigonol y llu o amrywiadau o ran tarddiad a chefnidiroedd pobl a allai fod yn hil-ddiffiniedig yn sgil hynny, mae'r un peth yn wir am dermau sy'n cael eu defnyddio'n aml fel 'BAME' neu 'pobl o liw'. Mae'n amhosibl cael unrhyw derm ymbarél sy'n disgrifio'r holl leiafrifoedd ethnig o dan un pennawd, ac felly bydd unrhyw derm cyfun yn gyfyngedig o ran natur.
644. Dywedodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+), sefydliadau cymunedol (n = 1+), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) fod y defnydd o'r blaenlythrennau yn ymylu ar fod yn ostyngol ac ymyleiddiol. Mae hyn hefyd yn wir am y term 'GRT'. Mae BAME wedi cael ei orddefnyddio a'i ddefnyddio'n amhriodol ac mae poblogaeth y DU a Chymru wedi dod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd ers cyflwyno'r term am y tro cyntaf. Nid yw ychwaith yn cynnwys y rhai sy'n nodi eu bod o ethnigrwydd cymysg. Ni ddylid defnyddio byrfodau, a dylai'r termau 'Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol' a 'Sipsiwn, Roma a Theithwyr' gael eu hysgrifennu a'u hynganu'n llawn.
645. Eglurodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) a sefydliadau cymunedol (n = 1+) y gallai'r defnydd o BAME fod o gymorth gweithredol wrth archwilio effeithiau cyffredinol popeth hiliol. Fodd bynnag, mae'n colli cymaint o bwyslais a chynildeb fel

y gellir ei ddefnyddio gan y bobl hynny sydd eisiau gwadu hiliaeth fel mater Gwyn. Os gwneir sylwadau ar lefel unigol, mae angen cydnabod y dylid defnyddio'r hunaniaeth y mae'r unigolyn yn ei ffafrio. Profiad bywyd: *"Nid yw'r term BAME yn fy ngwasanaethu i, mae'n eu gwasanaethu nhw. Os oes rhywbeth wedi'i greu ar fy nghyfer i, yna mae angen iddo fy ngwasanaethu i."*

646. Dim ond 27 y cant o'r rhai a arolygwyd gan Gwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani sy'n cytuno bod un term ar gyfer disgrifio pawb sy'n profi hiliaeth ar sail gwahaniaethau canfyddedig sy'n gysylltiedig â syniadau am 'hil' yn well na llawer o ddisgrifiadau gwahanol ar gyfer pob cymuned (h.y. Romani a Theithwyr, Asiaidd, Du ac ati).

647. Eglurodd sefydliadau cymunedol (n = 1+) nad oedd y term 'difreintiedig' yn cael ei gefnogi ychwaith. Profiad bywyd: *"Peidiwch â'm galw i'n ddifreintiedig. Y cyfan dwi eisiau yw brwydr deg. Mae dweud na wnes i droi i fyny i'r frwydr ac felly fy mod i wedi colli yn ddadl wan. Rydyn ni wedi caniatáu iddyn nhw ac wedi'u galluogi nhw i ddefnyddio'r ddadl hon yn llwyddiannus oherwydd nad ydyn nhw'n creu cyfle i bawb chwarae'n deg. Os ydych chi'n rhoi enw i fi sy'n adlewyrchu anfantais, fydda'i byth yn gallu dianc rhagddo."*

Awgrymiadau o ddewisiadau yn lle 'BAME':

648. Yn ôl awdurdodau lleol (n = 4), sefydliadau'r sector cyhoeddus (n = 3), un sefydliad ieuchyd (n = 1), un ymatebydd unigol (n = 1) ac un corff ariannu (n = 1), os yw BAME yn peri tramgwydd, yna mae'n rhaid i bobl o'r cymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol gytuno ar derm amgen sy'n cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Dylid rhoi amser i gytuno ar derm sy'n plesio pawb – dylid cynnal ymgynghoriad Cymru-gyfan i sicrhau bod penderfyniad gwybodus yn cael ei wneud ar derminoleg. Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r derminoleg honno, amdanynt eu hunain ac am eraill, er mwyn hyrwyddo trafodaethau gwybodus, parchus ac adeiladol am hil ac ethnigrwydd. Mae'n bwysig wedyn safoni'r geiriau a'r termau Cymraeg a Saesneg sy'n cael eu defnyddio ar draws cyrff cyhoeddus. Dylid ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu'r termau a'r geiriau safonol, gan nodi gwahaniaethau cyd-destunol ac unrhyw newidiadau yn eu defnydd dros amser.

649. Mae bron i hanner y rhai a arolygwyd gan un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) (47 y cant) yn cytuno bod angen defnyddio dewis amgen i ddisgrifio pobl sydd fwyaf tebygol o brofi hiliaeth. Roedd 21 y cant yn ansicr o'r term cywir i'w ddefnyddio yn yr achos hwnnw. Awgrymodd rhai atebion syml fel ynganu enwau gwahanol genhedloedd yn gywir. Byddai'n well gan eraill ddefnyddio / cael eu galw'n 'Gyfeillion y Pentref Byd-eang', 'Hiliau neu grwpiau ethnig arall' neu 'Cyfeillion o dramor'.

650. Mynnodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 8+), awdurdodau lleol (n = 2), un undeb llafur (n = 1) ac ymatebwyr unigol (n = 2) y dylai unigolion gael yr opsiwn i hunanbennu lle bo hynny'n bosibl. Dylid gwneud ymdrech i ofyn yn benodol i unigolion am eu hunaniaeth. Y ffordd fwyaf priodol yw delio gyda grŵp ethnig neu hil pawb yn unigol.

651. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+), un undeb llafur (n = 1), awdurdodau lleol (n = 2), ymatebwyr unigol (n = 2), un sefydliad ieuchyd (n = 1) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) yn cytuno y dylid cyfeirio at bobl a chymunedau penodol lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl – mae adegau lle mae angen cyfeirio at bawb sy'n profi hiliaeth. Yn yr achos hwn, mae sawl ymatebydd yn awgrymu defnyddio'r term 'lleiafrifoedd ethnig' fel dewis amgen i 'BAME'. Mae 'lleiafrifoedd ethnig' yn fwy cynhwysol, mae'n hawdd i'w ynganu ac nid yw'n acronym (ac yn sgil hynny'n disgrifio'r hyn y mae'n cyfeirio ato).
652. Dywedodd un awdurdod lleol (n = 1) mai 'pobl ethnig lleiafrifol' yw'r dull gorau gan fod y gair 'pobl' yn helpu i osgoi gwahaniaethu neu ddad-ddyneiddio. Awgrymodd un ymatebydd unigol (n = 1), gan dybio cytundeb bod y diffiniad canlynol o ethnigrwydd yn berthnasol i bawb: *"y ffaith neu'r cyflwr o berthyn i grŵp cymdeithasol sydd â thraddodiad cenedlaethol neu ddiwylliannol cyffredin,"* y dylid cyfeirio at bawb sy'n profi hiliaeth fel 'grwpiau ethnig lleiafrifol'. Mae sefydliadau cymunedol (n = 1+) yn awgrymu lleiafrifoedd ethnig Cymreig fel dewis amgen, ond yn mynegi atgasedd tuag at y gair 'lleiafrif'. Awgrym arall yw amlddiwylliannol / amrywiol, yn hytrach na chyfeirio at ethnigrwydd.
653. Mae un undeb llafur (n = 1) yn defnyddio'r term 'Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig' (BAEM) yn unol â chytundeb gan aelodau yng Nghynhadledd Rheolau 2019, ac mae'n awgrymu hyn fel dewis arall.
654. Mae un sefydliad trydydd sector (n = 1), un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) yn awgrymu cyfnewid y term 'ethnig lleiafrifol' am 'lleiafrifol ethnig' gan fod lleiafrifol ethnig yn adlewyrchu'n well y ffaith bod gan bawb ethnigrwydd, ac mae'r materion y cyfeirir atynt yn ymwneud â grwpiau lleiafrifol yng Nghymru. Mae un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) yn awgrymu 'lleiafrifol ethnig' oherwydd ei fod yn cydnabod mater sy'n ymwneud â lleiafrif o unrhyw hil. Dywedodd un awdurdod lleol (n = 1) nad yw lleiafrifol ethnig yn ddelfrydol, ond ei fod yn well na BAME. Mae un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg (n = 1) yn awgrymu defnyddio'r term 'lleiafrifol ethnig yn y DU' mewn rhai meysydd, ond dylid nodi ethnigrwydd lle bo hynny'n briodol. Roedd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) yn teimlo bod y termau 'lleiafrifol ethnig yn y DU' neu 'lleiafrifol ethnig ym Mhrydain' yn enghraifft o 'wyngalchu'. Dywedodd un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) fod lleiafrifol ethnig yn ymddangos yn drwsogl ac yn ffafrio rhywbeth mwy generig fel 'cymunedau ethnig lleiafrifol'. Ystyriwyd bod 'cymunedau amrywiol' hefyd yn dderbyniol. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys hiliol amrywiol a diwylliannol amrywiol. Roedd un sefydliad trydydd sector (n = 1) yn cefnogi'r defnydd o'r termau 'pobl hil-ddifiniedig', 'lleiafrifoedd ethnig', 'lleiafrifol ethnig', 'pobl ethnig lleiafrifol' a 'phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol'. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr o un rhwydwaith trydydd sector (n = 1+) yn teimlo bod y gair 'lleiafrif' yn broblemus gan ei fod yn gwneud iddynt deimlo wedi'u bychanu neu'n llai pwysig. Roedd un ymatebydd unigol (n = 1) hefyd yn teimlo bod gan y gair 'lleiafrif' ystyr negyddol. Dywedodd hefyd, mewn cyd-destun byd-eang, fod Cymry Gwyn yn lleiafrif ethnig. Felly nid yw

defnyddio'r ymadrodd 'lleiafrif' yn annog pobl Cymru i weld eu hunain fel rhan o gymdeithas amrywiol.

655. Awgrymodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2$) ac un awdurdod lleol ($n = 1$) y dylid defnyddio'r term 'hil-ddiffiniedig' ('pobl hil-ddiffiniedig' / 'unigolion / grwpiau hil-ddiffiniedig') nid fel term hunan-adnabod neu derm am y gymuned, ond fel dull categoraidd cymdeithasol-wleidyddol a ddefnyddir gan systemau a chymdeithas dan arweiniad Gwyn ar gyfer pobl yn seiliedig ar wahaniaethau a nodweddion unigol fel lliw croen, math o wallt, enw, gwisg, crefydd, cenedligrwydd, statws mudo neu dreftadaeth ethnig, i gyfiawnhau gormes. 'BAME' (Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) yw'r term a ddefnyddir fwyaf mewn meysydd proffesiynol i ddisgrifio pobl nad ydynt yn Wyn Prydeinig. Cydnabyddir bod hwn yn derm dadleuol, a bod yn well gan eraill ddefnyddio 'BME', 'Du', 'Pobl o Liw' 'lleiafrifoli ar sail hil' neu 'lleiafrifol ethnig'.
656. Mae undebau llafur ($n = 2$) yn defnyddio 'Du' i nodi pobl sydd â hanes cyffredin. Defnyddir Du gyda phriflythyren yn ei ystyr wleidyddol a chynhwysol eang i ddisgrifio pobl ym Mhrydain sydd wedi dioddef trefedigaethedd a chaethiwed yn y gorffennol ac sy'n parhau i brofi hiliaeth a chyfyngu ar gyfleoedd heddiw. Mae'r termau 'ethnig leiafrifol' a 'lleiafrif ethnig' mewn defnydd swyddogol helaeth heddiw. Fodd bynnag, mae gan y termau hyn anfanteision amlwg o ran ystyron ymleiddiol neu fod yn llai pwysig. Mewn llawer o gymdogaethau, trefi a dinasoedd ym Mhrydain, mae'n ystadegol anghywir neu'n gamarweiniol i ddisgrifio grwpiau Du fel lleiafrif. Mae defnyddio 'Du' yn ymwneud â chreu undod yn y frwydr yn erbyn hiliaeth ddwfn sy'n creu anfantais i bobl Ddu o ran tai, addysg, cyflogaeth a'r systemau cyfiawnder troseddol ac iechyd. Mae un awdurdod lleol ($n = 1$) yn awgrymu defnyddio'r term 'Du, Brodorol a phobl o liw' (BIPOC) am ei fod yn gwahanu yn ôl ethnigrwydd ac yn arwain i ffordd o ymleiddio. Cefnogir y term 'Du' gan un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), ond gan dynnu sylw at y ffaith nad yw 'Du', fel term, yn cynnwys poblogaethau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, poblogaethau Gwyn Gwyddelig neu boblogaethau Dwyrain Ewrop. Nid oes un ateb addas i bawb; mae terminoleg yn fater personol. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) nad yw defnyddio'r term unigol 'Du' yn ddelfrydol gan ei fod yn mygu hiliau eraill sydd wedi cael eu lleiafrifoli ar sail ethnigrwydd, gan greu mwy o ormes. Nid oes ffordd dderbyniol o ddisgrifio cymunedau sydd wedi cael eu lleiafrifoli. Lluniad cymdeithasol yw hil, ac yn y DU, mae'n esgor ar lawer o ystyron negyddol, fel rhywbeth sy'n wahanol os nad yw'n cael ei ddathlu'n aml fel rhan o ddiwylliant Prydeinig. Teimlai'r ymatebwyr nad ydynt yn ffafrio'r un gair / geiriau, ac y bydd unrhyw derm yn broblemus, ac mai'r ffordd orau yw treulio amser i ddatgan yn barchus at bwy rydych chi'n cyfeirio'n benodol.
657. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$), ymatebwyr unigol ($n = 2$), un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) ac un sefydliad arall ($n = 1$) yn awgrymu dewisiadau amgen eraill i 'BAME' fel 'pobl o liw', 'pobl o liw nad ydynt yn Ddu' ac 'unigolion neu grwpiau hil-ddiffiniedig'. Mae adborth hefyd yn awgrymu bod 'cymunedau lleiafrifoedd ethnig' yn derm mwy cynhwysol na 'Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol' ac y dylid ystyried cyfeirio at y grŵp ethnig, megis 'Hindŵiaid Cymreig', 'Caribiaidd Cymreig' ac ati.

658. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) nad oedd yr ymgynghoriad ar derminoleg Gymraeg addas yn derfynol, ond eu bod yn defnyddio 'pobl o liw' / 'awduron o liw' ar gyfer 'people of colour' / 'writers of colour', sy'n amheus yn ramadegol, ond ymddengys mai dyma'r opsiwn gorau ar hyn o bryd. Roedd gwrthwynebiad i'r defnydd o dermau hen ffasiwn 'croenliw' a 'croenddu', ac eto, yn groes i reolau gramadegol, awgrymwyd defnyddio 'pobl ddu' yn lle 'pobl dduon'.
659. Mae 'pobl o liw' a 'person o liw nad yw'n Ddu' (NBPOC) yn dermau dadleuol. Roedd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) yn cydnabod bod trafferthion gyda'r termau hyn, yn enwedig gan iddi gymryd amser hir i roi'r gorau i ddefnyddio'r term 'lliw' yn y DU; gallai mabwysiadu'r derminoleg hon ddrysu pobl. Eglurodd un ymatebydd unigol (n = 1) fod y termau hyn hefyd yn eithrio pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n Wyn, ond sydd hefyd yn dioddef hiliaeth.
660. Nododd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 2+) fod y termau 'lleiafrifoli ethnig' neu 'lleiafrifol o ran hil' yn cael eu ffafrio mewn rhannau eraill o'r DU, gan adlewyrchu bod pobl yn cael eu trin fel lleiafrif gan eraill, yn hytrach na'u bod yn bodoli'n naturiol fel lleiafrif. Fodd bynnag, byddai'n anodd defnyddio'r termau hyn gan nad ydynt yn cyfieithu i'r Gymraeg yn hawdd – nid yn unig yn ieithyddol, ond hefyd yn ddiwylliannol, oherwydd bod siaradwyr Cymraeg eu hunain yn cael eu lleiafrifoli. Yn hytrach, dylid parchu dewisiadau personol pobl a, lle bo hynny'n bosibl, dylai unigolion gael yr opsiwn i hunanbennu.
661. Awgrymodd sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector (n = 3+) ac un ymatebydd unigol (n = 1) y dewisiadau amgen canlynol i 'BAME': 'amrywiaeth hiliol' / 'hiliol amrywiol', 'PERI' – Pobl sy'n Profi Anghydraddoldeb Hiliol, 'CERI' – Cymunedau sy'n Profi Anghydraddoldeb Hiliol, 'aml-dreftadaeth' / 'treftadaeth gymysg', 'amrywiol o ran ethnigrwydd' a 'chymunedau ymylol'.
662. Dywedodd un sefydliad sector cyhoeddus (n = 1) ac un sefydliad ieuchyd (n = 1) na phenderfynwyd ar derm amgen addas i BAME o fewn eu sefydliadau hyd yma.
663. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ei bod yn hanfodol edrych y tu hwnt i labeli a chynabod y bobl. Fel unigolion, mae'n bosibl i ni hunanadnabod fel Sipsiwn, fel Roma, fel pobl Ddu neu Asiaid. Ond rydym yn annhebygol o ddisgrifio ein hunain yn ôl label polisi cymdeithasol, ac ni ddylai pobl ddefnyddio'r label honno i'n diffinio'n unigol. Rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r gwahanol ddiwylliannau a phrofiadau o fewn y term hwn ac osgoi ei ddefnyddio i awgrymu grŵp unffurf. Mae perygl hefyd fod y term 'BAME' yn ysgogi delwedd o gymunedau lleiafrifoedd ethnig gweladwy a siawns y byddwn yn anghofio pobl ethnig leiafrifol Gwyn. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai ychydig iawn o bobl ethnig leiafrifol Gwyn sy'n cydnabod bod y term hwn hefyd yn mynd i'r afael â'r hiliaeth y maent yn ei phrofi.
664. Dywedodd un sefydliad trydydd sector (n = 1) ei bod yn bwysig bod yn dryloyw am y systemau, y strwythurau, y sefydliadau a'r diwylliannau hanesyddol a chyfredol sy'n hiliol ac yn ymleiddio rhai pobl a chymunedau, ac yn groes i hynny, yn breintio'r rhan fwyaf o bobl a chymunedau Gwyn, nad ydynt yn hil-ddiffiniedig nac yn cael eu

hymyleiddio. Adlewyrchir hyn drwy iaith, felly mae'n bwysig bod yn glir ac yn drawsnewidiol wrth ddefnyddio terminoleg.

665. Mynnodd sefydliadau'r trydydd sector ($n = 2+$) ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$) y dylai Llywodraeth Cymru osgoi cael eu llethu gan drafodaethau diddiwedd ynghylch terminoleg gan fod hyn yn eu llygad-dynnu oddi ar y dasg dan sylw. Mae'n hawdd gwastraffu llawer o amser ar labelu pobl a pheidio â threulio digon o amser yn gweithredu'r camau angenrheidiol i ddatblygu'r gwaith o fynd i'r afael â hiliaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod iaith yn newid yn gyson, felly bydd iaith sy'n dderbyniol ac iaith sy'n annerbyniol yn newid hefyd.

666. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$), o ran buddion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni feithrin cysylltiadau da rhwng nodweddion gwarchodedig, y gellid ystyried bod y disgrifiad 'Braint Pobl Wyn' ac 'Uwchraddoldeb Pobl Wyn' yn bryfoclyd neu'n elyniaethus, ac y gallai gael effaith negyddol ar y CGCH. Yn hytrach, awgrymwyd bod 'braint' yn cael ei defnyddio ar ei ben ei hun, gan y gall braint fod yn ymwneud â dosbarth diwylliannol neu economaidd-gymdeithasol hefyd. Er yn gwerthfawrogi bod defnyddio'r derminoleg hon wedi gallu cael ei defnyddio fel tacteg i daro'r post, gallai ddieithrio rhai pobl sydd wedi gweithio'n hir ac yn ddiflino i fynd i'r afael ag arferion ac ymddygiadau gwahaniaethol a'u dileu. Yn ogystal, ni fyddai rhai pobl Wyn yn ystyried eu hunain yn freintiedig, nac yn cael eu hystyried yn freintiedig ychwaith.

C11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, gallwch eu nodi yma:

667. Mae sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 2+$), sefydliadau'r sector cyhoeddus ($n = 2$), awdurdodau lleol ($n = 2$), un ymatebydd unigol ($n = 1$) a sefydliadau cymunedol ($n = 1+$) wedi cynnig sylwadau ar Gwestiwn 11. Derbyniwyd amrywiaeth o sylwadau nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw un o'r cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad.

668. Cynigiodd un rhwydwaith trydydd sector ($n = 1+$) yr argymhellion hyn i Lywodraeth Cymru:

- Cynnal a chynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth i geiswyr lloches, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, eiriolaeth a gwasanaethau gwybodaeth.
- Gan ddatblygu ar yr hawl estynedig i bleidleisio ar gyfer trigolion sydd â chaniatâd i aros yn 2021, ymestyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cymru i bobl sy'n ceisio lloches.
- Cyflwyno'r gallu i gyrchu'r rhyngrwyd yn rhad ac am ddim mewn llety lloches.
- Ymestyn tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bawb sy'n ceisio lloches a dileu unrhyw rwystrau i ffoaduriaid cymwys allu derbyn tocynnau o'r fath.
- Sicrhau ymglyfarwyddo cychwynnol effeithiol wrth gyrraedd fel bod unigolion yn cael eu paratoi'n well, yn deall eu hawliau ac yn gallu cael gafael ar wasanaethau a chymorth.

- f. Sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar gyfieithu cefnogol o ansawdd uchel wrth gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus. Darparu hyfforddiant, cymorth a goruchwyliaeth i gyfieithwyr.
669. Roedd un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) yn synnu gweld y sylw canlynol yn y cynllun: *“Wrth i ni barhau i ymateb i'r bygythiad go iawn sy'n gysylltiedig â COVID-19, bu ein partneriaid ieuchyd y cyhoedd, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), wrth reswm, yn canolbwyntio ar ein hymateb i COVID-19, a byddant yn parhau i roi blaenoriaeth i hynny. Mae cyflymder y broses o ddatblygu'r Cynllun hwn wedi cyfyngu ar allu partneriaid cyflenwi i gyfrannu at ein camau gweithredu ar gyfer Iechyd a Chanlyniadau Iechyd ar hyn o bryd.”* Dywedodd ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw geisiadau am fewnbwn cyn y cais ymgynghori a anfonwyd ym mis Mai 2021; roedd aelodau o'u staff wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r gwaith (ar sail personol), ond ni dderbyniwyd eu cynnig. Mae mynd i'r afael â hiliaeth yn flaenoriaeth iddynt, o safbwynt ieuchyd y cyhoedd yn ogystal â hawliau, ac o ystyried effaith anghymesur y pandemig ar gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, byddai hyn wedi cael ei ystyried yn rhan o'n gwaith ymateb.
670. Nid yw un awdurdod lleol ($n = 1$) yn mynd i'r afael â chynnig neu ddarparu gwasanaethau cyfieithu – gan dynnu sylw at yr anawsterau a brofwyd ganddynt wrth geisio trefnu gwasanaethau cyfieithu pan nad ydynt yn gwybod yr iaith ofynnol.
671. Mae llawer o'r Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol y cyfeirir atynt yn yr adran Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cael eu hariannu gan grant (Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac eraill). Maent i fod i ddod i ben yn 2022 ac nid yw'n glir beth fydd ar waith yn ddiweddarach. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef gan fod y CGCH i fod ar waith tan 2030. Mae natur tymor byr rhywfaint o'r cyllid a dderbyniwyd hyd yma wedi tanseilio datblygiadau cynaliadwy a gallu trigolion i gael gafael teg ar y cymorth sydd ei angen – e.e. gwirfoddoli cymunedol gan breswylwyr ag anableddau dysgu. Mae ymatebwyr hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod SSIE hefyd yn cael ei ariannu gan grant, a gall fod yn anodd cynllunio ymlaen os nad oes ymrwymiad o gyllid ar gyfer yr hirdymor.
672. Dywedodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$) ei fod yn cael trafferth gweld sut roedd yn dod yn rhan o'r Cynllun, a'i bod yn anodd gweld unrhyw gamau penodol i'w gweithredu, neu fentrau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'i waith.
673. Dywedodd un ymatebydd unigol ($n = 1$) fod angen mwy o gydraddoldeb a chyfiawnder i dadau, yn enwedig yn ystod ac ar ôl gwahanu / ysgariad.
674. Roedd awdurdodau lleol ($n = 6$), sefydliadau a rhwydweithiau'r trydydd sector ($n = 3+$), sefydliadau a rhwydweithiau'r sector cyhoeddus ($n = 5+$), asiantaethau cyfiawnder troseddol ($n = 1+$), sefydliadau cymunedol ($n = 1+$), sefydliadau ieuchyd ($n = 2$), ymatebwyr unigol ($n = 4$), ac un corff ariannu ($n = 1$) yn tynnu sylw at y ffaith y gallai profiadau pobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau

bod camau gweithredu sy'n cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cynnwys pobl o ardaloedd gwledig.

675. Mae un sefydliad sector cyhoeddus ($n = 1$) wedi gwneud sylw ar ragair y cydgadeiryddion ar dudalen 5, yn benodol y datganiad bod *“y rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas yn anhiliol.”* Byddai'n fuddiol cynnwys ffynhonnell yr wybodaeth hon gan ei bod yn sylfaen i holl naws yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Roedd rhai pryderon am y geiriad ar dudalen 10 – *“Ond i grwpiau ethnig lleiafrifol, maent wedi llawn haeddu'r hawliau hyn ers tro”*– pam mae'n rhaid i hawliau i grwpiau ethnig lleiafrifol gael eu 'haeddu'? Onid yw 'hawl' yn ôl ei ddiffiniad yn rhywbeth nad oes rhaid ei haeddu? Yn ddiweddarach yn yr adran gwerthoedd ar dudalen 26, mae'n nodi, *“Rydyn ni'n credu ein bod yn gofyn “am ddim ond ein hawliau, yn hytrach na ffafrau” ym mhob peth a wnewch.”* Rydym yn cytuno â'r datganiad hwn, ond ymddengys ei fod yn gwrth-ddweud y geiriad ar dudalen 10 ynghylch haeddu eu hawliau.

Sylwadau eraill:

676. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r 66 ymateb nad oedd yn gysylltiedig â sylwedd yr ymgynghoriad a / neu a oedd yn cynnwys sylwadau hiliol / sarhaus. Roedd y rhain yn bennaf gan ymatebwyr unigol a oedd am aros yn ddienw ($n = 62$). Cyflwynodd un sefydliad trydydd sector ($n = 1$), un awdurdod lleol ($n = 1$), un sefydliad cymunedol ($n = 1+$) ac un bwrdd, rhwydwaith neu gymdeithas addysg ($n = 1$) ymateb nad oedd yn gysylltiedig â sylwedd yr ymgynghoriad hwn.
677. Roedd sylwadau yn yr ymatebion hyn naill ai ddim yn ymwneud â chwestiynau'r ymgynghoriad neu yn hiliol a / neu sarhaus. Mae dadansoddiad o'r sylwadau yn dangos bod y rhain yn gwrthwynebu'r cynigion yn yr ymgynghoriad, gyda'r themâu canlynol yn gallu cael eu nodi:
- Bod y mwyafrif ethnig Gwyn yn profi mathau o hiliaeth y dylid mynd i'r afael â hwy.
 - Bod y Cynllun yn awgrymu bod pob person Gwyn yn hiliol.
 - Nad yw hiliaeth yn bresennol ar raddfa sy'n gofyn am weithredu gan Lywodraeth Cymru.
 - Bod hiliaeth yn erbyn siaradwyr Saesneg yng Nghymru.

Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr:

Derbyniwyd ymatebion gan y canlynol:

001	Cyngor Hil Cymru	036	Amgueddfa Cymru
002	Panel Cyngori Is-Sahara	037	Ymateb gan unigolyn
003	Sefydliad Bevan	038	New Pathways
004	Sheila Hendrickson-Brown	039	Cymdeithas Archifau a Chofnodion
005	BMHS	040	Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Staff a Myfyrwyr MEDIC
006	MELA Cymru	041	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
007	KIRAN Cymru	042	Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
008	Yr Ysgol Bwylaidd	043	Swyddogion Polisi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
009	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	044	Cyngor Sir Gârŵn
010	Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru	045	Canolfan Gymunedol Butetown
011	Action for Arts	046	Ymatebion Llywodraeth Cymru
013	Prifysgol De Cymru	047	Prifysgol Caerdydd
014i	BAPIO	048	Cyngor Abertawe
014ii	BAPIO (Fideo)	049	Comisiynydd y Gymraeg
015	Cynghrair Ffoaduriaid Cymru	050	Arolygiaeth Gofal Cymru
016	Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr	051	Y Brifysgol Agored yng Nghymru
017	EYST	052	Cyngor Llyfrau Cymru
018i	Grŵp Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid TGP	053	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
018il	Grŵp Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid TGP – Nodiadau unigol	054	Coleg Brenhinol y Coleg Seiciatryddion Cymru
019	Undeb Prifysgol a Choleg	055	Stonewall Cymru
020	Age Cymru Wales	056	Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
021	BAWSO	057	Addysg a Gwellu Iechyd Cymru
022	TUC Cymru	058	Ymateb gan unigolyn
023	Ymateb gan unigolyn	059	Mudiad Meithrin
024	Ymateb gan unigolyn	060	Comisiynydd Plant Cymru
025	Ymateb gan unigolyn	061	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
027	Plant yng Nghymru	062	UNSAIN
028	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	063	Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru Wales
029	Community Leisure UK	064	CGGC
030	Opinion8	065	Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr
031	ADSS Cymru	066	Undeb Unite
032	Inclusive Educational Curriculum Consultancy	067	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
033	Archwilio Cymru		
034	Cyngor Casnewydd – All People First		
035	Llyfrgell Genedlaethol Cymru		

068	Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain	102	NASUWT
069	Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru	103	Cyngor Rhondda Cynon Taf
070	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru	104	Sikhiaid Cymru also down as (096)
071	Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned	105	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
072	Cyngor Dinas Casnewydd	106	Cymorth i Ddiodefwyr Cymru
073	Llenyddiaeth Cymru	107	Ymateb gan unigolyn
074	WAPACO	108	Cyngor Sir Powys
075	Cynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol	109	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
076	Bwrdd Iechyd Bae Abertawe	110	Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant
077	Ymatebion unigol amrywiol – Bwrdd Iechyd Bae Abertawe	111	Adferiad Recovery
078	Race Equality First	112	Y Cyngor Bydwreigiaeth Cenedlaethol
079	C3SC	113	Rhwydwaith Ieuencid Cymru Wrth- hiliol – Prosiect Innovate
080	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	114	Colegau Cymru
081	Conffederasiwn GIG Cymru	115	Cymorth i Ferched Cymru
082	Teithio Ymlaen TGP Cymru	116	Ymateb gan unigolyn
083	NSPCC	117	Clybiau Plant Cymru
084	Cynghrair Hil Cymru	118	Ymgynghoriad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
085i	Tai Pawb, CIH Cymru, Cartrefi Cymunedol – Ymateb ar y Cyd	119	Ymateb gan unigolyn
085ii	Tai Pawb, CIH Cymru, Cartrefi Cymunedol – Ymateb ar y Cyd	120	Sylwadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol – Tîm Digidol Llywodraeth Cymru (Tîm Cyfathrebu Cyfiawnder Cymdeithasol)
086	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	121	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb
087	Cyngor Cynrychiolwyr Iddewig De Cymru/Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain	122	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
088	Prifysgol Abertawe	123	Yr Athro Charlotte Williams
089	Y Cyngor Meddygol Cyffredinol	124	Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
090	Gwasanaeth Addysg Gatholig	125	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
091	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	126	Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd
092	Cyngor Sir y Fflint	127	Cymdeithas Iechyd Sosialaidd Cymru
093	Ymateb gan unigolyn	128	Ymateb gan unigolyn
094	Rhwydwaith Staff o Leiafrifoedd Ethnig, Llywodraeth Cymru	129	Ymateb gan unigolyn
095	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain	130	Y Cynghorydd Lesley Walton – Ward Gors
096	Sikhiaid Cymru	131	Cyngor Blaenau Gwent
097	Cyngor ar Bopeth Cymru	132	Chwaraeon Cymru
098	Disgyblion Ysgol Glantaf	133	Cyngor Sir Ceredigion
099	Cyngor Bro Morgannwg		
100	Cyngor Sir Ddinbych a Gwasanaeth Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy		
101	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda		

134 Cyngor Sir Ddinbych
 135 Cyngor Castell-nedd Port Talbot
 136 Iechyd Cyhoeddus Cymru
 137 Ymddiriedolaeth Genedlaethol
 Cymru
 138 Trigolion Lôn Gefn Bangor
 139 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 140 Gofal Canser Marie Curie
 141 Ymateb gan unigolyn
 142 Cyngor Cymuned Llandochoau
 143 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
 144 Digwyddiadau Ymgynghori ar Ofal
 Cymdeithasol – Llywodraeth Cymru
 145 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
 146 Undeb Addysg Cenedlaethol
 147 Cymdeithas Genedlaethol
 Landlordiaid Preswyl
 148 Ymateb gan unigolion
 149 Plattform
 150 The Mentor Ring
 151 Bwrdd Gwaith Ieuencid
 152 Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol
 153 Ymateb gan unigolyn
 154 Yr Athro Charlotte Williams (Fideo)
 155 ESTYN
 156 Diverse Cymru
 157 PACEY Cymru
 158 Women Connect First,
 Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat,
 Sefydliad Henna
 159 Privilege Café
 160 Ymateb gan unigolyn
 161 Opinion8 (Cyfweiliadau sain)
 316 Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau
 Romani
 317 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau
 Dynol
 318 Meddygfa Mynediad at Iechyd
 Caerdydd
 D001 Dienw
 D002 Dienw
 D003 Dienw
 D004 Dienw
 D005 Meddygfa Mynediad at Iechyd
 Caerdydd here twice (318)
 D006 Dienw
 D007 Dienw
 D008 Dienw

D009 Julie Davies
 D010 Dienw
 D011 Gareth Payne
 D012 Dr David Tuthill
 D013 Dienw
 D014 Penny Owen
 D015 Dienw
 D016 Dr Richard G Evans
 D017 Dienw
 D018 Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
 D019 The Wallich
 D020 Blynnyddoedd Cynnar Cymru
 D021 Raymond Greenwood
 D022 Dienw
 D023 Dienw
 D024 G Turner
 D025 Dienw
 D026 Dienw
 D027 Trawsnewid Treffynnon a'r Cylch
 D028 Dienw
 D029 Dienw
 D030 Jill Duarte
 D031 Dienw
 D032 Dienw
 D033 Dienw
 D034 Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a
 Throsedd Gwent
 D035 Dienw
 D036 W
 D037 Tom Benjamin
 D038 Dienw
 D039 Sion
 D040 Heb ei enwi
 D041 Callum Darragh
 D042 Heb ei enwi
 D043 Dienw
 D044 Charlie Rogers
 D045 Dienw
 D046 Dienw
 D047 Dienw
 D048 Dienw
 D049 Dienw
 D050 Ella Hill
 D051 Dienw
 D052 Michael Walters
 D053 Dienw
 D054 Dienw
 D055 Steph Morgan

D056 Y Cynghorydd Paul Dowson, Sir Benfro
 D057 Heb ei enwi
 D058 Dienw
 D059 Dienw
 D060 Dienw
 D061 MD Asrar Ferdous Chowdhury
 D062 Dienw
 D063 Heb ei enwi
 D064 Dienw
 D065 Dienw
 D066 Dienw
 D067 Heb ei enwi
 D068 Dienw
 D069 Dienw
 D070 Heb ei enwi
 D071 Patients Not Passports
 D072 Dienw
 D073 Dienw
 D074 Darren Britton
 D075 Dienw
 D076 Nick Morse
 D077 Dim Enw
 D078 Dienw
 D079 Dienw
 D080 Dienw
 D081 Dienw
 D082 Dienw
 D083 Dienw
 D084 Dienw
 D085 Dienw
 D086 Cyngor Sir Penfro
 D087 Ana Kusmarsewa
 D088 Heb ei enwi
 D089 Dienw
 D090 Lauren Cawley
 D091 Hawliau
 D092 Jenny Jones
 D093 Helen Cooper
 D094 Dienw
 D095 Dienw
 D096 Dienw
 D097 Fred Wildgust
 D098 Dienw
 D099 Dienw
 D100 Dienw
 D101 Dienw
 D102 Don't Forget the Normal People Ltd

D103 Dienw
 D104 Nicky Hamza
 D105 Dienw
 D106 Dienw
 D107 Dienw
 D108 Elis Halliday
 D109 Cyngor Celfyddydau Cymru
 D110 Gofal Cymdeithasol Cymru
 D111 Black Further Education Leadership Group
 D112 Cymorth Cynllunio Cymru
 D113 ACC
 D114 Cynghair Efengylaidd Cymru
 D115 Dienw
 D116 Rhwydwaith Staff o Leiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru **here twice (073)**
 D117 Dienw
 D118 Dienw
 D119 Dienw
 D120 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
 D121 Dienw
 D122 Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales **here twic (094)**
 D123 Dienw
 D124 Dienw
 D125 Prosiect Partner Geni
 D126 Undeb y Myfyrwyr Iddewig
 D127 Dr Diana Beljaars, Prifysgol Abertawe
 D128 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 D129 Dienw
 D130 Cyngor Gwynedd
 D131 Dienw
 D132 Dienw
 D133 Dienw
 D134 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
 D135 Ffilm Cymru Wales
 D136 Indu Deglurkar
 D137 Dienw
 D138 Dienw
 D139 Dienw
 D140 Dienw
 D141 Fforwm Gofal Cymru
 D142 Cyngor Rhondda Cynon Taf – Aelodau Spotlight

D143 Dienw

D144 Dienw

D145 Dienw

D146 Patients Not Passports Cymru **here**
twice (D071)

D147 Dienw

D148 Dienw

D149 Ryan Ellis

Roedd 82 o ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw.

D150 Sue Pellew-James

D151 Voice of Wales

D152 Dienw

D153 Dr Leslie S Lewis

